

# Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,  
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA  
[www.ceredigion.gov.uk](http://www.ceredigion.gov.uk)

**SYLWCH:** Fe fydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu ar ôl i'r cyfarfod orffen, a hynny drwy gyfrwng safle rhyngwyd y Cyngor. Hefyd gallai'r lluniau a'r sain a recordir cael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi yn y Cyngor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfan neu ran o'r cyfarfod yn cael ei ffilmio ai peidio.

Yn gyffredinol ni fydd y rhannau lle mae'r cyhoedd yn eistedd yn cael eu ffilmio. Er hynny, trwy ddod i mewn i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r man lle mae seddi'r cyhoedd, mae'r cyhoedd yn cytuno y gallant gael eu ffilmio ac o bosibl i'r lluniau a'r sain a gaiff eu recordio cael eu defnyddio, fel y nodir uchod. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, cysylltwch â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd.

31 Mai 2023

Annwyl Syr/Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Cabinet yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion ac o bell trwy fideo-gynadledda Dydd Mawrth, 6 Mehefin 2023 am 10.00am i drafod y materion canlynol:

1. **Ymddiheuriadau**
2. **Materion Personol**
3. **Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**
4. **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny  
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 5 - 8)**
5. **Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd  
ER GWYBODAETH (Tudalennau 9 - 14)**
  - a. Gwrthwynebiad i'r cyfyngiadau 20mya arfaethedig
  - b. Gwrthwynebiad i'r cyfyngiadau 20mya arfaethedig
  - c. Gwrthwynebiad i'r cyfyngiadau 20mya arfaethedig
  - d. Gwrthwynebiad i'r cyfyngiadau 20mya arfaethedig
  - e. Gwrthwynebiad i'r cyfyngiadau 20mya arfaethedig
  - f. Gwrthwynebiad i'r cyfyngiadau 20mya arfaethedig
6. **Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**
7. **Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda**

8. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio ynghylch y Cynnig o ran y Cynllun Tai Cymunedol gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu  
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 15 - 92)**
9. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol  
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 93 - 188)**
10. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Mabwysiadu Ffordd Ddiddosbarth yn '100 Acre Wood', Cenarth: Mabwysiadu Ffordd sydd wedi'i Lledu  
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 189 - 192)**
11. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Terfynau Cyflymder 20 mya, 30 mya, 40 mya a 50 mya a Ffyrdd Digyfyngiad) (Cydgrynhoi) 2014 (Amrywiol Leoliadau yn Newid i'r Terfyn Cyflymder Cenedlaethol) (Gorchymyn Diwygio Rhif 23) 2023  
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 193 - 266)**
12. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Democraidd ynghylch Adroddiad Monitro Blyneddol Safonau'r Gymraeg 2022-23  
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 267 - 310)**
13. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Democraidd ynghylch Adroddiad Cyflawniad Strategaeth Hybu'r Gymraeg Ceredigion dros gyfnod 5 mlynedd, 2018-23  
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 311 - 390)**
14. **EITEM EITHRIEDIG**  
  
Nid yw'r adroddiad (Atodiad 1) ar yr eitem isod ar gael i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, yn unol ag Adran 100B(2) y Ddeddf ac ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, caiff y cyhoedd a'r wasg eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth honno.  
  
Wrth ddelio â'r eitem hyn, gofynnir i'r Aelodau ystyried a ydynt am gau'r cyhoedd a'r wasg allan o'r Cyfarfod.
15. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant ynghylch Ysgol Ardal Newydd Dyffryn Aeron – Contract Adeiladu  
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 391 - 398)**

16. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant ynghylch Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol  
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 399 - 400)**
17. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch Strategaeth Gorllewin Cymru ar Famolaeth a'r Blynnyddoedd Cynnar gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu  
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 401 - 430)**
18. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch Agoriad Swyddogol y Ganolfan Lles, Llanbedr Pont Steffan  
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 431 - 438)**
19. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Cyflwyno Cynllun Gweithredu yn dilyn Arolygiad Gwerthuso Perfformiad Arolygiaeth Gofal Cymru gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu  
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 439 - 470)**
20. **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS Chwarter 3 2022-23  
ER GWYBODAETH (Tudalennau 471 - 522)**
21. **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Dyletswydd Trais Difrifol - Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu, a Llysoedd 2022  
ER GWYBODAETH (Tudalennau 523 - 528)**
22. **Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brysgan y Cabinet**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**



**Miss Lowri Edwards**

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democraataidd**

**At: Arweinydd y Cyngor ac Aelodau'r Cabinet  
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y Cabinet** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar **Ddydd Mawrth, 2 Mai 2023**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm Dydd Iau, 4 Mai 2023. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unrhyw benderfyniad i mewn yw 5.00pm Dydd Gwener, 12 Mai 2023 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) Dydd Llun, 15 Mai 2023.

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Bryan Davies (Cadeirydd), y Cyngorwyr Catrin M S. Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Keith Henson, Wyn Thomas, Matthew Vaux ac Alun Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cyngorwyr Euros Davies, Endaf Edwards, Rhodri Evans, Gareth Lloyd a Caryl Roberts.

(10.00am- 11.35am)

**195 Ymddiheuriadau**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**196 Materion Personol**

- i. Estynnwyd llongyfarchiadau i bawb fu ynghlwm wrth y gwaith o drefnu Sadwrn Barlys yn Aberteifi ddydd Sadwrn.
- ii. Dymunwyd yn dda i Meinir Ebbsworth, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant wrth iddi adael ei rôl gyda'r awdurdod. Diolchwyd iddi am ei gwaith rhagorol a dymunwyd yn dda iddi yn y dyfodol. Bu i'r Prif Weithredwr ategu geiriau'r Arweinydd.
- iii. Estynnwyd llongyfarchiadau i Hari Thomas a Dylan Pritchard-Evans ar dderbyn gwobr am eu dewrder ym mis Ionawr 2022 yn ystod Gwobrau Plant Cymru 2023 a gynhaliwyd yn ddiweddar.
- iv. Estynnwyd llongyfarchiadau hefyd i Felicity Roberts, Tiwtor a Chydlynnydd Cymraeg i Oedolion ym Mhrifysgol Aberystwyth am ei llwyddiant yng nghategori tiwtoriaid Gwobrau Ysbrydoli! 2023.

**197 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau personol/ buddiannau sy'n rhagfarnu.

**198 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**

Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 4 Ebrill 2023 yn gywir.

Materion yn codi: Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

## Tudalen 6

**199 Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd: Gwrthwynebiad i'r bwriad i osod terfyn cyflymder 20mya yn Stags Head Rhif 69.1 - cyffordd B4578 & B4343**

Nodwyd bod y ddeiseb uchod wedi dod i law ac y byddai'n cael ei thrin yn unol â'r canllawiau yn y Protocol Deisebau.

**200 Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

Dim.

**201 Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda**

Dim.

**202 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant ynghylch Cynllun Gweithredu y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32 (CSGA) gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

PENDERFYNIAD:

Cytuno:

- i. i fabwysiadu Cynllun Gweithredu'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer 2022-2032, a'i weithredu o ddechrau tymor yr Haf 2023, a'i adolygu'n flynyddol;
- ii. i'r Cynllun Gweithredu yn cael ei fonitro drwy gyfrwng cyfarfodydd Fforwm Iaith y CSGA a Phwyllgor Dyfodol Dwyieithog;
- iii. i'r adroddiad blynyddol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Gweithredu Cynllun Strategol Addysg y Gymraeg yn cael ei gyflwyno i'r Fforwm Iaith, Pwyllgor Dyfodol Dwyieithog, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ac i'r Cabinet;
- iv. yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, bod yr Awdurdod Lleol yn cychwyn ar y broses ymgynghori statudol o newid cyfrwng iaith yn y Cyfnod Sylfaen yn ysgolion Comins Coch, Llwyn yr Eos, Padarn Sant, Plascrug a Chei Newydd a
- v. bod yr ymgynghoriad parthed newid oed derbyn mewn tair ysgol sef Comins Coch, Padarn Sant a Chei Newydd yn cychwyn ar 15fed Medi 2023.
- vi. Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu.

*Y rheswm dros y penderfyniad:*

I gydymffurfio gyda Adran 84 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a rheoliadau Cynlluniau Strategol Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru 2019.

**203 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant ynghylch Egwyddorion ar gyfer Sicrhau Isadeiledd Addysg Cynaliadwy gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

PENDERFYNIAD:

- i. Cymeradwyo'r ddogfen 'Egwyddorion ar gyfer Sicrhau Isadeiledd Addysg Cynaliadwy' (Atodiad A).
- ii. Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu gan gytuno ar rôl ac aelodaeth y ffrwd waith a oedd eisoes wedi'i sefydlu sef

'Sicrhau seilwaith effeithiol ac effeithlon er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau'.

*Y rheswm dros y penderfyniad:*

Bydd unrhyw gynrig i ad-drefnu yn y dyfodol yn seiliedig ar un neu fwy o'r egwyddorion a nodwyd yn adran 1.2 y ddogfen Egwyddorion ar gyfer Sicrhau Isadeiledd Addysg Cynaliadwy ac yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru.

**204 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant ynghylch Polisi Cydberthnasau a Rhywioldeb (ACaRh) gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

**PENDERFYNIAD:**

- i) Cytuno i fabwysiadu cynnwys Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb Ceredigion.
- ii) Nodi y bydd unrhyw sylwadau a gynigir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cynnwys fel newidiadau i'r Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.
- iii) Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu.

*Y rheswm dros y penderfyniad:*

Er mwyn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol Cwricwlwm i Gymru a darparu trosolwg clir o gyfrifoldebau'r ysgolion. Bydd y polisi'n sicrhau bod y dull o gyflwyno addysg cydberthynas a rhywioldeb ar draws Ceredigion yn gyson ac o'r safon uchaf.

**205 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal ynghylch Y Strategaeth Dai - amlinellu gweledigaeth a chynlluniau Ceredigion ar gyfer tai yn y sir dros y 5 mlynedd nesaf gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

**PENDERFYNIAD:**

- i. Cymeradwyo fersiwn DDRAFFT Strategaeth Dai Leol 2023-2028 fel y gellir dechrau'r ymgynghoriad ffurfiol ar y Strategaeth.
- ii. Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.
- iii. Cytuno bod y Cabinet yn ysgrifennu at Ms Elin Jones, Aelod Etholaeth yn Senedd Cymru, a'r pedwar Aelod Rhanbarthol yn Senedd Cymru, i fynegi pryder nad yw'n bosib darparu digon o dai i ddiwallu'r anghenion yng Ngheredigion gan fod y Rheoliadau Cynefinoedd yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried effaith datblygiadau arfaethedig ar ffosffadau ac ansawdd y dŵr o fewn dalgylchoedd afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.

*Y rheswm dros y penderfyniad:*

Er mwyn caniatáu i'r Cyngor gyflawni'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r swyddogaeth dai strategol.

## Tudalen 8

**206 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Gorllewin Cymru gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

PENDERFYNIAD:

- i. Cymeradwyo Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Rhanbarthol Gorllewin Cymru.
- ii. Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.

*Y rheswm dros y penderfyniad:*

Er mwyn sicrhau bod rhwymedigaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â darpariaethau eiriolaeth oedolion.

**207 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Adroddiadau Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2020/2021 a 2021/2022 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

Nodwyd yr adroddiad a'r adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.

**208 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 3 2022/23 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

Nodwyd yr adroddiad a'r adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.

**209 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brysgan y Cabinet**

Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar  
6 Mehefin 2023**

Cadeirydd: \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_



**CYNGOR SIR CEREDIGION****Adroddiad i'r: Cabinet****Dyddiad y Cyfarfod: 6 Mehefin 2023****Teitl: Deisebau a ddaeth i law****Pwrpas yr adroddiad: Hysbysu'r Cabinet am unrhyw ddeisebau a ddaeth i law****Er gwybodaeth****Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet: Amherthnasol**

Mae'r Cyngor wedi derbyn y deisebau canlynol:

<b>Teitl y ddeiseb</b>	<b>Nifer y llofnodwyr</b>	<b>Aelod Cabinet</b>	<b>Aelod Lleol (os ydyw'n berthnasol)</b>
'Gwrthwynebiad i'r cyfyngiadau 20mya arfaethedig'	215	Cyng Keith Henson	Yn berthnasol i bob Cyngorydd
'Gwrthwynebiad i'r cyfyngiadau 20mya arfaethedig'	36	Cyng Keith Henson	Yn berthnasol i bob Cyngorydd
'Gwrthwynebiad i'r cyfyngiadau 20mya arfaethedig'	8	Cyng Keith Henson	Yn berthnasol i bob Cyngorydd
'Gwrthwynebiad i'r cyfyngiadau 20mya arfaethedig'	6	Cyng Keith Henson	Yn berthnasol i bob Cyngorydd
'Gwrthwynebiad i'r cyfyngiadau 20mya arfaethedig'	1	Cyng Keith Henson	Yn berthnasol i bob Cyngorydd
'Gwrthwynebiad i'r cyfyngiadau 20mya arfaethedig'	1	Cyng Keith Henson	Yn berthnasol i bob Cyngorydd

Bydd y gwasanaeth perthnasol yn awr yn ystyried cynnwys y deisebau.

**Oes Aseiad Effaith** Amherthnasol –  
**Integredig wedi ei gwblhau?** pwrpas yr adroddiad  
**Os na, esboniwch pam** hwn yw adrodd  
 ynghylch unrhyw  
 ddeisebau sydd wedi  
 dod i law

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

**Crynodeb:**  
**Hirdymor:** Amherthnasol  
**Cydweithio:** Amherthnasol  
**Cynnwys:** Amherthnasol  
**Atal:** Amherthnasol  
**Integreiddio:** Amherthnasol

## Tudalen 10

<b>Argymhelliad:</b>	<b>Dylai'r Cabinet nodi'r deisebau canlynol a ddaeth i law - 'Gwrthwynebiad i'r cyfyngiadau 20mya arfaethedig'</b>
<b>Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:</b>	<b>Er mwyn hysbysu'r Cabinet am y deisebau a ddaeth i law a gofyn i'r gwasanaeth perthnasol eu hystyried ymhellach.</b>
<b>Trosolwg a Chraffu:</b>	Amherthnasol
<b>Fframwaith Polisi:</b>	Y Cyfansoddiad a'r Protocol Deisebau
<b>Blaenoriaethau Corfforaethol:</b>	Amherthnasol
<b>Goblygiadau Ariannol a Chaffael:</b>	Amherthnasol
<b>Pwerau Statudol:</b>	Amherthnasol
<b>Papurau Cefndir:</b>	Amherthnasol
<b>Atodiadau:</b>	Atodiad A – Geiriad y ddeiseb
<b>Swyddog Arweiniol Corfforaethol:</b>	Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democraidaidd
<b>Swyddog Adrodd:</b>	Lowri Edwards
<b>Dyddiad:</b>	9 Mai 2023

27/04/2023

Ceredigion Technical Services technical.services@ceredigion.gov.uk , clic@ceredigion.gov.uk or

Legal Services, c/o

Postroom, Ceredigion County Council, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr,  
Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE

Please find enclosed a petition in response to the consultation on the proposed 20MPH restrictions

There are in excess of 200 names ,all local, on these forms.

I collected these names over at three local functions and they represent a good cross section of Ceredigion residents. I only encountered one individual that was in favour of the introduction of this restriction as the vast majority were aghast of the restriction.

Statistically this equates to 99.5% of the residents of Ceredigion agreeing that they are against the introduction of this 20mph. restriction.

[Redacted signature area]

CEREDIGION COUNTY COUNCIL  
RECEIVED  
27 APR 2023  
CANOLFAN RHEIDOL

Yr ydym ni sydd wedi arwyddo isod yn gwrthwynebu i'r elfen 20mya sydd yn gynmwysiedig o fewn Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Terfynau Cyflymder o 20mya, 30mya, 40mya a 50mya a Ffyrdd Heb Gyfyngiad) (Cydgrynhoi) 2014 (Newid yn y Terfyn Cyflymder Cenedlaethol Mewn Amrywiol Lefydd) (Gorchymyn Diwygio Rhif 23) 2023 am y rhesymau canlynol:-

Nid oes prwf ddigonol y bydd unrhyw welliant mewn diogelwch ar y ffordd , ac fe ellir dadlau y bydd gostwng y cyflymder I 20mys. Yn achosi mwy o ddamweiniau.

Mewn ardal wledig fel Ceredigion ni fydd gostwng y cyflymder yn annog teithio llesol a chynaliadwy , yn enwedig pan mae y gwasnaethau bws yn crebachu.

Mae cymffurfiaeth â terfynau cyflymder ardaloedd preswyl yn bodoli yn barod .

Mae angen I ni ddangos fod gennym feddwl ein hunan a peidio a dilyn polisiau Cenedlaethol sydd yn mynd I amhari ar fwyd ein cymunedau drwy heleuthu pob siwrnau a codi costiau pob busnes leol.



## Tudalen 13

11

We the undersigned wish to formally object to the 20mph. Element of the Ceredigion County Council (20 mph, 30 mph, 40 mph and 50 mph Speed Limits and Derestricted Roads) (Consolidation) Order 2014 (Various Locations Reduction of National Speed Limit) (Amendment Order No.23) 2023, for the following reasons:-

We are not convinced that reducing the speed to 20mph. Will have any road safety benefits and will actually increase the amount of accidents.

In a rural area such as Ceredigion reducing the speed to 20mph will not encourage active and sustainable travel. especially when bus services are reducing

There is already consistency in the 30mph in most residential areas.

Ceredigion needs to stand against Welsh Government policies that are designed to have an adverse effect on our rural communities and increase the cost of rural businesses.

Enw /Name

Cyfeiriad /Address



Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Cabinet</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>6 Mehefin 2023</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Cynnig o ran y Cynllun Tai Cymunedol</b>
<b>Pwrpas yr adroddiad:</b>	<b>I'r Cabinet ystyried y cynnig ar gyfer y Cynllun Tai Cymunedol</b>
<b>Er:</b>	<b>Penderfyniad</b>
<b>Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:</b>	<b>Y Cynghorydd Clive Davies, Aelod Cabinet ar gyfer yr Economi ac Adfywio</b>

**CEFNDIR:**

Mae Tai Fforddiadwy yng Ngheredigion yn flaenoriaeth allweddol yn y Strategaeth Gorfforaethol, y Cynllun Llesiant, y Strategaeth Dai a'r Cynllun Datblygu Lleol ac mae'r Cyngor yn defnyddio adnoddau sylweddol i greu a rheoli tai fforddiadwy.

Gwyddom o'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2019) diweddaraf bod angen i 32% o'r holl dai fod yn fforddiadwy. Dengys gwaith cefndir i'r Cynllun Datblygu Lleol a'r Strategaeth Dai (2023-2028) bod angen mwy o amrywiaeth o 'gynnyrch fforddiadwy' i fodloni gofynion y rheiny sy'n chwilio am wahanol fathau o dai fforddiadwy. Fodd bynnag, erys y galw mwyaf o fewn y sector unedau rhentu cymdeithasol, sy'n 67% o'r holl angen am dai fforddiadwy (Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2019).

Mae 'Tai Cymunedol' yn ceisio cefnogi pobl i fodloni eu anghenion o ran tai fforddiadwy yn eu cymunedau drwy greu llwybr i berchentyaeth.

Ymrwymodd y Cyngor i gefnogi cynllun o'r fath ym mis Mawrth 2022:

**Cofnod y Cyngor; Cyfarfod y Cyngor, dydd Iau 3 Mawrth 2022 - Eitem 13**  
<https://cyngor.ceredigion.gov.uk/mgAi.aspx?ID=2258&LLL=0>

*Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD:***

- a) *Bod penderfyniad y Cyngor 24/03/2016 (Cofnod 12), Adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr ar Breimiwm Treth y Cyngor ar gyfer cartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi, pwynt 4 yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn:*
  - "4.a) Lefel Premiwm Ail Gartrefi Treth y Cyngor a godir i'w phennu ar 25% (yn dod i rym o 1 Ebrill 2017); a,*
  - b) bod yr holl arian a godir o Breimiwm 25% Ail Gartrefi Treth y Cyngor (net o ad-daliadau Treth y Cyngor), yn cael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol."*
- b) *Bod yr holl arian a godir o Breimiwm 25% Ail Gartrefi Treth y Cyngor rhwng y cyfnod 1/4/17 i 31/3/22 (net o ad-daliadau Treth y Cyngor), yn cael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol.*

## Tudalen 16

- c) *Bod yr holl arian a godir o Bremiwm 25% Ail Gartrefi Treth y Cyngor o 1/4/22 (net o ad-daliadau Treth y Cyngor), yn cael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol.*
- d) *O 1/4/22, bod yr holl arian a godir o Bremiwm 25% Cartrefi Gwag Treth y Cyngor (net o ad-daliadau Treth y Cyngor), yn cael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol.*
- e) *Diddymu penderfyniad y Cyngor 16/3/17 cofnod 8.b) Premiymau Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi.*
- f) *Bod manylion elfen rhannu ecwiti o'r cynllun yn cael eu paratoi a'u cytuno o fewn 12 mis i benderfyniad y Cyngor a bod gwaith yn parhau ar yr opsiynau eraill.*
- g) *Gohirio'r posibilrwydd o sefydlu Cynllun Mantais Gymunedol am flwyddyn.*

Mae'r papurau atodedig yn amlinellu Cynllun Tai Cymunedol arfaethedig i Geredigion. Mae Atodiad A yn rhoi trosolwg o'r cynllun gan gynnwys y pwyntiau allweddol a gellir cael y manylion yn llawn yn Atodiad C.

Hefyd ynghlwm wrth Bapur D mae'r adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2023. Mewn perthynas â'r tri awgrym a wnaed, ailymgynullodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i'w hystyried a rhoi sylwadau pellach fel a ganlyn.

1. *Bod y Cyngor yn cynnal ei arolwg strwythurol ffurfiol ei hun ar eiddo'r gwrthrych, i asesu ei gyflwr, cyn cynnig ffurfiol.*

Yn dilyn ystyriaeth, mae Swyddogion wedi dod i'r casgliad bod hyn yn rhy gostus ac y byddai'n arwain at amserlenni hir i ymgymryd â'r prisiadau gan y byddai angen caffael y rhain gan sefydliad allanol, gan nad oes gallu yn fewnol. Felly, awgrymir os yw benthyciwr y morgais yn fodlon (lle mae'r risg ariannol fwyaf) yna gall y Cyngor fod yn fodlon hefyd. Byddai hyn wedyn yn lleihau'r angen i gynnal gwiriadau pellach i sicrhau bod gwaith yn cael ei gwblhau'n foddhaol a'r angen i gomisiynu syrfewyr i wneud y gwaith hwn hefyd. Lle nad oes angen morgais, yna byddai'n ofynnol i'r ymgeisydd gyflwyno adroddiad arolwg addas fel rhan o'i gais. Fodd bynnag, bydd y canllawiau ar gyfer y cynllun yn cynnwys y gallai fod o fudd i'r ymgeisydd iddynt gynnal arolwg strwythurol. Ac os yw'r eiddo wedi'i adeiladu o fewn y 10 mlynedd diwethaf yna dylent wirio i weld a yw'r eiddo wedi'i ddiogelu gan warant y Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai neu gynllun tebyg ac, os felly, y dylai ymgeiswyr gael golwg ar hynny.

2. *Bod unrhyw gynnig ffurfiol i fenthycia gan y Cyngor yn amodol ar unrhyw waith a nodir yn arolwg y Cyngor. Yna dylid gwneud y gwaith o fewn cyfnod penodol o amser – awgrymir efallai chwe mis*

O ystyried y sylwadau yn 1. uchod, ni fyddai hyn yn berthnasol.

3. *Mae'r adroddiad (atodiad A papurau'r agenda) yn datgan 'gall benthyciad y Cyngor fod am gyfnod heb fod yn hwy na chyfnod y morgais cysylltiedig' - mae angen ystyried ad-dalu'r benthyciad i'r rheini heb forgais fel bod ad-daliad yn cael ei wneud naill ai ar werthiant cyntaf neu wrth drosglwyddo'r eiddo.*



## Tudalen 17

Cafodd hyn ei ystyried a'i dderbyn yn briodol a bydd yn rhan o'r broses ymgeisio. Byddai unrhyw fenthyciad am gyfnod o 25 mlynedd ar y mwyaf ac yna mae angen ei dalu'n ôl. Byddai rhyddhau ecwiti yn opsiwn ar gyfer ad-dalu pe bai gan y perchennog arian annigonol a phe bai morgais neu fenthyciad yn amhosibl ei fforddio. Er mwyn sicrhau bod y cymhelliant i gynyddu cyfran y perchentyaeth yn gynnar yn glir, bydd yr ad-daliad ar y swm gwirioneddol a fenthycwyd, oni bai ar ddiwedd cyfnod y benthyciad / 25 mlynedd - yna po uchaf o swm y benthyciad yn erbyn % gwerth yr eiddo sydd i'w dalu.

Awgrymodd y Pwyllgor Craffu hefyd y dylid ailystyried amseriadau talu symiau gohiriedig ar gyfer tai'r farchnad a bod aelodau'n ffurfio rhan o'r grŵp gorchwyl a gorffen. Mae'r rhain y tu allan i gwmpas y gwaith presennol ond cânt eu hystyried mewn ffrydiau gwaith eraill.

### **Oes Aseiad Effaith Integredig wedi ei Oes gwblhau? Os na, esboniwch pam**

#### ***Crynodeb:***

**Hirdymor:** Bwriad y cynllun yw sicrhau cefnogaeth hirdymor trigolion Ceredigion i sicrhau cartref. Felly, cefnogi'r rheini sydd angen tai i aros yn eu cymunedau.

**Cydweithio:** Mae'r cynllun yn ddarn o waith cydweithredol ar draws sawl maes gwasanaeth sy'n adlewyrchu ac yn adeiladu ar y sylfaen dystiolaeth sydd gennym ynglŷn ag anawsterau fforddiadwyedd yn y sir, y mae llawer ohonynt wedi bod yn destun ymgysylltu â'r cyhoedd megis y Strategaeth Dai, y CDLI, y Strategaeth Gorfforaethol a'r Cynllun Llesiant.

**Cynnwys:** Mae'r gymuned wedi bod yn ymwneud â chyfathrebu eu hanghenion trwy ymgynghoriadau eraill, a nod y cynllun hwn yw mynd i'r afael â nhw trwy gydweithio mewnol.

**Atal:** Cynlluniwyd y cynllun i atal yr aelwydydd cymwys hynny rhag cael eu prisio allan o'r farchnad, atal dirywiad gwledig a diboblogi pellach.

**Integreiddio:** Mae'r cynllun wedi'i integreiddio i waith ochr yn ochr â'r CDLI, y strategaeth dai, y Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Llesiant.

#### **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

**Argymhelliad:** Cymeradwyo Cynnig y Cynllun Tai Cymunedol.

**Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:** Cefnogi llwybr newydd i berchentyaeth fforddiadwy ar gyfer trigolion Ceredigion sy'n gymwys.

**Trosolwg a Chraffu:** Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol

## Tudalen 18

<b>Fframwaith Polisi:</b>	Y Cynllun Datblygu Lleol, Y Cynllun Llesiant, Y Strategaeth Gorfforaethol, Y Strategaeth Dai.
<b>Amcanion Llesiant Corfforaethol:</b>	Mae'r Cynllun Tai Cymunedol yn cyd-fynd â Nod 1 Cydnerthedd Cymunedol Cynllun Llesiant 2018-2023 'Galluogi Cymunedau i ddod yn fwy ffyniannus, cynaliadwy, a chysylltiedig drwy gefnogi trawsnewid rhagolygon economaidd. Gwella seilwaith ffisegol a digidol i gefnogi datblygiad economaidd, gan gynnwys cartrefi addas a fforddiadwy.' Nid yw'n gwrthdaro â dim un o'r nodau llesiant ac mae'n cefnogi pob un ohonynt yn anuniongyrchol.
<b>Goblygiadau Cyllid a Chaffael:</b>	Bydd goblygiadau ariannol gan fod y cyllid sydd ei angen i ariannu'r cynllun i'w gymryd o bot yr Ail Gartrefi yn unol â phenderfyniad y cyngor y cyfeirir ato yn y prif adroddiad. Y gobaith dros amser yw y gall y cynllun fod yn rhannol hunangyllidol wrth i fenthyciadau gael eu had-dalu. Er bod hwn yn uchelgais tymor hwy. Bydd y tîm cyllid yn ymwneud â rheoli'r cynllun.
<b>Goblygiadau cyfreithiol:</b>	Mae'r cynllun yn debyg i gynllun gwaddol sydd eisoes yn bodoli o'r 1990au y mae'r tîm cyfreithiol yn gyfarwydd ag ef. Maent wedi dylanwadu ar ddyluniad y cynllun a byddant yn ymwneud â rheoli'r broses fenthycyca.
<b>Goblygiadau staffio:</b>	Bydd rhai costau staff yn codi wrth reoli'r cynllun ac mae hyn wedi'i gynnwys yng nghostau'r cynllun y gwnaed brigdorïad ar eu cyfer o gyfanswm costau'r cynllun. Mae'r staff sy'n rheoli'r cynllun i gyd yn aelodau presennol o staff ac mae gwaith yn cael ei ail-broffilio i sicrhau gallu.
<b>Goblygiadau eiddo / asedau:</b>	Ni fydd y cyngor yn dirfeddianwyr yn y cyd-destun hwn ond bydd ganddo fuddiant yn yr eiddo y gellir ei wireddu trwy gydol y cyfnod o 25 mlynedd hyd at ddiwedd y Morgais. Bydd buddiant y cyngor yn crisialu mewn taliadau a wneir gan berchennog y tŷ drwy gydol y cyfnod o 25 mlynedd yn seiliedig ar y buddsoddiad cychwynnol a wnaed, neu ganran gwerth cyfrannau'r eiddo ar ddiwedd y cyfnod o 25 mlynedd.
<b>Risg(iau):</b>	Mae prif risgiau'r cynllun yn deillio o'r ffaith y gallai rhai perchnogion tai wynebu adfeddu ac yna byddai buddiant y cyngor yn eilradd i'r prif forgeisai. Fodd bynnag, yn hanes y Cyngor o gynnig cynhyrchion tebyg nid yw hyn wedi digwydd hyd yma.
<b>Pwerau Statudol:</b>	Mae'r tîm cyllid a chyfreithiol yn fodlon bod hyn yn dod o fewn pwerau statudol yr awdurdod i'w harfer.
<b>Papurau Cefndir:</b>	Dim

## Tudalen 19

<b>Atodiadau:</b>	Atodiad A - Trosolwg o'r Cynnig o ran y Cynllun Tai Cymunedol Atodiad B - Cyrhaeddiad Posibl y Cynllun Atodiad C - Adroddiad llawn ar y Cynnig o ran y Cynllun Tai Cymunedol Atodiad D – Adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol
<b>Swyddog Arweiniol Corfforaethol:</b>	James Starbuck, Cyfarwyddwr Corfforaethol
<b>Swyddog Adrodd:</b>	Sarah Groves-Phillips a Llyr Hughes
<b>Dyddiad:</b>	13 Mawrth 2023

## Atodiad A

## TROSOLWGW O GYNNIG CYNLLUN TAI CYMUNEDOL

Adroddiad gan:	James Starbuck, Cyfarwyddwr Corfforaethol
Swyddogion yr Adroddiad:	Sarah Groves-Phillips, Swyddog Polisi Cynllunio Llyr Hughes, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Tai
Dyddiad:	14 Chwefror 2023
Testun yr Adroddiad:	Ail-lansio Cynllun Tai Cymunedol
Pwrpas yr Adroddiad:	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnig cynllun newydd sy'n cefnogi ein hegwyddorion Tai Fforddiadwy ac sy'n addas ar gyfer yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.</li> <li>I geisio cyfeiriad ynghylch cynnydd drwy'r prosesau democrataidd</li> </ul>

**Cefndir**

Ar gyfartaledd, mae 45 o gartrefi fforddiadwy newydd yn cael eu darparu bob blwyddyn drwy gynnydd cynllunio a'r grant tai cymdeithasol (GTC). Ers cychwyn y cyfnod CDLI (2008) mae 675 o gartrefi fforddiadwy newydd wedi'u darparu ar draws y Sir.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn ddigon, ac yn ôl unrhyw fesur, mae mwy o angen nag y gallwn gyflenwi ar hyn o bryd. Mae'r cynllun 'Tai Cymunedol' yn ceisio cefnogi pobl â chartrefi fforddiadwy yn eu cymunedau lleol drwy greu llwybr i berchnogaeth tŷ. Y ffordd fwyaf cyffredin o wneud hyn yw trwy gynnyrch ecwiti a rennir.

- Prynwyr posib yn cael morgais am gyfran o tua 50-70% o'r cartref
- Y Cyngor yn dal cyfran,
- Y Cyngor yn cynnig cyfle i'r perchnogion 'gamu grisiau' i gyfran perchnogaeth uwch o'r eiddo dros amser wrth i'w hamgylchiadau newid.

Aethpwyd a'r cynnig drwy'r Cyngor gan y weinyddiaeth ddiwethaf. Ers hynny mae Grwp Tasg a gorchwyl wedi nodi bod ailadrodd y cynllun yn bosib ond, er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau, mae angen rhai addasiadau i'r paramedrau.

Mae'r papur hwn yn nodi'r meini prawf cymhwysedd posibl, ffynonellau cyllid a rheolaeth gorbenion cynnyrch o'r fath, yn ogystal ag ystod o opsiynau amgen y gellid eu defnyddio i ariannu'r cynllun ymhellach unwaith y bydd y pot cychwynnol wedi'i ddefnyddio.

**Galw am y Cynllun**

Ers i'r Cyngor wneud ymrwymiad i greu cynllun, mae diddordeb yn y wasg yn awgrymu bod galw mawr am gynllun sydd â chefnogaeth gan y Cyngor ar gyfer tai

## Atodiad A

fforddiadwy. Gyda'r farchnad dai yn fwy cyfyngedig, mae'r galw lleol am gymorth tai yn dal i fod yn uchel (tua 1,748 o geisiadau gweithredol ar y Gofrestr Tai).

Mae stoc o dros 4,000 o gartrefi fforddiadwy ledled Ceredigion o wahanol ddaliadau eisoes yn bodoli (dros 12% o'r cyfanswm o stoc dai ledled y sir). Fodd bynnag, nid yw hyn yn ddigon i ateb y galw gan fod yr eiddo presennol yn gyffredinol wedi'u cyfyngu i'r bobl hynny sydd â'r angen mwyaf (rhent cymdeithasol). Mae grŵp o bobl o hyd y gellid eu hystyried i fod ag 'angen canolradd' sy'n dymuno prynu neu rentu eiddo yn eu cymunedau lleol, sy'n cael eu 'prasio allan o'r farchnad' oherwydd y galw cynyddol am eiddo gwledig ac argaeledd unedau fforddiadwy mewn aneddiadau gwledig.

Pan ddatblygwyd y cynllun yn wreiddiol, y dull gweithredu oedd cynnig cynnyrch ecwiti a rennir fel y cynllun '*HomeBuy*' blaenorol, gan ddarparu deiliaid gyda cyfran gwerth 20-40% yr eiddo fel tâl cyfreithiol ar yr eiddo i'w ad-dalu i'r Cyngor ar ôl ei werthu. Cydnabyddwyd y byddai hyn o bosib ond yn gallu helpu nifer fach o bobl gyda'r cyllid sydd ar gael i'r Cyngor i weithredu'r cynllun.

Ers hynny mae nifer o ddiwyddiadau cenedlaethol a lleol wedi effeithio ar y farchnad dai:

- *Argyfwng costau byw*: effeithio ar filiau ynni a chyfraddau morgais.
- *anwadalwch* y farchnad forgeisi: yn mynd yn fwy cyfyngol gyda benthyca'n cael ei gynnis i lawer llai o bobl; ymateb i'r wasgfa ar incwm aelwydydd
- *Ffosffadau*: cyfyngu ar ddatblygiad ar draws >45% Ceredigion (ac y disgwylir iddo ledu), gan ddwysáu'r sefyllfa o ran prisiau tai yn cynyddu'n lleol.

Mae'r materion hyn yn cyfyngu ar gapasiti benthyca pobl leol ac yn golygu bod angen mwy o atebion creadigol ar y sir nad yw'n creu risg o ecwiti negatif nac ychwaith yn gosod unigolion mewn sefyllfa lle maent yn prynu cartref na allant fforddio ei redeg; yn enwedig o ystyried bod y rhan fwyaf o drigolion Ceredigion yn dibynnu ar ddatrysiadau gwresogi oddi ar y grid. O ystyried newid i'r darlun, mae angen cymhwysu cap tynn er ar faint o ecwiti mae'r Cyngor yn ymrwymo i'w rannu i'w gymhwyso er mwyn:

- Sicrhau'r budd mwyaf posib o'r cynllun
- Sicrhau bod pobl yn derbyn cefnogaeth i brynu cartrefi fyddan nhw ddim wedyn yn cael traferth cynnal a chynhesu
- sicrhau nad ydynt mor ddibynnol ar fuddsoddiad y Cyngor fel nad ydynt yn gallu ar ryw adeg yn y dyfodol i gamu grisiau allan o gynnyrch dros dro

Ar ben hynny, yn genedlaethol mae'r pryderon ynghylch eiddo gwag yn parhau, ac mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod yng Nghymru baratoi cynllun gweithredu eiddo gwag ers hynny a chyflwyno ystod o ddiulliau i ddod â nhw'n ôl mewn defnydd ac mae angen i hyn ddylanwadu ar ddyluniad unrhyw gynllun newydd.

## Atodiad A

Mae ystyriaethau pellach hefyd wedi dod i'r amlwg yr angen i gefnogi pobl i gamu ymlaen o dai fforddiadwy, gan ryddhau arian i ailgylchu'r budd i ddefnyddwyr y cynllun yn y dyfodol. Ni wnaeth y cynllun blaenorol fynd i'r afael yn benodol â'r mater hwn gan gloi pobl i mewn i'r cynllun i bob pwrpas nes ail-werthu. Roedd hyn yn golygu bod y galw dipyn mwy na'r cyflenwad yn eithaf cyflym. Roedd effaith anfwriadol hefyd, lle gwelwyd potensial i unigolion gael mynediad i'r cynllun er bod opsiynau eraill ar gael gan weld hyn fel mecanwaith i gael mynediad i eiddo heb ymrwymo eu cyfalaf eu hunain.

### Y Cynllun Newydd

Mae'r diwygiadau arfaethedig yn cyd-fynd â newidiadau i'r polisi cenedlaethol, sef Dyfodol Cymru y Cynllun Cenedlaethol 2040 sy'n gosod gofyniad tai llymach ar y rhanbarth. Mae cyfyngiadau sy'n ymwneud â materion ffosffadau, a'r cynllun gweithredu eiddo gwag yn golygu ail-bwrpasu ein stoc dai bresennol ar gyfer defnydd modern yn flaenoriaeth allweddol i'r strategaeth dai 'mewn datblygiad'.

Felly, wrth ystyried sut gall y Cynllun Tai Cymunedol **sicrhau'r cymorth mwyaf** posibl sydd ar gael i bobl, mae'r argymhellion canlynol yn cael eu gwneud;

1. Bydd angen **isafswm blaendal** gan ymgeiswyr o 5% o'r pris prynu llawn i gael mynediad i'r cynllun, a thrwy hynny sicrhau bod yr holl rai sy'n rhan o'r cynllun wedi ymrwymo cyfalaf. Bydd hyn hefyd yn helpu i ddiogelu gwerth cyfran ecwiti y Cyngor pe bai prisiau tai yn gostwng.
2. Ni ddylai'r uchafswm o ganran ecwiti a rennir y Cyngor gyfrannu at **dai y gellir byw ynddynt** fod yn ddim mwy na 20%, er mwyn sicrhau bod modd gwneud y mwyaf o'r pot sydd ar gael. Ac ar bwynt yn y dyfodol mewn amser gall deiliaid ail-forgeisio i gamu'r grisiau allan o'r cynllun.
3. Y canran uchaf o ran rhannu ecwiti y dylai'r Cyngor gyfrannu at **eiddo gwag cofrestredig** yw 40%, sy'n adlewyrchu'r costau uwch o ran dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd pwrpasol. Mae'r cap hwn wedi'i ehangu y tu hwnt i'r hyn ar gyfer 'tai sy'n barod i symud mewn' gan gydnabod y bydd y costau sy'n gysylltiedig â dod â chartrefi'n ôl i'w defnyddio yn uwch a bydd angen cyfalaf ar berchnogion tai ar gyfer gwaith adnewyddu yn ogystal â phrynu. Mae llai o bryderon hefyd ynghylch ecwiti negyddol gan y dylai'r gwaith sy'n cael ei wneud ar y cartref sicrhau elw ar fuddsoddiad i berchennog y tŷ.
4. Dylai **uchafswm pris tŷ** adlewyrchu pris cyfartalog tai Ceredigion gyda byffer bychan i sicrhau cynaliadwyedd gan dybio bod prisiau'n parhau i godi, a fydd ar gyfer ail-lansio'r cynllun, yn cael ei osod ar £300,000 sydd yn fras yn bris cyfartalog tŷ yng Ngheredigion (£278,920) gyda byffer 5-10%. Bydd y cap ar brisiau'r tŷ yn cael ei adolygu yn flynyddol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol ac yn parhau i adlewyrchu'r fethodoleg a amlinellir uchod.
5. Dylid rhoi blaenoriaeth i gynigion lle mae dod â **chartref gwag** yn ôl i ddefnydd sylweddol yn egwyddor allweddol.

## Atodiad A

6. Mi fydd y cynllun yn cael ei reoli ar sail **y cyntaf i'r felin**.
  7. Bydd opsiynau camu **grisiau** ffurfiol yn cael eu cynnwys yn y cytundeb ecwiti a rennir, gan annog camu grisiau o fewn amserlen penodedig. Mae hyn yn crisialu buddsoddiad y Cyngor yn gynharach na'r cynllun blaenorol ac yn sicrhau nad yw pobl wedi'u cloi i gynnyrch dros dro am byth.
  8. Ni fyddai'r sawl sy'n cymryd rhan yn y cynllun hwn yn gwahardd deiliaid tai rhag cael mynediad at gefnogaeth arall megis grantiau eiddo gwag ac ati.
  9. **Bydd angen rhoi adnoddau parhaus i'r cynllun er mwyn sicrhau ei gynaliadwyedd yn y dyfodol**; felly, bydd y pot ariannu yn cael ei dafellu i sicrhau bod amser swyddogion i weinyddu'r cynllun yn cael ei ffactora i'r gost gyffredinol gyda lwfans ar gyfer cynnydd mewn costau yn y dyfodol.
  10. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen hefyd yn argymhell amodau sy'n ymwneud ag ad-dalu'r benthyciad, a allai eu hunain yrru'r galw i gamu'r grisiau:
    - gofyniad i ad-dalu'r swm arian a fenthyciwyd NEU werth canran cyfatebol yr eiddo, pa un bynnag sy'n uwch
- a
- y gall benthyciad y Cyngor fod am gyfnod dim hirach na chyfnod y morgais cysylltiedig

Mae'r cymhwysedd arfaethedig ar gyfer y cynllun yn adlewyrchu'r cynllun presennol. Yn gryno,

- Rhaid mai dyma unig gartref yr ymgeisydd,
- rhaid iddynt fod wedi byw 5 mlynedd yng Ngheredigion ar unrhyw adeg yn ystod eu hoes (neu eithriadau penodol Gweithwyr Allweddol / Gofalwr) a,
- rhaid iddynt beidio â gallu fforddio morgais am 10% yn fwy na'r prisiad AH y cytunwyd arno o'r eiddo.

### **Risgiau**

Ar y cyfan, ystyrir bod y risg i'r Cyngor sy'n deillio o'r cynllun hwn yn isel a, lle mae ardaloedd risg, mae sawl opsiwn lliniaru a fydd yn lleihau'r risg honno i lefel dderbyniol.

Mae'r prif risgiau yn deillio o gyfeiriad ansicr y farchnad eiddo yn y tymor byr, yn enwedig o ystyried y prisiau tai cymharol uchel sy'n cael eu gweld yn y sir. Mae'r risg yn crisialu os yw'r Cyngor yn darparu ecwiti i gefnogi pryniant ac yna mae'r prynwr yn penderfynu/angen gwerthu'r eiddo o fewn cyfnod byr lle gall y farchnad fod yn mynd trwy 'gywiriad'. Bydd hyn yn arwain at y Cyngor yn derbyn llai o ecwiti yn ôl nag y talodd allan. Gan y byddai'r cynllun yn gweithredu'n gyfreithiol fel 2ail dâl ar yr eiddo, pe byddai'r morgais yn methu yna'r cwmni morgais fyddai'n cael y flaenoriaeth gyntaf o ran ad-dalu fel y tâl 1af ar yr eiddo. Er nad yw hyn hyd yma (cyn belled ag yr ydym yn ymwybodol) erioed wedi digwydd i CSC, mae'n risg.

Dros y tymor hirach byddem yn disgwyl i'r farchnad gynyddu, fel sydd wedi'i brofi yn hanesyddol.

## Atodiad A

### Trosiant a Chyllid

Eitem arall i'w hystyried yw lefel y galw gan feddianwyr i gamu grisiau i berchnogaeth lawn. Bydd rhai perchnogion yn awyddus i fod yn berchen ar yr eiddo yn ei gyfanrwydd (a byddant yn mynd ati i ail-forgeisi o fewn yr amserlenni a osodwyd gan y cynllun), gan ad-dalu'r blaendal i'r awdurdod mewn da bryd. Ni fydd eraill, am amryw o resymau, yn gwneud hynny. Bydd y cytundeb cyfreithiol ar gyfer y cynllun y rhoi arweiniad ynglŷn â phryd mae angen hyn, a'r hyn a allai fod yn amgylchiadau eithriadol.

Bydd yna oblygiad adnodd i weinyddu'r rhaglen ac argymhellir darparu cyllideb i'r gwasanaethau perthnasol; wedi'i dafellu o'r arian a godwyd o'r Premiwm Ail Gartref.

Gan ganiatáu am yr amser a dreulir gan swyddogion fesul cais, y nifer disgwylidig o geisiadau (sy'n debygol o fod yn uwch yn y flwyddyn gyntaf) a rhai costau cychwynnol o greu cronfeydd data a phrosesau, nodir y gyllideb awgrymedig fesul gwasanaeth isod. Yn y blynyddoedd dilynol, efallai y bydd angen diwygio'r symiau i dalu am gynnydd i gyflogau.

**Tabl 4: Darpariaeth Cyllideb ar gyfer Gwasanaethau o Gronfa Tai Cymunedol**

<u>Gwasanaeth</u>	<u>Blwyddyn 1</u>	<u>Blwyddyn 2 ymlaen</u>
Economi ac Adfywio / Tai	£13,500	£6,500
Cyllid a Chaffael	£4,000	£2,500
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu	£1,000	£500
<b>CYFANSWM</b>	<b>£18,500</b>	<b>£9,500</b>

Bydd y cynllun yn cael ei ariannu gan yr arian a godir o'r Premiwm 25% Ail Gartrefi Treth y Cyngor. Ar 31 Mawrth 2022 roedd £1.12m ar gael yn y gronfa gydag amcangyfrif y bydd £400k ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022 /23. Mae hyn yn golygu y bydd amcangyfrif o tua £1.5m ar gael ar 31 Mawrth 2023. Wrth symud ymlaen amcangyfrifir y bydd Premiwm Ail Gartrefi Treth y Cyngor yn parhau i godi £400k y flwyddyn i ariannu'r cynllun hwn.

Yn ogystal â'r Premiwm Ail Gartrefi Treth Gyngor, bydd cyllid yn cael ei ryddhau wrth i fenthyciadau ecwiti gael eu had-dalu i'r Cyngor wrth i eiddo gael eu gwerthu neu gamu grisiau gan berchennog i berchnogaeth lawn.



# Tudalen 25

## Atodiad B – Cyrhaeddiad Potensial y Cynllun

Gyda'r amcangyfrif o gyllid sydd ar gael ar 1 Ebrill 2023 (£1.5m), mae potensial i gynorthwyo gyda phryniant o leiaf 25 eiddo y gellir byw ynddynt **neu** 13 eiddo gwag ar uchafswm pris prynu o £300mil, mwy os tybir prisiad is. Y canlyniad tebygol fydd cymysgedd ond, gyda mwy o gefnogaeth i eiddo y gellir byw ynddynt yn hytrach nag eiddo gwag.

Yn flynyddol wedi hynny rhagwelir y bydd Premiwm Ail Gartrefi Treth y Cyngor ar y premiwm presennol o 25% yn parhau i godi tua £400mil ar gyfer y cynllun hwn. Gan gymryd pris prynu uchafswm o £300mil, bydd hyn yn cefnogi isafswm o 7 pryniant cartref y gellir byw ynddo **neu** 3 pryniant eiddo gwag.

Dylid nodi, os yw'r tâl premiwm ail gartref yn cynyddu, yna gellid cynyddu'r pot sydd ar gael i adlewyrchu enillion uwch.

Wrth i brynwyr gamu'r grisiau i berchnogaeth lawn o'u heiddo (a phrynu cyfran ecwiti y Cyngor o'u heiddo yn effeithiol) bydd yr arian hyn yn cael ei ailgylchu i bot ariannu'r cynllun er mwyn caniatáu i aelwydydd pellach gael eu cefnogi. Mae'n anodd ar hyn o bryd amcangyfrif pryd fydd y camu hwn yn digwydd.

**Tabl 1: Darlunio Rhannu Ecwiti**

	<u>Eiddo y gellir byw ynddo</u>		<u>Gwag Eiddo</u>	
Pris prynu uchafswm tybiedig @ <b>£300,000</b>		<b>£300,000</b>		<b>£300,000</b>
<u>Wedi'i ariannu gan Gyfran Ecwiti:</u>				
Prynwr	5%	£15,000	5%	£15,000
Cyngor Sir Ceredigion	20%	£60,000	40%	£120,000
Morgais	75%	£225,000	55%	£165,000
		<b>£300,000</b>		<b>£300,000</b>
Pris prynu uchafswm tybiedig @ <b>£200,000</b>		<b>£200,000</b>		<b>£200,000</b>
<u>Wedi'i ariannu gan Gyfran Ecwiti:</u>				
Prynwr	5%	£10,000	5%	£10,000
Cyngor Sir Ceredigion	20%	£40,000	40%	£80,000
Morgais	75%	£150,000	55%	£110,000
		<b>£200,000</b>		<b>£200,000</b>

Bydd y newidiadau a amlygwyd yn flaenorol yn sicrhau bod blaenoriaethau corfforaethol yn cael eu blaenoriaethu, yn gwarchod rhag cam-drin y cynllun, ac yn annog crisialu'r cyfalaf ymroddedig ar gyfnodau cynharach na chynlluniau blaenorol. Rhagwelir y gellid cefnogi'r nifer canlynol o aelwydydd yn seiliedig ar gyfranddaliadau canran cymharol y cyfalaf a fuddsoddwyd:

## Tudalen 26

### Atodiad B – Cyrhaeddiad Potensial y Cynllun

Tabl 2: Aelwydydd yn cael cymorth

	<u>Y cyfan fel eiddo y gellir byw ynddo</u>	<u>Y cyfan fel eiddo gwag</u>
Amcangyfrif o gyllid ar gael 1 Ebrill 2023	£1,500,000	£1,500,000
Ecwiti sydd ei angen fesul eiddo (£300mil Pris prynu)	£60,000	£120,000
<b>Nifer y pryniannau ar gael</b>	<b>25</b>	<b>13</b>
Ecwiti sydd ei angen fesul eiddo (£200mil Pris prynu)	£40,000	£80,000
<b>Nifer y pryniannau ar gael</b>	<b>37</b>	<b>18</b>

# Opsiynau Tai Cymunedol

## Cynllun Tai Cymunedol



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

## Atodiad C

### Crynodeb Gweithredol

Mae Tai Fforddiadwy yng Ngheredigion yn flaenoriaeth allweddol yn y Strategaeth Gorfforaethol, y Cynllun Llesiant, y Strategaeth Dai a'r Cynllun Datblygu Lleol ac mae'r Cyngor yn defnyddio nifer fawr o adnoddau i greu a rheoli tai fforddiadwy.

- Ar gyfartaledd, darperir 45 o gartrefi fforddiadwy newydd bob blwyddyn drwy les cynllunio a Grant Tai Cymdeithasol
- Ers dechrau cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol (2008) cafodd 675 o dai fforddiadwy newydd eu darparu ar hyd a lled y sir.
- Mae tai fforddiadwy yn awr yn rhyw 12% o gyfanswm y stoc tai ledled y sir.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn ddigon ac nid oes amheuaeth bod mwy o angen nag y gallwn ei gyflenwi ar hyn o bryd.

Mae tri phrif fath o dŷ fforddiadwy yng Ngheredigion

- rhent cymdeithasol,
- gwerthu am bris gostyngol ac
- amrywiaeth o fathau a ddarperir drwy gynlluniau cenedlaethol dan arweiniad Llywodraeth Cymru.

Gwyddom o'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2019) diweddaraf bod angen i 32% o'r holl dai fod yn fforddiadwy. Dengys gwaith cefndir i'r Cynllun Datblygu Lleol a'r Strategaeth Dai (2023-2028) bod angen mwy o amrywiaeth o 'gynnyrch fforddiadwy' i fodloni gofynion y rheiny sy'n chwilio am wahanol fathau o gartrefi fforddiadwy. Fodd bynnag, erys y galw mwyaf o fewn y sector rhentu unedau cymdeithasol, sy'n 67% o'r holl angen am dai fforddiadwy (Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2019).

Yn ffodus, mae blaenoriaeth Llywodraeth Cymru hefyd ar dai fforddiadwy ac mae eleni, a'r blynyddoedd i ddod, yn gweld y lefelau uchaf o gyllid Grant Tai Cymdeithasol i Geredigion i adeiladu ar ei rhaglen dai helaeth. Mae hyn, ochr yn ochr â les cynllunio a darparu tai fforddiadwy yn aml wedi bod ar ben uchaf cyflenwi fesul pen y boblogaeth o holl awdurdodau lleol Cymru.

Mae 'Tai Cymunedol' yn ceisio cefnogi pobl i fodloni eu anghenion tai fforddiadwy yn eu cymunedau lleol drwy greu llwybr at berchentyaeth. Y ffordd rwyddaf i'w deall o wneud hyn yw drwy gynnyrch rhannu ecwiti.

- Mae prynwyr posibl yn cael morgais am gyfran o 50-70% o'r cartref sydd ei angen arnynt
- Mae'r Cyngor yn dal ar y rhan sy'n weddill,
- Mae'r Cyngor yn rhoi cyfle i'r perchnogion gynyddu i gyfran perchentyaeth uwch o'r eiddo dros amser wrth i'w hamgylchiadau newid.

Roedd hwn yn gynnig yr aethpwyd ag ef drwy'r Cabinet a'r Cyngor yn y weinyddiaeth ddiwethaf. Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen, a sefydlwyd i ystyried pob math o dai

### Atodiad C

fforddiadwy, wedi nodi bod modd cyflawni'r cynllun hwn ond bod angen mireinio rhywfaint ar y cynnig gwreiddiol er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau. Ochr yn ochr â hyn, mae cynigion ynghylch opsiynau eraill y dylid eu harchwilio i gynyddu i'r eithaf y nifer o bobl y gellir eu cynorthwyo.

Mae Cymorth Blaendal a Rhannu Ecwiti wedi'u hargymell fel y cyfryngau mwyaf priodol o gefnogi tai cymunedol gan fod cynlluniau Rhentu i Berchnogi (R20), yn nodweddiadol, wedi dioddef o ystod o broblemau gan gynnwys

- gallu o ran morgais,
- ôl-ddyledion rhent,
- diffyg cynyddu i gyfran rhannu perchentyaeth uwch,
- anhawster rheoli'r cynllun, a
- materion hyfywedd.

Tynnwyd nifer o gynnyrch R20 eraill yn ôl yn genedlaethol oherwydd problemau o'r fath.

Mae defnyddio meini prawf cymhwysedd cyfredol a phrofiad y timau polisi a thai wrth reoli tai fforddiadwy ar hyd a lled y sir ochr yn ochr â gwybodaeth y tîm tai o'r cynllun Cymorth Prynu a'r awydd i'w ymestyn yn golygu bod Ceredigion mewn lle da i gyflwyno a rheoli cynnyrch o'r fath.

Mae'r papur hwn yn amlinellu'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â thai fforddiadwy ac mae'n cyflwyno'r meini prawf cymhwysedd, ffynonellau cyllid posibl a rheolaeth ar gynnyrch o'r fath yn fwy manwl. Mae hefyd yn rhoi ystod o opsiynau amgen y gellid mynd ar eu trywydd i ariannu'r cynllun ymhellach pan fydd y gronfa gychwynnol wedi'i defnyddio.

## Atodiad C

### Tabl Cynnwys

#### Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	2
Tabl Cynnwys .....	4
1. Tai Cymunedol – yr uchelgais.....	5
2. Y Gwersi a Ddysgwyd .....	5
3. Pa Dai Fforddiadwy sydd gennym?.....	6
3.1 Cartrefi Fforddiadwy drwy Grant Tai Cymdeithasol .....	6
Ffigur 1 Cartrefi Fforddiadwy Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig Cyngor Ceredigion (data o 2016) .....	7
3.2 Cartrefi Fforddiadwy a ddarperir gan y Drefn Gynllunio .....	8
Ffigur 2 Cartrefi Fforddiadwy Lles Cynllunio yng Nghyngor Ceredigion (data o 2021).....	9
3.3 Cynlluniau Cenedlaethol .....	10
4. Faint o dai fforddiadwy sydd eu hangen arnom? .....	11
5. Beth yw'r Meini Prawf a ddefnyddir i bennu cymhwysedd Tai Fforddiadwy Cyngor Ceredigion? .....	12
5.1. Cymhwysedd Ariannol: .....	12
5.2. Cymhwysedd Preswyllo.....	13
5.3. Meddiannaeth fel Unig Breswylfa: .....	13
6. Tai Cymunedol – cynllun .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
6.1 Y dull a gymeradwywyd yn flaenorol – Rhannu Ecwiti .....	14
6.2 Beth sydd wedi newid? .....	14
6.3 Y diwygiadau a awgrymir .....	16
6.3 Cymhwysedd.....	19
7. Risgiau'r cynllun .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
7.1 Pwy fydd yn rheoli'r cynllun? .....	20
7.2 Sut fydd y cynllun yn cael ei ariannu? .....	21
7.3 Gwaith pellach i'w drefnu .....	21
Atodiadau .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>

## Atodiad C

### 1. Tai Cymunedol – yr uchelgais...

I gefnogi pobl leol i gael mynediad at dai fforddiadwy mewn cymunedau gwledig sy'n diwallu eu anghenion.

### 2. Y Gwersi a Ddysgwyd

Ers i'r Cyngor ymrwmo i gefnogi cynllun o'r fath, a chyda'r diddordeb wedi hynny yn y wasg, mae'n amlwg bod galw cadarn am gymorth gan y Cyngor ar gyfer tai fforddiadwy. Fodd bynnag, gallai'r cynllun fel y'i rhagwelwyd yn y lle cyntaf, gefnogi nifer fach o ymgeiswyr yn unig oherwydd y gronfa gyllid gyfyngedig oedd ar gael. Mae mwy o gyfyngiadau wedi bod ar y farchnad dai hefyd gyda chynnydd mewn cyfraddau llog, prisiau tai yn codi, benthycu yn crebachu a'r galw lleol yn parhau yn yn uchel.

**Cofnod y Cyngor; Cyfarfod y Cyngor, dydd Iau 3 Mawrth 2022 - Eitem 13**  
<https://cyngor.ceredigion.gov.uk/mgAi.aspx?ID=2258&LLL=0>

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD:**

- a) *bod penderfyniad y Cyngor 24/03/2016 (Cofnod 12), Adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr ar Bremiymau Treth y Cyngor ar gyfer cartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi, pwynt 4 yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn:*
  - “4.a) Lefel Premiwm Ail Gartrefi Treth y Cyngor a godir i'w phennu ar 25% (yn dod i rym o 1 Ebrill 2017); a*
  - b) bod yr holl arian a godir o Bremiwm 25% Ail Gartrefi Treth y Cyngor (net o ad-daliadau Treth y Cyngor), yn cael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol.”*
- b) *Bod yr holl arian a godir o Bremiwm 25% Ail Gartrefi Treth y Cyngor rhwng y cyfnod 1/4/17 i 31/3/22 (net o ad-daliadau Treth y Cyngor), yn cael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol.*
- c) *Bod yr holl arian a godir o Bremiwm 25% Ail Gartrefi Treth y Cyngor o 1/4/22 (net o ad-daliadau Treth y Cyngor), yn cael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol.*
- d) *O 1/4/22, bod yr holl arian a godir o Bremiwm 25% Cartrefi Gwag Treth y Cyngor (net o ad-daliadau Treth y Cyngor), yn cael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol.*
- e) *Diddymu penderfyniad y Cyngor 16/3/17 cofnod 8.b) Premiymau Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi.*
- f) *Bod manylion elfen rhannu ecwiti o'r cynllun yn cael eu paratoi a'u cytuno o fewn 12 mis i benderfyniad y Cyngor a bod gwaith yn parhau ar yr opsiynau eraill.*
- g) *Gohirio'r posibilrwydd o sefydlu Cynllun Mantais Gymunedol am flwyddyn.*

Er mwyn asesu sut fyddai orau i symud yr uchelgais hwn yn ei flaen, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen o swyddogion technegol i ystyried a ellid cyflawni'r cynllun gwreiddiol o hyd, o feddwl am y peryglon dwysach o ran ecwiti negyddol neu a ellid cefnogi cynllun amgen. Mae'r papur hwn yn cynrychioli'r sefyllfa bresennol yn ogystal â'r opsiynau y gellid eu dwyn ymlaen.

## Atodiad C

### 3. Pa Dai Fforddiadwy sydd gennym?

Mae 3 phrif fath o dŷ fforddiadwy yng Ngheredigion, sef:

1. **Eiddo Rhent Cymdeithasol** – Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sydd berchen ar y rhain ac yn eu rheoli. Caiff y cartrefi hyn eu dyrannu o'r Gofrestr Dai; mae 3437 o dai rhent cymdeithasol yng Ngheredigion a rhyw 1746 o bobl ar y rhestr aros (Gorffennaf 2021). Dyrennir y tai ar sail blaenoriaeth i'r rheiny sydd â'r angen mwyaf am dai.
2. **Eiddo i'w Werthu am Bris Gostyngol** - caiff y cartrefi hyn eu hadnabod yn aml yn Gartrefi Fforddiadwy ac maent ar gael i'w prynu am werth gostyngol (sydd fel arfer yn 70% o'u gwerth ar y farchnad agored). Mae 278 o dai fforddiadwy ledled Ceredigion, a chaniatâd i 195 arall ar gyfer datblygu.
3. **Cynlluniau Cenedlaethol Tai Fforddiadwy** – mae ystod o gynlluniau gan Lywodraeth Cymru sy'n cefnogi pobl i brynu neu rentu cartref fforddiadwy ac mae datblygwyr fel arfer yn hysbysebu a rheoli'r cynlluniau hyn drwy lwybrau asiantaethau tai. Cynigiwyd rhai cartrefi newydd a gafodd eu datblygu mewn blynyddoedd diweddar yn Llanon, Penrhyncoch a Rhydyfelin yn rhan o'r cynllun 'cymorth i brynu'. Ychydig iawn o eiddo rhent fforddiadwy sydd ar gael yng Ngheredigion. Rydym yn amcangyfrif bod cynlluniau cenedlaethol i gyfrif am rhyw 50 o gartrefi i gyd yng Ngheredigion.

**Ar gyfartaledd, darperir 45 o gartrefi fforddiadwy newydd (i'w gwerthu am bris gostyngol neu rent cymdeithasol) bob blwyddyn.**

#### 3.1 Cartrefi Fforddiadwy drwy Grant Tai Cymdeithasol

Mae 3,437 o gartrefi rhent cymdeithasol ar hyd a lled Ceredigion ar hyn o bryd, wedi'u rheoli gan grŵp o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a ddynodir gan Lywodraeth Cymru i weithredu mewn parthau yng Ngheredigion. Mae hefyd nifer fach o eiddo Rhent Canolradd eto yn eiddo i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac a ddarparwyd naill ai drwy'r Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol neu fel arall wedi'u prynu'n uniongyrchol gan y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

Cyfyngir y ddau fath o Dŷ Fforddiadwy i'r rhai sydd wedi ymgeisio drwy'r system Cofrestr Dai ar-lein (ABRITAS). Mae nifer o Gofrestr Tai ar wahân ar gael sy'n cynnwys y Gofrestr Llety Anghenion Cyffredinol, y Gofrestr Tai Canolradd, y Gofrestr Pobl Hŷn, y Gofrestr Eiddo Hygyrch i Gadair Olwyn, y Cofrestr Gofal Ychwanegol a Gwarchod yn ychwanegol at nifer o Gofrestr Perchentyaeth Cartrefi Cost Isel fel Rhannu Perchentyaeth, Rhannu Ecwiti a hefyd yr S106 (Gwerthu am Bris Gostyngol). Mae'r rhain wedi'u cynnwys i gynorthwyo i fesur y galw (ond nid cymhwysedd o angenrheidrwydd) am ddeiliadaeth Perchentyaeth Cost Isel ychwanegol yn ogystal â rhoi data anghenion cyfredol i Adran Gynllunio'r Cyngor wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio a pholisi cynllunio.

Er bod nifer o eiddo rhent cymdeithasol mwy newydd yn cael eu codi mewn aneddiadau mwy, erys ystod o stoc yn waddol ar hyd a lled y sir. Mae Atodiad 2




**Atodiad C**

(gweler isod ar gyfer y map – ffigur 1) yn nodi lleoliadau unedau rhent cymdeithasol ledled Ceredigion. Mae'r math o unedau sydd ar gael yn amrywio o dai anghenion cyffredinol, unedau ymddeol, eiddo wedi'i addasu ac unedau canolradd; o ran mathau o anheddau, mae cymysgedd o dai, byngalos, fflatiau a fflatiau deulawr ar gael o 1-4 ystafell wely.

Ffigur 1 Cartrefi fforddiadwy Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghyngor Sir Ceredigion (data o 2016 ymlaen)

**RSL LOCATIONS ACROSS CEREDIGION**



Asesir pob cais Rhent Cymdeithasol gan Dîm y Gofrestr Tai ac, ar ôl proses ddilysu ffurfiol, caiff y ceisiadau eu dyrannu i wahanol Fandiau yn dibynnu ar ba feini prawf cymhwysedd y tybir eu bod yn eu bodloni a faint ohonynt. Mae'r Bandiau'n amrywio o Fand A (Blaenoriaeth Uchel) hyd at F (Ddim yn gymwys) ac ar hyn o bryd mae'n annhebygol iawn y bydd eiddo cymdeithasol ar rent yn cael ei ddyrannu i'r rhai ym mandiau D, E ac F. Mae hyn oherwydd eu bod naill ai'n anghymwys neu er eu bod yn gymwys yn cael eu hanghenion wedi'u diwallu (gan eu bod yn cael eu cartrefu'n ddigonol), felly nid ydynt yn gymwys ar gyfer y categorïau 'angen' mwyaf. Mae hyn hefyd oherwydd nad yw dyheadau ar gyfer perchentyaeth, neu dai o ansawdd uwch, cost is, yn ddealladwy, yn rhan o'r broses fandio.

Ar hyn o bryd mae tua 1,748 o geisiadau gweithredol ar y Cofrestrau Tai ac mae Tîm y Gofrestr Tai yn rheoli'r rhestrau tai ac yn cynorthwyo'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i benderfynu a dyrannu eiddo pan fyddant ar gael. Noder bod gan y Rheolwr Corfforaethol ar gyfer Tai'r hawl dan y cytundeb Trosglwyddo Stoc i wneud

## Atodiad C

dyraniadau uniongyrchol o dan y broses dyrannu Rheolaeth y mae'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig dan orfodaeth i'w pharchu.

Mae'r Gwasanaeth Tai hefyd yn gyfrifol am nifer o wasanaethau cysylltiedig megis penderfynu a allai Achub Morgeisi fod yn briodol mewn rhai amgylchiadau. Hefyd, wrth benderfynu ar gymhwysedd ac ystyried a all eithriad fod yn berthnasol o dan Adran 157 Deddf Tai 1985 mewn perthynas ag eiddo a brynwyd o dan y cynllun Hawl i Brynu. Mae hyn yn berthnasol i eiddo sydd mewn parc cenedlaethol, ardal o harddwch naturiol eithriadol neu ardal a ddynodwyd yn ardal wledig.

Mae'r Tîm Tai hefyd yn gyfrifol am oruchwylio sawl eiddo Marchnad Agored (tua 30 yn weddill) o dan gynllun Cymorth Prynu Llywodraeth Cymru lle mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cyfran ecwiti o 30% i 50% o'r cartref ac mae'n ofynnol i'r perchennog dalu'r gyfran honno'n ôl ar adeg ei gwerthu. Mae hwn yn gynllun etifeddol gan Lywodraeth Cymru a weithredir gan Awdurdodau Lleol o dan y system Grant Tai Cymdeithasol. Mae'r Tîm Tai wedi ystyried a fyddai'n briodol ail-lansio'r cynllun Cymorth Prynu yng Ngheredigion drwy ddefnyddio'r derbyniadau ecwiti o 30% a wireddwyd o werthiannau pan fyddant ar gael ynghyd â dyrannu neu frigidorri'r Grant Tai Cymdeithasol fel rhan o'r rhaglen Grant Tai Cymdeithasol. Gellid ystyried hefyd fod hwn yn ddefnydd posibl arall ar gyfer Symiau Gohiriedig Adran 106 i helpu i ddarparu ystod ehangach o Dai fforddiadwy yng Ngheredigion. Fodd bynnag, mae trafodaethau gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn codi pryderon ynghylch pwy a sut y byddai'r cynllun yn cael ei ariannu a'i reoli o ystyried cyfyngiadau o ran gallu.

Mae'r cynlluniau hyn yn rhan o'r Strategaeth Cyflenwi Tai Fforddiadwy newydd sydd wedi'i drafftio dros y flwyddyn ddiwethaf ac a ddatblygwyd fel rhan o'r gofyniad ffurfiol i'r Cyngor ddarparu Prosbectws Tai Fforddiadwy i gefnogi uchelgeisiau cyflenwi Tai Fforddiadwy diweddaraf Llywodraeth Cymru. Y bwriad yw cynyddu nifer ac yn bwysig yr ystod o opsiynau Tai fforddiadwy sydd ar gael ledled Ceredigion a rhoi cyfleoedd i bobl leol allu fforddio prynu neu adeiladu eu cartrefi eu hunain yn agos at eu cymunedau lleol lle bynnag y bo modd.

### 3.2 Cartrefi fforddiadwy a ddarperir gan y system gynllunio

O ran Perchentyaeth Cost Isel yng Ngheredigion mae gennym hefyd 278 o gartrefi fforddiadwy sydd wedi'u darparu drwy'r system gynllunio, gyda 195 o gydsyniadau pellach ar gael i adeiladu tai fforddiadwy newydd. Mae'r rhain yn agored i unrhyw un sy'n gallu cymhwyso o dan y meini prawf Tai Fforddiadwy, sy'n canolbwyntio ar fethu â benthyca 10% yn fwy na'r pris a ofynnir am yr annedd ac wedi byw yng Ngheredigion am 5 (neu 10 o dan gynlluniau eiddo hŷn) mlynedd ar unrhyw adeg yn eu bywyd a / neu fod yn weithiwr allweddol neu mewn angen neu ddarparu gofal i rywun. Mae perchnogion yr eiddo hyn yn berchen ar 100% o'r eiddo, fodd bynnag uchafswm pris gwerthu'r eiddo yw 70% o werth y farchnad agored ar adeg ei werthu. Rydym hefyd yn cynnig math Rhent Canolradd Adran 106 o Dai Fforddiadwy ond nid


## Atodiad C

yw'r rhain wedi cael eu defnyddio'n eang gan ddatblygwyr gydag ychydig iawn o eiddo ar gael yn lleol.

Mae lledaeniad lles cynllunio tai fforddiadwy ar draws y sir yn fras yn gyfartal ar draws mathau o aneddiadau gyda rhaniad trefol vs gwledig cyfyngedig - mae Atodiad 1 (gweler isod ar gyfer map Ffigur 2) yn amlinellu lleoliadau unedau fforddiadwy wedi'u cwblhau a chydysniadau presennol sy'n weddill ledled y sir.

Mae'r timau Economi a Pholisi yn cynnal treial o nodi plotiau ar gyfer hunanadeiladu o dan feini prawf presennol y cynllun Tai Fforddiadwy, mae 2 blot wedi'u dyrannu'n llwyddiannus yng Nghiliau Aeron ac mae tîm yr Economi yn nodi daliadau tir pellach gan y Cyngor y gellid eu defnyddio ar gyfer cynllun o'r fath. Mae strategaeth hefyd yn cael ei pharatoi ar hyn o bryd gan y tîm polisi sy'n mynd i'r afael ag unedau hunanadeiladu fforddiadwy ac unedau Byw / Gweithio ar gyfer daliadau tir y Cyngor y gellid eu gwerthu neu eu rhentu i feddianwyr cymwys. Ar hyn o bryd, oherwydd yr ansicrwydd ynghylch cyflenwi mewn perthynas â phroblemau niwtraliaeth maethynau, mae rhywfaint o'r gwaith hwn wedi stopio ond gallai gael ei godi eto pan fydd adnoddau'n caniatáu.

Ffigur 2 Cartrefi fforddiadwy Lles Cynllunio yng Nghyngor Sir Ceredigion (data o 2021 ymlaen)



Mae'r Tîm Tai wedi cysylltu â Banc Datblygu Cymru yn benodol mewn perthynas â Chynllun Hunanadeiladu Cymru Llywodraeth Cymru. Mae'r Tîm wedi ystyried a yw'r

## Atodiad C

newidiadau diweddar i'r ffordd y mae'r cynllun yn gweithredu yn debygol o wneud y cynllun yn fwy deniadol i drigolion Ceredigion. Wrth wneud hynny, gallai tir nad yw wedi'i ddatblygu'n ddigonol neu dir nad yw'n cael ei ddefnyddio ddigon gael ei drawsnewid yn blotiau addas ar gyfer cartrefi hunanadeiladu newydd a chartrefi newydd a adeiledir ar fesur.

Mae sawl mantais bosibl i'r cynllun i gefnogi cartrefi hunanadeiladau/cartrefi a adeiledir ar fesur, e.e.

- Adnabod plotiau sydd â chaniatâd cynllunio eisoes yn ei le
- Arbedion posibl drwy beidio â thalu elw datblygwr trydydd parti ar gartref a adeiledir o'r newydd (tua 20% o leiaf)
- Mae'r Banc Datblygu yn rhoi benthyciadau di-log dim ond yn ad-daladwy ar ôl cwblhau

Fodd bynnag, wrth ystyried y cynllun yn fanylach nid yw'n debygol y bydd niferoedd mawr yn ei ddefnyddio yng Ngheredigion gan fod y rhan fwyaf o'r tir sydd ar gael mewn ardaloedd gwledig ac felly nid yw'n cydymffurfio â pholisi ar gyfer tai'r farchnad agored (sef y model hwn mewn gwirionedd) oherwydd ar ôl 5 mlynedd gellir cael gwared ar yr eiddo ar y farchnad agored. Mae'r timau Tai a'r Economi ac Adfywio yn parhau i chwilio am blotiau addas y gellid treialu'r cynllun arnynt.

Ymhellach i ddatblygu tai fforddiadwy ar safleoedd o 5 neu ragor o dai, fel rhan o'r CDLI ar safleoedd o lai na 5 uned mae swm gohiriedig yn daladwy ar 10% o'r gwerth datblygu gros neu ar unedau unigol 10% o'r prisiad oddi ar y cynllun ar y cam cynllunio, daw'r swm gohiriedig yn daladwy adeg y gwerthiant neu'r trosglwyddiad cyntaf. Ar hyn o bryd mae swm 'dyledus' o £2 filiwn mewn derbyniadau cyfalaf gohiriedig (symiau gohiriedig wedi'u crisialu ar y gwerthiant neu'r trosglwyddiad cyntaf) ac mewn termau real pot o tua £148k i'w wario ar dai fforddiadwy ledled y sir. Mae Ceredigion yn anomaledd, yn rhanbarthol, o ran ei gwneud yn ofynnol i'r swm gohiriedig gael ei dalu ar y gwerthiant neu'r trosglwyddiad cyntaf gyda chynlluniau tebyg ledled y wlad yn gweithredu yn ôl mecanwaith taliad ymlaen llaw.

Ar gyfartaledd drwy'r system gynllunio, mae 45 o gartrefi fforddiadwy a chartrefi rhent cymdeithasol ychwanegol yn cael eu datblygu bob blwyddyn. Mae hyn yn debygol o amrywio bob blwyddyn yn unol â lefelau'r cyllid sydd ar gael a nifer tai'r farchnad gyffredinol sy'n cael eu datblygu. Mae'r targed yn y CDLI ar gyfer Tai Fforddiadwy wedi'i osod ar 20% o'r holl gartrefi i fod yn fforddiadwy. Rhagorwyd ar hyn yn y rhan fwyaf o flynyddoedd ac ar hyn o bryd mae'n 28%. Ers dechrau cyfnod y CDLI mae 675 o gartrefi fforddiadwy lles cynllunio a chartrefi fforddiadwy rhent cymdeithasol wedi'u darparu yng Nghyngor Sir Ceredigion.

### 3.3 Cynlluniau Cenedlaethol

Mae amrywiaeth o opsiynau tai hefyd yn bodoli ar lefel genedlaethol sy'n gweithredu yn y sir, ac mae'r rhain yn cynnwys:

## Atodiad C

- **Cymorth i brynu**
- **Rhentu i berchnogi**
- **Rhanberchnogaeth**
- **Rhannu Ecwiti**
- **Cymorth Prynu**

Mae'r papur ychwanegol (Atodiad 3) yn trafod y cynlluniau hyn yn fwy manwl ond yn gryno:

- Fel arfer caiff y rhain eu rhedeg neu eu rheoli gan Lywodraeth Cymru, datblygwyr preifat a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn dibynnu ar y cynnyrch a gynigir.
- Yn draddodiadol, nid yw Ceredigion wedi cael llawer o eiddo Cymorth i Brynu ar gael. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r nifer hwn wedi cynyddu ac mae llawer o'r cartrefi newydd yn Stad Crag Ddu (Llan-non), Maes y crugiau (Aberystwyth), a Ger y Cwm (Penrhyn-coch) yn gweithredu o dan y cynllun hwn ac wedi gwerthu'n gyflym.
- Yn anffodus bydd Cymorth i Brynu Cymru yn dod i ben ddiwedd mis Mawrth 2023, yn rhannol yn bennaf i'r cap gwerth eiddo o £250,000 nad yw bellach yn adlewyrchu prisiau tai presennol ond hefyd â phryderon ynghylch ecwiti negyddol.
- Mae cynlluniau tebyg i Rentu i Berchnogi wedi cael eu treialu gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac mae hyfywedd ariannol wedi bod yn anodd ei gyflawni'n gyffredinol. Wedi dweud hynny, hyd yn hyn, mae 2 x cartref teuluol Rhentu i Berchnogi 3 Gwely wedi'u darparu yng Nghenarth ac mae 14 arall wedi neu wedi'u hamserlennu i'w darparu yn Llanbedr Pont Steffan o fewn y 12 - 18 mis nesaf, wedi'i alluogi drwy'r Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol.

#### 4. Faint o Dai Fforddiadwy sydd eu hangen arnom?

Mae Asesiad 2019 o'r Farchnad Dai Leol, sef asesiad cydweithredol bob 5 mlynedd a gynhelir gyda'r tîm tai (gan ddefnyddio amcanestyniadau poblogaeth 2014) yn nodi angen am 660 o gartrefi fforddiadwy newydd, sef 28% o'r holl stoc dai yn y dyfodol i fod yn fforddiadwy gyda'r angen mwyaf (64%) yn y sector rhentu cymdeithasol. Mae defnyddio'r model i ail-redeg y dadansoddiad o amcanestyniadau poblogaeth 2018 (sy'n adlewyrchu'r gostyngiad yn yr amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer Ceredigion) yn awgrymu mai dim ond unedau fforddiadwy sydd eu hangen arnom yn y sir a dim tai pellach y farchnad agored. Mae hyn yn cyd-fynd â ffocws Llywodraeth Cymru yng Nghymru'r Dyfodol y Cynllun Cenedlaethol 2040 ar 67% o'r angen o ran tai yn rhanbarth Canolbarth Cymru yn fforddiadwy, gyda tharged tai rhanbarthol 20 mlynedd o 1,600 o unedau i gyd. Mae hyn yn sylweddol is na'r hyn y mae Ceredigion, Powys a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ei gyflenwi ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar y cyd ar draws y gwasanaethau Cynllunio, Tai a Pherfformiad i ail-redeg y dadansoddiad gan ddefnyddio model Asesiad o'r Farchnad Dai Leol Cymru Gyfan ac ymchwilio i effaith data'r cyfrifiad ar y

## Atodiad C

canlyniadau. Mae'n debygol o gydnabod galw cyfyngedig am dai'r farchnad agored gyda mwy o ffocws ar gynhyrchion fforddiadwy yn enwedig y rheini i ddiwallu Anghenion Canolradd.

### 5. Beth yw'r Meini Prawf a ddefnyddir i bennu cymhwysedd Tai Fforddiadwy Cyngor Sir Ceredigion?

Er mwyn sicrhau bod y cartrefi fforddiadwy a ddarperir gan y system gynllunio yng Ngheredigion yn wirioneddol yn cael eu meddiannu gan bobl mewn angen fforddiadwy, rydym yn disgwyl i feddiannwyr gael tystysgrif a roddwyd gan y tîm polisi cynllunio sy'n dangos eu bod yn bodloni'r 3 maen prawf cymhwysedd a amlinellir isod:

#### 5.1. Cymhwysedd Ariannol:

##### **Mewn perthynas â Thai Fforddiadwy a Werthir ar Ostyngiad**

Gallu (cyfun) i fenthylg dim mwy na'r swm sy'n angenrheidiol i brynu'r eiddo am ei bris gostyngol ynghyd â 10% o'r pris hwnnw. O ran plotiau ar gyfer hunan-adeiladu bydd y 'pris gostyngol' yn seiliedig ar amcangyfrif, nad yw wedi ei gynnwys yn y cynllun, o werth yr uned.

##### **Mewn perthynas â Thai Fforddiadwy Rhent Canolradd:**

Mae'n bwysig bod y cynllun tai fforddiadwy Rhent Canolradd yn cyrraedd ei gynulleidfa darged, sef:

- y rheini sy'n annhebygol yn realistig o allu cael gafael ar dai drwy'r Gofrestr Tai Cyffredin ac sydd efallai heb fawr o ddewis ond i ddewis gwario cyfran uwch o'u hincwm fel rhent nag a dybir yn 'fforddiadwy' (h.y., >35%).

Bydd eiddo Rhent Canolradd yn cael eu 'bandio' yn ôl maint a lefel berthnasol y rhent canolradd.

Bydd y manylion yn newid dros amser fel canlyniad o lefelau rhent a chyflogau yn y sir a bydd maint yr eiddo / bandiau gwerth rhenti o bryd i'w gilydd yn cael eu hamlinellu yn y Canllawiau Cynllunio Atodol.

Mae angen i gymhwysedd i feddiannu Tai Fforddiadwy Rhent Canolradd fodloni'r gofynion canlynol:

- Mae'r ymgeisydd yn aelwyd gydag o leiaf un aelod yn gweithio'n llawn amser (a ddiffinnir at ddiben y cynllun hwn fel 35 awr yr wythnos)
- Ni fydd eiddo Rhent Canolradd y gwneir cais amdano yn cael ei 'danfeddiannu' gan yr aelwyd (hynny yw, ei fod yn diwallu anghenion yr aelwyd fel y cadarnhawyd gan yr Uwch Swyddog Tai ar gyfer Tai Fforddiadwy ac Arbenigol).

## Atodiad C

- Ni all yr ymgeisydd gael gafael ar eiddo rhent y farchnad i ddiwallu ei anghenion ar 35% neu lai o incwm gros yr aelwyd

### 5.2. Cymhwysedd Preswyllo

Yn y Cynllun Datblygu Lleol presennol (dan y Cynllun Datblygu Unedol diwethaf roedd yn 10 allan o 20 mlynedd ond roedd y Cyngor Benthycwyr Morgeisi yn ystyried nad oedd modd morgeisio hyn)

Mewn perthynas â Thai Fforddiadwy a Werthir ar Ostyngiad a Thai Fforddiadwy Rhent Canolradd:

i. Cysylltiad lleol yn yr ystyr bod yn rhaid i'r ymgeisydd ar ryw adeg yn ei fywyd fod wedi byw yng Ngheredigion neu ardal cyngor tref/cymuned gyfagos (neu gyfuniad o'r ddau) am gyfnod parhaus o 5 mlynedd.

Neu

ii. Angen byw yng Ngheredigion i ofalu'n sylweddol am berthynas agos neu i gael gofal gan berthynas agos os yw'r perthynas yn bodloni gofynion paragraff "2(i)" uchod ac nad yw eiddo'r perthynas (boed fel y mae neu'n destun estyniad) yn gallu diwallu anghenion yr aelwyd gyfun.

Neu

iii. Angen bod yng Ngheredigion oherwydd cyflogaeth fel gweithiwr allweddol ar sail barhaol llawn amser (35 awr). At ddibenion y Cynllun Datblygu Lleol, diffinnir gweithiwr allweddol fel a ganlyn:

- a) Athro/athrawes mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach neu goleg chweched dosbarth;
- b) Nyrs neu weithiwr iechyd medrus arall yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol;
- c) Swyddog heddlu;
- d) Gweithiwr gwasanaeth prawf;
- e) Gweithiwr cymdeithasol;
- f) Seicolegydd Addysg;
- g) Therapydd galwedigaethol a gyflogir gan yr awdurdod lleol;
- h) Swyddog tân, neu;
- i) Unrhyw berson arall y mae ei gyflogaeth yn cyflawni rôl bwysig wrth ddarparu gwasanaethau allweddol yng Ngheredigion lle bu'n anodd recriwtio o fewn y Sir.

### 5.3. Meddiannaeth Fel Unig Breswylfa:

Mewn perthynas â Thai Fforddiadwy a Werthir ar Ostyngiad a Thai Fforddiadwy Rhent Canolradd:

Disgwylir i'r ymgeisydd feddiannu'r eiddo fel ei unig breswylfa a bydd gofyn iddo gadarnhau nad yw'n berchen ar eiddo preswyl arall. Os yw'r ymgeisydd yn

## Atodiad C

dychwelyd i Geredigion a bod ganddo eiddo heb ei werthu y bu'n ei feddiannu o'r blaen, estynnir cyfnod gras o ddim mwy na 12 mis i ganiatáu gwerthu'r eiddo.

### Tai Cymunedol – cynllun

Fel y mae'r adrannau uchod wedi'i ddangos, mae stoc o dros 4000 o gartrefi fforddiadwy (dros 12% o gyfanswm y stoc dai ledled y sir) ar draws Ceredigion o ddeiliadaethau amrywiol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ddigon i ateb y galw gan fod yr eiddo sy'n bodoli eisoes wedi'u cyfyngu'n gyffredinol i'r bobl hynny sydd â'r angen mwyaf (Rhentu Cymdeithasol) a'r rheini sy'n gymwys i brynu o dan y cynllun Tai Fforddiadwy.

Erys grŵp o bobl y gallwn eu hystyried mewn 'angen canolraddol' sy'n dymuno prynu neu rentu eiddo yn eu cymunedau lleol sydd 'wedi'u prisio allan o'r farchnad' oherwydd y galw cynyddol am eiddo gwledig ac argaeledd unedau fforddiadwy mewn aneddiadau gwledig. Mae hyn wedi'i waethygu gan y ffaith bod llai o forgeisi yn cael eu cynnig, bod gofyniad i roi blaendaliadau uwch er mwyn cael morgais, a bod y cyfraddau llog yn uwch. Felly, cefnogi'r bobl hyn i aros yn eu cymunedau yw lle gallai 'tai cymunedol' gynorthwyo.

### 6.1 Y dull a gymeradwywyd yn flaenorol – Rhannu Ecwiti

Pan ddatblygwyd y cynllun hwn yn y gorffennol, cynigiwyd ecwiti a rennir a oedd yn debyg i'r cynllun Cymorth Prynu blaenorol. Rhoddwyd cyfran o 20-40% o werth yr eiddo i'r meddianwyr a oedd yn cael ei ddal fel tâl cyfreithiol yn erbyn yr eiddo ac yna byddai'r tâl yn cael ei ad-dalu i'r Cyngor pan fyddai'r eiddo'n cael ei werthu. Teimlwyd y byddai hyn yn cefnogi'r bobl hynny sy'n cael eu prisio allan o'r farchnad yn lleol ond, o ystyried cost tai, cydnabuwyd y byddai hyn o bosibl ond yn gallu helpu nifer fach o bobl gyda'r cyllid sydd ar gael i'r Cyngor i weithredu'r cynllun.

### 6.2 Beth sydd wedi newid?

Ers i'r cynllun hwn gael ei ddatblygu mae amrywiaeth o newidiadau cenedlaethol wedi gwneud y farchnad morgeisi yn fwy cyfnewidiol. Mae'r rhain yn cynnwys yr argyfwng costau byw, sydd wedi gweld biliau ynni a chyfraddau morgais yn codi. Mae'r farchnad morgeisi mewn ymateb i'r pwysau ar incwm aelwydydd wedi dod yn fwy cyfyngol, gyda benthyca'n cael ei leihau i lawer o bobl, sy'n gweld prisiau tai yn gostwng yn araf yn genedlaethol.

O safbwynt lleol, mae'r mater o ran ffosffadau, sy'n cyfyngu ar ddatblygiad ar draws dros 45% o Geredigion (a disgwylir i hyn ehangu yn y misoedd nesaf), hefyd yn gwaethygu'r mater, gyda phrisiau tai yn parhau i godi'n lleol. Mae hyn, ochr yn ochr â'r materion cenedlaethol a amlinellir uchod, yn cyfyngu ar allu pobl leol i fenthyca ac yn golygu bod angen i'r sir chwilio am atebion mwy creadigol nad ydynt o bosibl yn rhoi pobl mewn sefyllfa o ecwiti negyddol neu'n peri iddynt brynu cartref na allant



## Atodiad C

fforddio ei wresogi, o ystyried bod y rhan fwyaf o drigolion Ceredigion yn dibynnu ar ddatrysiadau gwresogi oddi ar y grid.

O ystyried y darlun newidiol uchod, mae angen gosod cap tynn o ran faint o ecwiti a rennir y byddai'r Cyngor yn ymrwymo iddo, a hynny er mwyn:

- sicrhau bod y cynllun yn cynnig y budd mwyaf posibl
- sicrhau bod pobl yn cael cymorth i brynu cartrefi y byddant yn cael trafferth eu cynnal a'u gwresogi
- sicrhau nad ydynt mor ddibynnol ar fuddsoddiad y Cyngor fel na allant ar ryw adeg yn y dyfodol gynyddu cyfran eu perchentyaeth a symud oddi wrth gynnyrch canolradd

Mae'r pryderon cenedlaethol ynghylch eiddo gwag yn parhau, ac mae Llywodraeth Cymru wedi'i gwneud yn ofynnol i bob awdurdod yng Nghymru baratoi cynllun gweithredu ar eiddo gwag a chyflwyno amrywiaeth o fesurau i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio unwaith eto. Mae datganiad gweinidogol gan Lywodraeth Cymru ar dai gwag wedi addo cymorth o £50 miliwn [£50m i adfer cartrefi gwag | LLYW.CYMRU](#). Felly, byddai cymorth i annog aildefnyddio eiddo gwag yn y cynllun yn cael ei groesawu'n genedlaethol ac yn helpu i fynd i'r afael â'r pryderon ynghylch Niwtraliaeth o ran Maetholion sy'n rhwystro datblygiad ledled y sir. Mae dros 800 o eiddo gwag yng Ngheredigion ar hyn o bryd, wedi'u gwasgaru ledled y sir (gweler y map yn Atodiad 4), felly mae digon o gyfle i ailddatblygu eiddo o'r fath o fewn y cynllun.

Ers datblygu'r cynllun diwethaf, mae syniadau pellach wedi dod i'r amlwg ynghylch cefnogi pobl i gynyddu cyfran eu perchentyaeth a symud oddi wrth dai fforddiadwy, gan ryddhau arian i ailgynnig y budd i ddefnyddwyr y cynllun yn y dyfodol. Nid oedd y cynllun blaenorol yn mynd i'r afael â'r mater hwn yn benodol, ac i bob pwrpas, roedd pobl yn cael eu clymu i'r cynllun tan i'r eiddo gael ei ail-werthu. Mae angen ystyried gwelliannau i gefnogi pobl i gael mynediad at dai'r farchnad agored gan sicrhau bod yr arian yn cael ei ailgynnig i ddefnyddwyr eraill y cynllun yn y dyfodol neu opsiynau tai fforddiadwy eraill.

Roedd hefyd yn amlwg o'r cyfathrebu yn dilyn y datganiad i'r wasg ynglŷn â'r cynllun blaenorol y byddai'r galw yn drech na'r cyflenwad yn eithaf cyflym. Roedd potensial hefyd i bobl gael mynediad i'r cynllun a oedd ag opsiynau eraill ond yn ei weld fel dull o gael gafael ar eiddo heb ymrwymo eu cyfalaf eu hunain.

Felly, mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd i ystyried ail-lansio'r cynllun wedi cynnwys yr hyn a ddysgwyd yn eu ffordd o feddwl ac wedi adeiladu ar yr asesiad risg a gynhaliwyd yn flaenorol. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi ceisio datblygu'r cynllun i ymdrin â'r pryderon hyn a, lle bo'n bosibl, bodloni nifer o flaenoriaethau, cynlluniau a strategaethau corfforaethol.

### Atodiad C

#### 6.3 Y diwygiadau a awgrymir

Mae'r diwygiadau'n cydfynd â newidiadau i'r polisi cenedlaethol, sef Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040 sy'n gosod gofyniad llymach ar y rhanbarth o ran tai. Mae'r cyfyngiadau sy'n ymwneud â materion ffosffadau, a'r cynllun gweithredu eiddo gwag yn golygu bod addasu ein stoc dai bresennol at ddibenion modern yn flaenoriaeth allweddol i'r strategaeth dai sydd wrthi'n cael ei datblygu.

Felly, wrth ystyried y ffordd orau o reoli'r Cynllun Tai Cymunedol er mwyn sicrhau bod y cymorth gorau posib yn cael ei ddarparu i bobl, mae'r argymhellion canlynol yn cael eu gwneud:

1. Bydd angen i'r ymgeiswyr gyflwyno blaendal o 5% fan lleiaf o'r pris prynu llawn er mwyn medru dod yn rhan o'r cynllun, a bydd hyn wedyn yn sicrhau bod yr holl bartïon sy'n rhan o'r cynllun wedi ymrwymo cyfalaf. Bydd hyn hefyd o gymorth i ddiogelu gwerth cyfran ecwiti'r Cyngor pe bai prisiau tai yn gostwng.
2. Ni ddylai'r ganran rhannu ecwiti y bydd y Cyngor yn ei chyfrannu at **dai y gellir byw ynddynt** fod yn fwy nag 20%. Bydd hyn yn sicrhau bod modd gwneud y mwyaf o'r gronfa sydd ar gael. Hefyd, rhyw ben yn y dyfodol, gall y preswylwyr ailforgeisio i gynyddu cyfran eu perchentyaeth.
3. Ni ddylai'r ganran rhannu ecwiti y bydd y Cyngor yn ei chyfrannu at **eiddo gwag cofrestredig** fod yn fwy na 40%. Mae hyn yn adlewyrchu'r costau uwch sy'n gysylltiedig â sicrhau bod modd defnyddio tai gwag fel cartrefi unwaith eto. Mae'r cap hwn wedi'i ymestyn y tu hwnt i 'dai sy'n barod i bobl symud i mewn iddynt'. Mae hyn yn cydnabod y bydd y costau sy'n gysylltiedig â defnyddio cartrefi unwaith eto yn uwch ac y bydd angen cyfalaf ar y perchnogion tai ar gyfer gwneud y gwaith adnewyddu yn ogystal â phrynu'r adeilad. Hefyd, ceir llai o bryderon ynghylch ecwiti negyddol gan y dylai'r gwaith sy'n cael ei wneud ar y cartref sicrhau elw ar fuddsoddiad i berchennog y tŷ.
4. Dylai'r uchafswm pris adlewyrchu prisiau tai Ceredigion ar gyfartaledd gan gynnwys byffer bach i sicrhau bod hyn yn gynaliadwy, o dybio y bydd prisiau tai yn parhau i godi. Bydd hyn yn seiliedig ar Fynegai Prisiau Tai Cymru y mae'r Principality yn ei weinyddu [Mynegai Prisiau Tai Cymru | Wales House Price Index \(principality.co.uk\)](https://www.principality.co.uk/mynegai-prisiau-tai-cymru). Wrth ail-lansio'r cynllun, bydd y pris wedi'i osod ar £300,000 sef pris tŷ ar gyfartaledd yng Ngheredigion (£278,920), gyda byffer o 5-10%. Bydd y cap ar brisiau tai yn cael ei adolygu yn flynyddol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol a bydd yn parhau i ddilyn y fethodoleg a nodir uchod.
5. Dylid rhoi blaenoriaeth i gynigion sy'n nodi mai'r brif egwyddor yw dod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd parhaol.
6. Rheolir y cynllun ar sail y cyntaf i'r felin.
7. Caiff opsiynau ffurfiol ar gyfer cynyddu cyfran eu perchentyaeth eu cynnwys yn y cytundeb rhannu ecwiti a chaiff hyn ei annog o fewn terfynau amser penodol. Mae hyn yn crisialu buddsoddiad y Cyngor yn gynharach na'r hyn a

## Atodiad C

gafwyd yn y cynllun Cymorth Prynu blaenorol ac mae'n sicrhau nad yw pobl yn cael eu clymu i'r hyn sy'n cael ei ystyried yn gynnyrch dros dro am byth.

8. Ni fydd cymryd rhan yn y cynllun hwn yn atal deiliaid tai rhag derbyn cymorth arall megis y grantiau sydd ar gael ar gyfer eiddo gwag ac ati.
9. Bydd angen parhau i ddarparu adnoddau ar gyfer y cynllun er mwyn sicrhau ei fod yn gynaliadwy yn y dyfodol. Caiff y cyllid ei frigdorri i sicrhau bod yr amser y mae swyddogion yn ei dreulio i weinyddu'r cynllun yn cael ei gynnwys yn y costau cyffredinol. Bydd lwfans ar gyfer unrhyw gynnydd mewn costau yn y dyfodol hefyd yn cael ei gynnwys.

Tabl 1: Enghraifft o Rannu Ecwiti

	<u>Eiddo y gellir byw ynddo</u>		<u>Eiddo Gwag</u>	
Y Pris Prynu Uchaf a Dybir @ <b>£300,000</b>		<b>£300,000</b>		<b>£300,000</b>
<u>Wedi'i ariannu gan gyfran ecwiti:</u>				
Y prynwr	5%	£15,000	5%	£15,000
Cyngor Sir Ceredigion	20%	£60,000	40%	£120,000
Morgais	75%	£225,000	55%	£165,000
		<u><b>£300,000</b></u>		<u><b>£300,000</b></u>
Y Pris Prynu Uchaf a Dybir @ <b>£200,000</b>		<b>£200,000</b>		<b>£200,000</b>
<u>Wedi'i ariannu gan gyfran ecwiti:</u>				
Y prynwr	5%	£10,000	5%	£10,000
Cyngor Sir Ceredigion	20%	£40,000	40%	£80,000
Morgais	75%	£150,000	55%	£110,000
		<u><b>£200,000</b></u>		<u><b>£200,000</b></u>

Bydd y newidiadau a amlygwyd yn flaenorol yn sicrhau bod y blaenoriaethau corfforaethol yn cael eu blaenoriaethu gan warchod y Cyngor rhag unigolion yn camddefnyddio'r cynllun ac annog pendantsrwydd o ran y cyfalaf a ymrwymir yn gynharach na'r hyn a ddigwyddodd yn achos cynlluniau blaenorol. Rhagwelir y gallai'r nifer canlynol o aelwydydd gael eu cefnogi yn seiliedig ar y canrannau a nodir o ran y cyfalaf a fuddsoddir:

## Atodiad C

Tabl 2: Aelwydydd a gefnogir

	<u>Pob un fel Eiddo y gellir byw ynddo</u>	<u>Pob un fel Eiddo Gwag</u>
Amcangyfrif o'r cyllid a fydd ar gael ar 1 Ebrill 2023	£1,500,000	£1,500,000
Ecwiti y mae ei angen ar bob eiddo (Pris prynu - £300k)	£60,000	£120,000
<b>Nifer y cyfleoedd i brynu fydd ar gael</b>	<b>25</b>	<b>13</b>
Ecwiti y mae ei angen ar bob eiddo (Pris Prynu - £200k)	£40,000	£80,000
<b>Nifer y cyfleoedd i brynu fydd ar gael</b>	<b>37</b>	<b>18</b>

Ar hyn o bryd mae'n anodd rhagweld beth fydd y gefnogaeth a roddir i eiddo y gellir byw ynddo neu eiddo gwag ond o ystyried y cyllid yr ydym yn amcangyfrif a fydd ar gael ym mis Ebrill 2023 (£1.5m), mae potensial i gynorthwyo â phrynu o leiaf 25 eiddo y gellir byw ynddo neu 13 eiddo gwag am y pris prynu uchaf sef £300k. Bydd modd cynorthwyo mwy os bydd prisiau'r eiddo'n is. Mae'n debygol mai cymysgedd a gawn ond y bydd mwy o eiddo y gellir byw ynddo nag eiddo gwag yn derbyn cefnogaeth.

Yn flynyddol, ar ôl hynny, rhagwelir y bydd Premiwm Ail Gartrefi Treth y Cyngor ar y premiwm presennol o 25% yn parhau i godi tua £400k ar gyfer y cynllun hwn. Os ydym yn tybio mai £300,000 fydd uchafswm y pris prynu, rydym yn amcangyfrif y bydd hyn yn cefnogi'r broses o brynu 7 eiddo y gellir byw ynddo neu 3 eiddo gwag. Os bydd penderfyniadau ynghylch cynyddu'r premiwm ar ail gartrefi yn cael eu gwneud, mae'n bosibl y bydd y gronfa yn cynyddu.

Wrth i brynwyr gynyddu cyfran eu perchentyaeth a chael perchnogaeth lawn o'u heiddo (gan felly brynu cyfran ecwiti'r Cyngor) bydd yr arian hwn yn cael ei roi yn ôl yn y cynllun fel y gallwn gefnogi mwy o aelwydydd. Ar hyn o bryd, mae'n anodd rhoi amcangyfrif o'r union adeg y bydd prynwyr yn cynyddu cyfran eu perchentyaeth.

Byddai'r grŵp gorchwyl a gorffen hefyd yn argymhell gosod amodau o ran ad-dalu'r benthygiad a gallai hyn olygu y bydd mwy o brynwyr yn mynd ati i gynyddu cyfran eu perchentyaeth.

Argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen:

1. gofyniad i ad-dalu swm yr arian a fenthyciwyd NEU ganran gwerth cyfatebol yr eiddo, pa bynnag un sydd uchaf, ac

## Atodiad C

2. amod na all benthyciad y Cyngor fod am gyfnod sy'n hirach na chyfnod y morgais sy'n gysylltiedig â hynny.

### 6.3 Cymhwysedd

Y bwriad o ran y meini prawf cymhwysedd ar gyfer y cynllun yw adlewyrchu'r cynllun Gostyngiad Wrth Werthu presennol, yn unol â'r hyn a amlinellir ar dudalennau 10 ac 11. Yn fras,

- mae'n rhaid mai'r eiddo yw unig gartref yr ymgeisydd,
- mae'n ofynnol bod yr ymgeisydd wedi byw yng Ngheredigion am 5 mlynedd rywbryd yn ystod ei fywyd (neu mae'n rhaid cydymffurfio â'r eithriadau penodol ar gyfer Gweithiwr Allweddol / Gofalwr) ac
- ni ddylai'r ymgeisydd fod yn gallu fforddio morgais am 10% yn fwy na'r prisiad y cytunwyd arno ar gyfer yr eiddo.

### 7. Risgiau'r cynllun

Ar y cyfan, bernir bod y risg sy'n deillio o'r cynllun hwn yn isel o safbwynt y Cyngor, a lle bo risg mae nifer o opsiynau lliniaru a fyddai'n lleihau'r risg i lefel dderbyniol.

Mae'r risg bennaf yn deillio o'r ffaith ni wyddys i ba gyfeiriad y bydd y farchnad dai yn mynd yn y tymor byr, yn enwedig yn sgil y prisiau cymharol uchel a welir ar dai yn y sir. Byddai'r risg yn dod i'r amlwg pe bai'r Cyngor yn darparu ecwiti i gynorthwyo rhywun i brynu eiddo a bod y prynwr yna'n penderfynu gwerthu'r eiddo, neu'n gorfod gwneud hynny, o fewn cyfnod byr o amser pan fo'r farchnad yn mynd trwy gyfnod o 'gywiro' neu gyfnod o brisiau is. Byddai hyn yn arwain at y Cyngor yn adennill llai o ecwiti na'r hyn a dalwyd yn wreiddiol.

Yn y tymor hir byddem yn disgwyl i'r farchnad gynyddu, fel y gwelwyd yn hanesyddol. Pan weithredodd y Cyngor gynllun tebyg yn yr 1990au, cadwyd yr eiddo a brynwyd am gyfnod hwy, gan amlaf, a derbyniodd y Cyngor adenillion ecwiti a oedd gwerth tair neu bedair gwaith yn fwy oherwydd y cynnydd a fu yn y farchnad yn ystod y cyfnod hwnnw.

Mae Asesiad Risg y cynllun blaenorol wedi'i gynnwys yn Atodiad 5, ac fel y nodwyd o'r newidiadau arfaethedig (a restrwyd yn adran 6.3), mae ystod o gamau lliniaru wedi'u cynnwys yn y cynllun diwygiedig er mwyn rheoli'r risgiau hyn yn well.

Deallir y byddai'r cynllun yn gweithredu'n gyfreithiol fel ail dâl ar yr eiddo ac felly ni fyddai angen cytundeb Adran 106. Mae hyn yn sicrhau cymhwysedd ar gyfer y dyfodol oherwydd y gyfran sy'n fforddiadwy ac nid yr eiddo, ac felly byddai hyn yn ddefnyddiol pe bai'r Cyngor eisiau sicrhau ei fod yn Gynnyrch Fforddiadwy a gymeradwywyd. Mewn cynllun o'r fath, mae'n bwysig bod yn wylidwrus o'r problemau posib a, thrwy ddilyn dull ecwiti a rennir, os bydd yr unigolyn yn methu â

### Atodiad C

thalu taliadau'r morgais yna cwmni'r morgais fyddai'r flaenoriaeth o ran ad-dalu gan mai nhw ydy'r tâl cyntaf. Mae'n bosib na fyddai'r Cyngor yn cael ei gyfran yn ôl fel yr ail dâl os caiff yr eiddo ei atafaelu. Er nad ydy hyn erioed (hyd y gwyddwn) wedi digwydd i Gyngor Sir Ceredigion, mae'n risg sydd angen i ni ei nodi.

Eitem arall i'w hystyried yw lefel y galw o ran meddianwyr sydd eisiau cynyddu cyfran eu perchentyaeth nes eu bod yn berchen ar yr eiddo'n gyfan gwbl. Tra y bydd rhai perchnogion yn awyddus i berchen ar eu heiddo yn gyfan gwbl (ac yn ail-forgeisi o fewn y terfynau amser), gan ad-dalu'r blaendal i'r Cyngor mewn da bryd, ni fydd eraill yn awyddus i wneud hynny am resymau amrywiol. Felly, yng nghytundebau cyfreithiol y cynllun, bydd angen canllawiau clir ynghylch pryd fydd hyn yn angenrheidiol a beth fydd yn cael ei ystyried fel 'amgylchiadau eithriadol'.

#### 7.1 Pwy fydd yn rheoli'r cynllun?

Bydd y Tîm Polisi Cynllunio'n rheoli cymhwysedd y cynllun ac mae'r tîm yn rheoli stoc o dros 400 uned fforddiadwy ar hyn o bryd. Wrth ardystio cymhwysedd, ni wneir unrhyw ddyfarniadau gwerth; mae'n broses syml sy'n cynnwys penderfynu a ydy'r ymgeisydd yn gymwys ai peidio, a phan fo cystadleuaeth byddwn yn penderfynu ynghylch cymhwysedd ar sail y cyntaf i'r felin.

Pan fo ymgeisydd wedi dangos ei fod yn gymwys drwy'r broses ardystio a phan fo prisiad yr eiddo wedi'i gadarnhau gan y tîm Ystadau, bydd y tîm Cyllid a thîm y Gwasanaethau Cyfreithiol yn bwrw ymlaen â'r trafodiad gan gyfnewid arian a sicrhau ail dâl ar yr eiddo. Yna bydd tîm y Gwasanaethau Tai'n monitro'r eiddo ac, yn unol â'r terfynau amser a nodwyd, bydd y tîm yn adolygu'r cyfle i ddeiliad yr eiddo gynyddu cyfran ei berchentyaeth fel ei fod yn berchen ar yr eiddo cyfan neu gyfran fwy ohono, gan drefnu'r broses â thîm y Gwasanaethau Cyfreithiol fel y bo angen.

Bydd goblygiadau o ran adnoddau i weinyddu'r rhaglen ac felly argymhellir bod cyllideb yn cael ei darparu i'r gwasanaethau perthnasol gan ddefnyddio'r cyllid a godwyd o'r Premiwm ar Ail Gartrefi. Yn y tabl isod nodir y gyllideb yr argymhellir y dylid ei dyrannu i bob gwasanaeth, ac mae hyn yn seiliedig ar yr amser y disgwylir i swyddogion dreulio ar bob cais, nifer y ceisiadau a ddisgwylir (bydd y nifer hwn yn sylweddol uwch yn ystod y flwyddyn gyntaf) ac ychydig o waith ar y dechrau i greu cronfeydd data a phrosesau. Ar ôl nifer o flynyddoedd, efallai bydd angen addasu'r symiau hyn er mwyn ariannu'r costau uwch yn sgil cynnydd mewn cyflogau.

## Atodiad C

Tabl 4: Y Cyllidebau ar gyfer y Gwasanaethau, wedi'u darparu o'r Gronfa Tai Cymunedol

<u>Gwasanaeth</u>	<u>Blwyddyn 1</u>	<u>Bob Blwyddyn o Flwyddyn 2 ymlaen</u>
Yr Economi ac Adfywio	£13,500	£6,500
Cyllid a Chaffael	£4,000	£2,500
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu	£1,000	£500
<b>CYFANSWM</b>	<b>£18,500</b>	<b>£9,500</b>

## 7.2 Sut fydd y cynllun yn cael ei ariannu?

Bydd y cynllun yn cael ei ariannu gan yr arian a godwyd o'r 25% o Breimiwm Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi. Ar 31 Mawrth 2022, roedd £1.12m ar gael yn y gronfa gyda thua £400k i'w ychwanegu ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23. Golyga hyn y bydd tua £1.5m ar gael ar 31 Mawrth 2023.

Yn y dyfodol, rhagwelir y bydd Premiwm Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi yn parhau i godi £400k y flwyddyn i ariannu'r cynllun hwn.

Yn ogystal â Phremiwm Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi, bydd cyllid hefyd yn cael ei ryddhau wrth i fenthyciadau ecwiti gael eu had-dalu i'r Cyngor pan fo eiddo'n cael ei werthu neu pan fo perchennog yr eiddo'n cynyddu cyfran ei berchentyaeth nes ei fod yn berchen ar yr eiddo cyfan. Bydd y cyllid hwn yn mynd yn ôl i mewn i'r cynllun. Mae'n anodd rhagfynegi pryd fydd y cyllid hwn yn cael ei dderbyn a faint fydd ar gael.

Mae Adran 6.3 uchod yn cynnwys manylion ynghylch nifer y tai yr amcangyfrifir y bydd yr arian hwn yn helpu i brynu.

## 7.3 Gwaith pellach i'w drefnu

1. Bydd angen i'r Tîm Polisi Cynllunio addasu'r ffurflenni tai presennol i gynnwys y cynllun newydd.
2. Bydd angen i'r Gwasanaethau Cyfreithiol greu contract ariannu gydag opsiynau ar gyfer cynyddu cyfran y berchentyaeth.
3. Bydd angen i'r Gwasanaethau Tai greu fframwaith monitro er mwyn rheoli'r broses o gynyddu cyfran y berchentyaeth.
4. Bydd angen i'r Tîm Polisi Cynllunio drafod â'r Adran Ystadau ynghylch y protocol hawsaf ar gyfer prisio.
5. Bydd angen i'r Gwasanaethau Cyllid drefnu'r ffordd orau i reoli trafodion.

## Atodiad C

### Atodiadau

Atodiad 1 – Map o'r cartrefi fforddiadwy a gyflawnwyd drwy les cynllunio ar draws y sir



Appendix 1 -  
Affordable Housing in

Atodiad 2 – Map o'r unedau rhent cymdeithasol ar draws y sir



Appendix 2 - RSL  
Property Locations 20

Atodiad 3 – Papur trafod Polisi Cynllunio ynghylch cynnyrch ecwiti a rennir a rhinweddau gwahanol gynlluniau



Appendix 3 -  
planning policy discus

Atodiad 4 – Map o'r eiddo gwag ar draws y sir



Appendix 5 - Empty  
Properties Map.pdf

Atodiad 5 – Aseiad risg y cynllun gwreiddiol



Appenedix 6 -  
Community Housing I

Atodiad 6 – Y weithdrefn ar gyfer y benthyciadau (pwerau)



Loans procedure-  
Community Housing S




# Affordable Housing in Ceredigion


## Affordable Properties

- Outstanding
- Complete

C A R D I G A N B A Y /  
B A E C E R E D I G I O N



# RSL LOCATIONS ACROSS CEREDIGION




**RSL Housing Locations**

- ★ Primary Road
- A Road
- B road
- Ceredigion Boundary

© Hawffraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2016 Arolwg Ordnans 100024419  
 © Crown copyright and database rights 2016 Ordnance Survey 100024419

Tudalen 50

### Tai Fforddiadwy a Phapur Trafod Ecwiti a Rennir



## Tabl Cynnwys

Geirfa.....	3
Rhestr o gynlluniau Tai Fforddiadwy sy'n gweithredu ar hyn o bryd (ddim yn gynhwysfawr).....	4
Myfyrdodau ar gynlluniau a llenyddiaeth.....	9
Polisi Tai fforddiadwy CDLI Ceredigion.....	10
Mathau o dai fforddiadwy Ceredigion .....	12
Casgliadau .....	13

## Rhestr termau

Nid yw pob term a ddefnyddir yn y papur hwn yn cael eu cyfeirio yma, dim ond rhai lle mae dryswch yn digwydd yn y llenyddiaeth:

Mae perchnogaeth a rennir yn cyfeirio at gynnyrch tai fforddiadwy lle mae prynwyr yn prynu cyfran o eiddo (fel arfer) 25% i 75% ac yn talu rhent enwol ar y gyfran sy'n weddill dros amser ac mae disgwyl y byddan nhw'n 'camu grisiau' hyd at berchnogaeth lawn, maen nhw hefyd yn gallu camu grisiau i lawr drwy werthu cyfranddaliadau nôl i LCC/ ALI.

Camu grisiau ayb yn fecanwaith lle gall deiliaid perchennog perchnogaeth a rennir / tai ecwiti a rennir brynu cyfranddaliadau ychwanegol o'r cartref y maent yn rhannol berchen arnynt.

Mae ecwiti a rennir yn derm dryslyd a ddefnyddir yn gyffredin i gynrychioli gwahanol fathau o berchnogaeth cartref cost isel (PCCI) fodd bynnag yng nghyd-destun y drafodaeth hon mae'n cael ei ddefnyddio i gynrychioli sefyllfa lle mae prynwr yn prynu 70% o eiddo (gall hyn amrywio) ac mae'r ALI/ LCC yn cadw ail dâl ar yr eiddo am y gwerth sy'n weddill (30%). – Pan fydd ailwerthu yn digwydd gall hyn eto fod i brynwr cymwys Tff ac mae'r ALI/LCC newydd gymryd gwerth cynnydd ecwiti eu cyfran (ei ailgylchu i RCG) ac mae'r un ail dâl yn parhau neu gall y perchennog gael ei ganiatáu i werthu ar y farchnad agored a'r ALI / LCC yn adennill eu tâl 30% am ailgylchu i Tff.

Mae Perchnogaeth Cartrefi Cost Isel (CCI) yn cyfeirio at bob math o dai fforddiadwy ond erbyn hyn mae'n cael ei ddefnyddio'n aml i ddisgrifio cynlluniau tai fforddiadwy traddodiadol lle mae eiddo priodol yn cael eu disgowntio drwy ddefnyddio S106 i ganran benodol, h.y. 30% fel y cynllun sy'n gweithredu gan yr ALI yng Ngheredigion.

# Tudalen 54

Polisi Cynllunio Papur Trafod Tai Fforddiadwy

Awst 2021

## Rhestr o gynlluniau Tai Fforddiadwy sy'n gweithredu ar hyn o bryd (ddim yn gynhwysfawr)

Enw cynllun	Disgrifiad o'r cynllun	Mecanwaith talu yn ôl	Peryglon	Pwy sy'n gweithredu cynllun
<b>Prynu Cartref (Cenedlaethol)</b>	Benthyciad ecwiti o 30% neu 50% i bobl a fyddai fel arall yn gymwys ar gyfer tai cymdeithasol i brynu eu cartref eu hunain	Ni chodir llog ar fenthyciad i ddeiliaid tai pan werthir tŷ 30% neu 50% o'r gwerth presennol yn cael ei dalu'n ôl i LCC	Dim mecanwaith camu grisiau – dim ond ar eiddo heb ostyngiad y gellir ei ddefnyddio	Cynllun gweithredu LCC drwy gyllid a sicrhawyd drwy ALL sydd â ffynonellau cyllid gan LIC - cyllid ar gyfer hyn dod i ben yn raddol
<b>Cartrefi o fewn cyrraedd (De Cymru yn unig)</b>	Benthyciad ecwiti o rhwng 50% a 10% o GMA yn cael ei ddal fel tâl ar yr eiddo	Gellir prynu bloc 10% ecwiti, neu brynu swm cyfan o ecwiti (ar ôl 3 blynedd) – hefyd gellir gwerthu ecwiti yn ôl os yw amgylchiadau'n newid a / neu eiddo cyfan ac aros fel tenant	Wedi'i reoli gan LCC uchel ei barch, ond dim ond ar gael mewn ardal fach – mae'n ymddangos fel pe bai galw mawr am y cynllun ond mewn gwirionedd nid oes mae nifer yr anheddau sydd ar gael yn gyfyngedig – mae llawer o bobl ar rhestr aros	LCC yn gweithio gyda ALL a chynlluniau adeiladwyr tai lleol a reolir gan grŵp LCC yn Ne Cymru
<b>Help i Brynu – Ecwiti a Rennir (cenedlaethol – mae capiau gwahanol yn cael eu gosod)</b>	Benthyciad Ecwiti a rennir o 20% o'r pris prynu	Llog am ddim am y 5 mlynedd gyntaf yna codir llog blyneddol o 1.75% sydd ynghlwm â'r Mynegai Prisiau Manwerthu - rhaid talu'r benthyciad yn ôl mewn 25 mlynedd neu pan fydd tŷ yn cael ei werthu – bydd swm a ad-dalwr yn amrywio yn seiliedig ar godiadau prisiau tai wrth i'r benthyciad cychwynnol gael ei osod fel canran o'r ecwiti - felly os yw prisiau tai yn codi yna felly hefyd y swm sy'n cael ei ad-dalu pan fydd tŷ yn cael ei werthu ochr yn ochr â llog a ffioedd rheoli	Gall ffioedd fod yn uchel, os yw prisiau tai yn gostwng y swm sy'n ddyledus o dan y cynllun ddim yn disgyn islaw'r hyn a fuddsoddwyd fel y gall rhai pobl ffugioeu hunain mewn ecwiti negyddol.	Llywodraeth Cymru'n cael ei rheoli drwy fenthycwyr

# Tudalen 55

<p><b>Help i Brynu – Gwarant Morgais (mae capiau cenedlaethol gwahanol yn cael eu gosod)</b></p>	<p>Darperir gwarant morgais i fenthycwyr gan y Llywodraeth - gan ganiatáu i brynwyr gael mynediad at forgeisi 95% - os ydynt yn methu ar y benthyciad mae'r llywodraeth yn gwarantu swm penodol felly mae hyn yn caniatáu i fenthycwyr gymryd risgiau mwy</p>	<p>Dim</p>	<p>Mae benthycwyr yn ddewisiol iawn ynglŷn â phwy i gynnig morgais er gwaethaf y gwarant mae'n gostus ac anodd iddynt adfer yr eiddo felly mae cyfyngiadau ar bwy sy'n gymwys yn dynn.</p>	<p>Llywodraeth Genedlaethol trwy fenthycwyr unigol</p>
<p><b>Newbuy (ar gael yn Lloegr yn unig)</b></p>	<p>Fe wnaeth y llywodraeth gefnogi cynllun indemniad morgais ar gyfer tai newydd - yn caniatáu i brynwyr brynu tŷ newydd gyda blaendal o 5%. Mae'r cynllun yn cael ei reoli er bod datblygwyr a benthycwyr yn gweithio gyda'i gilydd gyda phot indemniad felly os yw prynwyr yn methu ar y benthyciad mae'n cael ei warantu gan y llywodraeth. 3.5% o werthu pob tŷ yn cael ei roi yn indemniad i'r pot gan ddatblygwyr.</p>	<p>Dim</p>	<p>Ynghlwm wrth adeiladwyr / benthycwyr penodol nad yw'r rhan fwyaf yn gweithredu yn yr ardal hon. Cynllun tebyg i Helpu i Brynu Gwarant Morgais felly'n debygol o ddod i ben yn raddol - gall cyfraddau llog fod yn uchel ar y cynlluniau hyn gan eu bod yn gysylltiedig â rhai banciau felly ychydig o gystadleuaeth</p>	<p>HBF a CML</p>
<p><b>Persimmon Helping Hand et al (ar gael yn unig ar gynlluniau cyfaint adeiladwyr)</b></p>	<p>Mae prynwyr yn benthyc 85% (gall amrywio) pris tŷ a thalu Persimmon neu ddatblygwr arall y gweddill pan werthir y tŷ</p>	<p>3% (gall amrywio) llog yn cael ei godi'n flynyddol ar y gyfran ecwiti a gellir talu'r gyfran yn ôl ar unrhyw adeg ond rhaid ei dalu'n ôl wrth werthu eiddo.</p>	<p>Dim ond ar gael trwy adeiladwyr tai cyfaint does dim un ohonynt yn gweithredu yng Ngheredigion. Gall ffioedd fod yn uchel, cyfraddau llog yn uchel oherwydd bod rhaid mynd trwy Banc oedd yn cael ei 'ffafrio' gan yr adeiladwr.</p>	<p>Adeiladwr cyfaint unigol h.y. Cartrefi Persimmon / Barrett's/ Taylor Wimpey ac ati</p>

# Tudalen 56

<p><b>Rhan-berchenogaeth</b></p>	<p>Mae prynwyr yn prynu rhwng 25% a 75% o gyfran o dŷ, mae LCC yn berchen ar rent cyfranddaliadau a thaliadau eraill (a osodwyd ar 3%) ar weddill y gyfran – dros amser yn gallu prynu mwy o gyfran neu werthu rhai cyfranddaliadau yn ôl i LCC</p>	<p>Dim – ond gall prynwyr gamu grisiau i fod yn berchen ar gyfran fwy o'r eiddo dros amser – mae cynlluniau'n amrywio gan LCC / Datblygwr</p>	<p>Mae gwerth y gyfran wedi'i osod ar adeg ei werthu felly mewn marchnad prisiau tai sy'n gostwng gall llawer o rhan-berchnogion fod mewn ecwiti negyddol ac yn methu gwerthu eu cyfran</p>	<p>Rheoli trwy LCC a rhai datblygwyr preifat hefyd yn cynnig cynlluniau a rennir yn breifat - mae cynllun cenedlaethol yn bodoli ond mae'n ddibynnol ar bartner sy'n darparu'r system ac mae rhywfaint o amharodrwydd wedi bod ymhlith LCC preifat datblygwyr</p>
<p><b>Social HomeBuy (ddim ar gael yng Nghymru)</b></p>	<p>Caniatáu i bobl brynu cyfran o 25% o'r tŷ cymdeithasol maen nhw'n byw ynddo</p>	<p>Rhaid i ymgeiswyr fyw mewn tŷ cymdeithasol sy'n cael ei reoli gan y Cyngor neu'r LCC sydd wedi ymrwymo i'r cynllun ac wedi byw yn y tŷ am o leiaf 5 mlynedd bydd yn rhaid iddynt brynu cyfran o 25% a thalu rhent ar weddill y tŷ (sybsideiddio) yna camu grisiau i fyny dros amser</p>	<p>Mae'r cyfranddaliadau'n cael eu gwerthuso ar adeg eu prynu felly byddant yn amrywio dros amser a gallant fod yn sylweddol uwch ar gyfer yr ail a'r trydydd gyfran na'r cyntaf.</p>	<p>LCC</p>
Polisi cenedlaethol a ddeddfwyd o dan Orchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20 mya) (Cymru) 2022 (a gymeradwywyd gan y Senedd ym mis Gorffennaf 2022) a Llwybr Newydd cysylltiedig: strategaeth drafnidiaeth Cymru (2021) a Chynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022-2027.

Gweler hefyd

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/llwybr-newydd-strategaeth-drafnidiaeth-cymru-2021-symudedd-strategaeth-lawn.pdf>

a

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-02/cynllun-cyflawni-cenedlaethol-ar-gyfer-trafnidiaeth-2022i2027.pdf>

## Tudalen 195

<b>Amcanion Llesiant Corfforaethol:</b>	Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach Rhoi'r Cychwyn Gorau mewn Bywyd a Galluogi Dysgu Ym mhob Oed Creu Cymunedau Gwyrdd, Cynaliadwy â Chysylltiadau Da
<b>Goblygiadau Cyllid a Chaffael:</b>	Bydd yr holl gostau sefydlu cyfalaf yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru drwy gyllid grant a gafwyd ar gyfer blynyddoedd ariannol 2021/22 a 2022/23. Bydd gwaith cynnal a chadw yn cael ei ariannu drwy gyllideb flynyddol Cynnal a Chadw Priffyrdd Refeniw
<b>Goblygiadau Cyfreithiol:</b>	Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1996, ynghyd â diwygiadau.
<b>Goblygiadau staffio:</b>	Cyfrifoldeb yr Heddlu fydd gorfodi'r trefniadau terfyn cyflymder newydd arfaethedig
<b>Goblygiadau eiddo / asedau:</b>	Bydd arwyddion a marciau ffordd newydd yn dod yn Asedau Priffyrdd i'w harolygu a'u cynnal a'u cadw yn y dyfodol.
<b>Risg(iau):</b>	Rhaid gosod pob arwydd newydd cyn y newid i'r terfyn cyflymder cenedlaethol ar Fedi 17 <sup>eg</sup> , 2023, a rhaid gosod marciau cylchol terfyn cyflymder marc ffordd newydd o fewn 6 mis ar y mwyaf ar ôl y newid.
<b>Pwerau Statudol:</b>	Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984
<b>Papurau Cefndir:</b>	Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Terfynau Cyflymder 20 mya, 30 mya, 40 mya a 50 mya a Ffyrdd Difyfyngiad) (Cydgrynhoi) 2014 (Amrywiol Leoliadau yn Newid i'r Terfyn Cyflymder Cenedlaethol) (Gorchymyn Diwygio Rhif 23) 2023
<b>Atodiadau:</b>	<b>Atodiad 1</b> – Linc: <a href="https://www.ceredigion.gov.uk">Newidiadau i'r Terfyn Cyflymder Cenedlaethol (ceredigion.gov.uk)</a> (Map Electronig yn dangos maint yr holl derfynau cyflymder presennol ac arfaethedig, ynghyd â thaenlen rhif lleoliad. (Argymhellir ei agor naill ai yn Microsoft Edge, Chrome, neu Firefox) <b>Atodiad 2</b> – Ymatebion i'r ymgynghoriad ag atebion a argymhellir oddi wrth Swyddogion. <b>Atodiad 3</b> – Asesiad Effaith Integredig
<b>Swyddog Arweiniol Corfforaethol:</b>	Rhodri Llwyd, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol
<b>Swyddog Adrodd:</b>	Tom Delph-Janiurek
<b>Dyddiad:</b>	11/05/23

**Crynodeb o'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion sydd wedi'u cynnwys yn y newid cenedlaethol i'r terfyn cyflymder**

Mae rhywfaint o destun yn y gwrthwynebiadau wedi'i olygu i ddiogelu hunaniaethau unigol. Mae cyfeirnod wedi'i ddyrannu i bob gwrthwynebiad. Mae ceisiadau am estyniadau/ychwanegiadau i'r trefniadau terfyn cyflymder newydd arfaethedig wedi'u hystyried yn wrthwynebiadau i'r cynigion.

Mae ymatebion a argymhellir i bwyntiau a godwyd mewn gohebiaeth ac argymhellion ar gyfer pob lleoliad mewn **print trwm** o dan y gwrthwynebiadau. Bydd yr ymatebion hyn yn sail i ymatebion ffurfiol i ohebiaeth, gan roi gwybod i'r cyhoedd o ganlyniad eu gwrthwynebiadau a'u ceisiadau.

---

**A484**

1.

*Rwy'n gwrthwynebu cyflwyno terfynau cyflymder newydd ar yr A484.*

*Bydd y gostyngiad cyflymder yn gost ychwanegol ar gyfer ffordd fawr sydd eisoes yn ddiogel.*

**Argymhellir diystyru'r gwrthwynebiad hwn. Nid yw'n glir yn union pa gynigion ar gyfer yr A484 a allai fod yn destun y gwrthwynebiad hwn, gan fod y ffordd yn ymestyn o Aberteifi i Genarth. Fodd bynnag, mae terfynau 20mya newydd arfaethedig yn Llechryd a Chenarth yn cynnwys rhannau o ffordd lle mae cofnodion o 6 gwrthdrawiad yn ymwneud ag anafiadau personol (PICau) yn ystod y 5 mlynedd diweddaraf.**

---

**ADPAR**

2.

*Hoffwn wrthwynebu eich cyfyngiad 20mya yn enwedig yn Adpar.*

*1. Does dim rheswm am wneud hyn gan nad oes llawer o ddamweiniau yno.*

*2. Os ydych yn byw mewn eiddo sy'n wynebu ffordd A neu ffordd B yna dylech ymddwyn yn gyfrifol ac ildio i draffig sydd eisoes ar y ffordd.*

*3. Dylai beicwyr gadw at y gyfraith. Ni ddylid caniatáu torri allan o lonydd cefn neu ffyrdd ymyl wrth wneud ystumiau i yrwyr.*

*4. Bydd llygredd aer yn cynyddu gan fod cerbydau wedi'u dylunio i weithio'n fwy effeithlon ar 30 mya.*

## Tudalen 197

5. Dylid atgoffa cerddwyr nad yw terfynau cyflymder a baentiwyd ar y ffordd gerbydau yn gyfystyr â chroesfan i gerddwyr. Mae nhw'n ei drin felly nawr. Gyda hawliau daw cyfrifoldeb, a byddaf yn parhau i yrru'n ddiogel ac yn disgwyl i ddefnyddwyr eraill y ffyrdd wneud yr un peth.

**Argymhellir diystyru'r gwrthwynebiad hwn. Mae'r newid arfaethedig yn rhan o bolisi cenedlaethol yng Nghymru ac mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd yn cynyddu diogelwch ac nid yn cynyddu llygredd aer. Yr heddlu sy'n gyfrifol am orfodi holl ddefnyddwyr y ffyrdd sy'n gweithredu gyda'r gofal a'r sylw dyledus ar briffyrdd cyhoeddus.**


---

### **BOW STREET**

3.

*Mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig i'r terfyn cyflymder ar y ffordd rhwng Bow Street a Chlarach, hoffwn awgrymu y dylid gostwng y terfyn cyflymder cenedlaethol i 40mya ar y darn rhwng y ddau barth terfyn cyflymder 20mya arfaethedig newydd ym mhen Bow Street a Chlarach Llangorwen. Nid yw'r ffordd yn addas ar gyfer gyrru dros 40mya oherwydd troadau sy'n effeithio ar welededd a lled y ffordd. Byddai lleihau'r terfyn cyflymder yn annog pobl leol i feicio a cherdded ar hyd y llwybr pwysig hwn i'r arfordir ac yn lleihau'r gwahaniaeth mawr rhwng parth 20mya a pharth 60mya dros lai na milltir o ffordd.*

*Yn ogystal, o ystyried bod eiddo preswyl ychydig y tu allan (~50m) i'r parth 20mya a gynigir ar hyn o bryd ym mhen Bow Street i'r ffordd hon, byddai'n gwneud synnwyr i ymestyn y parth 20mya i gynnwys yr eiddo hwnnw er mwyn peidio ag eithrio rhai trigolion o'r manteision diogelwch i blant sy'n cerdded neu'n beicio i'r maes chwarae i fyny'r ffordd ger y bont dros y rheilffordd, drws nesaf i Frynecastell.*



Argymhellir gwrthod y ceisiadau hyn am y rhesymau a ganlyn. Cynllun Llywodraeth Cymru yw gostwng y terfynau 30mya presennol i 20mya (fel y dangosir mewn coch uchod), felly mae'r rhan o'r ffordd rhwng Bow Street a Chlarach sy'n destun terfynau cyflymder cenedlaethol ar hyn o bryd y tu allan i'r cwmpas ac ni ellir ei gynnwys. Bydd y rhan hon o'r ffordd yn cael ei chynnwys yn yr adolygiad a ragwelir o derfynau cyflymder yn unol â chanllawiau newydd Llywodraeth Cymru unwaith y bydd hwn wedi'i gyhoeddi.

Byddai ymestyn y cyfyngiad 20mya arfaethedig ym mhen Bow Street i gynnwys un fynedfa breifat yn golygu cynnwys rhan 'wag' heb unrhyw ddatblygiad adeiladu o flaen y ffordd, ac felly gallai fod yn debygol o danseilio parch at y terfyn oherwydd diffyg atgyfnerthiad gweledol ar gyfer yr angen. Argymhellir felly bod y trefniant terfyn cyflymder ar gyfer y fynedfa hon yn cael ei gynnwys yn yr adolygiad a ragwelir.

## BORTH

4.

*Hoffwn gofrestru fy ngwrthwynebiad i'r gostyngiad arfaethedig i'r terfyn cyflymder drwy Borth o 30mya i 20mya. Mae hyn yn ymddangos yn beth cyffredinol dros Gymru gyfan ac yn cael ei orfodi mewn modd mympwyol i weld. Mae i fod ar sail diogelwch ond yn Borth nid ydym wedi cael damwain angheuol o fewn terfynau'r pentref ers 40 mlynedd.*

## Tudalen 199

*Roedd yr un olaf yn blentyn 5 oed (Keith Farnell) a neidiodd allan o gar ei riant a rhedeg ar draws y ffordd i mewn i lwybr cerbyd arall adeg Nadolig 1983. Mae eisoes yn anodd cadw busnesau i fynd yn y pentref hwn, yn enwedig gan fod y tymor twristiaeth mor fyr erbyn hyn. Mewn gwirionedd, mae hon yn broblem ledled Cymru, a bydd ei gwneud hi'n anos teithio, a gwneud i deithio gymryd fwy o amser, yn cael effaith andwyol ar ein heconomi sydd eisoes mewn cyfnod anodd. Ffordd breifat yw fy nghartref fy hun yng Nghaewern, Glanwern, Borth mewn gwirionedd ond mae'n ymddangos ei fod wedi'i gwmpasu gan eich cynnig cyffredinol ar y mapiau a bostiwyd o amgylch y pentref. Nid yw'n ffordd gyhoeddus felly mae'n debyg na ddylid ei chynnwys? Mae'r ffordd yn rhy fyr iddo wneud unrhyw wahaniaeth ond mae cyfreithiwr wedi dweud wrthyf nad oes gan Geredigion awdurdodaeth drosto.*

5.

*Rwy'n synnu bod angen imi gofrestru fy ngwrthwynebiad i'r gostyngiad arfaethedig i'r terfyn cyflymder drwy Borth o 30mya i 20mya. Mae'r cynnig yn ymddangos yn beth cyffredinol dros Gymru gyfan ac yn cael ei orfodi mewn modd mympwyol i weld. Rwyf eisoes wedi ysgrifennu at fy nghynrychiolydd yn y Senedd, Elin Jones, mewn perthynas â hyn, gan ddatgan f'anfodlonrwydd.*

*Rwyf wedi cael gwybod nad ydym wedi cael damwain angheuol o fewn terfynau'r pentref ers 40 mlynedd. Roedd yr un olaf yn blentyn 5 oed (Keith Farnell) a neidiodd allan o gar ei riant a rhedeg ar draws y ffordd i mewn i lwybr cerbyd arall adeg Nadolig 1983. Wnelo hyn ddim llawer â chyflymder, ond yn hytrach rhedodd plentyn i draffig pan roedd ceir wedi'u dylunio'n wahanol ac yn fwy cadarn.*

*Mae eisoes yn anodd cadw busnesau i fynd yn y pentref hwn, yn enwedig gan fod y tymor twristiaeth mor fyr erbyn hyn. Mewn gwirionedd, mae hon yn broblem ledled Cymru, a bydd ei gwneud hi'n anos teithio, a gwneud i deithio gymryd fwy o amser, yn cael effaith andwyol ar ein heconomi sydd eisoes mewn cyfnod anodd.*

*Gobeithiaf y byddwch yn ailystyried hyn o ddifrif ar lefel leol a rhanbarthol er mwyn atal Cymru rhag dod yn gartref ymddeol yn unig i'r rhai mwy ffodus, tra bod y dosbarth gweithiol, sy'n gyrru drwy'r dydd, yn colli naill ai amser gyda'u teuluoedd neu'n cael eu cosbi, yn ariannol, am yr amser ychwanegol y bydd angen iddynt ei dreulio yn gyrru fel pe baent ar reid maes chwarae.*

6.

*Rwyf wedi byw yn Borth ar hyd fy oes. Rwyf wedi gweithio yma yn briod ac yn awr mae fy mhlant a'm hwyrion yn byw yn agos i ni. Nid wyf erioed wedi cwestiynu polisiau'r Cyngor a'r Llywodraeth. Ond nawr mae'r cyfyngiad cyflymder newydd chwerthinllyd hwn y tu hwnt i gred...!! Bydd yn rhaid i chi ddisgyn i gêr sy'n 'refio' mwy i gynnal y cyflymder hwnnw o 20mya... gan greu mwy o lygredd mewn ardal adeiledig.. Bydd y cloc cyflymder yn tynnu eich sylw drwy wyllo'ch cyflymder yn gyson... Synnwyr cyffredin yw'r unig beth sydd ei angen wrth yrru trwy bentref... yn amlach na pheidio dydych chi ddim yn gwneud 30 mya beth bynnag... Ond mae gorfodi'r*

## Tudalen 200

*rheoliad cyflymder is hwn arnom yn annheg a bydd yn sicr yn anodd i rai busnesau trafndiaeth a llawer o rai eraill.  
Ailystyriwch os gwelwch yn dda.*

**Argymhellir diystyru'r 3 gwrthwynebiad hyn. Mae'r cynnig ar gyfer Borth yn rhan o gynllun cenedlaethol ledled Cymru sy'n cael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru. Mae cofnodion o 3 PIC yn y Borth o fewn y 5 mlynedd diwethaf.**

**Mae ymchwil a gynhaliwyd ar derfynau 20mya yn Llundain ac mewn mannau eraill yn dangos bod cyfraddau allyriadau ar eu huchaf pan fydd cerbydau'n cyflymu, a cherbydau'n treulio mwy o amser yn cyflymu o fewn terfynau 30mya nag mewn terfynau 20mya. Daeth yr ymchwil i'r casgliad y byddai'n anghywir rhagdybio y byddai cyfyngiad cyflymder o 20mya yn niweidiol i ansawdd aer lleol yr amgylchedd, er bod cyfraddau allyriadau'n amrywio yn dibynnu a yw cerbydau'n cael eu pweru gan betrol neu ddisel.**

**Ynglŷn â Chae Wern, mae gan yr Awdurdod bŵer cyfreithiol i gynnig Gorchmynion Rheoleiddio Traffig ar ffyrdd heb eu mabwysiadu os yw'r rhain i'w gweld yn barhad o'r briffordd gyhoeddus a'u bod yn cael eu defnyddio'n rheolaidd gan y cyhoedd (gan gynnwys ar gyfer danfoniadau post/cludwyr ac eraill i gartrefi, gan ymwelwyr ac ati). Mae Cae Wern wedi'i gynnwys mewn Gorchmynion Rheoleiddio Traffig blaenorol ac ar hyn o bryd mae'n destun terfyn cyflymder o 30mya, i gydgyssylltu â'r terfyn cyflymder ar y B4353 wrth ei chyffordd. Pe na bai'n cael ei gynnwys, efallai mai'r dewis arall fyddai gosod arwyddion sy'n nodi bod y ffordd yn destun terfynau cenedlaethol i sicrhau y gellir gorfodi'r terfyn cyflymder ar y B4353 yn gyfreithiol, a fyddai'n ddewis llai derbyniol i drigolion yn ôl pob tebyg.**

### **BORTH UCHAF**

7.

#### **Adolygiad arfaethedig o gyfyngiadau cyflymder pentref Borth**

*Nodwn fod rhai cyfyngiadau cyflymder o fewn y pentref i'w tynhau ac rydym yn cefnogi'r mesurau hyn a hefyd yn meddwl y gallai fod yn ychwanegiad defnyddiol ar rai mannau yn y Stryd Fawr.*

*Byddem hefyd yn annog y Cyngor i ystyried ymestyn y terfyn cyflymder 30mya ar y ffordd tuag at Clarach i bwynt y tu hwnt i'r allanfa o faes Carafannau Brynrodyn a Lôn Brynrodyn. Rydym yn defnyddio'r allanfa hon yn rheolaidd i ffordd Clarach ac yn cael ei chael hi'n anodd ei defnyddio'n ddiogel. Mae'r olygfa o gerbydau yn dod yn gyflym o gyfeiriad Clarach yn cael ei guddio gan dir yn codi, a hynny o gyfeiriad pentref Borth gan dro i'r chwith yn y ffordd.*

*Gobeithiwn y bydd y Cyngor yn gallu rhoi rhywfaint o ystyriaeth i'r awgrymiadau hyn.*



8.

*Rydym yn croesawu'n fawr y cynigion i osod cyfyngiadau newydd ym mhentref Borth, gan fod problemau mawr ar hyn o bryd o ran llif traffig, goryrru, parcio ac ati yn enwedig yn ystod cyfnodau gwyliau pan fo niferoedd ymwelwyr yn cynyddu'n aruthrol a tagfeydd (ac ymddygiad moduro gwael) yn gallu digwydd yn aml.*

*Yn ogystal, rydym yn arbennig o bryderus am beryglon gadael i'r Ffordd Borth - Clarach (B4572) yn ardal Parc Carafannau Bryn yr Odyn. Rydym yn croesawu cynigion newydd i symud yr arwydd 30mya presennol yn uwch i fyny'r ffordd fel ei fod yn cael ei osod 50m i'r de o fynedfa'r maes carafannau – ond yn gweld hyn yn annigonol am y rhesymau a ganlyn. Dylid nodi bod gan ein ffordd allanfa i'r B4572, a adwaenir yn anffurfiol fel Bryn yr Odyn Lane, 9 preswylfa, wedi'i tharmacio ond heb ei mabwysiadu gan y cyngor ac yn rhedeg gyfochrog â mynedfa Parc Carafannau Bryn Rodyn ar ochr ogleddol/pentref y Borth.*

*Rhesymau:*

- 1. Nid yw'n bosibl gadael y Maes Carafannau na Lôn Bryn yr Odyn yn ddiogel oherwydd y bryn serth iawn, sef lleoliad yr allanfeydd hyn arno (mae'n debyg 1 mewn 4 neu hyd yn oed 1 mewn 3 mewn manau).*
- 2. Er bod yr allanfeydd hyn wedi'u lleoli ar ychydig fetrau o dir gwastad, i'r de mae darn hir o allt serth, gyda gwrychoedd uchel ac, yn union cyn yr allanfeydd, tro yn y ffordd. Mae'n amhosib gweld traffig yn dod tuag atoch (neu fel arall), ac o bryder arbennig yw'r beicwyr sy'n mwynhau reidio ar gyflymder ofnadwy i lawr yr allt ac a fyddai'n methu stopio pe bai car yn tynnu allan o'n lôn. Byddai'r un peth yn wir am gar oni bai eu bod yn brecio'n sydyn yr holl ffordd i lawr yr allt.*
- 3. Mae risgiau/peryglon tebyg wrth adael ein lôn o ochr Borth/gogledd gan ei bod yn amhosib gweld dim yn dod i fyny'r allt o'r pentref nes ei fod bron ar ein pennau. Rydym wedi byw yn y cyfeiriad hwn ers 17 mlynedd. Mae trigolion eraill wedi byw yma hyd yn oed yn hirach. Mae ein gallu i adael ein lôn yn bryder parhaus, er ein diogelwch ein hunain a diogelwch eraill. Mae trigolion sy'n adnabod yr ardal yn tueddu i gymryd y bryniau'n gyflym; ymwelwyr yn aml yn fwy gofalus. Y naill ffordd neu'r llall, fodd bynnag, mae'n beryglus tynnu allan oherwydd mae'n amhosibl gwybod beth sy'n agosáu i'r naill gyfeiriad neu'r llall felly mae'n dod yn fater o lwc neu fel arall yn ddamwain yn aros i ddigwydd.*


*Os bydd y Cyngor yn symud y 30mya y tu hwnt i'r fynedfa i Faes Carafannau Bryn Rodyn dim ond 50 metr i'r de, fel y cynigir, mae hyn i'w groesawu, ond yn ei hanfod yn annigonol. Mae angen mwy na 50 metr i osod yr arwydd fel bod modd rhoi sicrwydd y bydd defnyddwyr y ffordd yn arafu. Mae angen cynyddu'r pellter hwn yn sylweddol; hefyd awgrymwn osod arwyddion rhybudd yn llawer uwch i fyny'r allt i gyfeiriad Clarach, a thwmpathau cyflymder i lawr yr allt serth i'r gogledd ac i'r de o Faes Carafannau Bryn Rodyn a'n lôn wrth ei ymyl – Lôn Bryn yr Odyn.*

*Dylid nodi hefyd fod datblygiad tai newydd sylweddol gydag allanfa i'r B4572/Clarach Rd yn ei gyfnod ymgynghori terfynol. Mae'r datblygiad hwn i'w leoli yn union islaw Lôn Bryn yr Odyn a bydd yn gadael i safle'r arwydd 30mya presennol.*

## Tudalen 202

Byddwn yn ddiolchgar pe gellid nodi'r sylwadau hyn. Rwyf hefyd wedi nodi fy mhryderon drwy gysylltu â'r Cyngor dros y ffôn ar y rhif Aberaeron.

Diolch yn fawr.



**Argymhellir diystyru'r 2 wrthwynebiad hyn, a gweithredu'r terfyn clustogi 30mya fel y cynigir.**

**Y cynnig yma yw darparu terfyn clustogi o 30mya ar ddynesiad i lawr yr allt i'r terfyn 20mya newydd a fydd yn cwmpasu Borth. Bydd y terfyn clustogi yn cynnwys y cyffyrdd/mynediadau i Frynrodyn. Nid oes hanes o unrhyw Wrthdrawiadau Anaf Personol (PICau) ar y rhan o'r ffordd dan sylw o fewn y 10 mlynedd diweddaraf. Mae ymestyn y glustogfa 30mya bwriedig ymhellach allan ar ddarn 'gwag' o'r ffordd yn debygol o danseilio parch at y terfyn newydd oherwydd diffyg datblygiad adeiladu ac felly atgyfnerthiad gweledol ar gyfer yr angen am gyfyngiad.**

**Bwriad Llywodraeth Cymru yw gostwng y terfyn cenedlaethol i 20mya heb unrhyw arafu traffig ffisegol newydd, y nod yw annog newid yn niwylliant gyrrwyr.**

9.

*Annwyl Syr/Fadam,*

*Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i derfynau cyflymder ffyrdd diogelwch yn gyffredinol ond ni welaf fantais gosod trefn mor eang â'r un a gynigir. Mae'r cyfyngiad 30mya mewn ardaloedd adeiledig wedi ein gwasanaethu'n dda ers degawdau. Heriaf y ffigurau a ddefnyddiwyd. Rwyf yn siŵr nad ydynt wedi'u lleoli'n lleol ond yn hytrach ar raddfa lawer ehangach a chenedlaethol, gan gwmpasu amrywiaeth o amgylcheddau gyrru. Credaf y gallai'r cynllun hwn mewn gwirionedd gynyddu damweiniau oherwydd nad yw gyrrwyr yn rhoi digon o sylw i'w gyrru. Dyma'r datrysiad - gyrru'n ddiogel. Nid yw hyn yn gyfyngedig i gyflymder yn unig, ond i lawer o ffactorau eraill megis sylw, profiad, gofal ac ati. Ffactor arall yw'r pellter rhwng cerbydau. Does dim gwahaniaeth os yw gyrrwr yn gyrru ar gyflymder 30, 20, 15, 10 neu 5mya. Os yw ef neu hi yn rhy agos, fe fydd damwain. Os bydd gyrrwr yn bacio i mewn i berson sy'n cerdded y tu ôl i'w gar ac yn eu lladd, nid oes a wnelo hynny ddim â chyflymder. Gallai'r cynllun hwn achosi tagfeydd traffig ac ati. Pe bai plismona'n mynd yn rhy feichus byddai ymateb cryf gan y cyhoedd fel y clywaf eisoes yn digwydd yn Llandudoch. Gwell bod yr heddlu wedi gwirio'r 30mya sydd eisoes yn ei le. Ni fydd UNRHYW BETH yn atal gyrru PERYGLUS. Nid yw'r bobl hyn yn cael eu cosbi, tra bod gyrrwyr diogel yn gorfod dioddef. Mae'n anodd iawn cadw car modern i 20mya. Rwy'n cytuno bod angen hyn mewn rhai lleoedd e.e. Stryd Fawr ac ati. NID YW ARAF YN GOLYGU DIOGEL.*

*Dyna fy marn i. Mae cymaint o leoedd lle mae gyrru diogel yn golygu 10mya neu 15mya. Ydych chi'n mynd i orfodi'r 5mya yn y Ganolfan Integredig?*

**Argymhellir diystyru'r gwrthwynebiad hwn. Mae'r newid arfaethedig yn rhan o bolisi cenedlaethol yng Nghymru ac mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd yn cynyddu diogelwch ac nid yn cynyddu tagfeydd neu llygredd aer. Yr heddlu sy'n gyfrifol am orfodi ar briffyrdd cyhoeddus, ac nid yw'n cynnwys gosod arwyddion terfyn cyflymder ar eiddo oddi ar y briffordd cyhoeddus.**

---

### CILIAU AERON

**10. Sylwer bod yr ohebiaeth hon wedi dod i law ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori cyhoeddus.**

*Rwy'n ysgrifennu am y newid arfaethedig i'r terfyn cyflymder yn adran 152.1 o 40mya i 20mya. Rwy'n gefnogol iawn i hyn...ychydig y tu allan i'r parth hwn ar hyd yr A482 mae ceir yn aml yn defnyddio'r rhan syth o'r ffordd fel cyfle i gyflymu cyn i'r ffordd gulhau yn Felin Tyglyn - yn aml mae damweiniau a fu bron â digwydd yma ac i'r gwrthwyneb hefyd, cyflymu hyd at y pentref ac yna brecio. Mae'r newid cyflymder*

## Tudalen 204

o 60mya ar y rhan hon o'r ffordd i'r 20mya arfaethedig yn digwydd ar gornel ger y pentref, ac nid yw'r arwyddion cyflymder yn hawdd i'w gweld. Roeddwn yn gobeithio gwneud sylw fel a ganlyn:

1. Awgrym i symud y parth 20mya fel ei fod yn weladwy ar hyd ochr syth yr A482
2. Gwell fyth cael parth 20mya neu gyfyngiad cyflymder rhwng 60mya ac 20mya, mor isel os oes modd - does dim palmentydd.
3. Gwell fyth i'r gymuned fyddai cael terfyn cyflymder is rhwng Felin Tyglyn a'r pentref. Mae'n rhaid i geir arafu yma i un ffeil wrth i'r ffordd gulhau. Byddai cynnal terfyn cyflymder is (na 60mya) o'r pwynt hwn yn helpu i hyrwyddo llwybrau diogel i gerddwyr - mae llawer yn cerdded ar hyd y ffordd hon, yn enwedig i fynd â chŵn am dro. Byddai'n golygu na fydd gyrwyr yn mynd o 60mya i 20mya ar gornel ddall ger y pentref hefyd.

Rwy'n gobeithio bod hynny'n gwneud synnwyr ond byddwn yn hapus iawn i egluro dros y ffôn neu fel arall os oes angen.

Diolch i chi am eich ystyriaeth



Argymhellir diystyru'r gwrthwynebiad hwn. Mae ymestyn y cyfyngiad 20mya bwriedig ymhellach tua'r gogledd ar ddarn 'gwag' o'r ffordd yn debygol o danseilio parch at y terfyn newydd oherwydd diffyg datblygiad adeiladu ac felly atgyfnerthiad gweledol ar gyfer yr angen am gyfyngiad. Mae gwelededd digonol ar yr arwyddion terfynell yn eu lleoliad presennol, felly ni ystyriwyd bod unrhyw gyfyngiad clustogi yn briodol pan ddatblygwyd y cynnig ar ei gyfer yma. Nid oes unrhyw gofnodion o unrhyw PICau ar y rhan hon o'r ffordd o fewn y 10 mlynedd diwethaf.

Sylwch y cafwyd cytundeb penodol gan Lywodraeth Cymru i gynnwys rhannau o derfynau 40mya presennol o fewn y cynllun hwn yng Nghiliau Aeron a Felinfach oherwydd presenoldeb ysgolion. Bydd y terfynau hyn yn amodol ar newidiadau posibl, yn dilyn y bwriad i gau'r ysgol yng Nghiliau Aeron ar hyn o bryd, a'r datblygiad arfaethedig ar gyfer yr ysgol newydd yn Felin-fach.

---

### DIHEWYD

11.

*Ysgrifennaf i wrthwynebu'r cyfyngiad cyflymder o 20mya yn fy mhentref, DIHEWYD SA48 Ceredigion ac ar draws Cymru gyfan, fel y gwahoddwyd i wneud hynny ar Hysbysiadau sydd yn y pentref ar hyn o bryd. Mae hysbysiadau wedi'u postio'n ddiweddar yn fy mhentref i, DIHEWYD, yn amlinellu manylion lleoliad y terfyn 20mya newydd arfaethedig yn y pentref.*

*Mae'r pentref yn fach ac wedi'i wasgaru ac nid yw'r lefel hynod isel o draffig a cherddwyr yn y pentref gwledig iawn hwn yn gwarantu cyfyngiad 20mya MEWN UNRHYW FFORDD. Mae tu hwnt i unrhyw lefel o reswm a synnwyr cyffredin. Byddai unrhyw berson rhesymol yn cytuno y byddai cost cyflwyno'r terfyn cyflymder hwn yn Dihewyd a'r terfyn cyflymder gostyngol ei hun o unrhyw fudd o gwbl i drigolion DIHEWYD. Yn amlwg, yr unig eithriad fyddai'r ardal o briffordd gyhoeddus yn union y tu allan i'r ysgol fach yn y pentref ac unwaith eto, mae unrhyw berson rhesymol yn annhebygol o wrthwynebu cyfyngiad 20mya y tu allan i ysgolion, colegau ac ysbytai ledled Cymru, nac unrhyw leoliad yng Nghymru lle mae niferoedd mawr o bobl yn ymgasglu.*


*A dweud y gwir, mae'r un sylwadau hyn yn berthnasol ledled Cymru. Diolch byth, yng Ngheredigion, nid oes gennym unrhyw ddinasoedd mawr ac mae cyfraddau damweiniau ffyrdd mewn ardaloedd adeiledig yn isel, felly mae'n anodd deall y rheswm a'r rhesymeg y tu ôl i gost enfawr cyflwyno'r terfyn yng Ngheredigion a'r terfyn 20 mya ei hun. Mewn dinasoedd mawr yng Nghymru, bydd y terfyn 20mya yn achosi mwy o dagfeydd, yn gwneud amseroedd teithio yn hirach, sy'n golygu bod injans ceir yn rhedeg yn hirach gyda dirywiad yn ansawdd aer mewn dinasoedd o ganlyniad, gan arwain at fwy o farwolaethau o glefydau anadlol ledled Cymru. Mae'n ffaith hefyd nad oes unrhyw gerbyd modern wedi'i gynllunio i gael ei yrru ar gyflymder o 20mya am gyfnodau hir ac y bydd cerbydau sy'n cael eu gyrru ar gyflymder mor isel ond yn allyrru mwy o fygdarthau a llygredd, gan nad ydynt yn cael*

## Tudalen 206

*eu gyrru'n effeithlon, sydd eto'n arwain at ansawdd aer gwaeth mewn dinasoedd a threfi ledled Cymru. O gofio mai nod datganedig Llywodraeth Cymru yw gwella ansawdd aer i bobl Cymru, yn eironig, bydd y polisi hwn o leihau terfynau cyflymder mewn ardaloedd preswyl yn cael yr union effaith i'r gwrthwyneb; nid yw'n ymddangos fel bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried hyn.*

*Mae'n wir hefyd na chynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad llawn a helaeth ledled Cymru, na chynnal pleidlais ddemocrataidd i bobl Cymru, cyn gwneud y penderfyniad i gyflwyno'r terfyn hwn. Nid oes dim byd democrataidd ynglŷn â'r penderfyniad hwn, mae'n cael ei orfodi heb ymgynghori â phobl Cymru. Deallaf hefyd fod cost y newid hwn ledled Cymru yn fwy na £30 miliwn ac oddeutu £400,000 i Geredigion yn unig. Unwaith eto, fel y byddai unrhyw berson rhesymol yn cytuno, gallai'r symiau sylweddol hyn gael eu gwario'n well ar wasanaethau cyhoeddus pwysig, yn enwedig y GIG, sydd fel y gwyddom, mewn cyflwr peryglus, gydag amseroedd aros uwch nag erioed i gleifion. Yn sicr, mae'n gwneud llawer mwy o synnwyr i wario'r arian hwn ar wasanaethau cyhoeddus hanfodol a fydd o fudd i bobl Cymru, yn hytrach na chynllun mor ddrud a difeddwl, nad oes ganddo unrhyw fudd diriaethol o gwbl i bobl Cymru, fel y byddai unrhyw berson rhesymol yn cytuno.*

*Hyderaf y byddwch yn ystyried yn ofalus fy ngwrthwynebiad i'r terfyn hwn yn fy mhentref fy hun, DIHEWYD. Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb gyda chyfiawnhad Cyngor Ceredigion dros osod y terfyn yn DIHEWYD, o gofio'r gost a'r ffaith nad oes unrhyw fudd diriaethol i drigolion DIHEWYD. Diolch yn fawr.*



Argymhellir diystyru'r gwrthwynebiad hwn. Mae'r newid arfaethedig yn rhan o bolisi cenedlaethol yng Nghymru ac mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd yn cynyddu diogelwch ac na fydd yn cynyddu tagfeydd na llygredd aer, ac y bydd yn gost-ffeithiol oherwydd y gostyngiad mewn costau i'r genedl a ddaw yn sgil cyfraddau anafiadau llai, a rheiny'n llai difrifol. Nid oes unrhyw reswm cymhellol i hepgor Dihewyd o'r cynllun cenedlaethol, yn enwedig o ystyried presenoldeb yr ysgol. Byddai costau arwyddion cyfyngiad 20mya rhan amser ar gyfer yr ysgol yn unig yn anodd iawn eu cyfiawnhau.

---

## DREFACH


12.

*Dymunwn dynnu eich sylw at y sylwadau a ganlyn ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig i'r terfyn cyflymder ar ochr orllewinol Pentref Drefach.*

*Er ein bod yn teimlo y bydd eich diwygiadau arfaethedig yn Nrefach yn sicr yn profi'n fuddiol o ran tawelu cyflymder traffig a pheryglon, teimlwn y byddai'r gwelliannau'n elwa ymhellach drwy symud y 20mya newydd arfaethedig ychydig ymhellach o Drefach nag a gynigir ar hyn o bryd heibio'r tro ar waelod y bryn ar ochr orllewinol Drefach. Byddai hyn yn galluogi golygfa glir o'r 20mya wrth ddod i mewn i'r pentref o'r ochr Orllewinol, ac ni fyddai dechrau'r 40mya yn y fan hon wrth fynd i'r Gorllewin allan o'r Pentref i'w weld yn syth ar ôl gadael y tro peryglus ar ben y bryn. Mae hyn yn bwysig gan fod lleoliad yr arwydd 40mya presennol yn y lleoliad hwn (gweler y llun ffotograffig amgaeedig) yn ymddangos ar hyn o bryd fel golau gwyrdd i lawer o gerbydau sy'n gadael y pentref gyflymu'n gyflym i lawr yr allt allan o'r tro, weithiau er mwyn goddiweddyd cerbydau, neu, (yn achos cerbydau trymach) cynyddu cyflymder wrth ddringo i fyny'r allt wrth adael y pentref ar yr ochr Orllewinol.*

*Mae ein harsylwadau ers blynyddoedd lawer, wedi dangos y byddai'r mân ddiwygiad i'ch cynigion yr ydym yn ei awgrymu yn gwella'r problemau traffig ffyrdd presennol yr ochr hon i bentref Drefach yn fawr.*

*Diolch yn fawr am eich cymorth*





## Tudalen 209

Argymhellir gwrthod y cais hwn, sydd i bob golwg yn cyfeirio at ochr ddwyreiniol Drefach ar yr A475 ac nid yr ochr orllewinol. Mae ymestyn y cyfyngiad 20mya arfaethedig i ran o ffordd gyda llai o ddwysedd o ddatblygiad adeiladu yn debygol o danseilio parch at y terfyn newydd gan yrwyr sy'n dod i mewn i Drefach. Mae'r cynnig yma yn cynnwys ymestyn y terfyn clustogi 40mya presennol (a ddangosir mewn glas uchod) a dylai hyn fod yn ddigonol. Digwyddodd y 2 SCA a gofnodwyd yma yn y 10 mlynedd diweddaraf o fewn y terfyn 20mya arfaethedig.

---

### LLANRHYSTUD

13.

*Dylid gostwng y cyfyngiad cyflymder ar Lanrhystud - ffordd y traeth i'r prif draeth (sydd hefyd yn mynd heibio'r fynedfa i fferm y Morfa) i 20mya yn hytrach na'r 30mya a gynigir, oherwydd bod y ffordd:*

- yn cael ei ddefnyddio gan holl drigolion Llanrhystud, a'r ymwelwyr â dau faes carafanau mawr, y Morfa a Phencarreg, i gerdded a gyrru i'r prif draeth ac yn ôl yn ystod y dydd a'r nos bob amser o'r flwyddyn. A hefyd i drigolion y ddau faes carafanau gael mynediad i'r archfarchnad yn garej Seabank.*
- mae'n un o ddau lwybr ymarfer corff yn unig yn Llanrhystud (mae'r llwybr arall, byrrach, rhwng eglwys Llanrhystud a maes carafanau Pencarreg, yn drac y mae'n anodd rhedeg neu feicio arno neu i'r rhai â phroblemau symudedd ei ddefnyddio.*
- mae'n ffordd un trac gul - y mae holl ddefnyddwyr y ffyrdd yn ei defnyddio. Dim ond rhan o'r ffordd, o'r gwaith carthffosiaeth, sydd â llwybr troed yr arfordir wrth ei hochr. Mae llwybr yr arfordir yn rhy gul i gadair wthio ddwbl, neu i ddefnyddwyr symud heibio ei gilydd. Mae'n rhaid i gerddwyr a beicwyr symud yn ôl ac i, ar ac oddi ar lwybr yr arfordir, lle mae'n bodoli, i'r ffordd un trac gul. Yn ystod yr haf mae cerbydau'n defnyddio llwybr yr arfordir i barcio arno. Gall ceir ddefnyddio'r rhan gyfan o'r llwybr arfordirol rhwng maes parcio'r traeth a'r fynedfa i fferm y Morfa, a rhaid i gerddwyr a beicwyr ddefnyddio'r ffordd un trac. Gan fod y llwybr i'r prif draeth sydd â darn mawr o dywod pan fydd y llanw allan. Mae'r defnyddwyr yn cynnwys pob grŵp oedran gan gynnwys babanod, plant bach, pobl hŷn â phroblemau symudedd a grwpiau o blant ar eu pen eu hunain.*

*Dylid gostwng y cyfyngiad cyflymder ar Lanrhystud - ffordd y traeth i'r prif draeth (sydd yn mynd heibio'r fynedfa i fferm y Morfa) i 20mya yn hytrach na'r 30mya a gynigir. Mae'r ffordd yn un o ddau lwybr yn unig y mae trigolion Llanrhystud yn eu defnyddio i gerdded a beicio o fewn y pentref ac fe'i defnyddir hefyd gan ymwelwyr i feisydd carafanau Morfa a Phencarreg i gerdded a beicio i'r prif draeth ac i gerdded a beicio i'r archfarchnad yn garej SeaBank.*


*Rwy'n cerdded ac yn beicio ar y ffordd hon ychydig o weithiau'r wythnos a hefyd yn mynd â'm hwyron i'r traeth ac yn ôl mewn cadair wthio ddwbl. Byddai terfyn cyflymder o 20mya yn helpu i roi arwydd i ddefnyddwyr cerbydau y dylid bod yn ofalus iawn yn agos at ddefnyddwyr eraill y ffordd (mae sut y dylai gyrwyr yrru ac ymddwyn, ac mae ymddygiad gwirioneddol yn wahanol iawn). Er bod llwybr yr arfordir, pryd a ble y gellir ei ddefnyddio, yn braf, mae hefyd yn rhy agos at y ffordd un trac cul, ddim yn ddigon llydan i ddefnyddwyr y llwybr basio ei gilydd, wedi parcio ar, ac mewn manau yn is na'r ffordd. Sylwais hyd yn oed ar ferch yn ei harddegau ar gefn beic yn beicio tuag at fy mam-yng-nghyfraith wyth deg oed a oedd yn*

## Tudalen 210

defnyddio ffrâm gerdded ar lwybr yr arfordir. Roedd hi'n gorfod symud i fyny clawdd i ddefnyddio'r ffordd un trac.

Y gobaith yw y bydd y ddeddfwriaeth hon yn ddechrau ar gefnogi pawb i gerdded a beicio i ddiwallu eu hanghenion dyddiol uniongyrchol. Mae gallu mynd i'r prif draeth ar droed ac ar feic yn rhan o Lanrhystud. Mae angen hefyd i ymwelwyr â meysydd carafanau Morfa a Phencarreg allu cerdded a beicio i'r traeth a'r archfarchnad yn garej Seabank.

Rwy'n erfyn amoch i ailystyried y terfyn cyflymder arfaethedig ar gyfer prif ffordd y traeth yn Lanrhystud er mwyn lleihau terfyn cyflymder i 20mya.



**Argymhellir gwrthod y cais hwn. Mae cyfyngiad 30mya wedi'i gynnig ar gyfer y ffordd i'r traeth (a ddangosir mewn gwyrdd uchod) gan fod hyn yn cyd-fynd â'r trefniant cyfyngiad 30mya ar yr A487 (y mae Llywodraeth Cymru/ACGChC yn bwriadu ei gadw ar y gyffordd â ffordd y traeth) ac felly ni fydd angen unrhyw arwyddion terfynell (er y bydd arwyddion ailadrodd yn cael eu gosod ar ffordd y traeth ei hun). Mae gan y ffordd droedffordd a dim datblygiad adeiladu, ac felly dim byd i ysgogi symudiad croesfannau ar hyd y rhan fwyaf o'i hyd, mae gwelededd yn dda i'r rhai sy'n cymryd gofal a sylw dyladwy, mae'r llif yn ysgafn ar y cyfan, ac mae'n ymddangos yn annhebygol y gall llawer o yrwyr barchu terfyn 20mya yma. Dylid rhoi gwybod i'r heddlu am achosion lle nad yw defnyddwyr y ffordd yn arfer gofal a sylw dyladwy ac yn beicio ar droedffordd i'w hystyried.**

**Roedd y ffordd yn destun terfynau cenedlaethol yn flaenorol, ac nid oes unrhyw gofnod o unrhyw PICau yn y 10 mlynedd diwethaf.**

**LLECHRYD**

14.

*Does dim amheuaeth y gallai'r brotest hon fod yn erbyn fait accompli, ond teimlaf fod yn rhaid i mi leisio fy ngwrthwynebiad i'r gostyngiad arfaethedig i 20 mya drwy Lechryd.*

*Cytunaf y byddai cyfyngiad o 20mya y naill ochr i ysgol y pentref yn beth da. Byddai nid yn unig yn cwmpasu'r ysgol ond y cyffyrdd o'r naill ochr a'r llall y mae rhieni'n eu defnyddio i droi rownd ar gyfer eu taith ymlaen, y fynedfa i Neuadd y Cwrwgl, maes chwarae'r pentref, eglwys, tafarn, garej y pentref, siop pysgod a sglodion a safle bws. Mae goleuadau rhybuddio a bolardiau tawelu traffig ar gyfer ardal yr ysgol wedi'u hen sefydlu. Mae hynny'n gwneud synnwyr.*

*Ond pam parhau â'r cyfyngiad cyflymder i fyny'r allt?  
Mae'r palmentydd yn dda, mae'r ffordd yn syth, mae'r mynediadau ochr i'w gweld yn glir, mae tai a byngalos yn gyffredinol wedi'u gosod yn ôl o'r ffordd.*

*"Arbed bywydau, llai o wrthdrawiadau ar y ffyrdd, llai o anafiadau" ? Felly faint sydd wedi'u cofnodi ar gyfer y rhan honno o'r ffordd o Gelliwen i fyny? Byddai gennyf ddiddordeb mewn gwybod. Nid wyf yn gwybod am unrhyw un ers imi fyw yma, ond rhannwch fanylion ar bob cyfri.*

*"Annog gweithgaredd corfforol".*

*Wel, efallai ei bod hi'n gyflymach rhedeg i fyny'r allt na'i yrru ar 20mya, ond yn fy oedran i ni fyddwn, ac ni allwn gyfnewid fy nhaith dyddiol i'r dref ac yn ôl yn y car am daith gerdded 6 milltir yn enwedig drwy'r ffordd â choed ar ei hyd ar ol Llangoedmor. Byddai hynny'n daith cerdded peryglus iawn!*

*Efallai bod Mr Waters yn awgrymu y byddai mwy o bobl yn cael eu hannog i gerdded, gan wybod y byddai'r traffig yn mynd heibio 10 mya yn arafach ond wrth gerdded ar y palmentydd drwy Lechryd, byddai 10 mya yn gwneud fawr o wahaniaeth.*

*"Lleihau straen a phryder".*

*I'r gwrthwyneb. Mae gyrru ar gyflymder o 20mya yn unig yn achosi straen, gan wyllo'r cloc cyflymder yn gyson i wirio eich bod yn cydymffurfio â'r gyfraith a'r rhwystredigaeth a ddaw yn sgil y cyflymder hwnnw.*

*Mae'n beryglus trwy dynnu'ch llygaid oddi ar y ffordd gan eich bod yn gwirio'ch cyflymder yn gyson.*

*Mae'n beryglus goddiweddyd beic (teithio'n agos at eich cyflymder mae'n debyg!) gan ei fod yn lleihau'r cyfleoedd sydd gennych i gwblhau'r symudiad hwnnw.*

*Wrth yrru i lawr yr allt i mewn i Lechryd dwi'n gorfod brecio'n barhaus i gadw'r cyflymder 20mya dan reolaeth.*

*lawn, defnyddiwch gêr is, mwy o danwydd, mwy o refio, mwy o sŵn, mwy o lygredd i'r aer o lwch y brêc, mwy o draul ar yr injan... neu defnyddiwch yr adnodd gyrru awtomataidd (cruise control)!*

*A oes unrhyw un o'r "pwerau mawr" wedi ceisio gyrru i fyny'r allt ar fore oer, gydag injan oer?*

## Tudalen 212

Mae 20 mya yn golygu defnyddio'r 2il gêr, mae 3ydd gêr yn ei chael hi'n anodd iawn pan fo'r car mor oer.....2il gêr yr holl ffordd i fyny'r allt???!?

Mwy o sŵn, mwy o lygredd o gar oer.

Ni allaf siarad dros eraill, ond mae 30 mya yn gyflymder cyfforddus i'r car ei gyflawni pan mae'n oer, yn enwedig wrth fynd i fyny'r allt a chyflymder digon araf i sylwi ar unrhyw beryglon posibl.

"....mae'r arwyddion cynnar yn dangos bod mwyafrif o bobl o blaid".

Nid wyf eto wedi dod o hyd i unrhyw un o blaid, ond yn wrth gwrs, os byddaf yn ymdrechu'n ddigon caled efallai y byddaf yn dod o hyd i rywun.

OND mae hwn yn gyfyngiad byd-eang i drefi a phentrefi Cymru.

Mae'n ymddangos bod pob 30mya yn cael ei newid i 20mya o'r posteri dwi'n eu pasio wrth i mi deithio o gwmpas yr ardal p'un a oes cyfiawnhad dros hynny ai peidio!

Mae hyn yn edrych fel diogrwydd ar ran yr awdurdodau, nad ydynt yn ymddangos yn barod i ystyried amgylchiadau unigol.

A ydynt yn barod i wrando ar farn leol, ar y bobl sy'n teithio'r ffyrdd hyn yn ddyddiol? Neu a fyddwn ni'n cael ein paentio gyda'r un brwsh lle bynnag rydyn ni'n byw?

Nid yw'n ymddangos bod amser yn cael ei grybwyll yn y ddadl, ond mae'n anochel y bydd y gostyngiad yn yr holl derfynau cyflymder yn cynyddu'r amser y mae pob un ohonom yn ei dreulio ar y ffyrdd.

Mae munud ychwanegol y dydd ar gyfer fy nhaith i'r dref ac yn ôl yn ymddangos yn "ddim byd".

7 munud yr wythnos, ychydig dros 6 awr y flwyddyn, ond lluoswch hynny gyda nifer y teithiau a deithiwyd ar hyd y rhan honno o'r ffordd a'r cynnydd hwnnw yn amser ceir yn mynd trwy Lechryd (am ychydig neu ddim rheswm) ac mae'r newid terfyn cyflymder yn ymddangos yn chwerthinllyd ar gyfer y darn hwnnw o ffordd.

A beth am yr amser ychwanegol a gymerir i deithio ar daith hirach, dyweder i Gaerfyrddin, neu Abertawe?

Ni allwn ddewis teithio ar y trêrn, nid yw cerdded yn opsiwn, mae teithio ar fysiau yn hir ac nid yw'n bodoli ar ddydd Sul felly mae'n rhaid i'r car gymryd y straen yng nghefn gwlad Cymru.

Ac, wrth gwrs, bydd teithiau bws a lori hefyd yn cael eu heffeithio, gyda goblygiadau cysylltiedig, yn rhy niferus i'w crybwyll yma.

Peidiwch â'm camddeall.

Rwyf wedi bod yn gyrru ers 57 mlynedd, ac rwyf wrth fy modd.

Yn y cyfnod hwnnw, nid wyf erioed wedi gorfod hawlio ar fy mholisi yswiriant am ddamwain "fy mai i", erioed wedi cael pwyntiau ar fy nhrwydded ac yn ystyried fy hun yn yrrwr gofalus a phrofiadol.

Yn y cyfnod hwnnw rwyf wedi gwyllo esblygiad traffyrdd a'u cyfyngiadau cyflymder, goblygiadau gwisgo gwregys diogelwch, amodau ffyrdd gwell (yn gyffredinol), newidiadau arddull gyrru dros y degawdau, cymhorthion mordwyo trwy loerennau, a'r damweiniau erchyll a achosir gan ddefnyddwyr ffonau symudol wrth yr olwyn.

Wrth gwrs, rydym i gyd yn ymwybodol o'r difrod i'r amgylchedd a achosir gan y cerbyd modur (a yrrir gan betrol) a dylem geisio lleihau'r effaith ar hinsawdd y byd, ond mae mwy o amser yn cael ei dreulio ar ein ffyrdd, er ei fod ar gyflymder llai. Defnyddiol?

Os mai cynyddu diogelwch yw'r prif reswm dros y newid, wrth gwrs, nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad, ond os gwelwch yn dda, byddwch yn barod i edrych ar ei gymhwysiad synhwyrol, priodol ar lefel leol yn hytrach na chymryd yr opsiwn diog o

## Tudalen 213

*"ddefnydd blanced" oherwydd ni allwch gymryd yr amser i ystyried y manylyn manylach na gwrando ar farn leol.*


*Rwy'n credu y bydd dicter a rhwystredigaeth yn dod i'r amlwg wrth i fis Medi ein cyrraedd ni ac wrth i yrwyr sylweddoli cymaint y bydd yn newid y ffordd y mae'n rhaid i ni yrru....heb reswm da.*

*Dymunaf wrthwynebu'n gryf y dylid lleihau'r terfyn cyflymder 30mya o Gelliwen i'r terfyn cyflymder 40mya ym mhen uchaf y pentref, i 20mya fel rhywbeth diangen ac afresymol.*

15.

### **Cyfyngiad cyflymder arfaethedig o 20 milltir drwy Lechryd**

*Er fy mod yn llwyr gefnogi cael terfynau o 20 milltir ar yr holl ffyrdd ymyl, byddai'n ddiangen, ac yn achosi tagfeydd traffig i'w chael ar yr A484 brysur drwy'r pentref. Mae'r rhan fwyaf o'r tai ymhell yn ôl o'r ffordd ac mae palmentydd am lawer o'i hyd. Ar gyfer cerddwyr yr unig ran yw o'r bont i'r Saith Seren lle mae'r ffordd yn gwyro a does dim palmant. Byddai'n rhesymol hefyd i derfyn o 20 milltir fynd heibio'r ysgol ar adegau pan fydd y plant yn cyrraedd ac yn gadael. Gyda phrif ffordd hir, syth byddai'n anodd iawn cadw'r traffig i lai nag 20 milltir yr awr, pan mae'r ffordd yn glir mae'n amlwg fod nifer yn mynd mwy na'r 30 milltir yr awr nawr!*



**Argymhellir diystyru'r 2 gwrthwynebiad hyn. Mae'r newid arfaethedig yn rhan o bolisi cenedlaethol yng Nghymru ac mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd yn cynyddu diogelwch ac na fydd yn cynyddu tagfeydd na llygredd aer, ac y bydd yn gost-ffeithiol oherwydd y gostyngiad mewn costau i'r genedl a ddaw yn sgil cyfraddau anafiadau llai, a rheiny'n llai difrifol. Nid oes unrhyw reswm cymhellol i hepgor Llechryd o'r cynllun cenedlaethol, yn enwedig o ystyried presenoldeb yr ysgol, a busnesau preswyl a manwerthu ar ddwy ochr yr A484 sy'n ysgogi symudiadau croesi. Mae cofnodion o 5 PIC ar y ffordd a gwmpesir gan y terfyn 20mya newydd arfaethedig o fewn y 5 mlynedd diweddaraf. Byddai costau arwyddion cyfyngiad 20mya rhan amser ar gyfer yr ysgol yn unig yn anodd iawn eu cyfiawnhau.**

**Nid oes tystiolaeth bod cyflymderau is yn cynyddu tagfeydd ar ffordd. Mae cyflwyno terfynau 20mya yn annog mwy o deithio trwy ddulliau trafndiaeth cynaliadwy amgen, ac fe'i hystyrir yn ddull cost effeithiol o alluogi lleihau traffig. Mae terfynau 20mya hefyd yn allweddol i leihau nifer a difrifoldeb gwrthdrawiadau gan mai cyflymderau is yw'r ffordd orau o ganiatáu mwy o amser a lle i bawb a lle mae gwrthdrawiadau'n digwydd mae'r difrifoldeb yn cael ei leihau i ddefnyddwyr ffordd sy'n agored i niwed. Wrth i gyflymderau ostwng, mae pobl yn dechrau teimlo'n fwy diogel ac yn fwy parod i gerdded, beicio a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Mae nifer y traffig ar y ffordd hefyd yn gostwng. Adroddwyd am ostyngiad mewn traffig o 3% ym mhrawf Caeredin o**

## Tudalen 215

derfynau 20mya ac adroddwyd bod mwy o gerdded a beicio yn ganlyniad i lawer o gynlluniau 20mya.

---

### PENNANT

16.

*Wedi edrych ar y cynnig teimlaf mai proses o ddefnyddio gordd i gracio cneuen yw hon. Mae Llywodraeth Cymru wedi mynd i'r afael â hyn mewn arddull unbenaethol, yn y bôn, rydych chi'n ei chael hi'n anodd.*

*Bydd y cynnig ar gyfer pentref Pennant yn achosi mwy o broblemau nag y bydd yn eu datrys.*

*Mae'n werth nodi nad yw'r clustogfeydd yn syniad gwael i leihau'r cyflymder o'r terfyn cyflymder cenedlaethol o 60mya wrth i gerbydau ddynesu at y pentref. Dyna'r broblem, a yw'r ffyrdd hyn ar y ffordd ddynesu at y pentref hwn yn wirioneddol ddiogel i deithio ar 60MYA.*

*Mae'r rhan fwyaf o'r gwrthdrawiadau, anafiadau ac ati yn digwydd ar y ffyrdd cul hyn rhwng pentrefi, a'r NID GORYRRU yw'r achos sylfaenol, ond GYRRU AR GYFLYMDER FEL NA ALLANT WELD I FOD YN DDIOGEL.*

*Am ryw reswm mae gan bentref Pennant glustogfeydd 30mya wedi'u cynllunio ar gyfer TAIR o'i ffyrdd dynesu, fodd bynnag NID y ffordd ddynesu o Giliau Aeron i Bennant. Mae'r llwybr hwn yn adnabyddus ac yn brysur. Mae'n cael ei ddefnyddio gan gymudwyr o Lamed gan hepgor Aberaeron ar y ffordd i Aberystwyth.*


*Mae gan y llwybr i mewn o Gilcennin glustogfa, pam ar y ddaear y cynlluniwyd hynny, mae'r ffordd yn ddigon llydan i un cerbyd yn unig ac anaml iawn y caiff ei defnyddio.*

*A yw'n wirioneddol ddiogel lleihau cyflymder o 60mya i 20mya? Bydden i'n dweud na.*

*Mae'r ymgynghoriad allan ond mae'r cynllunio yn ddiffygiol iawn.*

*Byddwn yn awgrymu bod gostwng terfynau cyflymder ar ffyrdd gwledig i 50mya neu 40mya yn fwy manteisiol a derbyniol gan y cyhoedd yn hytrach na gorfodi gyrwyr i yrru o gwmpas yn y bôn yn yr ail gêr gan reoli injan a chyflymder y cerbyd, ac felly achosi i'r injans beidio â rhedeg ar ei ffurf fwyaf effeithlon, gan achosi mwy o lygredd a thraul ar y system brecio cerbydau, sydd yn ei dro yn llygru llawer.*

*Diolch*



Argymhellir diystyru'r gwrthwynebiad hwn. Mae'r newid arfaethedig yn rhan o bolisi cenedlaethol yng Nghymru ac mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd yn cynyddu diogelwch ac na fydd yn cynyddu tagfeydd na llygredd aer, ac y bydd yn gost-effeithiol oherwydd y gostyngiad mewn costau i'r genedl a ddaw yn sgil cyfraddau anafiadau llai, a rheiny'n llai difrifol. Nid oes unrhyw reswm cymhellol i hepgor Pennant o'r cynllun cenedlaethol.

Mae trefniadau terfyn cyflymder ar ffyrdd nad ydynt yn destun terfynau 30mya ar hyn o bryd y tu allan i gwmpas y cynllun hwn. Byddant yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad a ragwelir o derfynau cyflymder yn unol â chanllawiau newydd Llywodraeth Cymru unwaith y bydd hwn wedi'i gyhoeddi.


Mae'r cynnig yn ymwneud â chadw darnau byr o'r terfyn 30mya presennol fel terfynau clustogi ar dri dynesfa i Bennant, lle mae nodweddion lled ac aliniad y ffordd yn golygu y gallai cyflymder dynesu fod yn gymharol uchel. Mae'r ffordd ddynesu o'r de o gyfeiriad Ciliau Aeron wedi'i hepgor o'r driniaeth hon oherwydd ystyriwyd ei bod yn ddiangen, oherwydd lled y ffordd a gwelededd rhesymol ymlaen i'r pwynt terfyn presennol. Adroddir bod llifau ar y dull hwn yn ysgafnach. Mae cofnod o 1 PIC ar y ddynesiad o'r dwyrain yn y 10 mlynedd diweddaraf, ond dim un ar y ddynesiad o'r de.



## Tudalen 217 PENPARC

17.

*Dymunwn gofrestru ein gwrthwynebiad i ostwng pob cyfyngiad 30mya i 20mya. Oherwydd ble rydyn ni'n byw, rydym yn gwybod am lawer o ymdrechion aflwyddiannus i leihau'r cyfyngiad 40mya drwy Benparc i 30mya. Byddai'n well gennym weld hyn yn digwydd yn hytrach na lleihau pob parth 30mya presennol.*



**Argymhellir diystyru'r gwrthwynebiad hwn. Mae'r newid arfaethedig yn rhan o bolisi cenedlaethol yng Nghymru ac mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd yn cynyddu diogelwch ac na fydd yn cynyddu tagfeydd na llygredd aer, ac y bydd yn gost-effeithiol oherwydd y gostyngiad mewn costau i'r genedl a ddaw yn sgil cyfraddau anafiadau llai, a rheiny'n llai difrifol. Nid oes unrhyw reswm cymhellol i hepgor Penparc o'r cynllun cenedlaethol.**

**Llywodraeth Cymru/ACGChC sy'n gyfrifol am y trefniant terfyn cyflymder ar yr A487 drwy Benparc, ac felly ni ellir ei gynnwys mewn unrhyw gynigion gan yr Awdurdod. (Sylwer - mae'r cyfyngiad 40mya arfaethedig ar un ffordd ymyl fer ym mhen de-orllewinol yr anheddiad a ddangosir mewn glas uwchben yn cyd-**

fynd â'r terfyn cyflymder ar yr A487, mae'n rhy fyr i gael terfyn sy'n annibynnol ar yr A487 fan honno).

---

### PENRYHNCOCH

18.

*Fel preswilydd ym Mhenrhyncoch ers bron i 4 degawd rwy'n croesawu'r cyfyngiadau cyflymder 20 mya.*

*Hoffwn wneud un gwrthwynebiad ynghylch:*

- *Rwyf wedi gweld rhywfaint o yrru echrydus - rwy'n cytuno'n llwyr y dylai'r rhan hon o'r ffordd fod yn 20 mya!*
- *Ond rwy'n awgrymu bod yr 20 mya mewn gwirionedd yn cychwyn o'r terfyn cyflymder 30 mya presennol, sydd wedi'i leoli i'r gorllewin o Ddolwen (ger y tŷ o'r enw Panteg) yn hytrach na'r hyn a gynigir ar ffin orllewinol Dolwen.*
- *Mae gan y rhan hon o'r ffordd lwybr sy'n cael ei ddefnyddio'n helaeth gan gerddwyr o bob oed, plant ar feiciau a cherddwyr cŵn. Oherwydd bod y ffordd yn syth mae yna dueddiad i bobl oryrru wrth ddod i mewn i'r pentref neu ei adael a goddiweddyd ar y rhan yma o'r ffordd! Gall fod yn llawer mwy diogel arafu cerbydau ar hyd y darn cyfan o'r ffordd ger Dolwen, yn hytrach na hanner ffordd ar hyd y darn. Byddai cychwyn y cyfyngiad cyflymder 20mya ym Mhanteg wedyn hefyd yn gorchuddio'r fynedfa i stad Nant Seilo, yn hytrach na'i fod yn 30mya yn y man.*

*Diolch i chi am y cyfle i roi sylwadau ar hyn a mae croeso i chi gysylltu â mi am unrhyw eglurhad ar yr uchod.*

19.

*Rwy'n anfon e-bost ynglŷn â'r cynnig canlynol.*

#### **Y Cefndir**

*Rydym wedi byw ar y llain hon o ffordd ers 30 mlynedd. Rydym wedi gweld cynnydd sylweddol mewn traffig yn y blynyddoedd diwethaf gyda mwy i ddod gyda datblygiadau newydd yn y pentref. Y tro diwethaf i'r ffordd gael ei hailwynebu oedd tua 3 blynedd yn ôl ac fe'i gwnaed gydag arwyneb graean rhad. Achosodd hyn gryn drallod i ni gyda graean yn dod i mewn i'r tŷ am beth amser wedyn a chynyddodd sŵn traffig ar wyneb y ffordd i'r pwynt ei fod yn effeithio ar ansawdd ein bywyd. Mae'n siŵr y bydd hyn yn parhau oni bai bod deunyddiau wyneb y ffordd yn cael eu defnyddio i leihau sŵn traffig i drigolion. Sylwaf fod ymchwil wedi canfod y gall terfyn cyflymder o 20 mya helpu i leihau sŵn traffig ond yn ddiâu, dim ond os bydd traffig yn cadw at y terfyn cyflymder y bydd yn effeithiol.*

#### **Gwrthwynebiad**


*Gwrthwynebwn i'r 20mya gychwyn ar draws y ffordd oddi wrthym i ffin orllewinol Dolwen. Bydd hyn yn golygu y bydd angen i yrwyr ollwng gêr wrth ymyl eiddo preswyl sydd hefyd yn cynnwys stad Nant Seilo. Byddai symud y 20mya i'r terfyn cyflymder presennol o 30mya ger y tŷ o'r enw Panteg, yn hytrach na'r hyn a gynigir ar ffin orllewinol Dolwen, yn helpu i ddatrys y mater hwn.*

## Tudalen 219

Byddai hefyd yn sicrhau terfyn cyflymder is ar hyd y palmant prysur a ddefnyddir yn aml ar y darn syth hwn o ffordd. Mae rhywfaint o draffig ar hyn o bryd yn cyflymu a hyd yn oed goddiweddyd cerbydau eraill, ymhell uwchlaw'r terfyn cyflymder presennol, gan fod y ffordd yn syth yma ac ar y ffordd i mewn ac allan o'r pentref. Bydd cael terfyn cyflymder sy'n newid hanner ffordd ar hyd y rhan hon o'r ffordd, ac yna'n gostwng yn gyflym i'r 30mya presennol, yn ddryslyd ac yn fwy tebygol o gael ei anwybyddu gan y rhai sydd yn anffodus mewn gormod o frys.

Bydd y 20mya yn peri rhwystredigaeth i rai gyrwyr ac mae lleiafrif a fydd, beth bynnag fo'r terfyn cyflymder, yn parhau i'w dorri beth bynnag ydyw. Bydd gostwng y terfyn cyflymder yn effeithiol dim ond os oes monitro, gorfodi a hefyd canlyniadau os caiff ei dorri. Nid oes unrhyw arwydd y bydd unrhyw un o'r mesurau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn sgil cyflwyno'r 20mya.

Cysylltwch â mi ar bob cyfrif os oes angen unrhyw wybodaeth arall arnoch.



**Argymhellir diystyru'r 2 gwrthwynebiad hyn. Mae llwybr troed ar y rhan o'r ffordd y cyfeirir ati, ym mhen gorllewinol Penrhyn-coch, ac mae arwyddion wedi'u gosod yn rhybuddio defnyddwyr y ffordd am bresenoldeb beicwyr a cherddwyr. Mae ymestyn y terfyn 20mya newydd arfaethedig (a ddangosir mewn coch uchod) i ddarn 'gwag' o'r ffordd sydd heb adeiladau o flaen y briffordd yn debygol o danseilio parch at y cyfyngiad 20mya. Dylai'r rhan arfaethedig o glustogfa 30mya (a ddangosir mewn gwyrdd) fod yn ddigonol, ac**

## Tudalen 220

nid oes fawr o ddiben ymestyn y terfyn 20mya i gynnwys Nant Seilo (y stryd breswyl i'r de o'r ffordd fawr), o ystyried ei hyd byr.

---

### RHYDLEWIS

20.

Cabinet non-approval of proposal	5	1	5		
Physical constraints to proposed changes at specific locations	2	2	1		
Availability of grant funding to cover full costs once known	4	2	1		
Availability of contractors to deliver programme of physical works within planned timescale	5	5	3		
Does your proposal have a potential impact on another Service area?					
CCC Highways Maintenance – maintenance of the highway asset					
CCC – Economy and Performance – safer access for all to facilities, services and opportunities					

6. SIGN OFF			
Position	Name	Signature	Date
Corporate Manager - Highways	Phil Jones		26.05.2023
Corporate Lead Officer	Rhodri Llwyd		26.05.2023
Corporate Director	Barry Rees		26.05.2023
Portfolio Holder	Cllr Keith Henson		26.05.2023

Tudalen 266

**CYNGOR SIR CEREDIGION****Adroddiad i'r: Cabinet****Dyddiad y Cyfarfod: 6 Mehefin 2023****Teitl: Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2022-23****Pwrpas yr adroddiad: Cyflwyno at sylw Cabinet, Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg sy'n amlinellu cynnydd wrth weithredu gofynion Safonau'r Gymraeg ar draws gwasanaethau'r Cyngor yn ystod cyfnod Ebrill 2022 i Mawrth 2023.****Er: Penderfyniad****Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet: Y Cyngorydd Catrin M.S. Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Diwylliant, Hamdden a Gwasanaethau Cwsmeriaid, gyda chyfrifoldeb dros yr Iaith Gymraeg**

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu fframwaith cyfreithiol i osod dyletswydd ar Gyngor Sir Ceredigion, i gydymffurfio â Safonau yn ymwneud â'r Iaith Gymraeg. Wrth ddarparu ei wasanaethau mae'n ofynnol bod y Cyngor yn hybu a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu ein gwasanaethau ar draws y Cyngor.

Mae dyletswydd statudol ar Gyngor Sir Ceredigion yn golygu:

- Mae'n ofynnol i'r Cyngor weithredu yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg wrth drefnu ei wasanaethau, ynghyd ag adrodd ar gydymffurfiaeth yn flynyddol.
- At hyn mae Safonau 146/145 yn nodi bod rhaid i'r Cyngor gyhoeddi a gweithredu Strategaeth pum mlynedd sy'n rhoi gwybod sut y bydd y Cyngor yn hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg o fewn yr ardal ehangach; gan osod targed o ran cynnal neu gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu cynnydd mae'r Cyngor wedi ei wneud wrth fynd i'r afael a gofynion gweithredu'r Safonau Iaith ar draws ei wasanaethau, ac yn canolbwyntio ar y cyfnod 1 Ebrill 2022 - 31 Mawrth 2023. Mae 5 Prif Safon gyda chyfanswm o **167** is-safonau wedi'u gosod ar Gyngor Sir Ceredigion. [Mae rhestr lawn y Safonau mae gofyn i Gyngor Sir Ceredigion gydymffurfio â nhw ar gael ar wefan gorfforaethol y Cyngor.]

Mae'r adroddiad yn nodi'r camau gweithredu sydd wedi'u cymryd er mwyn cydymffurfio gyda gofynion y Safonau, ac wedi'i drefnu o dan y 5 prif safon sef:

- **Safonau Darparu Gwasanaethau**
- **Safonau Llunio Polisi**
- **Safonau Gweithredu Mewnol**

- **Safonau Hybu** (y gofyniad i ddatblygu a chyhoeddi Strategaeth 5 mlynedd)
- **Safonau Cadw cofnodion.**

Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei graffu gan Gomisiynydd y Gymraeg.

### **Prif Gyflawniadau**

Isod ceir rhestr o'r prif gyflawniadau yn ystod y cyfnod adrodd er mwyn cryfhau cydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg:

- Mae 62% o staff gyda'r gallu i sgwrsio ar lafar yn Gymraeg (sef ALTE Lefel 3,4 a 5), mae hyn yn gyson a phroffiliau blaenorol o sgiliau'r gweithle.
- 65 o aelodau staff wedi cael cyfle i ddysgu Cymraeg drwy gynllun Tiwtor Cymraeg y gweithle.
- 21 aelod o staff wedi dod yn siaradwyr newydd, drwy gwblhau Cwrs Uwch drwy gynllun Tiwtor Cymraeg y gweithle.
- Cyd-weithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol er mwyn peilota cwrs preswyl Codi Hyder i Ddefnyddio'r Gymraeg
- Cynnal ymarfer mewnol i hunanasesu perfformiad gwasanaethau'r Cyngor gyferbyn â rhai o ofynion Safonau'r Gymraeg.
- Cyhoeddi ymgyrch, *'sut i gysylltu gyda'r Cyngor dros y ffôn, ar-lein, wyneb yn wyneb, ac yn eich dewis iaith'*.
- Darparu Sesiwn Ymwybyddiaeth Iaith ynghyd â throsolwg o ofynion Safonau'r Gymraeg ar gyfer Cynghorwyr y Cyngor.
- Cyhoeddi *Canllaw Cynnal Cyfarfodydd Dwyieithog a'i rannu'n eang ymysg Cynghorwyr y Cyngor.*
- Sefydlu'r arfer ar gychwyn pob cyfarfod democrataidd y Cyngor bod y Cadeirydd yn gwneud datganiad sy'n annog cyfranogwyr i gyfrannu yn y Gymraeg.
- Yn unol â gofyniad Safon 49, rhannu templed corfforaethol er mwyn sicrhau bod fersiwn Saesneg o unrhyw ddogfen neu ffurflen yn datgan yn glir bod fersiwn Gymraeg o'r ddogfen neu'r ffurflen honno ar gael hefyd.
- Diwygio tudalennau recriwtio ar wefan y Cyngor, er mwyn rhoi gwybod bod y Cyngor yn croesawu derbyn ceisiadau am swyddi yn yr iaith Gymraeg. (Safon137)
- Adolygu proses gwynion corfforaethol y Cyngor er mwyn sicrhau bod y Polisi, y Canllaw a'r Templedi yn croesawu ac yn hwyluso cyflwyno pryderon yn yr iaith Gymraeg.
- Yn unol â gofynion Safon 94, datblygu a chyhoeddi Polisi'r Gymraeg ar Ddyfarnu Grantiau, sy'n cynnwys rhestr wirio.
- Cynllun Gweithredu 'Mwy na Geiriau' mewn lle, er mwyn cynyddu defnydd y Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau'r Sector Gofal.
- Sicrhau bod y Gymraeg yn rhan integredig o Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Ceredigion 2022-27
- Adolygu Siarter Cwsmer y Cyngor, sy'n disgrifio lefel y gwasanaeth y gall defnyddwyr ei ddisgwyl wrth gysylltu gyda'r Cyngor, ac mae hyn yn cynnwys darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg, yn unol â dewis iaith y defnyddiwr.
- Datblygu a chyhoeddi Adroddiad Cyflawniad Strategaeth Iaith Ceredigion ar gyfer 5-mlynedd 2018-23.

- Cynnal gweithdy rhanddeiliaid ar gyfer paratoi i ddatblygu Strategaeth Iaith am y cyfnod 5 mlynedd nesaf.

### **Adrodd ar Ddangosyddion Perfformiad**

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn disgwyl bod y Cyngor yn medru darparu tystiolaeth gyferbyn a'r dangosydd perfformiad, ac fe geir dadansoddiad llawn yn rhan o'r adroddiad.

### **Casgliad**

Cydnabyddir bod y broses o weithredu'r Safonau yn un parhaus, gyda'r nod o sicrhau bod y gofynion yn cael eu prif llifo'n naturiol i waith y Cyngor, a bod gwasanaethau Cymraeg ar gael yn ddiodyn. Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i barhau i gyflawni gwelliannau, ac i weithredu er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn cyrraedd gofynion Safonau'r Gymraeg yn llawn.


Mae'r Cyngor yn cydnabod yn rhan o'r adroddiad hwn bod cynnydd wedi'i wneud, ond bod yna welliannau i'w gwneud fel rhan o broses parhaus i sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg ein gwasanaethau.

Yn dilyn ystyriaethau gan y Pwyllgor Iaith, fe fydd yr Adroddiad yn cael ei gyflwyno i Cabinet i'w gymeradwyo.

<p><b>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</b></p>	<p><b>Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam</b></p> <p><b>Crynodeb:</b>  <b>Hirdymor:</b>  <b>Cydweithio:</b>  <b>Cynnwys:</b>  <b>Atal:</b>  <b>Integreiddio:</b></p>	<p>Ddim yn berthnasol oherwydd adroddiad monitro yw hwn, ac nid polisi, cynllun neu fenter newydd / diwygiedig.</p>
<p><b>Argymhelliad / Argymhellion:</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• I'r Cabinet dderbyn a chymeradwyo'r Adroddiad Monitro Blynnyddol Safonau'r Gymraeg Cyngor Sir Ceredigion 2022-23</li> <li>• Cymeradwyo cyhoeddi'r adroddiad ar wefan corfforaethol y Cyngor yn unol â'r dyletswydd statudol</li> <li>• Cyflwyno'r adroddiad at sylw Comisiynydd y Gymraeg.</li> </ul>	
<p><b>Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:</b></p>		<p>Dyletswydd Statudol Rheoliadau Safonau'r Gymraeg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.</p>

## Tudalen 270

<b>Trosolwg a Chraffu:</b>	Cyflwynwyd yr Adroddiad Drafft yn Pwyllgor Iaith Gymraeg y Cyngor.
<b>Fframwaith Polisi:</b>	Rheoliadau Safonau'r Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
<b>Amcanion Llesiant Corfforaethol:</b>	Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach
<b>Goblygiadau Cyllid a Chaffael:</b>	Nid oes unrhyw oblygiadau cost uniongyrchol i'r adroddiad hwn
<b>Goblygiadau cyfreithiol:</b>	Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol i'r adroddiad hwn
<b>Goblygiadau staffio:</b>	Dim goblygiadau staffio uniongyrchol wrth gyflwyno'r adroddiad hwn
<b>Goblygiadau eiddo / asedau:</b>	Dim
<b>Risg(iau):</b>	Dim
<b>Pwerau Statudol:</b>	Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
<b>Papurau Cefndir:</b>	Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2022-23
<b>Atodiadau:</b>	Atodiad 1: Sgiliau Iaith Gymraeg y Gweithlu Atodiad 2: Fframwaith ALTE CSC
<b>Swyddog Arweiniol Corfforaethol:</b>	Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democraidaidd
<b>Swyddog Adrodd:</b>	Carys Lewis Morgan
<b>Dyddiad:</b>	19 Mai 2023



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

**Adroddiad Monitro Blynyddol  
Safonau'r Gymraeg**

**1af Ebrill 2022 – 31ain Mawrth 2023**

**Cymraeg**

Awdur: Carys Lewis Morgan, Gwasanaethau Democraidd

Dyddiad Cyhoeddi:

Pwyllgor Iaith: 25/05/2023

Cymeradwywyd gan y Cabinet: 06/06/2023

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg a Saesneg.  
Gallwn ddarparu'r adroddiad hwn mewn fformatau eraill ar gais. Cysylltwch â'r  
Swyddog Polisi Iaith fel y nodir isod os gwelwch yn dda:

Carys Lewis Morgan  
Swyddog Polisi Iaith Gymraeg / Welsh Language Policy Officer

Cyngor Sir Ceredigion County Council  
Neuadd Cyngor Ceredigion  
Penmorfa  
Aberaeron  
SA46 0PA

E bost: [cymraeg@ceredigion.gov.uk](mailto:cymraeg@ceredigion.gov.uk)

DRAFT



## **Mynegai**

Adran 1: Cyd-destun: dyletswydd y Safonau

Adran 2: Camau gweithredu yn ystod y flwyddyn i gryfhau cydymffurfiaeth gyda'r Safonau:

- Safonau Darparu Gwasanaeth
- Safonau Llundio Polisi
- Safonau Gweithredu / Safonau Cadw Cofnodion: yn cynnwys data siliau iaith, hyfforddiant a recriwtio
- Safonau Hybu

Adran 3: Adrodd ar y weithdrefn gwyno corfforaethol

Adran 4: Casgliadau

Atodiad 1: Sgiliau iaith y gweithlu fesul gwasanaeth

Atodiad 2: Fframwaith ALTE Cyngor Sir Ceredigion

## **ADRAN 1: Cyd-destun**

### **Pwrpas yr Adroddiad**

Dyma adroddiad blynyddol Cyngor Sir Ceredigion ar weithredu Safonau'r Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'n rhoi gwybod sut yr aethom ati i gydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd, ynghyd ag adrodd ar ein dyletswyddau i hybu a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu ein gwasanaethau ar draws y Cyngor.

Paratowyd yr Adroddiad yn unol â gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, safonau 158, 164 a 170.

### **Cefndir**

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu fframwaith gyfreithiol i osod dyletswydd ar Gyngor Sir Ceredigion, ymhlith sefydliadau cyhoeddus eraill, i gydymffurfio â Safonau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. Pwrpas y Safonau yw:

- Rhoi mwy o eglurder i sefydliadau ar eu dyletswyddau am yr iaith Gymraeg
- Rhoi mwy o eglurder i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg
- Sicrhau mwy o gysondeb o wasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd

Mae 5 Prif Safon gyda chyfanswm o **167** is-safonau wedi'u gosod ar Gyngor Sir Ceredigion drwy Hysbysiad Cydymffurfio, gyda'r dyddiad gweithredu cyntaf 30 Fawrth 2016. Mae rhestr lawn y Safonau mae gofyn i Gyngor Sir Ceredigion gydymffurfio â nhw ar gael ar wefan gorfforaethol y Cyngor. Dilynwch y ddolen isod:

[safonau-iaith-gymraeg-cyngor-sir-ceredigion-hysbysiad-cydymffurfio.pdf](#)

Mae dyletswydd statudol ar Gyngor Sir Ceredigion yn golygu:

- Mae'n ofynnol i'r Cyngor weithredu yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg wrth drefnu ei wasanaethau, ynghyd ag adrodd ar gydymffurfiaeth yn flynyddol.
- At hyn mae Safonau 146/145 yn nodi bod rhaid i'r Cyngor gyhoeddi a gweithredu Strategaeth pum mlynedd sy'n rhoi gwybod sut y bydd y Cyngor yn hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg o fewn yr ardal ehangach; gan osod targed o ran cynnal neu gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

### **Y Weinyddiaeth Wleidyddol**

Bu'r cyfnod hwn yn gyfnod o newid gweinyddiaeth, yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol ar y 5ed o Fai 2022. Yn dilyn hyn yng Ngheredigion enillodd Plaid Cymru gyda mwyafrif o 20 sedd, Grŵp Annibynnol: 10 sedd; grŵp Democrataidd Rhyddfrydol 7 sedd ynghyd ag 1 ddim yn cynrychioli unrhyw grŵp. Penodwyd y Cynghorydd Bryan Davies yn Arweinydd y Cyngor, a'r Cynghorydd Catrin M S Davies yn Aelod Cabinet dros y Gymraeg a Diwylliant.

### **Trefniadau Goruchwyllo Mewnol**

Mae'r cyfrifoldeb dros gadw trosolwg strategol ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg gyda'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd. Y Swyddog Polisi iaith Gymraeg sydd â chyfrifoldeb dros y gwaith o ymdrin yn weithredol â materion y Gymraeg o ddydd i ddydd o fewn y Cyngor. Caiff unrhyw benderfyniadau Polisi eu craffu gan y Grŵp Arweiniol, sy'n cynnwys y Prif Weithredwr, y ddau Gyfarwyddwr Strategol ynghyd â'r deuddeg Swyddog Arweiniol Corfforaethol.

Caiff Adroddiad Monitro Safonau'r Gymraeg ei graffu gan Aelodau'r Pwyllgor Iaith, a fydd yn argymhell cynigion i Gabinet y Cyngor. Mae'r Pwyllgor Iaith, yn cynnwys cynghorwyr trawsbleidiol ac yn cael ei gadeirio gan Aelod Cabinet dros y Gymraeg a Diwylliant. Mae'r Pwyllgor Iaith yn darparu cyfeiriad gwleidyddol ar gyfer hybu a hwyluso'r iaith Gymraeg yng Ngheredigion, ac i gefnogi ei ymdrechion i wella defnydd o'r Gymraeg drwy'r sefydliad.

Bydd yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo'n derfynol gan Bwyllgor Cabinet y Cyngor, ac yna'n cael ei gyhoeddi ar wefan gorfforaethol y Cyngor.



Mae'n ofynnol cyhoeddi dogfen sy'n esbonio sut bydd y Cyngor yn cydymffurfio gyda gofynion Safonau'r Gymraeg, gellir darllen mwy am drefniadau'r Cyngor i gwrdd â gofynion y Safonau ar y wefan gorfforaethol, drwy'r ddolen isod:

[cydymffurfio-a-safonau-iaith-ceredigion.pdf](#)

## Dulliau Cyngor Sir o Weithredu

Cytunwyd ar Strategaeth Gweithio Hybrid a Pholisi Hybrid Dros Dro ym mis Gorffennaf 2022, a fyddai'n cael eu treialu am 12 mis. Mae'r strategaeth yn cyflwyno'r weledigaeth a'r dulliau cysylltiedig a roddir ar waith i sicrhau bod gan Gyngor Sir Ceredigion weithlu sydd â'r sgiliau a'r gallu i weithio mewn ffordd sy'n addas at ddyfodol ein sefydliad, gan alluogi gweithwyr i weithio'n effeithiol, yn gynhyrchiol a diogel o'r swyddfa neu o'r cartref. Yn ystod y cyfnod adrodd mae rhan fwyaf o'r staff yn parhau i weithio o gartref; mewn arolwg barn roedd 75% o'r staff wedi nodi eu bod yn fwy cynhyrchiol wrth weithio gartref nag yn y gweithle, gyda 80% wedi nodi bod parhau i weithio o bell yn gwella cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Fodd bynnag roedd 43% wedi nodi y byddant yn dymuno gweithio yn y swyddfa o leiaf unwaith neu dwywaith yr wythnos, am resymau medru cydweithio gydag eraill a chynnal cysylltiad cymdeithasol. Mae gan y rhan helaeth o staff y dewis pun ai i weithio o adre neu yn y swyddfa yn ôl ei dymuniad.

Mae'n rhaid cydnabod bod gweithio o bell wedi cynnig cyfleoedd newydd i staff, ond o bosib mae'n cael effaith llai cadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg. Mae'n llawer mwy anodd monitro defnydd y Gymraeg pan bod pawb yn gweithio o gartref. Mewn sefyllfa swyddfa roedd defnydd y Gymraeg yn organig, gyda chydweithwyr yn medru annog ei gilydd. Roedd y Gymraeg i'w chlywed drwy gyswllt ffurfiol ond hefyd drwy gyswllt anffurfiol er enghraifft ar y coridor, dros baned, dros y llungopiwr neu yn y ffreutur. Mae'n bosib iawn y bydd rhai swyddogion ddim yn clywed y Gymraeg, a gall hyn effeithio ar eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg gyda defnyddwyr gwasanaeth. Fel ymateb i'r sefyllfa mae'r Cyngor wedi bod yn trafod gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, er mwyn trefnu cyrsiau codi hyder; bydd y cwrs preswyl cyntaf yn cael ei gynnal yn Nant Gwrtheyrn ym mis Gorffennaf; yn dilyn y cwrs bydd gweithgareddau penodol yn cael eu trefnu ar gyfer y cyfranogwyr nôl yn y gweithle i annog eu defnydd o'r Gymraeg.

## Cyhoeddi'r Adroddiad

Mae'n ofynnol bod yr Adroddiad Blynyddol hwn yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan gorfforaethol erbyn 30 Mehefin.

## Tudalen 276

Mae'r Adroddiad yn adrodd ar arfer da, ynghyd â nodi sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio a'r dosbarth o Safonau fel a ganlyn:

- Safonau Darparu Gwasanaethau
- Safonau Llundio Polisi
- Safonau Gweithredu Mewnol
- Safonau Hybu

Mae'r adroddiad hefyd yn cyflwyno data ar y dangosyddion perfformiad gofynnol, sef y Safonau Cadw Cofnodion, hynny yw:

Safon 151	<b>Sgiliau Iaith Staff :</b>	Nifer y staff sydd â sgiliau yn y Gymraeg, fesul lefel ALTE, yn ystod y flwyddyn dan sylw
154	<b>Recriwtio i Swyddi Gwag</b>	Nifer y swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn sy'n gofyn am sgiliau iaith Gymraeg, ac a gategoreiddiwyd gyda lefelau ALTE
152	<b>Hyfforddiant Dysgu neu Wella Sgiliau Iaith:</b>	Nifer yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi naill ai i ddysgu neu wella eu sgiliau iaith Gymraeg
152	<b>Darpariaeth Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg</b>	Nifer y staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant a gynigiwyd gan y Cyngor yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn.
170	<b>Cwynion gan Aelodau'r Cyhoedd:</b>	Nifer y cwynion a dderbyniwyd sy'n Gysylltiedig â'r iaith Gymraeg

## ADRAN 2: Sicrhau Cydymffurfiaeth Safonau'r Gymraeg

### Camau gweithredu yn ystod y flwyddyn i gryfhau cydymffurfiaeth gyda'r Safonau:

Casglwyd y wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr adroddiad hwn o ganlyniad i'r monitro parhaus y mae'r Cyngor yn ei gynnal ar ei Wasanaethau.

Isod ceir rhestr o'r prif gyflawniadau yn ystod y cyfnod adrodd er mwyn cryfhau cydymffurfiaeth:

#### Prif Gyflawniadau:

- Mae 62% o staff gyda'r gallu i sgwrsio ar lafar yn Gymraeg (sef ALTE Lefel 3,4 a 5), mae hyn yn gyson a phroffiliau blaenorol o sgiliau'r gweithle.
- 65 o aelodau staff wedi cael cyfle i ddysgu Cymraeg drwy gynllun Tiwtor Cymraeg y gweithle.
- 21 aelod o staff wedi dod yn siaradwyr newydd, drwy gwblhau Cwrs Uwch drwy gynllun Tiwtor Cymraeg y gweithle.
- Cyd-weithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol er mwyn peilota cwrs preswyl Codi Hyder i Ddefnyddio'r Gymraeg
- Cynnal ymarfer mewnol i hunanasesu perfformiad gwasanaethau'r Cyngor gyferbyn â gofynion Safonau'r Gymraeg.
- Cyhoeddi ymgyrch, '*sut i gysylltu gyda'r Cyngor dros y ffôn, ar-lein, wyneb yn wyneb, ac yn eich dewis iaith*'.
- Darparu Sesiwn Ymwybyddiaeth Iaith ynghyd â throsolwg o ofynion Safonau'r Gymraeg ar gyfer Cynghorwyr y Cyngor.
- Cyhoeddi *Canllaw Cynnal Cyfarfodydd Dwyieithog a'i rannu'n eang ymysg Cynghorwyr y Cyngor*.
- Sefydlu'r arfer ar gychwyn pob cyfarfod democrataidd y Cyngor bod y Cadeirydd yn gwneud datganiad sy'n annog cyfranogwyr i gyfrannu yn y Gymraeg.
- Yn unol â gofyniad Safon 49, rhannu templed corfforaethol er mwyn sicrhau bod fersiwn Saesneg o unrhyw ddogfen neu ffurflen yn datgan yn glir bod fersiwn Gymraeg o'r ddogfen neu'r ffurflen honno ar gael hefyd.
- Diwygio tudalennau recriwtio ar wefan y Cyngor, er mwyn rhoi gwybod bod y Cyngor yn croesawu derbyn ceisiadau am swyddi yn yr iaith Gymraeg. (Safon 137)
- Adolygu proses gwynion corfforaethol y Cyngor er mwyn sicrhau bod y Polisi, y Canllaw a'r Templedi yn croesawu ac yn hwyluso cyflwyno pryderon yn yr iaith Gymraeg.
- Yn unol â gofynion Safon 94, datblygu a chyhoeddi Polisi'r Gymraeg ar Ddyfarnu Grantiau, sy'n cynnwys rhestr wirio.
- Cynllun Gweithredu 'Mwy na Geiriau' mewn lle, er mwyn cynyddu defnydd y Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau y Sector Gofal.
- Sicrhau bod y Gymraeg yn rhan integredig o Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Ceredigion 2022-27
- Adolygu Siarter Cwsmer y Cyngor, sy'n disgrifio lefel y gwasanaeth y gall defnyddwyr ei ddisgwyl wrth gysylltu gyda'r Cyngor, ac mae hyn yn cynnwys darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg, yn unol â dewis iaith y defnyddiwr.
- Datblygu a chyhoeddi Adroddiad Cyflawniad Strategaeth Iaith Ceredigion 2018-23.
- Cynnal gweithdy rhanddeiliaid ar gyfer paratoi i ddatblygu Strategaeth Iaith am y cyfnod 5 mlynedd nesaf.

## Cydymffurfio â Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1-87)

Mae'r set o safonau Cyflenwi Gwasanaethau yn nodi sut mae'n ofynnol i'r Cyngor ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd, fel bod modd i siaradwyr Cymraeg gael mynediad di-rwystr at wasanaethau Cymraeg.; er enghraifft wrth anfon gohebiaeth a chyhoeddiadau, delio a galwadau ffôn, darparu gwasanaethau ar-lein neu wyneb yn wyneb.

Er mwyn cryfhau cydymffurfiaeth gyda'r dosbarth o Safonau yn ymwneud â **chyflenwi gwasanaethau**, mae'r Cyngor wedi cymryd y camau gweithredu canlynol yn ystod y flwyddyn:

### Rheoli Perfformiad

Yn Adroddiad Sicrwydd 'Y Gymraeg fel ffordd o weithio' 2021-22 mae Comisiynydd y Gymraeg yn gosod disgwyliad ar y Cyngor i hunan-reoleiddio ei berfformiad yn erbyn gofyniad Safonau'r Gymraeg. Unwaith yn rhagor, yn dilyn cydsyniad gan y Grŵp Arweiniol, fe wnaethom gynnal adolygiad ynghylch detholiad o Safonau sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth, yn ogystal â rhai o'r Safonau Gweithredu sy'n ymwneud â gweinyddiaeth fewnol. Gofynnwyd i'r 12 Swyddog Arweiniol Corfforaethol sgorio eu gwasanaeth gyferbyn ag agweddau o'r Safonau laith, er mwyn ceisio mesur cydymffurfiaeth gyfredol. Rhestrir y 12 gwasanaeth isod.

Ysgolion a Diwylliant	Cyfreithiol a Llywodraethu	Cyllid a Chaffael	Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
Economi ac Adfywio	Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	Porth Cynnal Gwasanaethau Arbeingol Gydol Oes	Porth Gofal Ymyrraeth wedi'i thargedu
Porth Cymorth Cynnar	Pobl a Threfniadaeth	Cyswllt Cwsmeriaid	Gwasanaethau Democratiaid

Mae'r hunan asesiad hwn yn anelu at geisio codi ymwybyddiaeth y deuddeg prif wasanaeth ynghylch ymrwymadau'r Cyngor o ran Safonau'r Gymraeg. Mae'r asesiadau hefyd yn cynorthwyo'r gwasanaethau i adnabod bylchau, i ddatblygu rhaglen ymyraethau, yn ogystal â pharatoi er mwyn gallu ymateb yn effeithiol i'r galw am hunanasesiad corfforaethol gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Gofynnwyd i Swyddogion Arweiniol roi sgôr gyferbyn a'u lefel o gydymffurfiaeth fel a ganlyn:

Llai na 25%	25 – 50%	50 – 90%	90%+
-------------	----------	----------	------

Yn gyffredinol, cofnodwyd lefelau uchel o sicrwydd, bron yn ddiethriad aseswyd perfformiad i fod naill ai ar lefel tri, sef cydymffurfiaeth rhwng 50%- 90% neu lefel pedwar (sef y lefel uchaf) 90%+ sgôr cydymffurfiaeth. Y prif reswm am hyn yw hyder Swyddogion Arweiniol Corfforaethol bod gwasanaethau wedi'u cynllunio mewn ffordd sy'n golygu bod siaradwyr Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg yn ôl y galw.

Dim ond 1 gwasanaeth oedd yn pryderu ynghylch niferoedd siaradwyr Cymraeg a oedd ar gael i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw yn y Gymraeg, sef Porth Gofal. Mae'r Cyngor wedi tynnu sylw at y ffaith ei bod hi'n anodd recriwtio ym maes Gofal Cymdeithasol, lle mae prinder Swyddogion sydd wedi'u cymhwysu'n broffesiynol, hyn heb sôn am eu gallu yn y Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi mynd ati yn rhagweithiol i geisio gau'r bwlch hwn, drwy gynnig rhaglen hyfforddiant gofal cymdeithasol yn fewnol, drwy bartneriaeth gyda'r Brifysgol Agored. Mae'r cwrs gradd Gwaith Cymdeithasol gyda'r Brifysgol Agored yn cymryd 3 blynedd i'w chwblhau; ar hyn o bryd mae gennym yr hyfforddeion canlynol yn astudio ar gyfer y cymhwyster:

Nifer Hyfforddeion	yr	Lefel	Siarad Cymraeg	Cymhwysio erbyn
5		1	1	Hydref 2025
4		2	2	Hyd 2024
3		3	2	Hyd 2023

At hyn mae'r Cyngor hefyd yn darparu cyfle i Swyddogion gyflawni Tystysgrif mewn Ymarfer Gwaith Cymdeithasol, mae'r cwrs hwn yn cwmpasu'r ddau fodiwl cyntaf y cwrs gradd Gwaith Cymdeithasol. Yn bur gyson, unwaith y bydd Swyddogion wedi cwblhau'r cwrs hwn, maent yn symud ymlaen i wneud y cwrs Gradd Gwaith Cymdeithasol, naill ai fel un o'n Hyfforddeion neu fel Myfyriwr Annibynnol. Eleni rydym yn cynnig 4 lle ar y cwrs Tystysgrif, a'r nod yw sicrhau bod o leiaf 2 ohonynt yn medru'r Gymraeg.

Yn rhan o'r ymarfer hunanasesiad Safonau'r Gymraeg, roedd cyfle i Swyddogion Arweiniol Corfforaethol rhannu esiamplau o arfer dda, gyda sawl gwasanaeth yn mynd ati'n rhagweithiol i reoli eu perfformiad eu hunain, nodir rhai o'r esiamplau hyn isod:

- Agorir holl gyfarfodydd y Tîm yn Gymraeg gydag eitem ar yr agenda safonol i atgoffa'r staff o'r Safonau Cymraeg.
- Diwylliant dwyieithog yng nghyfarfodydd mewnol y Gwasanaeth lle mae'r staff i gyd yn gyfforddus yn siarad yn eu dewis iaith
- Mae'r defnydd o'r iaith o fewn y gwasanaeth yn organig ac yn naturiol - iaith ddiodyn ar gyfer y rhai sy'n ei defnyddio
- Cymorth a chyfleoedd a ddarperir o fewn y gwasanaeth i ddatblygu gallu, hyder a defnydd o'r iaith yn rhan o'r amgylchedd bob dydd
- Mae Tiwtor Cymraeg Gwaith wedi creu sesiynau hyfforddi pwrpasol ar gyfer staff rheng flaen ym maes gofal cymdeithasol ynghylch geirfa bwrpasol a ddefnyddir o fewn y sector, mae hyn hefyd wedi'i ddarparu i awdurdodau cyfagos
- Mae gwersi Cymraeg pwrpasol wedi darparu hyder i ddysgwyr Cymraeg o fewn Gwasanaeth Clic i ddelio â galwadau ac ymholiadau yn y Gymraeg
- Datblygu brandiau/prosiectau sydd â'r Gymraeg yn greiddiol iddo, gyda slogan neu 'strapline' pwrpasol, wedi'u teilwra yn hytrach na chyfieithiadau llythrennol
- Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol Ceredigion yn hynod ragweithiol wrth gynnig y gwasanaeth yn Gymraeg. Mae hyn yn nodedig am y defnyddwyr gwasanaeth sy'n dioddef dementia ac sy'n dychwelyd i iaith eu plentyndod, mae pwysigrwydd ar yr angen iddynt gadw eu gafael ar eu hiaith gyfarwydd â'u traddodiadau diwylliannol.

- Cymorth trwy ddarpariaeth Cytundebau Lefel Gwasanaeth (CLG) gyda 6 sefydliad ieuencid gwirfoddol; mae'r CLG yn cynnwys targedau a chymorth i'r sefydliadau gyrraedd safonau a chynnig cyfleoedd yn y Gymraeg i blant a phobl ifanc.
- Mae gennym dau lysgennad Cymraeg yn Hyfforddiant Ceredigion Training (HCT); un mewn gwaith plymio ac un mewn gwaith coed). Y nod yw hybu fwy o ddysgwyr i fynd ati i ddysgu Cymraeg a'i ddefnyddio yn eu lleoliadau gwaith.
- Mae pob datganiad i'r Wasg yn ddwyieithog a pob neges ar y cyfryngau cymdeithasol yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg
- Rydym yn ymdrechu i gynyddu nifer y gofawyr maeth cyfrwng Cymraeg wedi'u cymeradwyo yng Ngheredigion i sicrhau bod modd i blant barhau i gael gofal mewn teulu Cymraeg.
- Mae cynllun Arfor, a ariennir trwy Lywodraeth Cymru wedi galluogi ffocws penodol ar ddatblygiad y Gymraeg sy'n gysylltiedig â thwf Economaidd, felly mae'r ddealltwriaeth o'r berthynas rhwng datblygiad Economaidd ac iaith yn tyfu.

### **Ymrwymiad Cyngor Sir Ceredigion i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i'r cyhoedd yn unol â gofynion Safonau Gweithredu**

Yn unol â'i ymrwymiad i gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi Datganiad Polisi, sydd ar gael ar wefan gorfforaethol y Cyngor, er mwyn rhoi gwybod i'r cyhoedd bod modd defnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu gyda'r Cyngor; trwy'r post, gwasanaethau wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu ar lein.

Mae'r Datganiad Polisi hwnnw yn nodi:

*Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymrwymo i gefnogi'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg, gan sicrhau bod ei wasanaethau a'i weithgareddau yn hyrwyddo ac yn hybu defnydd o'r Gymraeg ledled y Sir.*

[Y Gweithle Dwyieithog: \(ceredigion.gov.uk\)](http://ceredigion.gov.uk)

At hyn, yn ystod y misoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi diwygio ei **Siarter Cwsmer**, ac wedi cyhoeddi'r ddogfen ar y wefan gorfforaethol. Mae'r siarter hwnnw yn egluro bod y Cyngor yn darparu ystod eang o wasanaethau ac yn ceisio gwneud hynny mewn ffordd sy'n addas i anghenion y defnyddiwr ac mewn ffordd gyfleus a chwrtais. Mae'r Siarter Cwsmer yn disgrifio lefel y gwasanaeth y gall defnyddwyr ei ddisgwyl wrth gysylltu gyda'r Cyngor, ac mae hyn yn cynnwys darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg, yn unol â dewis iaith y defnyddiwr.

[Cyngor Sir Ceredigion Siarter Y - Cyngor Sir Ceredigion](#)



## Safonau sy'n ymwneud ag Ateb y Ffôn a Gohebu (Safonau 1 - 22)



Mae Gwasanaeth Gofal Cwsmer Clic Ceredigion yn gweithredu fel un pwynt mynediad i wasanaethau'r Cyngor, naill ai dros y ffôn neu'n ddigidol; ac fe gaiff defnyddwyr gwasanaeth y dewis i gysylltu gyda'r Cyngor yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae'r dewis iaith yn cael ei gofnodi ar y system ganolog; a phan mae angen trosglwyddo at swyddog arall, mae'r dewis iaith yn cael ei amlygu, fel bod Swyddogion yn ateb yn iaith yr ymholiad gwreiddiol. Mae nodyn atgoffa ar bob tudalen ymholiad ar y CRM yn atgoffa Swyddogion bod angen parchu dewis iaith fel a ganlyn:

**“Cofiwch ateb i'r ymholiad yma yn yr iaith cofnodwyd uchod / Remember to respond to the enquiry in the language recorded above “**

Mae Clic Ceredigion yn delio gyda holl ymholiadau cychwynnol ar draws ystod gwasanaethau'r Cyngor. At hyn, mae modd gwneud ymholiad neu leisio pryder drwy Wasanaeth Clic Ceredigion gan ddefnyddio ffurflen ar-lein. Mae'r ffurflen ar-lein wedi ei addasu er mwyn rhoi'r cyfle i ddefnyddwyr gwasanaeth roi gwybod ym mha iaith y byddent yn dymuno derbyn eu gwasanaethau drwy'r Cyngor; gweler isod.

### Opsiynau iaith (dewisol)

**Beth yw eich prif iaith?**

Dewiswch

Ym mha iaith y hoffwch chi dderbyn y ganlynol:

<b>Gohebiaeth Electronig</b>	<input type="radio"/> Cymraeg	<input type="radio"/> Saesneg	<input type="radio"/> Dwyieithog
<b>Gohebiaeth Bapur</b>	<input type="radio"/> Cymraeg	<input type="radio"/> Saesneg	<input type="radio"/> Dwyieithog
<b>Darparu Gwasanaethau</b>	<input type="radio"/> Cymraeg	<input type="radio"/> Saesneg	<input type="radio"/> Dwyieithog
<b>Ar Lafar</b>	<input type="radio"/> Cymraeg	<input type="radio"/> Saesneg	<input type="radio"/> Dwyieithog

Mae 19 aelod o staff yn rhan o dîm Clic Ceredigion, sy'n cynnwys 2 oruchwylydd. Mae 100% o'r Tîm yn medru'r Gymraeg (lefel ALTE 3, 4 neu 5); gydag 1 aelod o'r Tîm yn mynychu gwersi Cymraeg yn wythnosol. Mae pob aelod o staff newydd yn derbyn gwybodaeth ynghylch Safonau'r Gymraeg fel rhan o'r broses ymsefydlu.

Mae Gwasanaeth Clic yn cofnodi nifer y galwadau i'r ganolfan gyswllt. Mae'r galwadau yn Gymraeg yn gyson ac yn dueddol o fod tua 16% o'r holl alwadau, mae hyn 1% yn fwy o gymharu â'r nifer o'r galwadau a dderbyniwyd yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r cynnydd o bosib oherwydd bod Clic erbyn hyn yn cymryd galwadau ffôn ar ran y Gwasanaethau Cymdeithasol.

## Tudalen 282

Gweler y tabl isod sy'n crynhoi'r galwadau at Wasanaeth Clic, yn ystod y flwyddyn adrodd.

	Nifer Saesneg	Nifer Cymraeg	Cyfanswm Y Mis	% galwadau Cymraeg
Ebr-22	9134	1578	10712	14.7%
Mai-22	10050	1608	11658	14%
Meh-22	9620	1973	11593	17%
Gorf-22	10340	1993	12333	16%
Awst-22	9438	1889	11327	17%
Medi-22	9997	1985	11982	17%
Hyd-22	9756	2032	11788	17%
Tach-22	9122	1746	10868	16%
Rhag-22	6267	1383	7650	18%
Ion-23	9466	1820	11286	16%
Chwef-23	7503	1387	8890	16%
Maw-23	9245	1576	10821	15%
<b>Cyfanswm</b>	<b>109938</b>	<b>20970</b>	<b>130908</b>	<b>16%</b>
Cyfanswm Cyfunol	130908			

Mae'r gwasanaeth wedi dechrau casglu nifer o ymholiadau a dderbynnir drwy ffurfiau eraill hefyd, fel a ganlyn:

### Nifer o Ymholiadau ar y CRM - Ebrill 22 – Mawrth 23

laith	E-bost	Wyneb wrth Wyneb*	Fy Nghyfri	Cyfrynagau Cymdeithasol	Ffôn	Wê	Post
Cymraeg	98	323	3	5	5591	631	15
Saesneg	15588	1564	5	61	50616	31153	648
Dwyieithog	0	0	433	0	0	0	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>15686</b>	<b>1887</b>	<b>441</b>	<b>66</b>	<b>56207</b>	<b>31784</b>	<b>663</b>

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i godi ymwybyddiaeth am y gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael ar gyfer dinasyddion Ceredigion; ac yn awyddus iawn i annog ein trigolion i ddefnyddio'r gwasanaethau Cymraeg hynny sydd ar gael iddynt. Gweler adran 'codi ymwybyddiaeth am y gwasanaethau Cymraeg'. Fel rhan o'r broses cyflwyno'r Gwasanaeth Clic, rydym wedi addasu ein Neges Croeso dros y ffôn, a hynny er mwyn annog cwsmeriaid i ddewis y gwasanaeth Cymraeg.

*Diolch am alw Cyngor Sir Ceredigion/ Thank you for calling Ceredigion County Council.*

*Mae croeso ichi ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu gyda'r Cyngor / You are welcome to use Welsh when contacting the Council.*

*Am barhau yn Gymraeg gwasgwch 1: To proceed in English press 2*



Er mwyn sicrhau gweithrediad y Safonau ar draws ystod gwasanaethau'r Cyngor, rydym yn rhoi gwybod i Swyddogion am ofynion gweithredu'r Safonau drwy nifer o ffyrdd; y broses ymsefydlu, rhaglen e-ddysgu, tudalennau 'laith ar Waith' ar y fewnwyd, diweddariadau drwy fwletin Newyddion Tîm Ceredigion; ynghyd â sicrhau bod pob un yn ymwybodol o'r canllaw:

'Canllaw Safonau'r Gymraeg: Yr hyn sydd angen imi ei wneud.'

### **Safonau'n Ymwneud â chyfarfodydd (Safonau 24-38)**

Yn dilyn sgîl effaith y pandemig, mae'r Cyngor wedi mynd ati i fuddsoddi mewn offer technegol ar gyfer sicrhau bod modd cynnal holl gyfarfodydd democrataidd y Cyngor yn y dull 'hybrid'; gan gadw'r egwyddorion o fod yn agored ac yn atebol i'r cyhoedd.

Mae pob cyfarfod democrataidd y Cyngor yn cael eu cynnal yn ddwyieithog gyda darpariaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer rheiny nad ydynt yn medru'r Gymraeg. Er mwyn hwyluso'r dull 'hybrid' mae'r Cyngor yn defnyddio plattfform 'zoom', ac fe ddarlledir cyfarfodydd y Cabinet a'r Cyngor Llawn yn Gymraeg drwy Facebook; gyda'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn lleisio'r ffrwd Saesneg ar Facebook.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, buodd yn gyfnod o newid gweinyddiaeth, yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol ar y 5ed o Fai 2022. Yn y weinyddiaeth newydd hwn, mae mwyafrif helaeth o'r Cynghorwyr yn medru'r Gymraeg. Fodd bynnag, yn sgîl yr etholiad, bu tipyn o newid o ran Cynghorwyr, ac felly aed ati i gynnig sesiwn Ymwybyddiaeth laith ynghyd â throsolwg o ofynion Safonau'r Gymraeg yn gynnar ym mis Mehefin. At hyn cyhoeddwyd 'Canllaw Defnyddio'r Gymraeg mewn Cyfarfodydd', sy'n cefnogi'r egwyddor sylfaenol y dylid cynnal cyfarfodydd yn Gymraeg, gyda chyfleusterau cyfieithu i alluogi'r di-gymraeg i gymryd rhan llawn. Er mwyn hwyluso defnydd y Gymraeg ymhellach, mae'r canllaw yn cynnwys geirfa bwrpasol i'w defnyddio mewn cyfarfodydd.

## Tudalen 284

Er mwyn annog cyfranogwyr i wneud defnydd pellach o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd, lluniwyd sgript pwrpasol; ac oddi ar Mehefin 2022, ar gychwyn pob cyfarfod democrataidd y Cyngor mae'r Cadeirydd yn gwneud datganiad yn annog pobl i gyfrannu yn y Gymraeg; fel a ganlyn:

Croeso i [teitl y cyfarfod xxxxx]. Welcome

Mae croeso i chi ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg yn y cyfarfod. Bydd y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, yn cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg. Mae modd felly, ymateb yn Gymraeg i sylwadau a chwestiynau a gaiff eu gwneud yn Saesneg, yn ogystal ag i'r rhai a wneir yn Gymraeg.

O'r 14 Cyfarfod Democrataidd sefydlog mae:

- 11 Cyfarfod yn cael eu Cadeirio yn Gymraeg
- 2 Cyfarfod lle mae'r Cadeirydd yn croesawu'n Gymraeg, ac yna'n Cadeirio'n ddwy-ieithog: Mae cyfranogwyr yn cyfrannu yn Gymraeg, gan fod y gwasanaeth cyfieithu (o'r Gymraeg i'r Saesneg) ar gael.
- 1 Cyfarfod sy'n cael ei Gadeirio yn Saesneg, a hynny gan Aelod Lleyg: Mae cyfranogwyr yn medru cyfrannu yn Gymraeg, gan fod y gwasanaeth cyfieithu (o'r Gymraeg i'r Saesneg) ar gael.

At hyn darperir y gwasanaeth cyfieithu mewn digwyddiadau a chyfarfodydd cyhoeddus, yn cynnwys cyfarfodydd llesiant, ac ambell gyfarfod mewnol y Cyngor (er enghraifft cyfarfodydd disgyblu, cyfarfodydd bwrdd perfformiad, mewn cyfweiliadau ac mewn sesiynau hyfforddi). Rhwng Mawrth 2002 ac Ebrill 2023 mae 287 o bwyllgorau a/neu gyfarfodydd wedi eu cefnogi gan y tîm cyfieithu.

Y Gwasanaeth Cyfieithu

	2022-23
Cyfarfodydd Gwasanaethau Democrataidd y cyfieithwyd ynddynt	217
Cyfarfodydd Llesiant y cyfieithwyd ynddynt	15
Cyfarfodydd Arall y cyfieithwyd ynddynt	55
CYFANSWM y cyfarfodydd y cyfieithwyd ynddynt	287


Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cyflogi 7 aelod o staff o fewn y Gwasanaeth Cyfieithu. 5 llawn amser, 1 yn gweithio 3 diwrnod yr wythnos ac 1 yn gweithio 1 diwrnod yr wythnos. O'r rhain mae 4 amser llawn hefyd yn cyfieithu ar y pryd, 1 sy'n gweithio 3 diwrnod yr wythnos yn cyfieithu ar y pryd, ac mae 1 sy'n gweithio 1 diwrnod yr wythnos yn cyfieithu ar y pryd.

## Datganiadau ar ddogfennau a ffurflenni (Safonau 49, 50A)

Yn dilyn cyfarfod blynyddol monitro cydymffurfiaeth Comisiynydd y Gymraeg, cytunwyd y dylai'r Cyngor gymryd camau pellach i gydymffurfio gyda Safon 49 a 50A. Mae'r Safon hwn yn nodi bod angen rhoi gwybod bod dogfennau ar gael yn yr iaith Gymraeg yn ogystal ag yn yr iaith Saesneg:

49	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddogfen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg.
50A	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.

Felly aed ati i greu templedi i'w cynnwys ar ddogfennau a ffurflenni fersiwn Saesneg, er mwyn rhoi gwybod bod fersiwn Gymraeg ar gael.



Mae'r templedi wedi'u rhannu drwy Newyddion Tîm Ceredigion, a byddant ar gael ar y fewnwyd i Swyddogion gael gafael arnynt yn rhwydd. Bydd canllawiau atgoffa yn cael eu rhannu yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod Swyddogion yn cydymffurfio gyda'r gofyniad yn llawn.

### Safonau ynghylch Codi Ymwybyddiaeth am y Gwasanaethau Cymraeg Sydd ar Gael (Safon 81)

- Mae gwybodaeth am holl wasanaethau'r Cyngor ar wefan y Cyngor yn ddwyieithog.
- Ceir dogfen ar y wefan yn nodi'r Safonau y mae'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â hwy.
- Mae dogfen Datganiad Polisi Y Cyngor hefyd ar gael i'w lawr lwytho ar wefan y Cyngor, sy'n nodi ymrwymiad y Cyngor i gefnogi'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg, gan sicrhau bod ei wasanaethau a'i weithgareddau yn hyrwyddo ac yn hybu defnydd o'r Gymraeg ledled y Sir. [Y Gweithle Dwyieithog: \(ceredigion.gov.uk\)](http://ceredigion.gov.uk)

- Mae'r Cyngor yn gwneud defnydd helaeth o'r Cyfryngau Cymdeithasol, ac yn cynnal ymgyrchoedd rheolaidd i roi gwybod bod cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar gael; gweler isod:



Nifer dilynwyr ar gyfrifon Cyngor Sir Ceredigion:

Cyfrifon	Chwefror 2022	Chwefror 2023	Cynnydd
Facebook Cymraeg	1,639	2,491	+ 852
Facebook Saesneg	14,610	15,765	+ 1,155
Twitter Cymraeg	2,537	2,632	+ 95
Twitter Saesneg	8,469	8,686	+ 217
Instagram Caru Ceredigion (safle ddwyieithog)	1,204	1,420	+ 216

Mae'r Cyngor yn trefnu ymgyrchoedd er mwyn rhoi gwybod am y gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael, gan ddefnyddio diwrnodau penodedig yn y calendr i wneud hynny ee: Diwrnod Shwmae , Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Hawliau.

### Diwrnod Shwmae 15 Hydref 2022

Ar ddiwrnod Shw Mae eleni, cynhaliwyd seremoni gwobrwyo Dysgwr y Flwyddyn Cyngor Sir Ceredigion. Bu urddo Melisa Elek yn Ddysgwr y Flwyddyn yn gaffaeliad mawr i'r rhaglen Cymraeg yn y Gweithle. Mae Melisa yn wreiddiol o Ganada a'i theulu yn hanu o Groatia; ac mae hi bellach yn gweithio yn Hyfforddiant Ceredigion. Cafwyd seremoni a lluniwyd stori a fideo amdani, oll i annog myfyrwyr eraill y Cyngor ar Ddiwrnod Shwmae. Derbyniodd y digwyddiad sylw lleol a chenedlaethol.

Facebook: cyrhaeddiad: 1,959

Instagram: cyrhaeddiad: 355

## Diwrnod Hawliau'r Gymraeg 9fed Rhagfyr 2022

Ar ddiwrnod hawliau'r Gymraeg, fe wnaeth Cyngor Sir Ceredigion ymuno gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer codi ymwybyddiaeth o'r hawliau sydd gan bobl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio gyda'r Cyngor. Mae Cyngor Sir Ceredigion drwy weithredu Safonau'r Gymraeg, wedi bwrw ati i gynllunio gwasanaethau yn Gymraeg, ac yn awyddus i roi gwybod i drigolion Ceredigion bod gwasanaeth o ansawdd ar gael iddynt yn yr iaith. Mae'r safonau hefyd wedi arwain at sefydlu hawliau i weithwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, gan gynyddu'n sylweddol y cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith bob dydd.

Fe wnaethom gynhyrchu fideo, gyda nifer o swyddogion y Cyngor yn rhoi gwybod bod modd cysylltu gyda'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg; rhannwyd y fideo hwn yn eang ar y cyfryngau cymdeithasol ynghyd a chyhoeddi datganiad i'r wasg.

Facebook: Cyrhaeddiad: 1k

Twitter: Cyrhaeddiad: 491


Yn rhan o'r ymgyrch **#mae gen i hawl** yn fewnol ar gyfer Staff Ceredigion, fe drefnwyd sialens 'gair y dydd'. Cyhoeddwyd 'gair neu ymadrodd' y dydd ar CeriNet, a'r her i staff oedd defnyddio'r gair hwnnw wrth eu gwaith gyda chydweithwyr; gan ddarparu cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i helpu'r rheiny sy'n dysgu'r iaith i ehangu eu geirfa.

## Dydd Gŵyl Dewi, 1af Mawrth 2022



I dathlu Gŵyl Dewi fe grëwyd fideo er mwyn annog trigolion Ceredigion i wneud defnydd o'r Gymraeg; gan hyrwyddo gwneud y pethau bychain yn Gymraeg, fel a ganlyn:

- Dechrau sgwrs yn Gymraeg
- Tecstio yn Gymraeg
- Defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg
- Gwranddo ar gerddoriaeth yn Gymraeg
- lawr lwytho ap newydd yn Gymraeg
- Cysylltu â'r Cyngor Sir yn Gymraeg



Yn fewnol at bwrpas dathlu'r diwrnod gydag aelodau staff trefnwyd cwis yn rhithiol drwy blatfform Teams; defnyddiwyd meddalwedd mentimeter i greu cwis rhyngweithiol. Cafwyd cynulleidfa swmpus, yn gymysgedd o siaradwyr Cymraeg rhugl, ynghyd â dysgwyr. Roedd yn gyfle i bawb ddefnyddio'u Cymraeg yn anffurfiol yn y gweithle; a chafwyd adborth rhagorol, dyma flas:

*Wedi joio a dysgu rhywbeth am hanes Cymru. Roedd yr amseru yn dda, dim rhy araf i gollu diddordeb.*

*Rhywbeth bach gwahanol i'w wneud i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ddaeth â gwên fach i'r wyneb.*

Gweithiodd y wefan Mentimeter yna'n dda iawn.

Diolch Carys, enjoyed the quiz, I ended up 11th, but my knowledge of Welsh history has been improved!! I am a Welsh learner so good to listen to the Welsh spoken before, during and after the quiz and to see the written Welsh too.

### **Safonau yn ymwneud ag Hunaniaeth Gorfforaethol (Safonau 61-63; 81-- 83)**

Hunaniaeth ddwyieithog sydd i'r Cyngor hwn – sef Cymraeg a Saesneg.



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council



Yn achos enw'r Cyngor, Ceredigion yw'r enw ac nid oes cyfieithiad ohono. Teitl y Cyngor yw Cyngor Sir Ceredigion County Council. Ni chaiff yr arwyddair sef "Golud Gwlad Rhyddid" ei gyfieithu. Cafodd yr arwyddair ei roi yn swyddogol ar yr 21ain o Hydref 1937 i Gyngor Sir Aberteifi, a drosglwyddwyd i Gyngor Dosbarth Ceredigion yn 1974 ac yn ddiweddarach i Gyngor Sir Ceredigion yn 1996.

O ran yr arfbais, mae'r llew aur ar gefndir du yn seilledig ar arfbais Gwaithfoed, sef Tywysog canoloesol yng Ngheredigion. Mae'r penwaig a'r gwenith yn cynrychioli'r diwydiant pysgota ac amaethyddiaeth; mae'r 'chevron' a'r rhosod yn cael eu priodoli gydag Dewi Sant, Nawddsant Cymru, sydd â chysylltiadau agos iawn â Cheredigion. Ystyr yr arwyddair yn Saesneg yw: "A nation's wealth is freedom"





At hyn, mae'r Cyngor yn gwneud defnydd cynyddol o'r brand 'Caru Ceredigion'. Mae Caru Ceredigion yn ymwneud ag ysbrydoli pawb yn y Sir i hyrwyddo'r pethau cadarnhaol o ran ymddygiad, agweddau a phroffil - mae hyn yn dda ar eu cyfer nhw, y gymuned leol a Cheredigion.

[Caru Ceredigion - Cyngor Sir Ceredigion](#)

- Mae'r Cyngor yn ymrwmo i ddatblygu brandiau / mentrau sydd â'r Gymraeg yn ganolog iddo, gan fathu sloganau (straplines) pwrpasol, wedi'u teilwra yn hytrach na chyfieithiadau llythrennol.
- Mae pob arwydd mewnol ac allanol a osodir gan y Cyngor neu ar ran y Cyngor yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf.
- Yn unol â'r Polisi Rhifo ac Enwi Strydoedd byddwn yn cyflawni'r canlynol:
  - **Enwi Tai:** Yn unol â'r Polisi Rhifo ac Enwi Strydoedd, os bydd perchennog yn gwneud cais am newid enw tŷ o'r Gymraeg i'r Saesneg, mae Swyddog Cyfeiriadau y Cyngor yn danfon llythyr sy'n eu hannog i ail ystyried, gan egluro bod enw'r tŷ yn perthyn i dreftadaeth diwylliannol ac hanesyddol yr ardal. Maent yn cael 10 diwrnod i ail ystyried eu penderfyniad. Fodd bynnag, os ydynt yn parhau gyda'u cais i newid yr enw i'r Saesneg, nid oes gan y Cyngor unrhyw rym statudol i orfodi ymhellach.
  - **Enwi Ystadau neu Strydoedd Newydd:** Yn unol â'r Polisi Rhifo ac Enwi Strydoedd, bydd y Cyngor yn ymgynghori â'r Cynghorau Tref a Chymuned, er mwyn sicrhau defnyddio enwau Cymraeg ar strydoedd newydd a stadau tai newydd. Bydd hefyd yn gwneud defnydd o wasanaeth ymgynghorol enwau lleoedd Comisiynydd Gymraeg am gyngor ynghylch ffurfiau safonol enwau lleoedd.

#### Arfer da:

Yn ddiweddar fe wnaeth Angharad Fychan, Enwau Lleoedd Cymru gynnal gweithdy gyda Disgyblion Ysgol Penrhyn-coch, hyn oherwydd 'cynefin' oedd thema cwricwlwm yr ysgol. Yn rhan o'r gweithdy gosodwyd sialens i enwi Ystâd newydd.

Yr enw awgrymedig ar yr ystâd newydd yw: **GWAR Y GARTH**

Garth- dyma hen enw rhan uchaf y pentre (Penrhyn Uchaf gynt), a Garth Uchaf a Garth Isaf yw'r ddwy stryd gyferbyn â'r Neuadd. Ond gan fod yr enw hwnnw'n prysur ddiflannu oddi ar gof pobl, mae'n gyfle gwych i gadw'r enw yn fyw. Ystyr Garth yw 'cefnen' - h.y. mae'n ddisgrifiad o'r trwyn o dir sy'n codi fyny o Cae Mawr i gyfeiriad Garej y busus.

Maent wedi dewis Gwar fel cychwyn yr enw er mwyn rhoi amrywiaeth i enwau ystadau yn y pentref, mae nifer fawr o MAES Y ym Mhenrhyn-coch ac felly mae Gwar yn rhoi cyflythreniad taclus gyda Garth. Mae Gwar hefyd yn enw adnabyddus gan fod Cae Gwar Felin oedd enw'r cae lle mae Glan Seilo a Ger-y-cwm ar y map degwm.

## **Cydymffurfio â Safonau Llundio Polisi (Safon 88-89)**

**Safonau Llundio Polisi:** Mae'r set o safonau hyn yn nodi ei bod yn ofynnol i'r Cyngor ystyried y Gymraeg wrth wneud unrhyw benderfyniad polisi, ynghyd â chymryd camau cadarnhaol i hyrwyddo defnydd o'r iaith.

Mae'r Safonau Llundio Polisi yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Sir Ceredigion:

- ystyried effeithiau penderfyniadau polisi'r Cyngor ar y Gymraeg; gan gymryd camau i liniaru unrhyw effaith andwyol ynghyd â manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg
- ystyried effaith defnydd o'r Gymraeg wrth ddyfarnu grantiau
- ceisio barn ar yr effeithiau ar y Gymraeg wrth ymgysylltu neu ymgynghori, a holi barn siaradwyr Cymraeg a defnyddwyr yr iaith.

Er mwyn cryfhau cydymffurfiaeth gyda'r dosbarth o Safonau yn ymwneud â llunio polisiâu, mae'r Cyngor wedi cymryd y camau gweithredu canlynol yn ystod y flwyddyn:

### **Ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar y Gymraeg [Asesiad Effaith Integredig] Safonau 88-90**

Mae fframwaith Asesu Effaith Integredig y Cyngor, yn cynnwys cwestiynau er mwyn medru ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar yr egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae'n ofynnol cyflwyno Asesiad Effaith Integredig gydag phob dogfen sy'n trafod penderfyniad polisi ar gyfer cael ei hystyried gan Gabinet y Cyngor. Mae hyn yn darparu gwarant bod ystyriaethau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg wedi'u hystyried wrth lunio'r ddogfen; a bod mesurau lliniaru wedi eu nodi er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau negyddol ar yr iaith Gymraeg. Yn ystod y cyfnod adrodd, cafodd 13 o Asesiadau Effaith Integredig eu cyflwyno i Gabinet y Cyngor.

Mae'r fframwaith Asesu Effaith Integredig ar hyn o bryd yn cael ei adolygu. O ran yr asesiadau effaith sy'n cael eu cyflwyno i'r Cabinet, rydym yn dal i weld lle i wella o safbwynt ystyried effaith ar y Gymraeg, ac yn y cyfnod nesaf byddwn yn gweithio ar ddatblygu canllawiau er mwyn darparu cyngor i Swyddogion o ran ystyriaethau'r Gymraeg wrth wneud penderfyniadau polisi.

### **Ystyried effeithiau dyfarnu grantiau ar y Gymraeg [Safon 71-75, 94]**

Yn ystod y cyfnod adrodd aed ati i ddatblygu a chyhoeddi Polisi'r Gymraeg ar Ddyfarnu Grantiau, fel sy'n ofynnol [Safon 94]. Cafodd y Polisi hwn ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Cabinet ar y 10fed o Ionawr.

Mae dyfarnu grantiau â'r potensial i gael effeithiau pellgyrhaeddol ar y Gymraeg, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol; mae gan nifer o'r grantiau hyn draweffaith cymdeithasol ac economaidd sydd yn ei dro'n dylanwadu ar y Gymraeg. Mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud hi'n ofynnol ystyried pa effaith fyddai dyfarnu'r grant yn ei gael ar y:

- cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yng nghyd-destun y gweithgaredd
- peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y gweithgaredd

## Tudalen 291

Wrth ddatblygu'r polisi, trefnwyd nifer o sgysiau gyda Swyddogion sy'n rhan o'r gwaith dyfarnu grantiau o fewn y Cyngor, ar gyfer derbyn mewnbwn a'u sylwadau. Nod y polisi yw cynorthwyo swyddogion ynghylch sut i ystyried defnydd o'r Gymraeg wrth ddyfarnu'r grant hwnnw. At hyn, sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn ymwybodol o'u dyletswyddau wrth ddod i benderfyniadau ynghylch gosod grantiau.

Oddi ar cymeradwyo'r Polisi ym mis Ionawr, rydym wedi bod yn cadw cofnod o'r broses dyfarnu grantiau; maes o law rydym yn gobeithio medru cofnodi'r defnydd a wneir o'r Gymraeg o ganlyniad derbyn y grant.

Enw'r Gwasanaeth	Cyfanswm nifer y grantiau a ddosbarthwyd oddi ar Ionawr 2023	Nifer o ymgeiswyr sydd wedi cyflwyno eu ceisiadau yn Gymraeg
Economi ac Adfywio - Twf a Menter	9	2
Cynllun Grant Cymunedol Ceredigion, Cyllid a Chaffael	9	6
Y Gwasanaeth Ieuenctid Cytundebau Lefel Gwasanaeth	6	3
Y Gwasanaeth Ieuenctid Grant Cymorth Ieuenctid	4	4
Y Gwasanaeth Gofal Plant	37	10

### **Ystyried effeithiau ar y defnydd o'r Gymraeg yn rhan o Ymgynghoriad Cyhoeddus: Safonau 91-93**

Yn rhan o'r Fframwaith Ymgynghori y Cyngor, rydym wedi datblygu set o gwestiynau y gall Swyddogion eu defnyddio wrth ymgymryd ag unrhyw ymgynghoriad, hyn er mwyn ystyried beth yw barn y cyhoedd ar effaith arfaethedig y penderfyniad ar y Gymraeg. Fodd bynnag, mae pob ymgynghoriad yn medru bod yn wahanol, ac oherwydd hyn rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Swyddogion Ymgysylltu, er mwyn ceisio annog Swyddogion i gysylltu gyda'r Swyddog Polisi Iaith am gyngor wrth drefnu'r ymgynghoriad.

Ers dechrau cadw'r cofnod hwn ym mis Mehefin 2022, mae 14 Ymgynghoriad Cyhoeddus wedi'u cynnal, ond wrth gyflawni'r gwaith adolygu dim ond 8 wnaeth gynnwys y gofyniad i asesu effaith ar y Gymraeg. Er mwyn gwella'r sefyllfa, rydym bellach yn Cydweithio gyda'r Tîm Ymgysylltu, er mwyn medru monitro ymgynghoriadau cyhoeddus y Cyngor, ac i sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion statudol Safonau'r Gymraeg.

## **Cydymffurfiaeth â Safonau Gweithredu (99-144)**

Mae'r set o **Safonau Gweithredu (98-144)**, yn ymdrin â'r ffordd y mae'r Cyngor yn defnyddio'r Gymraeg yn fewnol, ac yn darparu hawliau i weithwyr yng nghyd-destun derbyn eu gwasanaeth adnoddau dynol yn eu dewis iaith. Mae'r set o Safonau yn gofyn i'r Cyngor edrych ar ddulliau i gynyddu a hwyluso defnydd y Gymraeg yn fewnol, er mwyn cyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cymru i weld mwy o bobl yn siarad ac yn defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd.

Mae'r set o Safonau Gweithredu yn gofyn i'r Cyngor adrodd ar y data canlynol:

Safon 151	<b>Sgiliau iaith Staff :</b>	Nifer y staff sydd a sgiliau yn y Gymraeg, fesul lefel ALTE, yn ystod y flwyddyn dan sylw
154	<b>Recriwtio i Swyddi Gwag</b>	Nifer y swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn sy'n gofyn am sgiliau iaith Gymraeg, ac a gategoreiddiwyd gydag lefelau ALTE
130	<b>Hyfforddiant Dysgu neu Wella Sgiliau iaith:</b>	Nifer yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi naill ai i ddysgu neu wella eu sgiliau iaith Gymraeg
152	<b>Darpariaeth Hyfforddiant Cyfrwng Gymraeg</b>	Nifer y staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant a gynigwyd gan y Cyngor yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn.
128, 129, 152 170	<b>Cwynion gan Aelodau'r Cyhoedd:</b>	Nifer y cwynion a dderbyniwyd sy'n Gysylltiedig â'r iaith Gymraeg

Er mwyn cryfhau cydymffurfiaeth gyda'r dosbarth o Safonau yn ymwneud â threfniadau gweithredu mewnol, mae'r Cyngor wedi cymryd y camau gweithredu canlynol yn ystod y flwyddyn:

### **Gwefan Swyddi ( Safonau 137 – 139)**

Yn dilyn archwilio'n gwefan swyddi cawsom wybod gan Gomisiynydd y Gymraeg bod angen i ni gymryd camau i wneud yn siŵr bod ymgeiswyr yn deall bod croeso iddynt gyflwyno eu ceisiadau am swyddi yn yr iaith Gymraeg. Yn dilyn hyn rydym wedi cymryd y camau gweithredu canlynol:

Mae'r frawddeg isod wedi cael ei gosod ar dudalen recriwtio y Cyngor:

*Rydym yn gweithredu polisi dwyieithog. Gwahoddir ymgeiswyr i wneud cais yn Gymraeg, ni fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg.*

*We operate a bilingual policy. All applicants are invited to apply in Welsh, any application submitted in Welsh will not be treated less favourably than an application made in English.*

**DOLEN:** [Pori Swyddi | Ceredigion County Council Careers](#)

At hyn hefyd, rydym yn edrych ar greu botwm ychwanegol ar bob tudalen sy'n cynnwys manylion llawn y swydd, lle gellid dewis naill ai i wasgu:

- Cais Ar-lein: er mwyn gwneud y cais yn Gymraeg
- Apply Online: er mwyn gwneud y cais yn Saesneg.

Mae hyn yn golygu, os bydd person yn edrych ar y dudalen swyddi yn Saesneg, bydd modd iddynt glicio i gwblhau'r broses ymgeisio am swydd yn Gymraeg yn gwbl ddi-rwystr (yn yr un modd, os edrychir ar y wefan yn Gymraeg, bydd botwm i gwblhau'r ffurflen yn y naill iaith neu'r llall). Mae'r Adran TG yn gweithio i ddatblygu'r drefn hwn ar hyn o bryd.

## Sgiliau iaith Staff (Safon 127, 151)

Mae'r cyngor yn mesur sgiliau iaith staff gan ddefnyddio fframwaith ALTE (The Association of Language Testers in Europe). Mae'r fframwaith hwn yn gosod lefel sgiliau iaith rhwng 0-5, ac yn gosod 'datganiadau medru pwrpasol'. Bydd pob aelod o staff yn hunan-asesu ei sgiliau iaith gyferbyn a'r datganiadau medru hyn, ac yn eu cofnodi ar system Ceri Adnoddau Dynol; hyn fel bod modd adrodd ar ddata yn flynyddol, yn unol â gofynion Safon 127 a 151.

- Gweler **Atodiad 1** ar gyfer y data sgiliau iaith staff wedi ei gyflwyno fesul gwasanaeth.
- Gweler **Atodiad 2** ar gyfer Fframwaith ALTE Cyngor Sir Ceredigion

Mae'r data isod yn gosod y gymhariaeth yn nifer y staff sydd â sgiliau gwrando a siarad yn y Gymraeg, rhwng adroddiad llynedd a'r sefyllfa eleni:

Gwrando / Siarad <b>2021-22</b>			Gwrando / Siarad <b>2022-23</b>		
Lefel	Nifer y staff	%	Lefel	Nifer y staff	%
Lefel 5	651	32%	Lefel 5	655	32%
Lefel 4	315	15%	Lefel 4	325	16%
Lefel 3	312	15%	Lefel 3	282	14%
Lefel 2	294	14%	Lefel 2	297	15%
Lefel 1	394	20%	Lefel 1	397	20%
Dim Sgiliau	79	4%	Dim sgiliau	73	3%
CYFANSWM	2045	100%	CYFANSWM	2029	100%

## Y Prif Benawdau

- Mae gyda Cyngor Sir Ceredigion, 16 yn llai o staff na'r cyfnod hwn llynedd.
- Mae 62% o staff gyda'r gallu i sgwrsio ar lafar yn Gymraeg (sef ALTE Lefel 3,4 a 5), mae hyn yn gyson a phroffiliau blaenorol o sgiliau'r gweithle.
- At hyn, mae 35% o staff gyda lefel cwrtseisi iaith sylfaenol yn y Gymraeg (Lefelau ALTE 1 a 2)
- Dim ond 3% o'r gweithlu sydd wedi nodi nad oes ganddynt sgiliau Cymraeg o gwbl. Er mwyn ceisio lleihau'r nifer o weithwyr sydd yn nodi nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg, bydd y Cyngor yn annog Swyddogion i gwblhau'r pecyn e-ddysgu 10 awr 'Croeso Cymraeg' sydd wedi ei ddatblygu gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol.

- Mae'r niferoedd sydd â sgiliau yn y Gymraeg o fewn y sector gofal yn parhau i fod yn destun pryder, mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r prinder sgiliau Cymraeg ar draws y sector yn genedlaethol. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r Cyngor yn ceisio datblygu ei weithlu cyfredol, ac yn sefydlu arfer da wrth drefnu rhaglen hyfforddiant ar y cyd gyda'r Brifysgol Agored.

### Recriwtio i Swyddi Gwag

#### Nifer y swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn sy'n gofyn am sgiliau iaith Gymraeg, ac a gategoreiddiwyd gyda lefelau ALTE

Gofynion ieithyddol swyddi a hysbysebwyd 2022-2023		
	Nifer	Canran
Cyfanswm nifer y swyddi a hysbysebwyd	601	
Nifer y swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 5	109	18%
Nifer y swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 4	26	4%
Nifer y swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 3	237	40%
Nifer y swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 2	144	24%
Nifer y swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 1	85	14%
Cyfanswm	601	100%

Mae'r Cyngor yn parhau i hysbysebu am sgiliau iaith Gymraeg rhugl, ALTE 5 mewn nifer o swyddi (18%); caiff y nifer uchaf o swyddi eu hysbysebu drwy ofyn am lefel iaith ALTE 3 (40%) Mae ALTE lefel 3 yn gofyn bod person yn medru deall a chymryd rhan mewn sgysiau arferol o ddydd i ddydd yn y swyddfa, lle mae lefel 5 yn golygu rhuglder llwyr yn y Gymraeg. Gweler fframwaith ALTE Cyngor Sir Ceredigion yn **Atodiad 2**.

Mae'r Cyngor yn sicrhau bod personau yn cael dewis iaith wrth gynnal eu cyfweiliad i swydd, yn unol â Safon 137.

Ymgeisydd: Dewis iaith Mewn Cyfweiliad		
Saesneg	2473	84%
Cymraeg	423	15%
Heb nodi dewis iaith	32	1%

Mae'r nifer sy'n dewis cynnal eu cyfweiliad yn y Gymraeg yn parhau i fod yn isel o gymharu gyda'r nifer sy'n dewis cynnal eu cyfweiliad yn Saesneg. Ym mis Ebrill eleni, mae'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol wedi cymryd nifer o gamau er mwyn tynnu sylw bod modd cyflwyno ffurflenni cais a chynnal cyfweiliad yn newis iaith yr ymgeisydd. Gellir darllen y camau sydd wedi'u cymryd o dan y pennawd '**Gwefan Swyddi**' 'uchod.

Mae'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol yn rhannu newyddlen bod wythnos, ac fe gaiff staff ddewis iaith i dderbyn y newyddlen. Mae'r niferoedd sy'n dewis derbyn Newyddion HR News yn y Gymraeg yn unig yn isel, fodd bynnag, mae'r nifer sy'n derbyn Newyddion HR News yn ddwyieithog yn 78%.

iaith	Nifer	Canran
Saesneg	688	19%
Cymraeg	92	3%
Dwyieithog	2868	78%

### Hyfforddiant Dysgu Cymraeg

#### Nifer yr aelodau staff a fynychodd gysiau hyfforddi naill ai i ddysgu neu wella eu sgiliau iaith Gymraeg:

Mae'r bartneriaeth rhwng y Cyngor Sir a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol yn parhau, er mwyn medru ariannu Tiwtor Cymraeg Gwaith. Rydym wedi profi bod cyflogi Tiwtor Cymraeg Gwaith yn y gweithle yn gwneud gwahaniaeth mawr yn y niferoedd sy'n derbyn cyfle i ddysgu Cymraeg o fewn y Cyngor.

Cwrs	Nifer mynychu
Cwrs Mynediad	26
Cwrs Sylfaen	18
Cwrs Canolradd	15
Cwrs Uwch	6
<b>Cyfanswm Dysgwyr</b>	<b>65</b>

Arholiadau CBAC	Nifer
Ionawr 2023	14 wedi sefyll yr arholiad Mynediad yn Ionawr 2023. 14 wedi pasio.  Targed nesaf y myfyrwyr bydd yr arholiad lefel Sylfaen yn 2023/24.
Haf 2023	10 wedi cofrestru i sefyll yr arholiadau. 5 Mynediad, 4 Sylfaen, 1 Canolradd.
<b>Cyfanswm</b>	<b>24</b>

#### Dyfyniad gan ddysgwr:

*"I am finding the course very helpful, it is beneficial to my role within the council whilst dealing with email queries or phone calls. I also work a few days from the office and find that when people approach me and speak, I can understand a certain amount of what they are saying."*

**Siaradwyr Newydd yn profi llwyddiant y prosiect Tiwtor Iaith Gwaith**

Yn ein adroddiad blynyddol llynedd fe wnaethom adrodd bod 21 aelod o staff ar gwrs Uwch dysgu Cymraeg. Drwy gwblhau'r cwrs lefel uwch hwn, mae'r Cyngor yn falch i adrodd bod y criw yma bellach yn siaradwyr newydd, a'u bod wedi magu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau proffesiynol a phersonol. Maent hefyd mewn sefyllfa i fanteisio ar y cyrsiau gloywi a hyfedredd a ddarperir gan y Cyngor.

Dyfyniadau gan fynychwyr y Cwrs Uwch:

*“Rwy'n mwynhau rhan gymdeithasol y cwrs. Rwy'n deall yr iaith yn well ac mae fy ngeirfa wedi gwella hefyd. Mae e wedi rhoi'r hyder i mi siarad Cymraeg yn y gweithle ac i'n hymwelwyr yn yr amgueddfa.”*

*“Eleni, dw i'n teimlo bod mae gen i llawer mwy o hyder i siarad Cymraeg a deall yr iaith. Nawr, dw i'n mynd i 'Dal Ati' ac 'Ar Gered' i ymarfer fy Nghymraeg!”*

*“Mae'r cwrs uwch (un) Cymraeg yn cefnogi fy natblygiad parhaus o ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a bywyd bob dydd. Mae fy hyder wedi gwella ac rwy'n falch o allu defnyddio fy sgiliau Cymraeg.”*

Adnoddau Allgyrsiol
<p><b>Y Clwb Cinio</b></p> <p>Defnyddiwyd y Clwb Cinio mewn dulliau gwahanol yn ystod eleni.</p> <p><u>Clwb Adolygu</u></p> <p>Yn dilyn annog cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg ar ddechrau tymor yr Hydref, ffurfiolwyd y Clwb fel anodd adolygu ar gyfer yr arholiadau yn wythnosau olaf Rhagfyr a thrwy gydol mis Ionawr. Mynychwyd y sesiynau hyn gan yr 14 oedd yn sefyll yr arholiad a nifer o fyfyrwyr eraill oedd eisiau cadarnhau eu Cymraeg. Yn ystod mis Ionawr daeth y Clwb yn ddigwyddiad dyddiol, gyda sesiynau ar y cyd a sesiynau un-i-un yng nghwmni'r Swyddog Hyfforddi ar gael i'r myfyrwyr.</p> <p>Bydd y Clwb Adolygu'n rhedeg eto i baratoi ar gyfer arholiadau'r Haf.</p> <p><b>Gweithgareddau</b></p> <p><u>Partïon Nadolig</u></p> <p>Cynhaliwyd Partïon Nadolig ar Teams i holl fyfyrwyr y rhaglen Cymraeg Gwaith.</p> <p><u>Cwis Gŵyl Ddewi</u></p> <p>Aeth y Swyddog Hyfforddi a chriw o fyfyrwyr Canolradd ac Uwch y rhaglen Cymraeg Gwaith i gwis i staff y Cyngor ar Ddydd Gŵyl Ddewi. Dyma roi cyfle i'r myfyrwyr i ddefnyddio'u Cymraeg yn anffurfiol, ac ymateb i'r profiad yn ddiweddarach yn eu dosbarthiadau.</p> <p><u>Ymweliadau Amgueddfa (yn cynllunio hyn)</u></p> <p>Yn ystod misoedd Chwefror a Mawrth 2023 mae'r Swyddog Hyfforddi wedi bod yn cydweithio a swyddogion Amgueddfa Ceredigion i drefnu teithiau tywys o gwmpas yr Amgueddfa ar gyfer gwahanol lefelau astudio'r rhaglen Cymraeg Gwaith. Bwriedir cynnal y teithiau hyn yn ystod tymor yr Haf.</p> <p><b>Ffrind Iaith</b></p> <p>8 o Ddysgwyr wedi ymrwymo i'r cynllun Ffrind Iaith Adolygu – cynllun newydd ar gyfer eleni – ac 8 mentor yn eu cefnogi.</p> <p>Adeiladwyd y rhaglen o gwmpas arholiadau mis Ionawr.</p> <p>Rhodddwyd y cyfle i'r 14 myfyriwr oedd yn sefyll yr arholiadau i baru a mentor o blith staff y Cyngor. Manteisiodd 8 ar y cyfle.</p> <p>Darparodd y Swyddog Hyfforddi daflenni gweithgaredd dyddiol ar gyfer y parau drwy gydol Ionawr, yn canolbwyntio ar wahanol agweddau ar yr arholiad oedd i ddod.</p> <p>Bu'r rhaglen yn llwyddiant, gyda phob myfyriwr ar y rhaglen yn pasio'r arholiad.</p> <p>Dyma adborth oddi wrth y myfyrwyr:</p>



*“The opportunity to speak with a fluent Welsh speaker using the worksheets focused around possible exam questions was a great help, especially in preparation for the speaking element of the exam.”*

*“Mae fy Ffrind iaith Adolygu wedi bod yn wych! Cafodd hi gyfarfod â fi bob dydd cyn yr arholiad ac yn rhoi llawer o anogaeth i fi.”*

### Cyrsiau i wella sgiliau iaith

Rhif Safon	Enw'r Cwrs	Niferoedd
129	Gwella eich sgiliau Ysgrifennu yn Gymraeg	Wedi'i drefnu ar gyfer Mai 2023 gyda 14 o gyfranogwyr wedi archebu lle
129	Cwrs Codi Hyder Defnyddio'r Gymraeg: Cwrs Preswyl Nant Gwrtheyrn	Wedi'i drefnu ar gyfer Gorffennaf 2023, 6 o gyfranogwyr wedi archebu lle

### Darpariaeth Hyfforddiant Corfforaethol Cyfrwng Cymraeg:

Mae cyfleoedd hyfforddi yn cael eu hyrwyddo a'u darparu i staff yn yr erthygl Newyddion Adnoddau Dynol wythnosol a gyhoeddir i'r holl staff yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r Tîm Dysgu a Datblygu hefyd yn dosbarthu Cylchlythyr chwarterol i staff gofal cymdeithasol mewnol ac allanol sy'n ddwyieithog.

Mae digwyddiadau hyfforddi sydd ar y gweill hefyd yn cael eu hyrwyddo drwy Cerinet, system fewnwyd y Cyngor. Caiff staff ddewis mynd i mewn i'r safle yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Gall staff chwilio am gyrsiau ar Cerinet, trwy deipio 'Cymraeg', bydd y cyrsiau sydd ar gael yn Gymraeg yn cael eu dangos, ac mae hyn yn cynnwys yr ystod o wersi Cymraeg Gwaith. Maent yn gallu gweld ac archebu presenoldeb ar gyrsiau hyfforddi neu gofrestru eu diddordeb drwy roi eu henw ar restr aros. Dangosir teitlau cyrsiau yn Gymraeg a Saesneg, ac amlygir y rhai sy'n cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg gydag 'c'.

Mae'r awdurdod wedi buddsoddi mewn System Rheoli Dysgu newydd sef Pwll Dysgu Ceredigion, sy'n cynnal yr holl raglenni e-ddysgu a gynigir. Yn wahanol i'r safle blaenorol mae hwn bellach yn rhoi dewis i staff gael mynediad i'r safle yn Gymraeg neu Saesneg, at hyn mae staff yn medru cwblhau'r rhaglenni e-ddysgu yn eu dewis iaith. Mae gan staff hefyd y dewis i 'toglo' rhwng ieithoedd wrth gwblhau modiwlau e-ddysgu.

**Cyfanswm nifer y sesiynau hyfforddi a gynigwyd gan y Cyngor i Staff**

Rhif y Safon:	Gofyniad	Nifer a %
152	Cyfanswm nifer y sesiynau hyfforddi a gynigwyd gan y Cyngor i staff,	719 o sesiynau (heb gynnwys digwyddiadau ysgol neu e-ddysgu) 4,842 o staff wedi mynychu
152	Cyfanswm a % y sesiynau hyfforddi a gynigwyd yn Gymraeg i staff	25 cynnig (3%) 20 sesiwn wedi'u canslo: 17 oherwydd dim digon o niferoedd.
152	Cyfanswm a % y sesiynau hyfforddi a gynigwyd yn Gymraeg neu'n ddwyieithog i staff	30 cynnig (4%) 21 sesiwn wedi'u canslo: 18 ohonynt oherwydd dim digon o niferoedd
152	Cyfanswm nifer a % y staff a fynychodd gyrsiau a ddarparwyd gan y Cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y flwyddyn	99 (2%) o staff wedi mynychu

**Nifer y sesiynau hyfforddi a gynigwyd yn Gymraeg yn unol â Safon 128**

Rhif y Safon:	Enw'r cwrs	Nifer ddaeth i'r fersiwn Cymraeg	Nifer ddaeth i'r fersiwn Saesneg	% a fynychodd y fersiwn Cymraeg
128	Recriwtio a chyfweld sgiliau	Wedi'i gynnwys yn Rhaglen newydd Rheolwr Ceredigion, gweler isod		
128	Rheoli perfformiad	Wedi'i gynnwys yn Rhaglen newydd Rheolwr Ceredigion, gweler isod		
128	Cwynion a Gweithdrefn Ddisgyblu	3 sesiwn wedi'u canslo dim digon o niferoedd	6 sesiwn wedi'u canslo dim digon o rifau	0
128, 133	Sesiynau Sefydlu – sy'n cynnwys gwybodaeth am y safonau iaith Gymraeg.	Heb ei gyflwyno	0	0
128	Delio â'r Cyhoedd (h.y. Gofal Cwsmer: Cwsmer yn Gyntaf)	Heb ei gyflwyno	11	0
128	Iechyd a Diogelwch	Cynigiwyd 5 sesiwn ond cafodd pob un eu canslo oherwydd dim digon o niferoedd.	208 o sesiynau amrywiol wedi'u cyflwyno. 35 sesiwn wedi'u canslo - 15 o'r rhain oherwydd dim digon o niferoedd. 172 wedi mynychu	0

129	Ymwybyddiaeth Hanes yr Iaith a'r Safonau Iaith: rhaglen e-ddysgu	140	1078	11%
-----	--	-----	------	-----

**Rhaglen Hyfforddi Rheolwyr Ceredigion:**

Rhif Safon	Enw'r Cwrs:	Nifer ddaeth i'r fersiwn Cymraeg	Nifer ddaeth i'r fersiwn Saesneg	% a fynychodd y fersiwn Cymraeg
128	Rhaglen Hyfforddi Rheolwr Ceredigion	3	22	12%
128	Cadeirio cyfarfodydd rhithiol i reolwyr	Heb ei gyflwyno	11	0
128	Rheoli Sgyrsiau Anodd	3	0	100%

**Cydymffurfiaeth a'r Safonau Hybu (Safonau 145-146)**

Mae'r Safonau Hybu yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor lunio Strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut bydd y Cyngor yn mynd ati i greu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ehangach o fewn y Sir; annog mwy o ddefnydd o'r iaith ac, yn y pen draw, gweld mwy o siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion ar ddiwedd y cyfnod 5 mlynedd. Ar ddiwedd y cyfnod 5 mlynedd, mae'n ofynnol cyhoeddi adroddiad sy'n asesu i ba raddau wnaeth y Cyngor ddilyn y strategaeth honno.

Er mwyn cryfhau cydymffurfiaeth gyda'r Safonau yn ymwneud â hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg yn ehangach o fewn yr ardal leol, mae'r Cyngor wedi cymryd y camau gweithredu canlynol yn ystod y flwyddyn:

**Strategaeth Iaith Ceredigion 2018-23**

Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithredu Strategaeth Iaith Ceredigion (2018-2023), ac wedi monitro'r gwaith drwy gynnal cyfarfodydd rheolaidd Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion. Mae'r Fforwm yn cael ei gadeirio gan y Cyngorydd Catrin M S Davies, ac mae'n cynnwys Swyddogion y Cyngor, Swyddogion o sefydliadau partner ynghyd â swyddogion sefydliadau sy'n gweithredu drwy'r Gymraeg yng Ngheredigion.

Mae'r Strategaeth yn esbonio sut bydd y Cyngor ar y cyd gyda sefydliadau partner eraill (Aelodau Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion) yn mynd ati i hybu'r Gymraeg, ac i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach. Yn unol â'r gofyniad gosodwyd targed ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal erbyn diwedd cyfnod y Strategaeth, sef bod y ganran o siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion yn codi o leiaf i 48.5% (sef oddeutu 1,500 yn fwy o siaradwyr Cymraeg).

Ar gyfer y strategaeth hon, cytunodd Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion i ganolbwyntio ar 3 nod strategol, fel a ganlyn:

**Nod Strategol 1:** Cynnal a chynyddu sgiliau iaith Gymraeg trigolion Ceredigion

**Nod Strategol 2:** Cynnal a chynyddu'r cyfleodd i ddefnyddio'r Gymraeg yng Ngheredigion

**Nod Strategol 3:** Sicrhau amodau cymdeithasol sy'n galluogi'r Gymraeg i ffynnu yng Ngheredigion.

Gellir gweld copi o'r Cynllun Gweithredu yma:

<http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/strategaethau-cynllunio-a-pholisiau/iaith-gymraeg/hyrwyddo-a-hwyluso-r-iaith-gymraeg/>

Un o bwyntiau gweithredu y Strategaeth Iaith hon oedd cefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol, drwy sefydlu Grŵp Prosiect Cyngor Sir Ceredigion, a fyddai'n adnabod blaenoriaethau i gefnogi a hwyluso trefniadau.

**Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2022**

Cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol lwyddiannus iawn yng Ngheredigion yn ystod haf 2022, a gafodd ddylanwad pellgyrhaeddol ar godi statws a'r bri ar y Gymraeg o fewn y Sir. Rhoddodd yr Ŵyl gyfle i tua 1,500 o blant a phobl ifanc Ceredigion gymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau ar y maes.

Yn rhan o'r Ŵyl fe sefydlodd y Cyngor Bentref Ceredigion er mwyn hyrwyddo'r Sir fel lle deniadol i fyw, dysgu, perthyn a llwyddo ynddi. Darparwyd cyfleoedd di-ri i fynychwyr brofi a mwynhau'r Gymraeg, drwy gynnal gofod penodol ar gyfer pob un o'r 4 thema. Cynhaliwyd dros 210 o ddigwyddiadau ym Mhentre Ceredigion dros yr 8 diwrnod. Hyn oll, ar gyfer hyrwyddo Ceredigion fel sir sy'n gyfoethog o ddiwylliant a threftadaeth. Cafwyd oddeutu 25,000 o ymwelwyr i Bentref Ceredigion, gyda'r niferoedd uchaf ar ddydd Mercher ac ar ddydd iau yr Ŵyl.

Adborth gan ymwelydd:

*"Dim ond canmoliaeth sydd gennym i holl weithgareddau Pentre Ceredigion. Rydym wedi bod yma trwy'r wythnos ac mae'r arlwy yn amrywiol ac o safon wych. Rhywbeth at ddant bob plentyn, o bob oed. Diolch o waelod calon i'r holl staff cyfeillgar a charedig. Mam hapus iawn."*



Yn ystod y cyfnod cyn yr Eisteddfod, aethpwyd ati i gasglu rhai o ddywediadau mwyaf amlwg Ceredigion ; ac fe osodwyd rhain fel atyniadau deniadol o amgylch y maes. Bu'r dywediadau yn destun trafod gwych; a thrwy hyn rydym wedi sicrhau eu parhad ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. At hyn fe'u cyhoeddwyd yng nghylchgrawn **Cleber y Cardi**, a gafodd ei ddsbarthu yn eang ar draws holl ysgolion Ceredigion.

Prif nod yr Eisteddfod yw dathlu diwylliant a'r iaith Gymraeg, ac yn sicr fe lwyddwyd i godi proffil y Gymraeg ar draws y Sir. Mewn gwirionedd bu'r Eisteddfod yn brosiect cymunedol am dair blynedd ac yna gŵyl ar y diwedd. Fe wnaeth y bwrlwm o godi arian cyn ymweliad yr Eisteddfod â Cheredigion sicrhau gwaddol bwysig hefyd. Cadarnhawyd bod y Sir wedi torri record, drwy godi cyfanswm o £463,671, a hynny drwy ymwneud cymunedol. Roedd yr holl ymdrechion i harddu'r Sir ar gyfer ymweliad yr Ŵyl yn atgyfnerthu'r bwrlwm cymunedol hyn; ac mae'n amlwg bod mynychwyr yr Eisteddfod wedi gwerthfawrogi'r 'croeso lliwgar' hwn. Mae'n braf adrodd bod y prosiect 'harddu eich bro' wedi cael ei efelychu yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023, gyda'r penwythnos harddu wedi ei drefnu ar gyfer 1-2 Gorffennaf. Roedd yr Ŵyl, presenoldeb anrhydeddus Pentref Ceredigion ar y maes, ynghyd â'r gweithgaredd cymunedol oll yn cyfrannu at weledigaeth Strategaeth Iaith Ceredigion, a hynny drwy gryfhau safle'r Gymraeg mewn cymunedau ar draws y Sir. Bydd Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion yn cael ei chofio fel gŵyl deniadol, liwgar, groesawgar a chynhwysol, a oedd yn dathlu'r Gymraeg, ac yn cyflwyno ein diwylliant i gynulleidfa newydd o bob oed a chefnidir.

Ceir fwy o fanylion ynghylch gwaddol Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion yn Adroddiad Cyflawniad Strategaeth Iaith Ceredigion 2018-23

## **Adroddiad Cyflawniad Strategaeth Iaith 2018-23**

Mae cyfnod 5 mlynedd y Strategaeth Iaith gyfredol yn dirwyn i ben ac yn unol â gofyniad Safon 146, rydym wedi datblygu adroddiad sy'n asesu cyflawniad y Strategaeth honno. Bydd yr Adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Iaith a Cabinet y Cyngor ar y 6ed o Fehefin, ac yna yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Mae'r adroddiad mewn dau rhan:

- Adroddiad Adolygu Strategaeth Iaith: sy'n adrodd ar ein dulliau o weithredu, ynghyd a'r dulliau o fesur canlyniadau
- Adroddiad ar Gyflawniad Strategaeth Iaith: sy'n adrodd ar yr holl weithgareddau a drefnwyd er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg.

Er mwyn datblygu'r adroddiad cymerwyd y camau canlynol:

### **Adrodd ar y Cyflawniadau**

Fel rhan o'r broses casglu tystiolaeth, datblygwyd cerdyn adrodd; a hynny er mwyn hwyluso'r gwaith i adrodd ar y camau gweithredu â'r dangosyddion perfformiad. Gofynnwyd i bob aelod o Fforwm Dyfodol Dwyieithog ddarparu adroddiad cynnydd ar eu maes gwasanaeth, gan ddefnyddio'r cerdyn adrodd hwn. Wedi derbyn yr holl dystiolaeth roedd yn bosib datblygu asesiad ar gyflawniad y Strategaeth, a lle bod hynny yn ymarferol bosib adrodd ar ddata.

### **Data Cyfrifiad**

Yn dilyn rhyddhau data Cyfrifiad 2021 ar y 6ed o Ragfyr 2022, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Ymchwil a Pherfformiad, er mwyn cyhoeddi Papur Pwnc sy'n rhoi dadansoddiad mwy manwl o'r data, gan ystyried beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer defnydd y Gymraeg yng Ngheredigion. Yn ôl Comisiynydd y Gymraeg y Cyfrifiad yw'r brif ffynhonnell ddata am y Gymraeg yng Nghymru, a chaiff ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru i asesu cynnydd yn erbyn y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2021.

Fe roddodd y Gwasanaeth Ymchwil a Pherfformiad gyflwyniad ar ddata'r Cyfrifiad fel rhan o agenda Pwyllgor Iaith y Cyngor a Fforwm Dyfodol Dwyieithog. Mae papur pwnc ynghylch data y Cyfrifiad yng Ngheredigion wedi cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

[cyfrifiad-2021-adroddiad-pwnc-y-gymraeg.pdf \(ceredigion.gov.uk\)](#)

Byddwn yn ystyried y data hwn wrth lunio ein Strategaeth Iaith newydd ar gyfer y cyfnod pum mlynedd nesaf.

### **Arolwg Barn Partneriaid Fforwm Dyfodol Dwyieithog (Ionawr 2022)**

Cynhaliwyd arolwg yn ystod Ionawr 2022, i gasglu barn rhanddeiliaid ac i werthuso Fforwm Dyfodol Dwyieithog fel llwyfan i lywio Strategaeth Iaith Ceredigion. Mae'r ymatebion a roddwyd wedi rhoi cipolwg defnyddiol ar gryfderau'r strategaeth a chyfleoedd posibl i gryfhau a datblygu'r strategaeth newydd dros y pum mlynedd nesaf.

### **Casgliadau Cyflawniad Strategaeth Iaith 2018-23**

Mae'n amlwg wrth ddatblygu'r adroddiad, bod gwaith sylweddol wedi'i gyflawni o ganlyniad i weithredu'r strategaeth. Yn ystod oes y Strategaeth, mae nifer o gynlluniau bwriadus wedi mynd i'r afael a cheisio dylanwadu ar ddefnydd yr iaith; ac o ganlyniad o bosib mae statws a lle y Gymraeg wedi cynyddu yng Ngheredigion. Hyn er waethaf y ffaith bod adroddiadau Cyfrifiad 2021 yn nodi bod niferoedd siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion wedi disgyn; fodd bynnag mae canfyddiadau data niferoedd siaradwyr Cymraeg mewn adroddiadau ymchwil eraill sydd ar gael yn fwy cadarnhaol. Wrth adolygu cyrhaeddiad y Strategaeth Iaith hon rydym o'r farn ei bod yn bwysig cydnabod bod cynllunio iaith yn broses tymor hir, ac mae gweithredu er lles y Gymraeg yn cymryd amser i'w feithrin; ond trwy'r gwaith cynllunio mae'r Cyngor yn teimlo'n hyderus bod y Strategaeth Iaith hon wedi gosod y seiliau cywir ar gyfer symud ymlaen i'r cyfnod 5 mlynedd nesaf.

### **Strategaeth Iaith ar gyfer y cyfnod pum mlynedd nesaf 2024-29**

Mae'r gwaith o lunio Strategaeth Iaith newydd wedi dechrau, drwy gynnal gweithdy ar yr 20fed o Fawrth, lle daeth tua 50 o gyfranogwyr ynghyd er mwyn dechrau trafod syniadau i'w cynnwys yn y strategaeth newydd. Yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2023 gweledigaeth y Cyngor oedd hyrwyddo Ceredigion fel lle deniadol ar gyfer:

- Byw
- Dysgu
- Perthyn
- Llwyddo

Bwriedir datblygu ar lwyddiant yr Eisteddfod, gan barhau'r gwaddol a grëwyd yn ystod yr Ŵyl, drwy ddefnyddio'r 4 thema fel meysydd gweithredu penodol yn rhan o'r Strategaeth Iaith newydd. Yn y cyfnod nesaf hwn, byddwn yn trefnu rhagor o sesiynau ymgysylltu er mwyn datblygu'r Strategaeth.

### **ADRAN 3:**

## **Adrodd ar Proses Gwyno Corfforaethol y Cyngor yn unol â gofynion Safonau 156, 162, 168**

**Mae'r Cyngor yn falch i adrodd, ni dderbyniodd unrhyw gwyn ynghylch gweithrediad safonau'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn adrodd.**

Mae'r Cyngor wedi cymryd y camau gweithredu canlynol yn ystod y flwyddyn, er mwyn cydymffurfio gyda'r Safonau sy'n ymwneud â'r weithdrefn gwyno. Mae'r Safonau yn nodi bod rhaid i'r Cyngor roi gwybod i ddefnyddwyr gwasanaeth o'u hawliau wrth gyflwyno cwynion neu bryderon; ac fel eu bod hefyd yn ymwybodol bod modd iddynt gyflwyno cwynion yn eu dewis iaith;

- Mae tudalennau gwe Cwynion Corfforaethol wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru, sy'n cynnwys datganiad sy'n nodi bod y Tîm Cwynion Corfforaethol yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, drwy arddangos y frawddeg ganlynol:  
" Gall cwsmeriaid gyflwyno sylwadau, canmoliaeth neu gwynion yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn unol â'u dewis iaith."  
[Cwynion Corfforaethol - Cyngor Sir Ceredigion](#)
- Mae'r **Polisi Pryderon a Chwynion Corfforaethol** wedi cael ei adolygu, mae bellach yn hysbysu'r cyhoedd y gallant gyflwyno eu cwynion yn eu hiaith ddewisol. Yn ogystal, os ydynt yn anhapus gyda'r canlyniad neu'r esboniad a ddarparwyd gan y Cyngor, fe allan nhw gyfeirio eu pryderon at Gomisiynydd y Gymraeg.  
[Polisi Pryderon a Chwynion Corfforaethol \(ceredigion.gov.uk\)](#)
- Mae'r **Llyfryn Gweithdrefn Pryderon a Chwynion Corfforaethol** wedi'i ddiweddaru hefyd, ac mae adran 12 yn cyfeirio at y broses sut y bydd y Cyngor yn delio â chwynion a dderbynnir yn Gymraeg, neu mewn perthynas a chwynion ynghylch anfonlonrwydd lefel y gwasanaeth a dderbyniwyd yn Gymraeg.  
[Gweithdrefn Pryderon a Chwynion Corfforaethol \(ceredigion.gov.uk\)](#)
- Mae ffurflen gwyno ar-lein ar gael o'r dudalen Cwynion Corfforaethol, sy'n caniatáu i achwynydd symud yn hwylus o'r dudalen Cymraeg i'r dudalen Saesneg.  
[Ffurflen Pryder/Cwyno \(office.com\)](#)
- Hyfforddiant Cwynion: Mae'r hyfforddiant wedi'i addasu er mwyn rhoi gwybod i staff sut dylid delio â chwynion yn y Gymraeg, neu mewn perthynas ag anfonlonrwydd ar lefel y gwasanaeth a dderbyniwyd yn y Gymraeg.
- Mae tudalen Safonau Iaith Gymraeg ar y Wefan Gorfforaethol yn cyfeirio defnyddiwr y gwasanaeth i'r Tudalennau Gwe Cwynion Corfforaethol.  
[Safonau'r Gymraeg - Cyngor Sir Ceredigion](#)

## ADRAN 4: Casgliadau

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r cynnydd parhaus mae'r Cyngor yn ei wneud er mwyn cyflawni gofynion Safonau'r Gymraeg ynghyd â chyflwyno'r data penodol yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23. Mae'r Cyngor yn gwneud gwelliannau parhaus, ond rydym yn cydnabod bod ffordd i fynd o hyd er mwyn gwarchod statws swyddogol y Gymraeg o fewn y Sir.

Mae'n rhaid cydnabod bod gweithio o bell wedi cynnig cyfleoedd newydd i staff, ond o bosib mae'n cael effaith llai cadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg. Mae'n bosib iawn y bydd rhai swyddogion ddim yn clywed y Gymraeg, a gall hyn effeithio ar eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg gyda defnyddwyr gwasanaeth. Rydym hefyd wedi colli'r sgwrsio anffurfiol a oedd yn digwydd wrth y llun-gopiwr neu dros banded, a oedd yn sefydlu'r arfer o ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol. Mae gweithio hybrid o fewn y Cyngor wedi'i sefydlu, ac mae nifer o swyddogion yn defnyddio'r cyfle i gymdeithasu, wrth weithio gyda nifer gynyddol o gydweithwyr trwy'r system ddesg dwym.

Mae sawl sector ar draws yr Awdurdod yn ei chael hi'n anodd iawn i recriwtio gweithwyr proffesiynol; er enghraifft mae prinder mawr o weithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol sy'n medru'r Gymraeg. Mae'r Cyngor yn ymwybodol iawn o'r pwysigrwydd i sicrhau bod gan y gweithlu'r sgiliau priodol er mwyn darparu'r cynnig rhagweithiol o wasanaeth Gymraeg. Mae un gwasanaeth o fewn y Cyngor er enghraifft wedi mynd ati yn rhagweithiol i ddarparu rhaglen hyffoddiant drwy'r Brifysgol Agored. At hyn mae'r Cyngor wedi sefydlu nifer o brentisiaethau; oddi ar 2018 mae 18 wedi bod yn rhan o'r cynllun, mae 95% o'r holl brentisiaid hyd yn hyn yn siaradwyr Gymraeg (19 o Siaradwyr Gymraeg / 1 Dysgwr Gymraeg).

Wrth edrych ar y data cyfredol sydd ar gael, nid yw'r nifer o bobl sy'n dewis defnyddio gwasanaethau Gymraeg y Cyngor yn cyfateb â'r nifer sy'n gallu siarad Gymraeg o fewn y Sir. Mae gan Gyngor Sir Ceredigion staff gweithgar ac ymroddedig sy'n siarad Gymraeg ar draws holl wasanaethau'r Cyngor, ac rydym am annog pobl i gysylltu gyda'r Cyngor yn y Gymraeg, ac i ddefnyddio'r gwasanaethau Gymraeg hynny sydd ar gael iddynt.

Cydnabyddir bod y broses o weithredu'r Safonau yn un parhaus, gyda'r nod o sicrhau bod y gofynion yn cael eu prif llifo'n naturiol i waith y Cyngor, a bod gwasanaethau Gymraeg ar gael yn ddiodyn. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i barhau i gyflawni gwelliannau, ac i weithredu er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn cyrraedd gofynion Safonau'r Gymraeg yn llawn. Mae'r Cyngor yn cydnabod fel rhan o'r adroddiad hwn bod cynnydd wedi ei wneud, ond bod yna welliannau i'w gwneud o hyd, er mwyn gwella darpariaeth cyfrwng Gymraeg ein gwasanaethau.



## Tudalen 305

Yn ystod y cyfnod nesaf o weithredu'r Polisi Iaith byddwn yn anelu at ystyried y meysydd gweithredu canlynol:

- Datblygu Strategaeth Hybu'r Gymraeg ar gyfer y cyfnod 5 myned nesaf, yn unol â Safon 145/146.
- Adolygu Canllaw Asesu Effaith Integredig, er mwyn helpu swyddogion i nodi unrhyw effaith ar y Gymraeg wrth gyflwyno penderfyniadau polisi.
- Datblygu prosiect 'Croeso Ceredigion' mewn ymgais i geisio cymhathu mewn fudwyr; y gwaith yn deillio o Fforwm Dyfodol Dwyieithog.
- Datblygu canllaw ar ddefnydd y Gymraeg ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned
- Adnewyddu tudalennau 'Iaith ar Waith' ar fewnwyd y Cyngor, cynnwys canllawiau a datblygu deunydd cymorth atodol sydd ei angen i hybu'r Gymraeg ac i gynorthwyo staff i ddefnyddio'r Gymraeg
- Prosiect hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddiwylliant a Chymreictod mewn cartrefi preswyl.

DRAFT

## Atodiad 1

Trosolwg nifer y staff sydd â sgiliau yn y Gymraeg fesul gwasanaeth:

## Sgiliau Siarad a Gwranddo: 2022-23

Adran	Nifer staff â sgiliau Cymraeg	Nifer staff heb sgiliau Cymraeg	Canran staff â sgiliau Cymraeg
Gwasanaeth Cyswllt Cwsmeriaid	Cyfanswm: 138 ALTE 5: 54 ALTE 4: 39 ALTE 3: 16 ALTE 2: 17 ALTE 1: 9	3 2%	ALTE 5: 41% ALTE 4: 28% ALTE 3: 11% ALTE 2: 12% ALTE 1: 6%
Gwasanaeth Democrataidd	Cyfanswm: 118 ALTE 5: 43 ALTE 4: 25 ALTE 3: 18 ALTE 2: 12 ALTE 1: 17	2 2%	ALTE 5: 37% ALTE 4: 21% ALTE 3: 15% ALTE 2: 10% ALTE 1: 15%
Gwasanaeth Economi a Menter	Cyfanswm: 215 ALTE 5: 37 ALTE 4: 22 ALTE 3: 33 ALTE 2: 28 ALTE 1: 80	15 7%	ALTE 5: 17% ALTE 4: 10% ALTE 3: 16% ALTE 2: 13% ALTE 1: 37%
Gwasanaeth Cyllid a Chaffael	Cyfanswm: 103 ALTE 5: 25 ALTE 4: 18 ALTE 3: 15 ALTE 2: 25 ALTE 1: 19	1 1%	ALTE 5: 25% ALTE 4: 18% ALTE 3: 13% ALTE 2: 24% ALTE 1: 19%
Gwasanaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	Cyfanswm: 256 ALTE 5: 53 ALTE 4: 52 ALTE 3: 35 ALTE 2: 45 ALTE 1: 64	7 2%	ALTE 5: 21% ALTE 4: 20% ALTE 3: 14% ALTE 2: 17% ALTE 1: 25%
Gwasanaeth Cyfreithiol a Llywodraethu	Cyfanswm: 21 ALTE 5: 3 ALTE 4: 4 ALTE 3: 8 ALTE 2: 3 ALTE 1: 1	2 10%	ALTE 5: 14% ALTE 4: 19% ALTE 3: 38% ALTE 2: 14% ALTE 1: 5%
Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth	Cyfanswm: 50 ALTE 5: 22 ALTE 4: 8 ALTE 3: 7 ALTE 2: 9 ALTE 1: 3	1 2%	ALTE 5: 44% ALTE 4: 16% ALTE 3: 14% ALTE 2: 18% ALTE 1: 6%
Gwasanaeth Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	Cyfanswm: 59 ALTE 5: 9 ALTE 4: 18 ALTE 3: 11	0	ALTE 5: 15% ALTE 4: 30% ALTE 3: 19% ALTE 2: 17%

# Tudalen 307

	ALTE 2: 10 ALTE 1: 11		ALTE 1: 19%
Gwasanaeth Porth Cymorth Cynnar	Cyfanswm: 263 ALTE 5: 113 ALTE 4: 67 ALTE 3: 31 ALTE 2: 30 ALTE 1: 18	4 2%	ALTE 5: 43% ALTE 4: 25% ALTE 3: 12% ALTE 2: 11% ALTE 1: 7%
Gwasanaeth Porth Cynnal	Cyfanswm: 127 ALTE 5: 30 ALTE 4: 16 ALTE 3: 16 ALTE 2: 30 ALTE 1: 32	3 2%	ALTE 5: 23% ALTE 4: 13% ALTE 3: 13% ALTE 2: 24% ALTE 1: 25%
Gwasanaeth Gofal	Cyfanswm: 331 ALTE 5: 73 ALTE 4: 36 ALTE 3: 68 ALTE 2: 58 ALTE 1: 70	26 8%	ALTE 5: 22% ALTE 4: 11% ALTE 3: 21% ALTE 2: 17% ALTE 1: 21%
Gwasanaeth Ysgolion a Diwylliant	Cyfanswm: 383 ALTE 5: 189 ALTE 4: 31 ALTE 3: 28 ALTE 2: 38 ALTE 1: 89	8 2%	ALTE 5: 50% ALTE 4: 8% ALTE 3: 7% ALTE 2: 10% ALTE 1: 23%
Gwasanaeth Arweinyddiaeth	Cyfanswm: 3 ALTE 5: 2 ALTE 4: 0 ALTE 3: 0 ALTE 2: 0 ALTE 1: 1	0 33%	ALTE 5: 67% ALTE 4: 0 ALTE 3: 0 ALTE 2: 0 ALTE 0: 33%

## ATODIAD 2: Fframwaith ALTE ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion

### Datganiadau Medru...

Lefel	Gwrando/Siarad	Darllen	Ysgrifennu
1	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Medru ynganu enwau llefydd ac enwau personol yn gywir.</li> <li>• Medru cyfarch cwsmeriaid mewn derbynfa neu ar y ffôn.</li> <li>• Medru agor a chloi sgwrs.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Medru deall testun byr ynglŷn â phwnc cyfarwydd pan wedi ei gyfleu mewn iaith syml, e.e. arwyddion elfennol, cyfarwyddiadau syml, cynnwys agenda.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Medru ysgrifennu enwau personol, enwau llefydd, teitlau swyddi ac enwau adrannau'r Cyngor.</li> <li>• Medru ysgrifennu cais syml i gydweithiwr, e.e. Hwn a hon wedi galw.</li> </ul>
2	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Medru deall craidd sgwrs.</li> <li>• Medru derbyn a deall negeseuon syml ar batrymau arferol, e.e. amser a lleoliad cyfarfod, cais am siarad gyda rhywun.</li> <li>• Medru cyfleu gwybodaeth elfennol a chyfarwyddiadau syml.</li> <li>• Medru agor a chau sgwrs a chyfarfod yn ddwyieithog.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Medru deall y rhan fwyaf o adroddiadau byrion a chyfarwyddiadau arferol o fewn arbenigedd y gwaith, â bod digon o amser wedi ei ganiatáu.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Medru llunio neges fer syml ar bapur neu e-bost i gydweithiwr o fewn y Cyngor neu gyswllt cyfarwydd y tu allan i'r Cyngor.</li> </ul>
3	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Medru deall a chymryd rhan yn y rhan fwyaf o sgysiau arferol o ddydd i ddydd yn y swyddfa.</li> <li>• Medru cynnig cyngor i'r cyhoedd ar faterion cyffredinol mewn perthynas â'r swydd, er yn gorfod troi i Saesneg ar gyfer termau technegol neu arbenigol.</li> <li>• Medru cyfrannu i gyfarfod neu gyflwyniad ar faterion cyffredinol mewn perthynas â'r swydd, er yn gorfod troi i Saesneg ar gyfer termau technegol neu arbenigol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Medru deall y rhan fwyaf o'r adroddiadau, dogfennau a gohebiaeth y byddai disgwyl eu trafod yng nghwrs arferol y gwaith.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Medru llunio negeseuon ac adroddiadau anffurfiol at ddefnydd mewnol.</li> </ul>
4	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Medru cyfrannu'n effeithiol mewn cyfarfodydd mewnol ac allanol yng nghydestun y pwnc gwaith.</li> <li>• Medru deall gwahaniaethau cywair a thafodiaith.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Medru deall gohebiaeth ac adroddiadau pwnc wedi eu llunio mewn cywair safonol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Medru llunio gohebiaeth fusnes, adroddiadau byr, negeseuon e-bost a llenyddiaeth hysbysrwydd gyda chymorth golygyddol.</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Medru dadlau o blaid ac yn erbyn achos penodol.</li> <li>• Medru cadeirio cyfarfodydd ac ateb cwestiynau o'r Gadair yn hyderus.</li> </ul>		
5	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Medru cyfrannu'n rhugl a hyderus yng nghyswllt pob agwedd ar y gwaith beunyddiol, gan gynnwys trafod a chynghori ar faterion technegol, arbenigol neu sensitif.</li> <li>• Medru cyfrannu i gyfarfodydd a darparu cyflwyniadau yn rhugl a hyderus.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Medru deall adroddiadau, dogfennau ac erthyglau y byddai disgwyl eu darllen yng nghwrs arferol y gwaith, gan gynnwys cysyniadau cymhleth a fynegir mewn iaith astrus.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Medru llunio gohebiaeth fusnes, adroddiadau byr, negeseuon e-bost a llenyddiaeth hysbysrwydd i safon dderbyniol gyda chymorth cymhorthion iaith.</li> <li>• Medru llunio nodiadau manwl tra'n cymryd rhan lawn mewn cyfarfod.</li> </ul>

Maer' dudalen yn wag yn fwriadol

**CYNGOR SIR CEREDIGION****Adroddiad i'r: Cabinet****Dyddiad y Cyfarfod: 6 Mehefin 2023****Teitl: Adroddiad Cyflawniad Strategaeth Hybu'r Gymraeg Ceredigion dros gyfnod 5 mlynedd, 2018-23****Pwrpas yr adroddiad: Asesiad ar y modd y cyflawnwyd Strategaeth Hybu'r Gymraeg Cyngor Sir Ceredigion yn unol â'r gofynion statudol o dan Safonau'r Gymraeg (Safon Rhif 146).****Er: Penderfyniad****Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet: Y Cyngorydd Catrin M.S. Davies, Aelod Cabinet dros Diwylliant, Hamdden a Gwasanaethau Cwsmeriaid, gyda chyfrifoldeb dros yr Iaith Gymraeg**

Fe sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i orfodi dyletswyddau ar sefydliadau penodol, gan gynnwys Cyngor Sir Ceredigion i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.

- Mae Safon 145 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor Sir i ddatblygu a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut mae'r Cyngor yn bwriadu hybu'r Gymraeg ac hwyluso defnydd y Gymraeg o fewn yr ardal ehangach. Yn rhan o'r Strategaeth mae'n ofynnol gosod targed ar gyfer cynnal neu gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg o fewn yr ardal erbyn diwedd y cyfnod 5 mlynedd dan sylw.
- Mae Safon 146 yn ei gwneud yn ofynnol i asesu i ba raddau mae'r Cyngor wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi ar ddiwedd y pum mlynedd.  
Mae cyfnod y Strategaeth gyfredol yn dod i ben yn 2023 ac mae'r adroddiad cyrhaeddiad hwn wedi cael ei baratoi, gyda mewnbwn ein partneriaid.

Mae'r adroddiad mewn dau rhan:

- Adroddiad Adolygu Strategaeth Iaith: sy'n adrodd ar ein dulliau o weithredu, ynghyd â'r dulliau o fesur canlyniadau
- ATODIAD 1: Adroddiad ar Gyflawniad Strategaeth Iaith: sy'n adrodd ar yr holl weithgareddau a drefnwyd er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg

Prif nod Strategaeth Iaith Ceredigion 2018-23 oedd anelu at gynyddu defnydd o'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd y Sir; gosodwyd tri maes strategol i'w gyflawni yn rhan o'r strategaeth:

- Cynyddu sgiliau iaith trigolion Ceredigion
- Cynnal a chynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yng Ngheredigion mewn amrywiol gyd-destunau
- Sicrhau amodau cymdeithasol sy'n galluogi'r Gymraeg i ffynnu yng Ngheredigion

## **Crynodeb o'r prif gyflawniadau**

Mae'n glir o'r adroddiad hwn bod gwaith sylweddol wedi'i gyflawni o ganlyniad i weithredu'r strategaeth. Yn ystod oes y Strategaeth, mae nifer o gynlluniau bwriadus wedi mynd i'r afael a cheisio dylanwadu ar ddefnydd yr iaith; ac o ganlyniad o bosib mae statws a lle y Gymraeg wedi cynyddu yng Ngheredigion.

Rydym hefyd o'r farn bod y sylw cynyddol sydd yn cael ei gosod ar y Gymraeg gan Lywodraeth Cymru, drwy ddeddfwriaeth a pholisïau canolog yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant y Gymraeg. Y ddogfen arweiniol ym maes polisi a chynllunio iaith yng Nghymru yw Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, sydd wedi gosod targed o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r Strategaeth iaith hwn yn cefnogi gweledigaeth Strategaeth Cymraeg 2050 ar lefel lleol.

Mae'r gwaith ynghlwm wrth Strategaeth iaith Ceredigion yn ceisio bod yn gynhwysol, fel bod pawb yng Ngheredigion yn teimlo bod yr iaith yn perthyn iddyn nhw, a bod gan bob un rôl i chwarae wrth warchod y Gymraeg ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Y nod yw gweld y Gymraeg yn destun balchder i holl drigolion Ceredigion, yn ddysgwyr y Gymraeg, yn siaradwyr Cymraeg swil, yn siaradwyr rhugl a'r di-Gymraeg.

## **Dyma rannu ychydig o brif gyflawniadau gweithredu'r Strategaeth iaith mewn rhifau:**

- **210** o ddigwyddiadau ym Mhentref Ceredigion, Eisteddfod Genedlaethol Tregaron 2022, gyda **1,500** o blant wedi cymryd rhan gyda'u hysgol mewn perfformiad o ryw fath ar y maes.
- **71.2%** o blant yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yng Ngheredigion
- **3** Ysgol wedi cyrraedd lefel Aur Siarter iaith Ysgolion Ceredigion, **16** Arian a **19** Efydd.
- **3** canolfan trochi iaith ar gyfer hwyrddyfodiaid wedi'u cynnal, ers mis Medi 2022 cyfanswm o 20 disgybl
- Pob sefydliad cyhoeddus sy'n rhan o Fforwm Dyfodol Dwyieithog yn cynnig cyrsiau Cymraeg i'w staff. Cyngor Sir Ceredigion: **65** aelod o staff wedi derbyn y cyfle i ddysgu Cymraeg drwy gynllun Tiwtor Cymraeg y Gweithle; **21** aelod o staff yn siaradwyr newydd drwy fod wedi cwblhau Cwrs Uwch.
- **670** o ddysgwyr wedi cofrestru ar gyrsiau dysgu Cymraeg yn y gymuned drwy wasanaeth dysgu Cymraeg Ceredigion-Powys-Sir Gâr: **151** wedi cofrestru ar gyrsiau lefel Uwch neu Hyfedredd
- **62%** o darparwyr gofal plant yn darparu gwasanaeth Cymraeg neu wasanaeth dwyieithog
- **16%** o'r holl alwadau a dderbynnir gan wasanaeth Cwsmeriaid Clic yn Gymraeg
- **2,967** o aelodau gan fudiad yr Urdd yng Ngheredigion; 27 adran ysgol gynradd yn cwrdd pob wythnos: 780 o aelodau yn mynychu
- **713** o aelodau gan fudiad Ffermwyr Ifanc; 18 o glybiau, gyda phob un o'r Clybiau yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- **60%** o ddarpariaethau Gwasanaeth Ieuencid Ceredigion trwy gyfrwng y Gymraeg, a'r gweddill yn ddwyieithog. Cyfradd boddhad 100% gan bobl ifanc ym mhob rhaglen gweithgareddau gwyliau.
- **515** o blant wedi derbyn gwersi nofio cyfrwng Cymraeg / dwyieithog
- **34** o weithgareddau wedi'u hwyluso yn y Gymraeg gan Menter iaith Cered ar gyfer teuluoedd, plant a phobl ifanc



- **32** o fusnesau yng Ngheredigion wedi gwella eu defnydd o'r Gymraeg drwy gswllt dwys gyda Menter Iaith Cered o dan gynllun Helo Blod.
- **4** tref wedi cynnal gorymdaith Gŵyl Dewi yn 2023
- **31** o geisiadau wedi cael eu cefnogi drwy gynllun Arfor 1, gyda'r prif amcan o hybu defnydd yr iaith Gymraeg mewn busnes; 61.7 o swyddi wedi creu: 40.5 swyddi wedi'u diogelu.

### **Rhai Uchafbwyntiau eraill:**

- Hwyluso trefniadau ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol lwyddiannus iawn yng Ngheredigion – yr ŵyl wedi amlygu bod y Gymraeg yn iaith ddeinamig, naturiol a pherthnasol i drigolion Ceredigion
- Gwasanaeth Addysg Ceredigion wedi cyhoeddi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-32, ac wedi sefydlu gweithgor i fynd i'r afael â'r cynllun gweithredu.
- Y Gwasanaeth Addysg wedi creu adnoddau ar gyfer annog rhieni a disgyblion i ddilyn addysg cyfrwng Cymraeg.
  - Canllaw a fideo 'Byw a Bod' wedi ei rannu'n eang
  - Llyfryn cymorth geiriau ac ymadroddion defnyddiol Cymraeg ar gyfer rhieni a gwarcheidwaid. Pob Ysgol yn y Sir wedi derbyn stoc o lyfrau.
- Uned Gofal Plant wedi bod yn llwyddiannus wrth hyrwyddo defnydd y Gymraeg o fewn lleoliadau gwarchod plant:
  - Gwarchodwraig Plant o Landysul wedi ennill gwobr Gofalwn Cymru 2021
  - Aelod o staff Meithrinfa Aberporth wedi ennill gwobr Dysgwr y Flwyddyn 2021 drwy gynllun 'Camau'
- Cangen Urdd Ceredigion wedi cyrraedd 4ydd safle ar y bwrdd sgorio ar draws Cymru yn Eisteddfod yr Urdd 2022.
- Mudiad Ffermwyr Ifanc Ceredigion wedi dod i'r brig dros Gymru gyfan wrth gystadlu yn y Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn Llanelwedd.
- Cais llwyddiannus i Gronfa Cynnal y Cardi, er mwyn medru bwrw ati i greu Pecyn Croeso Ceredigion, mewn ymdrech i gymhathu mewnfudwyr
- Strategaeth Economaidd Ceredigion (2020-35) wedi'i gyhoeddi, a thrwy hyn datblygu economi ffyniannus sy'n sicrhau bod gan y rhai sy'n siarad Cymraeg yr hyder, y sgiliau a'r cyfleoedd i ddatblygu busnesau, i weithio mewn swyddi o werth uwch, ac i weld Ceredigion fel lle ffyniannus ac egniol i fyw a gweithio ynddo.
- Sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen er mwyn mynd i'r afael â mater tai fforddiadwy
- Cynllun Gweithredu 'Mwy na Geiriau' mewn lle, er mwyn cynyddu defnydd y Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau y Sector Gofal.
- Menter Iaith Cered yn llwyddo i ddenu siaradwyr newydd at y Gymraeg drwy gynnal prosiectau penodol, Cynllun Ar Gered, Prosiect Cymunedol Yr Ardd yn Llandysul, Cerddorfa Iwcadwli ynghyd â chynnal amrywiaeth o foreau coffi.
- Dadansoddi data Cyfrifiad 2021, a goblygiadau hynny ar ddefnydd yr iaith yng Ngheredigion, cyhoeddi adroddiad ar ein gwefan corfforaethol, a rhannu canlyniadau yn eang gyda phartneriaid.
- CAVO yn un o'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol cyntaf yng Nghymru i ennill cydnabyddiaeth drwy gynllun Cynnig Cymraeg y Comisiynydd y Gymraeg
- Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ennill gwobr Cyflogwr Cymraeg Gwaith y Flwyddyn 2022
- Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi ymrwmo i gynllun Cymraeg Gwaith i ddarparu Cyrsiâu Codi Hyder i 100 o'u staff.

- Coleg Ceredigion, wedi gosod polisi lle mae disgwyl i'r holl staff ddilyn rhaglen hyfforddiant mewnol ar gyfer creu dosbarthiadau dwyieithog 'Sylfaen, Gwell Gorau'
- Prifysgol Aberystwyth wedi bod yn buddsoddi mewn datblygiadau mawr er budd defnydd y Gymraeg:
  - Ail agor Neuadd Pantycelyn (Medi 2020) yn dilyn buddsoddiad o £16.5 miliwn gan gynnig llety o ansawdd ar gyfer hyd at 200 o fyfyrwr a lleoliad ar gyfer y gymuned.
  - Ym Medi 2021 agorwyd Ysgol Gwyddor Filfeddygol cyntaf Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'r cwrs yn rhoi cyfle i fyfyrwr astudio agweddau penodol o wyddor filfeddygol drwy gyfrwng y Gymraeg.
  - Ym mis Medi 2022 croesawyd myfyrwr nyrsio cyntaf y Brifysgol fydd yn cael eu hyfforddi yn nyrsys Oedolion ac Iechyd Meddwl. Yn ogystal bydd cyfle i fyfyrwr astudio hanner y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.
  - Mae gwaith hefyd wedi cychwyn fel rhan o brosiect uchelgeisiol i ail ddatblygu'r Hen Goleg yn ganolfan flaenllaw ar gyfer dysgu, treftadaeth, diwylliant a menter i'r Brifysgol, i'n cymuned ac i Gymru erbyn 2024.

### **Ystyried y Targed: Cynyddu Nifer y Siaradwyr Cymraeg:**

Gosododd Strategaeth Iaith Ceredigion darged i gynyddu canran siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion o 47.5% i 48.5%, sef rhyw 1,500 yn fwy o siaradwyr Cymraeg erbyn 2023. Roedd y targed hwn yn seiliedig ar alluoedd iaith Gymraeg disgwylidig y boblogaeth erbyn 2023 ynghyd â nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n gadael addysg cyfrwng Cymraeg.

Y prif ddull o fesur nifer y siaradwyr Cymraeg yw data'r Cyfrifiad bob degawd. Rhaid adrodd bod canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn fater o siom i Geredigion ar yr olwg gyntaf, roedd ychydig o dan hanner y boblogaeth yn datgan eu bod yn gallu siarad Cymraeg, 45.3% (31,678), roedd hyn yn ostyngiad o 3,286 o bobl ers y Cyfrifiad diwethaf yn 2011, neu gostyngiad o 2.0%. Mae'r gostyngiad hwn hefyd wedi bod yn batrwm dros y degawdau diwethaf, er bod y cyflymdra gostyngiad wedi arafu dros y ddegawd diwethaf.

Fodd bynnag, er bod gostyngiad cyffredinol yn y canran a'r nifer o siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion, mae'r gyfran o oedolion sydd yn medru Cymraeg (cohort 16-44 mlwydd oed) wedi cynyddu 2.2% ers Cyfrifiad 2011. Mae hyn yn duedd positif newydd, sydd o bosib yn awgrymu bod cynnydd yn cael ei wneud wrth gadw'r siaradwyr Cymraeg yma yng Ngheredigion.

Mae Ceredigion yn parhau i gael ei ystyried fel un o gadarnleoedd y Gymraeg, ac mae'n Sir allweddol o ran cynllunio twf a ffyniant yr iaith. Yn ôl adroddiadau Cyfrifiad 2021, parhaodd Ceredigion fel yr awdurdod lleol gyda'r drydedd gyfran fwyaf o siaradwyr Cymraeg 3 oed a throsodd yn genedlaethol (45.3% o drigolion), y tu ôl i Wynedd (64.4% o drigolion) ac Ynys Môn (55.8%).

Rhaid nodi bod angen gofal wrth ddehongli data'r Cyfrifiad gan fod y darlun yn un cymhleth iawn. Nid yw data'r Cyfrifiad yn mesur y gwahanol lefelau o hyder wrth ddefnyddio'r iaith nac amllder defnyddio'r Gymraeg, nad ychwaith unrhyw deimladau o ran perthyn i'r Gymraeg. Mae'r wybodaeth am sgiliau Cymraeg yn y cyfrifiad yn seiliedig ar hunanasesiad person o'u gallu, ac mae pobl yn medru bod yn ddi-hyder neu'n swil wrth nodi eu galluoedd.

At hyn mae'n bwysig nodi wrth ystyried y ffigurau hyn bod Cyfrifiad 2021 wedi cael ei gynnal yn ystod pandemig COVID-19 (21 Mawrth 2021). Roedd hyn yn dilyn cyfnodau clo, dysgu o bell i blant, ac roedd llawer o bobl yn gweithio gartref. Nid yw'n hysbys sut y gallai'r pandemig fod wedi effeithio ar ymateb pobl i'r cwestiwn yng nghylch eu gallu yn y Gymraeg neu eu canfyddiad ynghylch sgiliau Cymraeg pobl eraill. Mae'n bosib iawn bod mwy yn medru siarad rhywfaint o Gymraeg, ond wrth hunan asesu eu sgiliau yn y Gymraeg, roeddent yn teimlo'n swil ac yn ddihyder i nodi hynny. Mewn rhai achosion, yn enwedig i blant, roedd gallu Cymraeg yn cael ei gofnodi gan berson arall, er enghraifft, rhiant neu warchodwr.

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi: *Dogfen Gyngor ar Asesu Cyrhaeddiad y Strategaethau 5 mlynedd Awdurdodau Lleol*, ac ynddo nodir mae y Cyfrifiad yw'r brif ffynhonnell ddata am y Gymraeg yng Nghymru, a chaiff ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru i asesu cynnydd yn erbyn y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2021. Fodd bynnag mae'r ddogfen hefyd yn darparu gwybodaeth gyfredol am fethodoleg a ffynonellau data eraill y gellid eu defnyddio er mwyn asesu i ba raddau mae'r Strategaeth wedi llwyddo i gyrraedd y targedau a osodwyd. Ceir gwybodaeth ynghylch canfyddiadau rhai o'r arolygon hynny yn rhan o'r adroddiad hwn.

Mae angen tynnu sylw bod y data ynghylch nifer siaradwyr Cymraeg yn llawer mwy optimistaidd yn yr arolygon eraill hyn sydd ar gael; er enghraifft mae Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dynodi bod canran y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion wedi bod yn codi. Yn y flwyddyn 2014 datgelodd yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth bod 52.7% o boblogaeth Ceredigion yn medru siarad Cymraeg, a gwelwyd hwn yn codi i 60.9% erbyn 2020. Yn 2022 yn ôl yr Arolwg hwn roedd nifer siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion yn 57.45%. Felly, yn ôl yr arolwg hwn mae lefelau nifer y siaradwyr Cymraeg dal i fod yn uwch yng Ngheredigion na'r canran a welwyd yng Nghyfrifiad 2021. Er mae data'r Cyfrifiad ydy'r data mwyaf gwyddonol a dibynadwy, dim ond bob 10 mlynedd mae'r Cyfrifiad yn cael ei gynnal, felly mae'n bwysig i edrych ar ddata gwahanol hefyd, er mwyn medru edrych ar dueddiadau.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn cynnal arolwg ar y gwahanol ddata sy'n bodoli ar gyfer mesur nifer y siaradwyr Cymraeg, ac yn ceisio datrys pam bod y canlyniadau mor wahanol i'w gilydd.

Ynglwm wrth y gwaith o ddatblygu Cynllun Busnes Lefel 1 y Gwasanaeth Democrataidd eleni, byddwn yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad i ddatblygu mesurau perthnasol y byddwn yn gallu monitro'n reolaidd.

### **Casgliadau:**

Er bod y Sir yn gyforiog o weithgareddau, mae canlyniadau Cyfrifiad 2021 wedi gosod nifer o heriau o'r newydd i Geredigion. Mae ymateb i'r heriau hynny, lliniaru'r risgiau sy'n wynebu'r Gymraeg a sicrhau hyfywedd y gymuned iaith Gymraeg yn golygu cynllunio ieithyddol trwyadl. Hyn oll er mwyn ceisio gwyrddroi'r tueddiadau, gan atal unrhyw ddirywiad pellach yn y nifer sy'n siarad y Gymraeg, ac yn ei defnyddio yng Ngheredigion.

Mae cynaliadwyedd yr iaith Gymraeg yn ddibynnol ar y broses o gryfhau cymunedau Cymraeg, a hynny trwy ddarparu digon o gyfleoedd addysgol, diwylliannol a chymdeithasol i ddefnyddio'r iaith o ddydd i ddydd. Yn unol â'r Strategaeth Iaith

hon, bydd y gwaith ar gyfer y Strategaeth Iaith am y pum mlynedd nesaf hefyd yn mynd i'r afael a chreu'r amgylchiadau cywir hyn, er budd ffyniant y Gymraeg.

Wrth ddatblygu Strategaeth Iaith newydd ar gyfer y cyfnod 5 mlynedd nesaf, bydd angen i wasanaethau'r Cyngor ynghyd â phartneriaid allweddol ymrwmo i weithio gyda'i gilydd, yn galetach nag erioed o'r blaen, i hyrwyddo ac annog y defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd cymdeithasol ac economaidd y sir; hyn er mwyn gwyrddroi unrhyw ostyngiadau pellach yn nifer y siaradwyr Cymraeg. At hyn bydd angen ymrwymiad ar lefel Strategol gan bob sefydliad partner i sicrhau canlyniad boddhaol.

Wrth adolygu cyrhaeddiad y Strategaeth Iaith hon mae'n bwysig cydnabod bod cynllunio iaith yn broses tymor hir, ac mae gweithredu er lles y Gymraeg yn cymryd amser i'w feithrin; fodd bynnag mae'r Cyngor yn teimlo'n hyderus bod y Strategaeth Iaith hon wedi gosod y seiliau cywir ar gyfer symud ymlaen i'r cyfnod 5 mlynedd nesaf.

	<b>Oes Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam</b>	<b>Asesiad Effaith</b>	Na, adroddiad ar gyflawni cynllun gweithredu, dim penderfyniad polisi.
<b>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</b>	<b>Crynodeb:</b> <b>Hirdymor:</b> <b>Cydweithio:</b> <b>Cynnwys:</b> <b>Atal:</b> <b>Integreiddio:</b>		
<b>Argymhelliad / Argymhellion:</b>	I'r Cabinet i dderbyn a chymeradwyo'r Adroddiad, ac i:		
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gyflwyno at sylw Comisiynydd y Gymraeg</li> <li>• Gyflwyno'r adroddiad er gwybodaeth yng nghyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion</li> <li>• Gyhoeddi ar wefan corfforaethol y Cyngor, fel sy'n ofynnol o dan drefn Safonau'r Gymraeg.</li> </ul>		
<b>Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:</b>	Gofyniad Statudol o dan Rheoliadau Safonau'r Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011: Safon Rhif 146		
<b>Trosolwg a Chraffu:</b>	Cyflwynwyd yn y Pwyllgor Iaith ar y 25ain o Fai 2023		
<b>Fframwaith Polisi:</b>	Rheoliadau Safonau'r Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011		
<b>Amcanion Llesiant Corfforaethol:</b>	Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach		
<b>Goblygiadau Cyllid a Chaffael:</b>	Dim		
<b>Goblygiadau cyfreithiol:</b>	Dim		

## Tudalen 317

<b>Goblygiadau staffio:</b>	Dim
<b>Goblygiadau eiddo / asedau:</b>	Dim
<b>Risg(iau):</b>	Dim
<b>Pwerau Statudol:</b>	Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
<b>Papurau Cefndir:</b>	Adroddiad Adolygu Strategaeth Iaith 2018-23
<b>Atodiadau:</b>	Atodiad 1: Adroddiad Cyflawniad Strategaeth Iaith 2018-23
<b>Swyddog Arweiniol Corfforaethol:</b>	Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democraidaidd
<b>Swyddog Adrodd:</b>	Carys Lewis Morgan
<b>Dyddiad:</b>	19 Mai 2023

# Adroddiad Adolygiad Strategaeth Iaith Ceredigion 2018-23



Awdur: Carys Lewis Morgan

Dyddiad cymeradwywyd gan Fforwm Dyfodol  
Dwyieithog: 25 Mai 2023

Dyddiad cymeradwywyd gan Cabinet: 6 Mehefin  
2023

Dyddiad Cyhoeddi:

## **Cyflwyniad:**

Dyma gyflwyno adroddiad sy'n adolygu Strategaeth Iaith Ceredigion 2018-2023, ac yn asesu i ba raddau y mae'r Cyngor wedi bodloni gofynion Safonau'r Gymraeg rhif 145 a 146.

Cafodd Strategaeth Iaith Ceredigion ei ddatblygu fel ymateb i un o ofynion Safonau'r Gymraeg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod statws statudol i'r iaith Gymraeg, ac mae'n gosod yr egwyddor:

- Yng Nghymru, ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg
- Dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg os ydyn nhw'n dewis gwneud hynny.

## Gofyniad Safonau'r Gymraeg ar Gyngor Sir Ceredigion

Safonau iaith rhif 145 ac 146 sy'n gosod y ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddatblygu Strategaeth iaith. Dyma'r gofyniad:

### **Safon 145:**

Rhaid ichi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill) - (a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd o dan sylw,

(b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw

### **Safon 146**

Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth yn unol â safon 145 rhaid ichi - (a) asesu i ba raddau yr ydych wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi

(b) cyhoeddi'r asesiad ar eich gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys yr wybodaeth a ganlyn:

- (i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal, ac oedran y siaradwyr hynny;
- (ii) rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd gennych neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg

Nod yr adolygiad hwn yw asesu i ba raddau y mae'r Cyngor wedi bodloni gofynion Safonau'r Gymraeg rhif 145 a 146

## Cynnwys

Adran 1	Crynodeb	4
Adran 2	Deddfwriaeth a Chyd-destun Polisi	5
Adran 3	Crynodeb o'r cyflawniadau. [Adroddiad llawn yn Atodiad 1]	9
Adran 4	Targed a Mesur Perfformiad	19
Adran 5	Adborth gan Bartneriaid	28
Adran 6	Casgliadau	32
Atodiad 1	Adroddiad llawn ar y Cyflawniadau	

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg, ac mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.  
This document is available in English, and in other languages and formats on request.






## PENAWDAU ALLWEDDOL Cyfrifiad 2021

**31,678**

o siaradwyr Cymraeg yng  
Ngheredigion  
(Mawrth 2021)



**45.3%**

o boblogaeth Ceredigion yn  
nodi eu bod yn medru siarad  
Cymraeg

**2.0**

gostyngiad pwynt canrannol  
yng nghyfran y siaradwyr  
Cymraeg ers 2011




**-3,286**

siaradwyr Cymraeg yng  
Ngheredigion ers 2011

**59.0%**

Yn medru siarad Cymraeg yn  
AGEHI Aberaeron, y gyfran  
uchaf o siaradwyr Cymraeg ar  
draws y Sir  
(Yr isaf yw AGEHI Penglais 1 19.7%)



### Dadansoddiad sgiliau

Siarad Cymraeg – 45.3%  
Medru siarad, darllen ac  
ysgrifennu Cymraeg – 37.3%  
Dim sgiliau Cymraeg – 43.6%

**46.7%**

o breswylwyr Ceredigion yn  
meddwl am eu hunain fel Cymry  
yn unig  
(Mae hyn wedi cynyddu 0.1 pwynt canran ers  
Cyfrifiad 2011)



### Dadansoddiad yn ôl oedran



3-15 – 71.8%  
16-64 – 42.4%  
65+ – 39.9%



## ADRAN 1

### Crynodeb

Cafodd Strategaeth Iaith Ceredigion ei chyhoeddi yn gynnar yn 2018, yn dilyn cyfres o grwpiau ffocws ac ymgynghoriad cyhoeddus. Er mwyn cyflawni'r Strategaeth, cymerwyd camau i ddiwygio aelodaeth grŵp partneriaeth y Gymraeg yng Ngheredigion, gan ehangu'r aelodaeth a chryfhau Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion. Mae'r Fforwm wedi bod yn cwrdd yn rheolaidd oddi ar chyhoeddi'r Strategaeth, er mwyn mynd i'r afael â'r gofynion.

Caiff y Fforwm ei gadeirio gan yr Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb am Ddiwylliant, Hamdden a Gwasanaethau Cwsmeriaid sydd hefyd yn Gadeirydd Pwyllgor Iaith y Cyngor. Mae'r Grŵp yn cynnwys Swyddogion o'r Cyngor, cynrychiolwyr o sefydliadau cyhoeddus y Sir, ynghyd a'r sefydliadau hynny sy'n gweithio er mwyn hyrwyddo defnydd y Gymraeg ar draws y Sir. Mae pob sefydliad wedi ymrwmo i gyflawni'r cynllun gweithredu.

Prif nod Strategaeth Iaith Ceredigion 2018-23 oedd anelu at ehangu'r defnydd o'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd y Sir, a cheisio cynyddu'r nifer sy'n ei siarad unwaith yn rhagor. Gosodwyd tri maes strategol i'w gyflawni yn rhan o'r strategaeth:

- Cynyddu sgiliau iaith trigolion Ceredigion
- Cynnal a chynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yng Ngheredigion mewn amrywiol gyd-destunau
- Sicrhau amodau cymdeithasol sy'n galluogi'r Gymraeg i ffynnu yng Ngheredigion

Er mwyn cyflawni'r nodau strategol hyn, mae'r Cyngor ynghyd â sefydliadu partner wedi bod yn gweithio i gyflawni cynllun gweithredu. Caiff y camau gweithredu eu hadolygu'n gyson yn Fforwm Dyfodol Dwyieithog, a darperir adroddiadau cryno yn rhan o Adroddiad Monitro Safonau'r Gymraeg yn flynyddol at sylw Comisiynydd y Gymraeg.

Mae'r adroddiad mewn dau rhan:

- Adroddiad Adolygu Strategaeth Iaith: sy'n adrodd ar ein dulliau o weithredu, ynghyd â'r dulliau o fesur canlyniadau
- ATODIAD 1: Adroddiad ar Gyflawniad Strategaeth Iaith: sy'n adrodd ar yr holl weithgareddau a drefnwyd er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg.

Yn yr adroddiad darperir eglurder o ran gweithrediad y Strategaeth Iaith mewn cyd-destun Polisiâu Cenedlaethol a Lleol, gweler **Adran 2**. Yn **Adran 3**, cyflwynir adroddiad cryno ynghylch cyflawniad y Strategaeth Iaith, gan gynnwys adroddiad llawn ar yr holl weithgareddau a drefnwyd yn **Atodiad 1**.

Hefyd, yn rhan o'r adroddiad hwn, rydym wedi bod yn casglu ynghyd y data sydd ar gael er mwyn ceisio cynnig dadansoddiad ynghylch sefyllfa'r Gymraeg yng Ngheredigion. Rhyddhawyd adroddiadau cynnar Cyfrifiad 2021 ynghylch niferoedd sy'n medru'r Gymraeg ar draws Cymru ar y 5ed o Ragfyr 2022. Ceir adroddiad ar sefyllfa'r Gymraeg yng Ngheredigion yn **Adran 4**.

At hyn er mwyn adolygu cyrhaeddiad y Strategaeth ynghyd â threfniadau cylch gwaith Fforwm Dyfodol Dwyieithog rydym wedi cynnal archwiliad pen-desg ymysg ein holl bartneriaid. Mae'r gwaith hwn wedi ein helpu i asesu i ba raddau mae'r Strategaeth Iaith wedi llwyddo, wedi atgyfnerthu trefniadau Fforwm Dyfodol Dwyieithog fel ffordd o arwain y gwaith; ac wedi helpu ar gyfer cynllunio ar gyfer y Strategaeth Iaith nesaf am y cyfnod 5 mlynedd sydd i ddod. Ceir crynodeb o'r gwaith hwn yn **Adran 5**.

## ADRAN 2

Yn yr adran hon ceir disgrifiad sut mae'r Strategaeth Iaith Gymraeg yn cyd-fynd gyda Polisiâu Cenedlaethol a Lleol eraill.

### **Deddfwriaeth a Chyd-destun Polisi**

Mae Strategaeth Iaith Cyngor Sir Ceredigion yn ofyniad statudol penodol sy'n deillio o Reoliadau Safonau'r Gymraeg, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ond mae hefyd yn bodoli mewn cyd-destun polisi a deddfwriaeth ehangach – yn genedlaethol ac yn sirol.

Y ddogfen arweiniol gyfredol ym maes polisi a chynllunio iaith yng Nghymru yw *Cymraeg 2050, Strategaeth y Gymraeg* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae *Strategaeth Iaith Ceredigion* yn cydnabod ei pherthynas ag amcanion strategaeth Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050, ynghyd a'i gweithrediad. Hyn, ochr yn ochr â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Ceredigion; a'r gwaith cymunedol i hwyluso defnydd y Gymraeg drwy rhaglen waith y Fenter Iaith Cered.

### **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

Fe sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith gyfreithiol sy'n gorfodi sefydliadau cyhoeddus i gydymffurfio a set o safonau (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015), sy'n gosod sut y dylid bwrw ati i ddarparu, trefnu a hwyluso defnydd y Gymraeg. Mae Safon 145 a 146 yn nodi ei bod yn ofynnol i Awdurdodau Lleol, gan gynnwys Cyngor Sir Ceredigion weithredu Strategaeth Iaith, er mwyn hybu defnydd y Gymraeg yn ehangach.

### **Gweledigaeth Llywodraeth Cymru: Cymraeg 2050 miliwn o siaradwyr Cymraeg.**

Mae gweithredu Strategaeth Iaith Ceredigion yn cyfrannu at weledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru yn ei strategaeth Cymraeg 2050. Gellir darllen Strategaeth Cymraeg 2050 yn llawn drwy ddilyn y ddolen: [Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg | LLYW.CYMRU](#)

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Strategaeth y Gymraeg, ar gyfer hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd bob dydd. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw gweld yr iaith Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru. Mae gan 'Cymraeg 2050' ddau brif darged:

- nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050
- canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10% (yn 2013 i 2015) i 20% erbyn 2050

Mae'n rhaid cydnabod bod y byd wedi newid cryn dipyn ers cyhoeddi 'Cymraeg 2050'; mae'r Deyrnas Unedig wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd ac mae COVID-19 yn dal i fod o gwmpas; ac yn sicr mae effaith y pandemig yn amlwg o fewn ein cymunedau. Wrth gwrs mae hyn oll yn cyflwyno amrywiol heriau i'r iaith Gymraeg.

Wrth gyhoeddi rhaglen waith o'r newydd Cymraeg 2050 ar gyfer 2021 i 2026, dywedodd Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg:

*"Mae ein gweledigaeth ni'n un eangfrydig a chynhwysol. Ry'n ni eisiau creu dinasyddion dwyieithog sy'n hyderus i ddefnyddio Cymraeg ym mhob rhan o fywyd bob dydd. Yn syml, ry'n ni am i bawb yng Nghymru deimlo bod yr iaith yn perthyn i bob un ohonon ni.....*

*.....Mae cynllunio'n greiddiol i'r Rhaglen hon. Mae'n rhaid cynllunio'n ofalus a chyda phendantwrwydd er mwyn gallu cynyddu'r nifer o blant ac oedolion sy'n dysgu Cymraeg. Mae'n rhaid cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ddefnyddio'u sgiliau, ac mae'n rhaid i ni osod cyd-destunau sy'n golygu bod pobl yn gallu defnyddio'r iaith gyda'i gilydd, a hynny mewn cymunedau daearyddol neu rithiol, gweithleoedd, mannau cymdeithasol ac o fewn rhwydweithiau."*

Mae cyflawni gweithredoedd Strategaeth Iaith Ceredigion yn anelu at gynyddu nifer o siaradwyr Cymraeg a'r nifer sy'n defnyddio'r Gymraeg yng Ngheredigion, ac yn ei dro bydd hyn yn helpu i wneud y cyfraniad yn lleol tuag at weledigaeth Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru i Effaith Covid 19 ar y Gymraeg**

Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith pellgyrhaeddol ar ein bywydau, ac wedi ein gorfodi i wneud pethau mewn dulliau gwahanol; mae hefyd wedi cael effaith ar ddefnydd y Gymraeg yn y gweithle ac o fewn ein cymdogaethau. Fe wnaeth Fforwm Dyfodol Dwyieithog ddatblygu adroddiad "*Cyfleoedd i Ddefnyddio'r Gymraeg yn Ystod y Cyfnod Clo*" (Medi 2020) a gwelwyd bod y cyfnod clo, yr encilio cyhoeddus, a'r diffyg cymdeithasu diwylliannol wedi cael effaith ar ein defnydd o'r iaith Gymraeg. Yn ystod y cyfnod hwn roedd nifer fawr o bersonau heb weld, clywed nac wedi siarad Cymraeg am gyfnodau hir iawn, a gafodd effaith niweidiol iawn ar ddefnydd yr iaith Gymraeg.

Yn sgil y pandemig, sefydlodd Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol (teitl y Gweinidog ar y pryd) is-grŵp i ganolbwyntio ar effaith Covid-19 ar elfennau gwahanol o Cymraeg 2050. Yn y rhagair nodwyd

*"Mae pandemig y coronafeirws wedi cael effaith enfawr ar sut rydym yn ymwneud â phobl eraill yn ein cymunedau. Mae hefyd wedi gwneud i ni feddwl am sut y gallai hyn effeithio ar grwpiau cymunedol Cymraeg, sy'n allweddol o ran galluogi pobl i siarad Cymraeg gyda'i gilydd."*

Cyhoeddodd y Llywodraeth ei hymateb i effaith Covid-19 ar y Gymraeg ym mis Gorffennaf 2021, ac roedd nifer o argymhellion yn cynnwys rhai yn ymwneud â strategaethau hyrwyddo awdurdodau lleol, fel a ganlyn:

*"Dylai'r Awdurdodau Lleol (ALI) roi llais cryf i fudiadau cymunedol Cymraeg wrth gynllunio a gweithredu eu strategaethau hybu iaith. Dylid plethu at ei gilydd Strategaethau Hybu, Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Fforymau Sirol y Mentrau Iaith gyda'r mudiadau cymunedol Cymraeg."*

Yng Ngheredigion rydym yn anelu at ddod a'r holl strategaethau hwyluso a hyrwyddo'r Gymraeg o dan faner Fforwm Dyfodol Dwyieithog, sy'n cwrdd yn chwarterol ac yn cael ei gadeirio gan y Cynghorydd sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg a Diwylliant. Mae'r aelodaeth y Fforwm yn cynnwys sefydliadau cyhoeddus y Sir, yn ogystal â'r mudiadau hynny sy'n gweithredu dros y Gymraeg o fewn y Sir.

## **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032 (CySGA)**

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Ceredigion yn cydymffurfio â Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019. Mae'r rheoliadau hynny yn nodi y dylid cynllunio'n strategol ar gyfer meysydd allweddol er mwyn datblygu a chryfhau'r Gymraeg, megis mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol.

Yn ystod cyfarfod Cabinet a gynhaliwyd yn rhithiol ar 22 Chwefror 2022, cymeradwyodd Aelodau'r Cabinet gynnwys Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32. Dywedodd yr Aelod Cabinet â chyfrifoldeb dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Cymorth ac Ymyrraeth ar y pryd:

*“Mae cymeradwyo'r cynllun heddiw yn garreg filltir bwysig i'n helpu i osod sylfaen ragorol i'n disgyblion wrth siarad a chyfathrebu yn Gymraeg. Bydd yn cynyddu dewis y disgybl i ddilyn trywydd cwbl ddwyieithog drwy weddill ei yrfa addysgol ac wrth wynebu byd gwaith a bywyd cymdeithasol yn y dyfodol. Ar yr un pryd, bydd y cymunedau o amgylch ein disgyblion a'n hysgolion yn elwa o'r ymdrech gynyddol hon i gryfhau'r Gymraeg yng Ngheredigion fel iaith gymunedol.”*

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd y system addysg a'r CySGA yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau twf yr iaith o fewn y Sir. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32 yn amlinellu'r amcanion allweddol i gyflawni hyn. Erbyn mis Medi 2032, dyhead Cyngor Sir Ceredigion yw y bydd pob disgybl yn ysgolion yr awdurdod yn derbyn addysg drochi cyfrwng Cymraeg hyd nes y bydd yn saith oed. Ym mis Medi 2020 nodwyd bod 72.9% o ddisgyblion Blwyddyn 1 ysgolion Ceredigion yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg.

Erbyn 2032, dyhead Cyngor Sir Ceredigion yw bod y targed o 87% (Ystod Uchaf) a awgrymwyd gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ragori ymhellach i 100%.

## **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae gweithrediad y Strategaeth Iaith hefyd yn cyfrannu at un o'r nodau llesiant y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Ngheredigion, sef *Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu*

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd wedi gosod cyd-destun polisi pwysig i'r Gymraeg. Mae'r Ddeddf wedi creu Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Ceredigion sy'n gyfrifol am lunio Cynlluniau Gwasanaeth Cyhoeddus ar draws y Sir. Mae'r cynlluniau o fewn y Ddeddf wedi eu gosod ar sail chwech thema ac yn hyrwyddo:

- Cymru lewyrchus,
- Cymru gydnerth,
- Cymru iachus,
- Cymru sy'n fwy cyfartal,
- Cymru o gymunedau cydlynus,
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Golyga'r thema olaf hynny creu,

*“Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden”.*

Mae'r dystiolaeth yn yr adroddiad hwn yn dangos bod Strategaeth Iaith Ceredigion yn cyfrannu'n adeiladol tuag at gyflawni'r thema hwn yng Ngheredigion. [Gweler hefyd Atodiad 1, syn nodi cyflawniad y Strategaeth dros y pum mlynedd diwethaf]

## Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022

Mae'n ofynnol i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) gynhyrchu Asesiad o Lesiant Lleol unwaith bob pum mlynedd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ei ddiben yw cael darlun cynhwysfawr o gyflwr llesiant pobl a chymunedau lleol Ceredigion, wedi'i ystyried ar draws y pedwar piler llesiant – ffactorau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol. Isod, darperir crynodeb yng nhyd-destun yr iaith Gymraeg yng Ngheredigion. Gellir darllen yr asesiad llawn drwy ddilyn y ddolen:

[Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022](#)

Beth ydym wedi ei ddysgu o'r Asesiad yng nhyd-destun yr iaith Gymraeg yng Ngheredigion:

### Dechreuad Newydd

- Mae galw am ddarpariaeth Gofal Plant yng Ngheredigion yn enwedig yng ngogledd, canol a de'r Sir, yn enwedig darpariaeth cyfrwng Gymraeg.
- Mae sicrhau bod siaradwyr Gymraeg yn trosglwyddo'r iaith i lawr y cenedlaethau a bod plant yn cael y cyfleoedd i gymdeithasau yn iaith eu hardal leol yn hanfodol i'w les a goroesiad yr iaith Gymraeg.

### Plentyndod

- Mae system addysg Ceredigion yn un o'r cryfaf yng Nghymru ac un o asedau sylfaenol y sir. Mae'r sgil bywyd ychwanegol o addysg cyfrwng Gymraeg yn cael effaith ar bob agwedd o lesiant

### Ieuencid

- Er bod pryderon o gwmpas gostyngiad yn y nifer sydd yn siarad Gymraeg tu allan i osodiadau addysgedig mewn bywyd dydd i ddydd, roedd canlyniadau ein harolwg yn dangos bod cysylltiad cryf i'r iaith Gymraeg a diwylliant o fewn pobl ifanc, ac awydd i ofalu am hyn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### Oedolion

- Mae'r nifer o bobl sydd yn mynychu neu gyfranogi mewn gweithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth yn gostwng yng Ngheredigion. Er y gostyngiad mewn niferoedd, mae ein harolwg llesiant yn dangos bod pobl yn gwerthfawrogi'r rôl mae'r celfyddydau a diwylliant yn chwarae yn ei bywydau.
- Mae'r gostyngiad yn y nifer o siaradwyr Gymraeg yn un o'r heriau mwyaf i ddiwylliant cymdeithasol ac economaidd Ceredigion. Mae darparu cyfleoedd i ddysgu Gymraeg neu wella sgiliau Gymraeg yn hanfodol, ynghyd a'r mentrau cyfredol i hybu defnydd yr iaith Gymraeg.
- Mae gan breswylwyr Ceredigion awydd cryf i gefnogi busnesau lleol a phrynu cynnyrch lleol.
- Mae angen cryfhau'r economi er mwyn denu busnesau newydd a thyfu busnesau presennol, creu mwy o gyfleoedd swyddi gyda thâl gwell, darparu cyfleoedd i bobl ifanc i aros yn y Sir, a chynyddu enillion cyfartalog y Sir i gymharu â Chymru gyfan.

## Pobl Hŷn

- Mae gan Geredigion boblogaeth sy'n heneiddio. Mae'n debygol bydd hyn yn rhoi straen arwyddocaol ar ein gwasanaethau cyhoeddus (yn benodol ein gwasanaeth iechyd lleol) ac ein marchnad lafur lleol.

Mae Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru 'Mwy na Geiriau', ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn nodi "*dim ond trwy gyfrwng y Gymraeg y gall llawer o bobl gyfathrebu eu hangen am ofal yn effeithiol. I lawer o siaradwyr Cymraeg mae'n rhaid i'w gallu i ddefnyddio eu hiaith eu hunain gael ei weld fel elfen greiddiol o ofal, yn hytrach nag fel rhywbeth dewisol. Mae llawer o ddefnyddwyr gwasanaeth yn fregus iawn, felly nid yw'n deg gosod cyfrifoldeb arnynt hwy i ofyn am wasanaeth drwy'r Gymraeg. Cyfrifoldeb y sawl sy'n darparu'r gwasanaeth yw bodloni'r anghenion gofal hyn.*"

Mae canlyniadau arolwg lles Ceredigion yn dangos bod llawer o bobl iau yn teimlo cysylltiad cryf â'r Gymraeg a diwylliant Cymru, ynghyd ag awydd yr un mor gryf i gynnal hynny dros genedlaethau'r dyfodol. I gwrdd â'r awydd hwn ac i sicrhau Ceredigion gyda diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, rhaid inni ddarparu cyfleoedd i'w galluogi i ddefnyddio'r iaith pryd bynnag y mynnant. Er enghraifft, dywedodd 50% yn union mai'r gallu i siarad Cymraeg oedd y peth pwysicaf mewn perthynas â chymuned fywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, sef canran uwch na'r canlyniadau cyffredinol i'r cwestiwn hwn. Hefyd, nododd dros hanner (54%) mai 'colli traddodiadau' oedd eu prif bryder mewn perthynas ag iaith a diwylliant Cymru, gyda 32% yn nodi 'diffyg addysg Gymraeg mewn ysgolion a cholegau', a 25% pellach yn nodi 'methu defnyddio'u dewis iaith'. Yn yr holl gwestiynau am iaith a diwylliant, cafodd opsiynau'n ymwneud â'r Gymraeg sgôr uwch ar draws canlyniadau'r arolwg yn gyffredinol. Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022 tudalen 95.

## ADRAN 3

### Cyflawni Cynllun Gweithredu Strategaeth Iaith Ceredigion

Yn yr adran hon, ceir crynodeb o'r gwaith sydd wedi mynd rhagddo er mwyn cyflawni gofynion Strategaeth Iaith Ceredigion. At hyn, ceir adroddiad cynhwysfawr ar gyflawniad cynllun gweithredu y Strategaeth Iaith yn **Atodiad 1**; at ddibenion adrodd ar safon 146, ceir tabl sy'n adrodd ar y rhestr lawn o weithgareddau ynghyd â'r cofnod o'u gweithredu.

Derbyniwyd adroddiadau cyson ar gyflawniad y camau gweithredu fel rhan o raglen waith Fforwm Dyfodol Dwyieithog yn ystod oes y Strategaeth hon, gyda phob sefydliad partner wedi ymroi i gyflawni'r camau gweithredu a oedd wedi eu hadnabod.

Lle bod hynny'n bosib rydym wedi adrodd ar ddangosyddion perfformiad gyferbyn a'r camau gweithredu, fodd bynnag gwelwyd yn gyson bod casglu data ynghylch defnydd o'r Gymraeg yn gallu bod yn astrus ac yn ddieithr; yn gyson nid yw systemau cyfrifiadurol sy'n bodoli yn medru casglu'r data sydd ei angen, neu nad yw'r data yn rhoi'r stori yn gyflawn. Wrth gwrs, mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith ar ddefnydd y Gymraeg, ac mae cyflawni'r targedau a bennwyd yn wreiddiol wedi bod yn anodd mewn rhai meysydd darpariaeth.

Rydym wedi tynnu sylw bod rhai o'r dangosyddion perfformiad wedi bod yn anodd eu mesur. Dywedwyd yn nogfen gyngor Comisiynydd y Gymraeg 'Safonau hybu: asesu cyrhaeddiad y strategaethau 5-mlynedd':

*"Bydd llwyddiant y strategaethau hybu yn dibynnu llawer ar agweddau, arferion ieithyddol, barn a sefyllfaoedd cymdeithasol unigolion a grwpiau yn y cynulleidfaoedd targed. Mae'r rhain yn ffactorau anodd eu mesur â rhifau ac ystadegau. Yn y cyswllt hwn, gan fod y sefydliad cyhoeddus yn dymuno dylanwadu ar agweddau ac ymddygiad ieithyddol y cyhoedd a'r sefydliadau yn ei ardal leol, gallai fod yn fuddiol i ategu canfyddiadau'r dystiolaeth feintiol drwy gynnal ymchwil ansoddol hefyd." (tudalen 15).* Mewn ymateb i hyn, rydym wedi creu archwiliad pen-desg ymysg aelodau Fforwm Dyfodol Dwyieithog, gweler **Adran 5**

[20210407-dg-c-cyngor-ar-asesu-cyrhaeddiad-y-strategaethau-hybu.pdf](https://www.comisiynyddygymraeg.cymru/20210407-dg-c-cyngor-ar-asesu-cyrhaeddiad-y-strategaethau-hybu.pdf)  
([comisiynyddygymraeg.cymru](https://www.comisiynyddygymraeg.cymru))

Fodd bynnag mae swyddogion wedi pwysleisio bod y gwersi cadarnhaol a ddysgwyd wrth gyflawni'r Strategaeth hon, yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer y strategaeth am y cyfnod 5 mlynedd nesaf.

Mae'n glir o'r adroddiad hwn bod gwaith sylweddol wedi ei gyflawni o ganlyniad i weithredu'r strategaeth. Mae'r Cyngor o'r farn bod cyhoeddi Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, ynghyd â gweithredu Strategaeth Iaith ar lefel lleol yng Ngheredigion wedi creu rhywfaint o newid yn yr agweddau tuag at yr iaith Gymraeg, ac yn sgil hynny mae mwy o bobl yn dymuno dysgu a siarad yr iaith yng Ngheredigion.

#### Dyma rannu ychydig o brif gyflawniadau gweithredu'r Strategaeth Iaith mewn rhifau:

- **210** o ddigwyddiadau ym Mhentref Ceredigion, Eisteddfod Genedlaethol Tregaron 2022, gyda **1,500** o blant wedi cymryd rhan gyda'u hysgol mewn perfformiad o ryw fath ar y maes.
- **71.2%** o blant yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yng Ngheredigion
- **3** Ysgol wedi cyrraedd lefel Aur Siarter Iaith Ysgolion Ceredigion: **16** Arian a **19** Efydd.
- **3** canolfan trochi iaith ar gyfer hwyrdyfoediaid wedi'u cynnal: ers mis Medi 2022 cyfanswm o 20 disgybl wedi'u cefnogi.



- Pob sefydliad cyhoeddus sy'n rhan o Fforwm Dyfodol Dwyieithog yn cynnig cyrsiau Cymraeg i'w staff. Cyngor Sir Ceredigion: **65** aelod o staff wedi derbyn y cyfle i ddysgu Cymraeg drwy gynllun Tiwtor Cymraeg y Gweithle; **21** aelod o staff yn siaradwyr newydd drwy fod wedi cwblhau Cwrs Uwch.
- **670** o ddysgwyr wedi cofrestru ar gyrsiau dysgu Cymraeg yn y gymuned drwy wasanaeth dysgu Cymraeg Ceredigion-Powys-Sir Gâr: **151** wedi cofrestru ar gyrsiau lefel Uwch neu Hyfedredd
- **62%** o darparwyr gofal plant yn darparu gwasanaeth Cymraeg neu wasanaeth dwyieithog
- **16%** o'r holl alwadau a dderbynnir gan wasanaeth Cwsmeriaid Clic yn Gymraeg
- **2,967** o aelodau gan fudiad yr Urdd yng Ngheredigion; 27 adran ysgol gynradd yn cwrdd pob wythnos: 780 o aelodau yn mynychu
- **713** o aelodau gan fudiad Ffermwyr Ifanc; 18 o glybiau, gyda phob un o'r Clybiau yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- **60%** o ddarpariaethau Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion trwy gyfrwng y Gymraeg, a'r gweddill yn ddwyieithog. Cyfradd boddhad 100% gan bobl ifanc ym mhob rhaglen gweithgareddau gwyliau.
- **515** o blant wedi derbyn gwersi nofio cyfrwng Cymraeg / dwyieithog
- **34** o weithgareddau wedi'u hwyluso yn y Gymraeg gan Menter Iaith Cered ar gyfer teuluoedd, plant a phobl ifanc
- **32** o fusnesau yng Ngheredigion wedi gwella eu defnydd o'r Gymraeg drwy gyswllt dwys gyda Menter Iaith Cered o dan gynllun Helo Blod.
- **4** tref wedi cynnal gorymdaith Gŵyl Dewi yn 2023
- **31** o geisiadau wedi cael eu cefnogi drwy gynllun Arfor 1, gyda'r prif amcan o hybu defnydd yr Iaith Gymraeg mewn busnes; 61.7 o swyddi wedi creu: 40.5 swyddi wedi'u diogelu.

### Rhai Uchafbwyntiau eraill:

- Hwyluso trefniadau ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol lwyddiannus iawn yng Ngheredigion: yr ŵyl wedi amlygu bod y Gymraeg yn iaith ddeinamig, naturiol a pherthnasol i drigolion Ceredigion
- Gwasanaeth Addysg Ceredigion wedi cyhoeddi ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-32, ac wedi sefydlu gweithgor i fynd i'r afael â'r cynllun gweithredu.
- Y Gwasanaeth Addysg wedi creu adnoddau ar gyfer annog rhieni a disgyblion i ddilyn addysg cyfrwng Cymraeg.
  - Canllaw a fideo 'Byw a Bod' wedi ei rannu'n eang
  - Llyfryn cymorth geiriau ac ymadroddion defnyddiol Cymraeg ar gyfer rhieni a gwarcheidwaid. Pob Ysgol yn y Sir wedi derbyn stoc o lyfrau.
- Uned Gofal Plant wedi bod yn llwyddiannus wrth hyrwyddo defnydd y Gymraeg o fewn lleoliadau gwarchod plant:
  - Gwarchodwraig Plant o Landysul wedi ennill gwobr Gofalwn Cymru 2021
  - Aelod o staff Meithrinfa Aberporth wedi ennill gwobr Dysgwr y Flwyddyn 2021 drwy gynllun 'Camau'
- Cangen Urdd Ceredigion wedi cyrraedd 4ydd safle ar y bwrdd sgorio ar draws Cymru yn Eisteddfod yr Urdd 2022.
- Mudiad Ffermwyr Ifanc Ceredigion wedi dod i'r brig dros Gymru gyfan wrth gystadlu yn y Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn Llanelwedd.
- Cais llwyddiannus i Gronfa Cynnal y Cardi, er mwyn medru bwrw ati i greu Pecyn Croeso Ceredigion, mewn ymdrech i gymhathu mewnfydwyr
- Strategaeth Economaidd Ceredigion (2020-35) wedi'i gyhoeddi, a thrwy hyn datblygu economi ffyniannus sy'n sicrhau bod gan y rhai sy'n siarad Cymraeg yr hyder, y sgiliau a'r cyfleoedd i ddatblygu busnesau, i weithio mewn swyddi o werth uwch, ac i weld Ceredigion fel lle ffyniannus ac egnïol i fyw a gweithio ynddo.
- Sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen er mwyn mynd i'r afael â mater tai fforddiadwy o fewn y Sir.

- Cynllun Gweithredu 'Mwy na Geiriau' mewn lle, er mwyn cynyddu defnydd y Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau y Sector Gofal.
- Menter Iaith Cered yn llwyddo i ddenu siaradwyr newydd at y Gymraeg drwy gynnal prosiectau penodol, Cynllun Ar Gered, Prosiect Cymunedol Yr Ardd yn Llandysul, Cerddorfa Iwcadwli ynghyd â chynnal amrywiaeth o foreau coffi.
- Dadansoddi data Cyfrifiad 2021, a goblygiadau hynny ar ddefnydd yr iaith yng Ngheredigion, cyhoeddi adroddiad ar ein gwefan corfforaethol, a rhannu canlyniadau yn eang gyda phartneriaid.
- CAVO yn un o'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol cyntaf yng Nghymru i ennill cydnabyddiaeth drwy gynllun Cynnig Cymraeg y Comisiynydd y Gymraeg
- Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ennill gwobr Cyflogwr Cymraeg Gwaith y Flwyddyn 2022
- Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi ymrwmo i gynllun Cymraeg Gwaith i ddarparu Cysia Codi Hyder i 100 o'u staff.
- Coleg Ceredigion, wedi gosod polisi lle mae disgwyl i'r holl staff ddilyn rhaglen hyfforddiant mewnol ar gyfer creu dosbarthiadau dwyieithog 'Sylfaen, Gwell Gorau'
- Prifysgol Aberystwyth wedi bod yn buddsoddi mewn datblygiadau mawr er budd defnydd y Gymraeg:
  - Ail agor Neuadd Pantycelyn (Medi 2020) yn dilyn buddsoddiad o £16.5miliwn gan gynnig llety o ansawdd ar gyfer hyd at 200 o fyfyrwyr a lleoliad ar gyfer y gymuned.
  - Ym Medi 2021 agorwyd Ysgol Gwyddor Filfeddygol cyntaf Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'r cwrs yn rhoi cyfle i fyfyrwyr astudio agweddau penodol o wyddor filfeddygol drwy gyfrwng y Gymraeg.
  - Ym mis Medi 2022 croesawyd myfyrwyr nyrsio cyntaf y Brifysgol fydd yn cael eu hyfforddi yn nyrsys Oedolion ac Iechyd Meddwl. Yn ogystal bydd cyfle i fyfyrwyr astudio hanner y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.
  - Mae gwaith hefyd wedi cychwyn fel rhan o brosiect uchelgeisiol i ail ddatblygu'r Hen Goleg yn ganolfan flaenllaw ar gyfer dysgu, treftadaeth, diwylliant a menter i'r Brifysgol, i'n cymuned ac i Gymru erbyn 2024.

Yn rhan o weithredu'r Strategaeth Iaith, fe osododd y Cyngor 3 nod strategol sef:

- Nod Strategol 1: Cynnal a chynyddu sgiliau iaith Gymraeg trigolion Ceredigion
- Nod Strategol 2: cynnal a chynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
- Nod Strategol 3: Sicrhau amodau cymdeithasol sy'n galluogi'r Gymraeg i ffynnu

Mae'r adran ganlynol yn crynhoi'r gweithgareddau a gynhaliwyd mewn perthynas â'r tri nod strategol a nodwyd yn Strategaeth y Gymraeg. At hyn, mae adroddiad llawn ar gyflawniadau i'w weld yn Atodiad 1.

### **Nod Strategol 1: Cynnal a chynyddu sgiliau iaith Gymraeg trigolion Ceredigion**

Mewn perthynas â'r nod strategol hwn, rydym yn cydnabod mai sgil yw iaith a bod gan bawb y potensial i gynyddu eu sgiliau ieithyddol, waeth beth yw eu man cychwyn. Mae cynnwys pawb yn y dyhead i gynyddu sgiliau iaith trigolion y Sir yn ffactor hollbwysig.

Mae trosglwyddo iaith ar yr aelwyd, a defnydd o'r Gymraeg yn y cartref yn allweddol i barhad yr iaith. Mae rhoi cyfle i blant ddysgu Cymraeg yn ifanc yn rhoi awydd iddyn nhw ddefnyddio'r iaith yn hyderus fel oedolion, ac fel y gwyddom mae hyn yn ei dro yn rhoi arf ychwanegol iddyn nhw ar gyfer eu bywyd gwaith. Mae Uned Gofal Plant Ceredigion ynghyd â Mudiad Meithrin yn bwrw ati i hyrwyddo manteision magu plant yn ddwyieithog; gan arwain ar brosiectau er mwyn hyrwyddo defnydd y Gymraeg o fewn lleoliadau gwarchod plant bach.

## Newyddion da:

- Gwarchodwraig Plant o Landysul, sy'n darparu gwasanaeth gwarchod plant yn Gymraeg, wedi ennill gwobr Gofalwn Cymru 2021, am ei rhagoriaeth wrth ddarparu gofal i blant bach.
- Aelod o staff, Meithrinfa Aberporth, wedi ennill **Gwobr Dysgwr y Flwyddyn 2021** Blynnyddoedd Cynnar Cymru drwy'r cynllun 'Camau', am ei hagwedd eithriadol a'i hymrwymiad at ei thaith dysgu Cymraeg (drwy cynllun Camau).

Mae nifer y disgyblion ym mlynnyddoedd 1 i 11 sy'n cael eu haddysg yn Gymraeg fel iaith gyntaf wedi cynyddu; mae pob un o'n hysgolion cynradd wedi rhoi blaenoriaeth i weithredu fframwaith y Siarter Iaith fel rhan o'u cynlluniau datblygu, gyda 3 ysgol wedi cyrraedd yr Aur; ynghyd â gwell ymroddiad oddi wrth rhan fwyaf o'r ysgolion Uwchradd.

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32 wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, gyda'r bwriad o wella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei darparu o fewn y Sir; yn ogystal â gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg a safonau addysgu Cymraeg yng Ngheredigion. Er mwyn cefnogi'r gwaith mae'r Gwasanaeth Addysg wedi creu adnoddau ar gyfer annog rhieni a disgyblion i ddilyn addysg cyfrwng Cymraeg.

- Canllaw a fideo 'Byw a Bod: wedi ei rannu'n eang  
**Canllaw:** [llyfryn-byw-a-bod-booklet.pdf \(ceredigion.gov.uk\)](https://www.ceredigion.gov.uk/files/2022/03/Byw-a-Bod-Booklet.pdf)  
**Fideo:** <https://youtu.be/-5-YpvvL2vg>
- Llyfryn cymorth geiriau ac ymadroddion defnyddiol Cymraeg ar gyfer rhieni a gwarcheidwaid. Pob Ysgol yn y Sir wedi derbyn stoc o lyfrau.  
[https://drive.google.com/file/d/1kxAPNcce\\_SPrKX4gK4vt-41RGzdc1bx/view?usp=share\\_link](https://drive.google.com/file/d/1kxAPNcce_SPrKX4gK4vt-41RGzdc1bx/view?usp=share_link)

## Astudiaeth Achos:

Teulu wedi symud o Loegr i Geredigion. Er gwaethaf gofidio ar y dechrau, fe wnaethon nhw benderfynu rhoi addysg Gymraeg i'w plant:

“Ein cyngor ni yw i chi fynd amdani. Pan ddechreuon ni roedd yna gymaint o siarad am pa mor anodd fyddai hi i'n plant ni i ffitio mewn ac os oeddech yn anfon nhw i'r ysgol yn ifanc...a'r broblem yw os nad ydych yn anfon eich plentyn i addysg cyfrwng Cymraeg, mae yna gymuned gyfan na fyddant yn rhan ohoni yn agos i'w cartref, felly doedd e ddim mor anodd â'r hyn roedd pobl yn dweud wrthym y byddai. Ewch amdani, dyna'r ateb. Fy nghyngor i i unrhyw un sy'n meddwl am y peth, ewch amdani. Byddwch yn ddewr ac fe fydd yn ychwanegu gymaint at eu bywydau nhw ac at eich bywyd chi hefyd...i ni, nid yn unig i'r plant, rydyn ni wedi bod yn rhan o'r gymuned ehangach ers i'r plant gael addysg cyfrwng Cymraeg. Maen nhw'n rhan o'r gymuned nawr a dydy e ddim yn golygu bod eu Saesneg yn dioddef...dydych chi ddim yn colli, mae yna ganfyddiad eich bod chi'n mynd i golli rhywbeth drwy eu hanfon i ysgol gyfrwng Gymraeg, dydych chi ddim, rydych chi ar eich hennill, a dyna ni wir.”

Mae pob sefydliad cyhoeddus sy'n aelod o Fforwm Dyfodol Dwyieithog bellach yn cynnig gwersi Cymraeg ar gyfer eu gweithlu. Mae'r Cyngor wedi creu partneriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol er mwyn cyflogi Tiwtor Cymraeg Gwaith, ac mae hyn wedi arwain at gynnydd yn y nifer sy'n dysgu Cymraeg o fewn y Cyngor, 65 o aelodau staff ar amrywiol gyrsiau i ddysgu Cymraeg, sy'n cynnwys 21 aelod o staff ar Gwrs Dysgu Cymraeg lefel Uwch.

**Astudiaeth Achos:**

**Dysgwr y Flwyddyn Cymraeg Gwaith Cyngor Sir Ceredigion.** Mae Melisa Elek yn wreiddiol o Canada a'i theulu yn hanu o Groatia. Mae Melisa wedi bod yn astudio Cymraeg ar raglen Cymraeg Gwaith y Cyngor ers tair blynedd. Yn goron ar ei hymroddiad, llwyddodd gydag arholiad Uwch yn haf 2022, gan ddangos ei bod bellach wir yn un o siaradwyr newydd y Gymraeg yng Ngheredigion. Erbyn hyn, defnyddia'r Gymraeg yn rheolaidd yn ei bywyd personol a phroffesiynol. Siarada Gymraeg yn llawen â chymdogion a chyfeillion. Yn y gwaith, defnyddia'r Gymraeg yn gyson gyda'i chyd-weithwyr, ac â'r myfyrwyr yn ei dosbarthiadau.

Mae Fforwm Dyfodol Dwyieithog o'r farn bod agweddau at yr iaith Gymraeg wedi newid, ac mae mwy o bobl yn dymuno dysgu a siarad yr iaith. Rydym wedi bod yn cefnogi Dysgu Cymraeg Ceredigion Powys a Sir Gâr, ac mae nifer cynyddol yn cofrestru ar gyrsiau i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg yn y gymuned. Mae **670** o ddysgwyr wedi cofrestru ar gyrsiau dysgu Cymraeg yn y gymuned, **151 (22%)** wedi cofrestru ar gyrsiau lefel Uwch neu Hyfedredd. Derbyniodd Dysgu Cymraeg Ceredigion, Powys a Sir Gâr gradd rhagorol gan Estyn yn 2022.

**Astudiaeth Achos:**

**Enillydd Dysgwr y Flwyddyn Ceredigion, Powys a Sir Gâr.** Ar ôl treulio dros 30 mlynedd yn byw ac yn gweithio yn Lloegr, fe benderfynodd Lynne Blanchfield a'i gŵr ymddeol yn ardal Aberystwyth. Mae wedi ymroi yn llwyr i ddysgu Cymraeg, wedi llwyddo yn arholiadau Dysgu Cymraeg CBAC hyd at lefel Uwch, a bellach yn gweithio tuag at lefel Hyfedredd. Mae hi'n awyddus i annog dysgwyr eraill i ddyfalbarhau gyda'u hymdrechion i ddysgu'r Gymraeg. Mae'n dweud ei bod yn werth dringo'r mynydd er mwyn medru defnyddio'r iaith i gyfrannu at fywyd a diwylliant Ceredigion, ein sir arbennig ac unigryw.

**Nod Strategol 2: cynnal a chynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg**

Cydnabyddir bod cynaliadwyedd yr iaith Gymraeg yn ddibynnol ar y broses o gryfhau cymunedau Cymraeg trwy ddarparu digon o gyfleoedd addysgol, diwylliannol a chymdeithasol i ddefnyddio'r iaith yn ddyddiol. Pwrpas y nod hwn oedd ceisio hwyluso'r cyfleoedd ehangaf posibl i drigolion Ceredigion fedru defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywydau o fewn y sir.

Yn rhan o'r nod hwn bu Menter Iaith Cered yn gweithio'n ddyfal i ddylanwadu a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y Sir. Llwyddiant rhai o brosiectau Cered yw cynnal gweithgaredd, a thyfu'r Gymraeg yn rhan o'r gweithgaredd hwnnw, er enghraifft, Cynllun Ar Gered; cerdded yw'r ffocws ac mae siaradwyr Cymraeg, dysgwyr ynghyd a'r di-gymraeg yn medru ymuno, ond defnyddir y Gymraeg drwyddi draw i roi cyfarwyddiadau, i esbonio enwau lleoedd a'r amgylchedd o'u cwmpas (70 ar y rhestr bostio, gyda thua 25 yn mynychu bob tro). Ffocws prosiect cymunedol yr Ardd, yw gweithgaredd o gwmpas gardd gymunedol, yn ogystal â'r clwb garddio mae sgysiau a chyflwyniadau wedi eu cynnal, gweithdai crefft ynghyd â phared llusernau (400 o gyfranogwyr yn ystod y flwyddyn adrodd hyd yma).

Yn yr un modd mae cynnal cerddorfa Cerddorfa Iwcadwli yn weithgaredd cynhwysol sy'n arwain at hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg (30 aelod yn ymarfer unwaith yr wythnos). Cynhelir amrywiaeth o foreau coffi, sgwrs dros banded, boed hynny wyneb yn wyneb neu'n rhithiol ar draws y Sir (oddeutu 63 o gyfranogwyr). Mae aelodau'r grwpiau hyn yn gymysgedd o siaradwyr Cymraeg medrus, siaradwyr Cymraeg swil ynghyd â dysgwyr, ac maent yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgaredd, ac yn medru defnyddio neu ymarfer eu Cymraeg wrth wneud hynny.

Yn rhan o'r gweithgareddau hyn mae Swyddogion Cered wedi dod i adnabod nifer fawr o fewnfudwyr di-Gymraeg i Geredigion, ynghyd a degau o siaradwyr Cymraeg newydd yn yr ardal, gan lwyddo i ddylanwadu yn bositif ar eu bywydau a'u hyder i ddefnyddio a gwella eu Cymraeg.

### Astudiaeth Achos:

Dwy flynedd nol symudodd pâr o Essex i ardal Aberystwyth. Ar ôl blynyddoedd o yrru ar draws Prydain i weld eu merch a oedd yn astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth, cwympon nhw mewn cariad gyda'r dref a phenderfynu symud yno. Roedd gweld y Gymraeg ymhobman a chlywed cymaint o Gymraeg yn cael ei siarad wedi gwneud i'r pâr sylweddoli fod yn rhaid iddyn nhw ddysgu'r iaith er mwyn cael y mwyaf allan o'u cartref newydd; ac fe aethon nhw ati i gofrestru ar gyrsiau Say Something in Welsh. Ar ôl 18 mis o ddysgu fe wnaethon nhw ddarganfod Bore Coffi Cymraeg Cered ym Mhenparcau gan gyfarfod â siaradwyr Cymraeg eraill gan gynnwys llawer o ddysgwyr tebyg iddyn nhw. Trwy fynychu'r sesiynau yma daethant i wybod am brosiectau 'Ar Gered' ac 'Iwcadwli', ac mae'r ddau wedi bod yn mwynhau mynychu'r ddau weithgaredd yn rheolaidd. Yn dilyn yr ymyrraeth ieithyddol gan Swyddogion Cered, mae un ohonynt wedi ymuno â'r band Cymraeg lleol Bwca, fel chwaraewr gitâr fas, ac mae wedi mynd ati i berfformio gyda nhw ar lwyfannau mwyaf yr ardal gan fwynhau pob eiliad.

### Astudiaeth Achos:

Pâr wedi symud o Sussex i ardal Aberystwyth yn y misoedd diwethaf. Wedi penderfynu symud i'r ardal oherwydd y prydferthwch, y prisiau tai rhatach a'r gallu i gychwyn busnes lletygarwch o'u cartref. Fe wnaethant ymuno gyda Bore Coffi Penparcau, am eu bod yn dymuno dysgu mwy am yr ardal a'r Gymraeg. Mae'n nhw bellach wedi dysgu ychydig o Gymraeg, ac wedi ymuno gydag 'Ar Gered'. Yn dilyn hyn, cafodd un o Swyddogion Cered gyfle i ddod i'w adnabod yn well, a chael cyfle i ddylanwadu o ran defnydd o'r Gymraeg yn rhan o'u busnes bwthyn gwyliau er mwyn creu teimlad Cymreig naws am le. Bellach mae ychydig o Gymraeg ar eu gwefan, ac mae nhw wedi bwrw ati i lobio'r cwmni cenedlaethol sy'n gyfrifol am eu gwefan o ran codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gwelediad y Gymraeg. Mae'r pâr yn aelodau ffyddlon o 'Ar Gered', er mwyn darganfod llefydd 'mynd am dro', gyda'r bwriad o rannu talp o ddiwylliant yr ardal gyda'r ymwelwyr a ddaw i'r bwthyn gwylie.

Bu Cered hefyd yn cefnogi Llywodraeth Cymru gyda'r cynllun Cymraeg Byd Busnes ac yna cynllun Helo Blod (Ebrill 2020 – Ebrill 2022), cynllun a oedd yn darparu cyngor yn lleol i fusnesau i wneud defnydd o'r Gymraeg. Mae cyflawni camau bach, fel gosod arwyddion dwyieithog neu annog eu gweithwyr sy'n siarad Cymraeg i wisgo bathodyn, sy'n cyfleu eu bod yn medru'r Gymraeg, yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr; hynny yw, mae gosod cliwiau bach gweledol o ran defnydd iaith yn medru cyfrannu tuag at hyder pobl i wneud defnydd o'r Gymraeg. Yng Ngheredigion mae **32** o fusnesau wedi gwella eu defnydd o'r Gymraeg drwy gyswllt dwys gyda Menter Iaith Cered o dan gynllun Helo Blod, ynghyd a 52 o fusnesau wedi creu'r cyswllt.

**Astudiaeth Achos:**

Mae Cwmni Gelert Behaviour yn gwmni sy'n cynnig gwasanaeth hyfforddi cŵn ac anifeiliaid anwes eraill. Symudodd y perchennog o Loegr i ardal Pontrhydfendigaid, ychydig cyn cyfnod y clo mawr. Yn dilyn ymyrraeth gan swyddog Helo Blod, mae'r cwmni wedi gwneud defnydd o'r Gymraeg, drwy greu gwefan dwyieithog, creu ateb awtomatig Cymraeg ar gyfer e-byst, deunydd marchnata dwyieithog, ac mae hi wedi ymuno gyda dosbarth Dysgu Cymraeg, ac yn gwirfoddoli mewn meithrinfa er mwyn ymarfer ei Chymraeg. Er nad oedd yn siarad gair o Gymraeg cyn symud i Geredigion, mae hi bellach yn medru cynnal sgwrs eithaf syml yn y Gymraeg.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddirwyn y prosiect Helo Blod i ben ym mis Ebrill 2022, er mawr siom i ni yng Ngheredigion. Rydym o'r fan bod angen cefnogi perchnogion busnes i wneud defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig pan nad ydynt yn medru'r Gymraeg eu hunain. I ddiwallu anghenion busnesau yn llawn ac yn effeithiol mae angen dealltwriaeth o'r gymuned leol a chyd-destun unigryw y sefydliad, nid yw darparu gwasanaeth cyfieithu canolog yn unig yn sicrhau gweithredu ar lawr gwlad. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn medru cefnogi unrhyw brosiect olynol.

Mae Theatr Felin-fach yn cynnig cyfleoedd creadigol a chelfyddydol, trwy ddatblygu rhaglenni cyfranogi yn yr iaith Gymraeg. Gweledigaeth y theatr yw darparu cyfleoedd sy'n cyfrannu at lesiant, cydlynad cymdeithasol, hybu a hwyluso hunaniaeth ddiwylliannol ynghyd â'r ymdeimlad o berthyn. Mae prosiect Gorwel a Gwreiddiau yn brosiect ar y cyd rhwng Theatr Felin-fach a Cered, sy'n archwilio perthynas pobl ifanc a'u cynefin, eu dyfodol a'u perthynas â diwylliant, iaith a bro. Llwyddodd y prosiect i gynnal 100 o sesiynau ymgysylltu, gyda 400 o bobl ifanc ac oedolion yn cymryd rhan. Mae Ysgol Berfformio Theatr Felin-fach (7-18 oed) wedi cydweithio â Chwmni Actorion Felin-fach i lwyfannu pantomeim blynyddol, ynghyd â Sioe Maes G, gyda 55 o aelodau CFFI Ceredigion yn cyflwyno sioe gerdd wreiddiol yn y Pafiliwn. Mae Clwb Hwyl a Hamdden yn grŵp cymdeithasol diwylliannol trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer pobl hŷn y Sir. Mae'r Clwb yn cwrdd yn wythnosol, ac yn darparu adloniant neu weithgaredd, ynghyd a chyfleoedd i'r grŵp oedran hwn sgwrsio a chymdeithasu yn eu mamiaith.

Mae sicrhau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i amgylchedd ffurfiol yr ysgol yn allweddol er mwyn meithrin hyder i ddefnyddio Cymraeg naturiol. Yn hyn o beth, mae'r Cyngor wedi cefnogi'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc ymuno â grwpiau megis Clybiau Ffermwyr Ifanc a'r Urdd, gweithgareddau yn Theatr Felin-fach, Theatr Troedyrhiw, Radio Beca a Theatr Arad Goch.

Fodd bynnag, mae'n glir bod cyfyngiadau'r pandemig COVID-19 wedi effeithio momentwm y gwaith yn sylweddol yn ystod dwy flynedd olaf y strategaeth. Rhoddwyd stop ar nifer o'r gweithgareddau cymdeithasol a oedd yn creu cyfleoedd gwerthfawr i blant, pobl ifanc ac oedolion glywed a defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd yn ein cymunedau. Er gwaethaf y pandemig a'i sgil effeithiau, mae mudiadau fel Ffermwyr Ifanc a'r Urdd wedi bod yn gweithio'n galed i adfer yr holl waith da cyn Covid, ac er bod ffyrdd o wneud pethau wedi newid yn sylweddol, mae Mudiad yr Urdd wedi llwyddo i adfer ei aelodau, mae 2,967 o blant Ceredigion yn aelodau o'r Urdd yng Ngheredigion (Hydref 2022). Er bod y pandemig wedi gorfodi nifer o glybiau i gau dros dro, mae'r Sir bellach yn cynnal 9 o adrannau/aelwydydd gydag adran newydd wedi agor ei drysau ym Mrynhoffnant (Adran Crannog) ac un arall ar y gorwel yn y flwyddyn newydd yng Nghei Newydd.

Mae Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion yn rhoi cyfle unigryw i rhyw 713 o aelodau mewn 18 o glybiau ar draws Ceredigion, gyda phob un o'r Clybiau yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn Eisteddfod yr Urdd 2022, llwyddodd Cangen Ceredigion gyrraedd y 4ydd safle ar y bwrdd sgorio ar draws Cymru tipyn o glod gan ystyried y canllawiau llym oedd mewn lle, oherwydd pandemig Covid. A daeth Mudiad Ffermwyr Ifanc Ceredigion i'r brig dros Gymru gyfan wrth gystadlu yn y Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn Llanelwedd. Mae hyn yn tystiolaethu bod yna gysylltiad cryf rhwng iaith a diwylliant yng Ngheredigion, ac mae darparu digon o gyfleoedd diwylliannol a mentrau i hwyluso defnydd y Gymraeg yn hanfodol er mwyn cadw'r iaith yn fyw i genedlaethau'r dyfodol.

### Dyfyniad gan Aelod Hŷn Clwb Ffermwyr Ifanc Ceredigion:

“Wrth i'm hamser innau fel aelod ddirwyn i ben, dyma gyfle i ddiolch o waelod calon i'r Mudiad. Rydyn ni'n freintiedig iawn o'r hyn rydyn ni wedi'i etifeddu. Er nad ydw i'n un sy'n ennill llawer yn gystadleuol, dwi ar fy ennill drwy'r cyfeillgarwch dwi wedi'i dderbyn, nid yn unig wrth fod yn rhan o'r teulu ond yn rhan o gymuned cefn gwlad eithriadol Ceredigion.”

### Dyfyniad Aelod o Fudiad yr Urdd yng Ngheredigion:

*“Profiadau bythgofiadwy ac anhygoel mae mudiad yr Urdd wedi cynnig ers i mi ymaelodi o fflnyddoedd cynnar yr Ysgol Gynradd. Heb os nac oni bai, yr Urdd yw un o fudiadau mwya'fwysig Cymru ac hyd yn oed o amgylch y byd wrth iddo uwch oleuo talentau, diwylliant a'r mwynhad sydd gan ieuenctid Cymru i'w gynnig. Un profiad arbennig cefais trwy'r Urdd yn ddiweddar oedd cael perfformio ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Ninbych eleni!”*

Cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol lwyddiannus iawn yng Ngheredigion yn ystod haf 2022, a gafodd ddylanwad pellgyrhaeddol ar godi statws a'r bri ar y Gymraeg o fewn y Sir. Rhoddodd yr Ŵyl gyfle i tua 1,500 o blant a phobl ifanc Ceredigion gymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau ar y maes. Yn rhan o'r Ŵyl fe sefydlodd y Cyngor Bentref Ceredigion er mwyn hyrwyddo'r Sir fel lle deniadol i fyw, dysgu, perthyn a llwyddo ynddi. Darparwyd cyfleoedd di-ri i fynychwyr brofi a mwynhau'r Gymraeg, drwy gynnal gofod penodol ar gyfer pob un o'r 4 thema; cegin arddangos gyda cogyddion gwadd o fwytai lleol yn arddangos; derbyniadau o ddi-ddordeb; ardal eistedd; maes chwarae; llwyfan digwyddiadau, ardal awyr agored a oedd yn cynnwys Carafán Sipsi (gyda stori dyddiol yn cael ei hadrodd), ynghyd â chytiau ar gyfer hyrwyddo busnesau lleol. Hyn oll, ar gyfer hyrwyddo Ceredigion fel sir sy'n gyfoethog o ddiwylliant a threftadaeth.

Un o lwyddiannau'r digwyddiad oedd gwaith ymgysylltu rhwng y Cyngor a phartneriaid eraill y Sir, er mwyn sicrhau bod isadeiledd cyfleustodau yn eu lle ac wedi eu profi ymhell cyn y digwyddiad. Dywed Heddlu Dyfed Powys: “Y gwaith partneriaeth gorau i ni ei brofi yn ystod Eisteddfod”. Mae'r gwaith hwn wedi cyfoethogi gwaith partneriaeth o fewn y Sir.

Cafwyd oddeutu 25,000 o ymwelwyr i Bentref Ceredigion, gyda'r niferoedd uchaf ar ddydd Mercher ac ar ddydd iau yr Ŵyl. Dyma ddyfyniad gan un ymwelydd, sy'n atgyfnerthu dymuniad y Cyngor i gynyddu'r cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg:

**Dyfyniad gan Ymwelydd i Bentref Ceredigion ar Faes Eisteddfod Genedlaethol Tregaron:**

*“Mae ein teulu yn dysgu siarad Cymraeg, gan ein bod wedi symud i Geredigion o Lerpwl. Nid oeddem yn siŵr a fyddem yn dod i'r Eisteddfod, gan ein bod wedi clywed na fyddem yn teimlo'n rhan o bethau, os nad oeddem yn gallu siarad Cymraeg. Rwyf mor falch ein bod wedi manteisio ar y cyfle i ddod i Dre garon. Cawsom groeso twymgalon ym Mhentref Ceredigion. Roedd y plant yn dwlu ar y gweithdy serameg, chwarae 'Connect Four' anferth, y cyfle i fod yn greadigol a hefyd y ffaith ein bod yn gallu cael cwpanaid o de neu ddiod oer. Roeddwn yn teimlo fod y cyngor wedi meddwl am y ffyrdd gorau i fod yn gynhwysol. Mae wedi ein gwneud hyd yn oed yn fwy a wyddus i ddysgu Cymraeg. Diolch.”*

Prif nod yr Eisteddfod yw dathlu diwylliant a'r iaith Gymraeg, ac yn sicr fe lwyddwyd i godi proffil y Gymraeg ar draws y Sir. Mewn gwirionedd bu'r Eisteddfod yn brosiect cymunedol am dair blynedd ac yna gŵyl ar y diwedd. Fe wnaeth y bwrlwm o godi arian cyn ymweliad yr Eisteddfod â Cheredigion sicrhau gwaddol bwysig hefyd. Cadarnhawyd bod y Sir wedi torri record, drwy godi cyfanswm o £463,671, a hynny drwy ymwneud cymunedol. Roedd yr Ŵyl a'r gweithgaredd cymunedol hyn yn cyfrannu at wireddu Strategaeth Iaith Ceredigion, a hynny drwy gryfhau safle'r Gymraeg mewn cymunedau ar draws y Sir. Yn arwain i fyny at wythnos yr Eisteddfod lanswyd prosiect 'Codi Hwyl y Cardis', lle gosodwyd her i ardaloedd dacluso a harddu ar gyfer croesawu'r Eisteddfod. Roedd y prosiect yn gyfleu euraidd i dynnu pawb o fewn y gymuned ynghyd; ac ar hyd a lled Ceredigion gwelwyd baneri a chreadigrwydd lliwgar yn harddu'r ardal, o'r ddraig goch yn Lledrod i'r Orsedd yn Llanddewi Brefi. Fe, wnaeth ymweliad yr Eisteddfod gynnig cyfleoedd arbennig i bontio rhwng y Gymuned Gymraeg a'r di-Gymraeg, drwy ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i ddenu dysgwyr i weithgareddau cyfrwng Gymraeg.

Yn ystod y cyfnod cyn yr Eisteddfod, aethpwyd ati i gasglu rhai o ddywediadau mwyaf amlwg Ceredigion; ac fe osodwyd rhain fel atyniadau deniadol o amgylch y maes. Bu'r dywediadau yn destun trafod gwych; a thrwy hyn rydym wedi sicrhau eu parhad ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. At hyn fe'i cyhoeddwyd yng nghylchgrawn Cleber y Cardi, a gafodd ei ddsbarthu yn eang ar draws holl ysgolion Ceredigion.

Mae'r gwaddol hwn yn parhau, wrth i Geredigion ddarparu rhagor o gyfleoedd ar gyfer siaradwyr newydd yr iaith Gymraeg. Agwedd bwysig arall oedd bod plant a phobl ifanc wedi cael cyfleoedd di-ri yn ystod yr wythnos i gymryd rhan mewn amrywiol ddigwyddiadau, ac roedd hyn yn ei dro yn denu rieni at weithgarwch yr Eisteddfod ynghyd ac at y Gymraeg; hyderwn y bydd y gwaddol hwn yn parhau.

Codwyd cofeb barhaol i nodi ymweliad yr Eisteddfod gan Gyngor Tref Tregaron; ers sawl blwyddyn bellach, mae'r Orsedd wedi defnyddio cerrig ffug er mwyn cynnal eu seremonïau ar faes yr Eisteddfod, sy'n golygu nad oes cerrig go iawn yn cael eu codi yn man lle mae'r brifwyl yn cael ei chynnal. Ond fe lwyddodd Cyngor Tref Tregaron i gael sêl bendith yr Orsedd i alw'r gofeb yn Gerrig yr Orsedd.

Yn dilyn ymweliad yr Eisteddfod mae nifer o brosiectau wedi'u cynnal; nifer o gorau newydd wedi dechrau; mae sawl busnes newydd wedi'i sefydlu; comisiynwyd Gwenllian Spikes i greu mainc sydd bellach wedi ei gosod yn barhaol yng Nghors Caron, ac mae prosiect Garth Newydd wedi ei sefydlu yn Llanbedr Pont Steffan; bydd y ganolfan hwn yn cael ei ddefnyddio i redeg Penwythnosau Cymraeg er mwyn codi hyder pobl i ddefnyddio'r iaith. Y bwriad hefyd yw cymdeithasu gyda siaradwyr iaith gyntaf, gan gyflwyno'r rhai sy'n newydd i'r iaith i'r diwylliant Gymraeg.



Yn dilyn ymweliad yr Eisteddfod, mae'r Cyngor yn dymuno parhau i gynnal rhai o'r digwyddiadau, er enghraifft cynnal Talwrn y Beirdd leuenctid yn flynyddol; Seremoni Wobrwyo Camu Mlaen; defnyddio Theatr Felin-fach neu Proms Cerdd i ddarparu llwyfan ar gyfer perfformiad gan Ddisgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol; casglu ar gof a chadw cofnod o idiomau lleol a'u hyrwyddo'n eang, sefydlu cylchgrawn addysg Cleber y Cardi. Mae cynnal y digwyddiadau hyn yn hynod bwysig wrth gyfrannu tuag at hyfywedd yr iaith Gymraeg o fewn y Sir.

Bu'r Eisteddfod yn fuddsoddiad a wnaeth lwyddo i gyflwyno'r Gymraeg i gynulleidfa newydd yng Ngheredigion, a dyma ddull ardderchog o newid agweddau ynghyd ag annog pobl i fynd ati i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o'u bywyd. Yn syml, mae wedi dangos bod y Gymraeg yn iaith ddeinamig, naturiol a pherthnasol i drigolion Ceredigion.

Mae cais llwyddiannus i Gronfa Cynnal y Cardi wedi ei gymeradwyo, hyn er mwyn medru bwrw ati i greu Pecyn Croeso Ceredigion, mewn ymdrech i gymhathu mewnfudwyr. Bwriad y prosiect yw cynnal hyfywedd cymunedau trwy amlygu'r cyfleoedd sydd ar gael i gyfrannu a chefnogi'n lleol, ac i helpu personau i ddeall sut mae'r Gymraeg yn gweu i fewn i fywyd diwylliannol a chymdeithasol y Sir. Bydd y prosiect yn gynhwysol, gan ddwyn ynghyd siaradwyr Cymraeg, siaradwyr swil, dysgwyr y di-Gymraeg a'r rhain sy'n gwbl newydd i'r Gymraeg. Bydd y prosiect yn anelu at sicrhau perchnogaeth gan y gymuned, gan arfogi'r gymuned ei hunain i fynd i'r afael a'r heriau sy'n gysylltiedig a mewnfudwyr. Mae'r Grŵp Prosiect ar hyn o bryd yn dylunio Cerdyn Post a fydd yn cyfeirio personau at e-lyfr Croeso i Geredigion.

### **Nod Strategol 3: Sicrhau amodau cymdeithasol sy'n galluogi'r Gymraeg i ffynnu**

Cyfrwng cymdeithasol yw iaith ac i iaith ffynnu mae angen i'r gymdeithas y mae'n gyfrwng mynegiant iddi hefyd ffynnu. Rhaid wrth fwrlwm ac egni a chreadigrwydd. Rhaid i gymunedau fod yn ddeniadol ac yn lefydd pleserus i fyw ynddyn nhw. Rhaid bod y boblogaeth yn gweld gwerth cymdeithasol ac economaidd i'w hiaith a bod yn barod i'w dathlu.

Un o'r prif heriau i Geredigion yw sicrhau bod y boblogaeth iau a chenedlaethau'r dyfodol yng Ngheredigion yn cael cychwyn da i'w bywydau fel oedolion. Mae'r Cyngor yn dymuno i Geredigion fod yn lle deniadol sy'n llawn cyfleoedd i bobl ifanc aros a datblygu eu gyrfa.

Y tuedd yng Ngheredigion yw bod nifer cynyddol o bobl ifanc Cymraeg eu hiaith yn allfudo o'r Sir yn dilyn derbyn eu haddysg ffurfiol, a hynny ar gyfer cyfleoedd gyrfa, cyfleoedd cymdeithasol a chyflogau uwch. Mae mwy a mwy o sefydliadau ar draws Cymru yn chwilio am siaradwyr Cymraeg, ac rydym yn colli ein pwll talent leol. Mae hyn yn cael effaith ar ddiboblogi siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau cefn gwlad yng Ngheredigion. Mae pobl ifanc heddiw yn hanfodol ar gyfer llenwi rolau allweddol yn y gymuned ar gyfer yfory.

Mae ymyriadau eisoes ar droed i wrthdroi'r duedd hon. Mae Strategaeth Economaidd Ceredigion (2020-35) yn amlinellu'r camau y mae'n rhaid eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r heriau allweddol; drwy ganolbwyntio ar ddatblygu'r economi leol i greu gwell cyfleoedd gwaith a denu swyddi sy'n talu'n well; ynghyd â buddsoddiad a chynlluniau i wella cysylltedd, yn gorfforol ac yn ddigidol.

Gellir darllen Strategaeth Economi Ceredigion yn llawn drwy ddilyn y ddolen:

[Rhoi Hwb i Economi Ceredigion - Cyngor Sir Ceredigion](#)

Mae'r Strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg, "Egwyddor sylfaenol bwysig arall yw'r angen i ddiogelu a gwella ein hunigrywedd a'n hunaniaeth ddiwylliannol, a helpu i roi hwb i gydnerthedd a thwf y Gymraeg."

Yn ei hanfod, mae gosod cyd-destun Strategaeth yr Economi ochr yn ochr a'r Strategaeth Iaith yn cael ei gyflawni wrth sicrhau bod gan y rhai sy'n siarad Cymraeg yr hyder, y sgiliau a'r cyfleoedd i ddatblygu busnesau, i weithio mewn swyddi o werth uwch, ac i weld Ceredigion fel lle ffyniannus ac egniol i fyw a gweithio ynddo.

Roedd gweithredu rhaglen Arfor 1 yn rhannol gyfrannu tuag at greu mwy o swyddi a swyddi gwell er mwyn atal yr allfudo a'r golled gysylltiedig o siaradwyr Cymraeg o'r ardal. Nod rhaglen Arfor 1 oedd datblygu ymyriadau economaidd, a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar nifer y siaradwyr Cymraeg a hyfywedd yr iaith Gymraeg. Mae rhaglen Arfor 1 wedi treialu cynlluniau cymorth busnes ar raddfa fach yn llwyddiannus ac wedi dangos bod ganddynt y potensial i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, i greu amodau ffafriol ar gyfer datblygu gallu a gwasanaethau ymhellach, yn ogystal â chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y gymuned fusnes.

Yn ôl cwmni ymchwil Wavehill, a fu'n gyfrifol am werthuso prosiect Arfor: *“Mae'r rhaglen wedi cael yr effaith fwyaf gweladwy ac uniongyrchol trwy grantiau busnes uniongyrchol i gwmnïau bach a meicro yn yr ardal. Nododd y busnesau hyn yn aml pa mor anodd oedd cyrchu ffynonellau cyllid, buddsoddiad a chyfalaf amgen. Yn yr ystyr hwn, mae'r grantiau wedi bod yn arbennig o werthfawr i'r busnesau hyn ac wedi galluogi ehangu ac arallgyfeirio..... Wrth sicrhau'r effaith economaidd hon, mae'r grantiau uniongyrchol hefyd wedi ymgorffori cynlluniau i ddatblygu gallu iaith yn y cynlluniau busnes ar gyfer y blynyddoedd i ddod.”*

Mae cynllun Arfor yng Ngheredigion wedi cefnogi 31 o geisiadau gyda'r prif amcan o hybu defnydd yr iaith Gymraeg mewn busnes, yn eu tro mae'r busnesau hyn wedi creu 61.7 o swyddi ynghyd â diogelu 40.5 o swyddi cyfwerth ag amser llawn, refeniw cynyddol, a chyda'r rhain yn gwmnïau lleol, maent yn fwy tebygol o ailgylchu'r refeniw yn lleol. Mae'r Cyngor yn ddiolchgar bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd cyllid pellach ar gyfer ail wedd Arfor hyd at ddiwedd Mawrth 2025; ac ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn gweithio i roi trefniadau yn eu lle.

Mae sicrhau cartrefi fforddiadwy hefyd yn cael dylanwad ar benderfyniad pobl ifanc i aros neu adael y Sir. Mae sicrhau stoc o dai addas a fforddiadwy yng Ngheredigion yn flaenoriaeth. Mae'r twf yn y galw a'r stoc gyfyngedig wedi cadw prisiau tai a rhent yn uchel yn y sir. Er ei bod yn wir bod fforddiadwyedd tai yn effeithio ar bob awdurdod lleol yng Nghymru, mae'r broblem yn arbennig o ddwys yng Ngheredigion oherwydd y galw uchel cyson a welir, y stoc gyfyngedig a'r enillion sy'n is na swm cyfartalog yr enillion a welir yn y wlad. Yn ôl adroddiad yn y Cambrian News (21/03/2023), Ceredigion yw'r pedwerydd lle drytaf yng Nghymru i brynu tŷ yng Nghymru. O ran Mynegai Prisiau Tai Cymru, mae'r prisiau tai cyfartalog yng Ngheredigion ar hyn o bryd yn £284,813, sydd 8.6 % yn uwch nag yr oedd y flwyddyn flaenorol.

Cyfeirnod:

- [Gwynedd sees drop in house prices - with Ceredigion the fourth most expensive place in Wales to buy a house | cambrian-news.co.uk](https://www.cambrian-news.co.uk/news/gwynedd-sees-drop-in-house-prices-with-eredigion-the-fourth-most-expensive-place-in-wales-to-buy-a-house)
- [Welsh House Price Index | Wales House Price Index \(principality.co.uk\)](https://www.principality.co.uk/wales-house-price-index)

Er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn cyflwynwyd papur at sylw Cabinet (22 Chwefror 2022) a'r Cyngor (3 Mawrth 2022) ynghylch: Tai Cymunedol, gyda'r bwriad o gefnogi pobl leol i gael mynediad at dai drwy fodel Ecwiti a Rennir. Sefydlwyd grŵp Tasg a Gorffen er mwyn edrych ar weithredu hyn ynghyd ag ystod o opsiynau tai eraill, mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo.

Mae saib yn y broses adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol, oherwydd Pandemig Covid-19 ac oherwydd bod y mater ffosffad heb ei ddatrys. Fodd bynnag lluniwyd Papur Pwnc ar yr Iaith Gymraeg sy'n amlinellu bod y sir gyfan yn cael ei dosbarthu'n ieithyddol sensitif, a bod felly angen cynnal asesiad effaith wrth unrhyw gynigion datblygu, oherwydd eu potensial i effeithio ar ddefnydd yr iaith Gymraeg yn yr ardal honno.

Fodd bynnag, mae'r camau uchod yn uchelgeisiau mwy hirdymor, ac nid oes modd eu datrys yn ystod oes 5 mlynedd y Strategaeth Iaith gyfredol, bydd angen eu cynnwys yn y Strategaeth nesaf a'u monitro dros ddegawdau yn hytrach na blynyddoedd.

Mae'r Cyngor fel un o brif gyflogwyr y Sir, yn ymwybodol o'i ddyletswydd i gynllunio'r gweithlu, ac i sicrhau bod hawliau siaradwyr Cymraeg yn cael eu bodloni wrth ddarparu gwasanaethau yng Ngheredigion. Mae'r Cyngor yn anelu at sicrhau bod ganddo ddigon o weithwyr sy'n gymwys o ran siarad ac ysgrifennu Cymraeg. Gwenir hyn drwy asesu pob swydd newydd neu wag ar gyfer y sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen er mwyn medru cyflawni'r swydd. Mae'r Cyngor wedi llwyddo dros oes y Strategaeth i gynnal y nifer o staff sy'n medru'r Gymraeg, ac mae'r niferoedd sy'n rhugl yn parhau fel y cohort uchaf o siaradwyr Cymraeg.

Mae technoleg wedi gweddnewid y ffordd rydym yn byw, ac mae'n bosibl y bydd y newidiadau'n digwydd yn gyflymach fyth yn y dyfodol. Mae Cymraeg 2050, strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, yn cydnabod bod newidiadau o'r fath yn creu heriau i'r Gymraeg; ond maent hefyd yn dod â chyfleoedd i'n rhan. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 'Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg' [WG34015 \(llyw.cymru\)](#) er mwyn arwain y gwaith i sicrhau bod technoleg yn hwyluso cyfleoedd i weithio ac i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg. Mae Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor yn sicrhau bod unrhyw feddalwedd sy'n cael ei datblygu'n fewnol yn medru gweithio yn y Saesneg a'r Gymraeg ar yr un pryd; ac os oes angen pwrcasu meddalwedd digidol yn allanol sicheir bod y darparwr yn glynu at y polisi dwyieithog hwn.

Yn naturiol, mae'r cynnydd yn ystod 2020-22 wedi bod yn gyfyngedig mewn nifer o feysydd oherwydd effaith Covid-19, wrth i bobl ganolbwyntio ar addasu i fodolau newydd o ddarparu gwasanaethau. Fodd bynnag, wrth adrodd ar gyflawniad y Strategaeth Iaith rydym yn gweld bod Ceredigion yn parhau i fod yn gyfoethog a byrlymus o ran gweithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg; fodd bynnag mae'n allweddol bod cynllunio ieithyddol bwriadus yn digwydd, er mwyn uchafu statws yr iaith, a chryfhau ei defnydd; hyn fel bod mwy o drigolion Ceredigion yn gweld gwerth o fedru siarad Cymraeg a'i defnyddio yn ddyddiol yn eu bywydau bob dydd.

## ADRAN 4

Yn yr adran hon rydym yn archwilio pa mor lwyddiannus bu'r Strategaeth Iaith yn ei nod i ddenu mwy o siaradwyr Cymraeg o fewn y Sir. Gwneir hyn drwy gynnal dadansoddiad manwl o'r data sydd ar gael yn genedlaethol ac yn lleol ar gyfer mesur nifer siaradwyr Cymraeg.

### Targedau a Mesurau Perfformiad.


Mae'n ofynnol bod Strategaeth Iaith pob Cyngor Sir (Safon 145) yn cynnwys targed: *Gosod targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eu hardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd dan sylw.*

Gosododd Strategaeth Iaith Ceredigion y targed i gynyddu canran siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion i 48.5%, sef rhyw 1,500 yn fwy o siaradwyr Cymraeg erbyn 2023. Roedd y targed hwn yn seiliedig ar alluoedd iaith Gymraeg disgwylidig y boblogaeth erbyn 2023 a nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n gadael addysg cyfrwng Cymraeg.

Yn ôl Comisiynydd y Gymraeg y Cyfrifiad yw'r brif ffynhonnell ddata am y Gymraeg yng Nghymru, a chaiff ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru i asesu cynnydd yn erbyn y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2021.

Rhyddhawyd data Cyfrifiad 2021 ar y 6ed o Ragfyr 2022, ac mae hwnnw yn adrodd bod y niferoedd o siaradwyr Cymraeg wedi gostwng ar draws Cymru o 19% i 18%; ac fe welodd Ceredigion hefyd ostyngiad sef -2.0 pwynt canran neu 3,286 yn llai o siaradwyr Cymraeg. Yn unol â data y Cyfrifiad dros y degawdau gostwng fu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion, gweler y tabl isod.

Ffigur \*: Y canran o siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion 1991 - 2021.



Swyddog Ystadegau Gwladol, 1991, 2001, 2011 a 2021.

Source: Office for National Statistics, 1991, 2021, 2011 and 2021.

Fodd bynnag, mae angen pwylllo wrth ddehongli'r data, ac edrych ar y darlun yn ehangach; er enghraifft cofnodwyd canlyniadau'r Cyfrifiad ar adeg pan welwyd gostyngiad ym mhoblogaeth Ceredigion, ac hefyd yn ystod cyfnod pandemig Covid. Mae arolygon eraill yn bodoli ynghylch y Gymraeg, ac mae'r canlyniadau hyn yn llawer mwy calonogol ar gyfer Ceredigion. Byddwn yn trafod y canlyniadau hynny isod.

Mae'n bwysig nodi bod gan Lywodraeth Cymru nifer o ddulliau gwahanol o fesur nifer y siaradwyr Cymraeg; ac yn anorfod mae'r dulliau hyn yn gwahaniaethu wrth gyflwyno eu data. Mae hyn yn creu sefyllfa eithaf cymhleth, ac yn atgyfnerthu pa mor anodd yw hi i fesur defnydd iaith mewn gwirionedd. Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddan nhw'n archwilio data'r cyfrifiad yn ofalus a'i fod yn "un o lawer o ddarnau pwysig o ddata a ddefnyddir i ystyried pa newidiadau sydd angen eu gwneud yn y dyfodol i sicrhau bod ein hiaith yn ffynnu". Mae'r prif weinidog wedi ysgrifennu at y Swyddfa Ystadegau Gwladol "i ofyn iddynt archwilio sut a pham mae gwahanol arolygon am y Gymraeg yn cynhyrchu canlyniadau gwahanol".

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi Dogfen Gyngor ar Asesu Cyrhaeddiad y Strategaethau 5 mlynedd Awdurdodau Lleol; yn y ddogfen nodwyd, mater i'r sefydliadau eu hunain yw mesur cynnydd yn erbyn eu targedau, fodd bynnag mae'r ddogfen yn darparu gwybodaeth gyfredol am fethodoleg a ffynonellau data y gellid eu defnyddio er mwyn asesu i ba raddau mae'r Strategaeth wedi llwyddo i gyrraedd y targedau a osodwyd. Rydym yn trafod y ffynonellau data hyn isod.

Prif ffynonellau data'r Cyngor yn fewnol o ran nifer y siaradwyr Cymraeg yw ei ddata **addysg**, ynghyd â data'r **gweithlu**, sy'n caniatáu i'r Cyngor edrych ar unrhyw dueddiadau. Ceir dadansoddiad o'r data hwn hefyd.

## **Data Cyfrifiad 2021**

Mae angen gofal wrth ddehongli data'r Cyfrifiad gan fod y darlun yn un cymhleth; mae iaith yn rhywbeth mwy na dull o gyfathrebu mae'n rhan o wead pobl a'u hymwneud â'u gilydd. Dywedodd Dr Rhian Hodges, Uwch-ddarlithydd Cymdeithaseg ym Mhrifysgol Bangor yn ei chyfweiliad gyda BBC Radio Cymru 9 Rhagfyr 2022:

*"Mae'r Cyfrifiad yn werthfawr i roi rhyw fath o snapshot i ni o beth sy'n digwydd ond ar yr un pryd mae'n bwysig i edrych ar elfennau fel hyder, rhuglder a theimladau o ddefnydd iaith ac o ran perthyn i'r Gymraeg hefyd."*

Dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, Jeremy Miles wrth ddehongli data'r Cyfrifiad 6 Rhagfyr 2022:

*"Rwyf wedi sôn yn aml bod y Gymraeg yn fwy na just rhywbeth rwy'n ei siarad - mae'n rhywbeth rwy'n ei deimlo. Ac rwy'n teimlo bod mwy a mwy o bobl yn teimlo bod y Gymraeg yn perthyn iddyn nhw. Y gamp yw troi'r teimladau hynny'n ddefnydd iaith."*

Roedd cwestiwn Cyfrifiad 2021 yn gofyn i bobl asesu eu gallu i wneud y canlynol:

- Deall Cymraeg llafar
- Siarad Cymraeg
- Darllen Cymraeg
- Ysgrifennu'r Gymraeg

Nid yw data'r Cyfrifiad yn mesur y gwahanol lefelau o hyder wrth ddefnyddio'r iaith nac amlder defnyddio'r Gymraeg, nad ychwaith unrhyw deimladau o ran perthyn i'r Gymraeg. Mae'r wybodaeth am sgiliau Cymraeg yn y cyfrifiad yn seiliedig ar hunanasesiad person o'u gallu. Nid oedd cyfle felly i siaradwyr Cymraeg esbonio eu teimladau tuag at y Gymraeg. Mae'n bosib iawn bod mwy yn medru siarad rhywfaint o Gymraeg, ond wrth hunan asesu eu sgiliau yn y Gymraeg, roeddent yn teimlo'n swil ac yn ddihyder i nodi hynny. Mewn rhai achosion, yn enwedig i blant, roedd gallu Cymraeg yn cael ei gofnodi gan berson arall, er enghraifft, rhiant neu warchodwr.

## Tudalen 342

At hyn mae'n bwysig nodi wrth ystyried y ffigurau hyn bod Cyfrifiad 2021 wedi cael ei gynnal yn ystod pandemig COVID-19 (21 Mawrth 2021). Roedd hyn yn dilyn cyfnodau clo, dysgu o bell i blant, ac roedd llawer o bobl yn gweithio gartref. Nid yw'n hysbys sut y gallai'r pandemig fod wedi effeithio ar ymateb pobl i'r cwestiwn yng nghylch eu gallu yn y Gymraeg (neu eu canfyddiad ynghylch sgiliau Cymraeg pobl eraill).

### Data Cyfrifiad 2021: Canlyniadau Ceredigion

Canran y preswylwyr arferol tair oed a throsodd Cymru a Ceredigion: Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2021

	Cyfrifiad 2011		Cyfrifiad 2021		Gwahaniaeth pwynt canran
<b>Cymru</b>	<b>562,016</b>	<b>19.0%</b>	<b>538,300</b>	<b>17.8%</b>	<b>-1.2</b>
<b>Ceredigion</b>	<b>34,964</b>	<b>47.3%</b>	<b>31,678</b>	<b>45.3%</b>	<b>-2.0</b>

- Ar Ddiwrnod y Cyfrifiad (21 o Fawrth 2021), fe wnaeth 45.3 % (31,678) o drigolion arferol Ceredigion, a oedd yn dair oed neu'n hŷn adrodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn ostyngiad o 3,286 o bobl ers 2011, neu gostyngiad o 2.0 pwynt canran ers 2011.
- Ceredigion welodd y gostyngiad pumed mwyaf yng nghanran y siaradwyr Cymraeg rhwng 2011 a 2021 (2.0 pwynt canran). Gwelwyd y dirywiad mwyaf yn:
  - Sir Gaerfyrddin (4.1 pwynt canran),
  - Powys (2.1 pwynt canran)
  - Sir Ddinbych (2.1 pwynt canran).
  - Sir Benfro (2.1 pwynt canran)

Y prif ffactorau a gyfrannodd at y gostyngiad cyffredinol yng nghanran y bobl a nododd eu bod yn medru'r Gymraeg yng Ngheredigion rhwng 2011 a 2021 oedd:

- Cofnodwyd y canlyniadau hyn ar adeg pan welwyd gostyngiad ym mhoblogaeth Ceredigion. Poblogaeth Ceredigion wedi gostwng o **75,900 yn 2011** i **71,500 erbyn 2021**, sef -4,400 yn llai o bobl yn byw yn y Sir.
- gostyngiad mewn plant a phobl ifanc rhwng 3 a 15 oed a nododd eu bod yn medru'r Gymraeg (gostyngiad o 6.6 pwynt canran)
- gostyngiad yn y grŵp oedran pobl 65+ a nododd eu bod yn medru'r Gymraeg (gostyngiad o 6.5 pwynt canran)

Fodd bynnag ynghanol y penawdau negyddol sydd i'w ganfod yn y cyfrifiad, mae ambell lygedyn o oleuni a chanlyniad i'w groesawu.

- Gwelwyd cynnydd o ran canrannau yn y grŵp oedran 16 -19 oed, o 40.9% yn 2011 i 46.9% yn 2021
- Gwelwyd cynnydd o ran canrannau (er yn fychan) yn y grŵp oedran 20-44 oed, o 41.7% yn 2011 i 43.1% yn 2021.
- Ceir y nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y cohort oedran 20-44 oed, sy'n ystadegyn pwysig ar gyfer y Strategaeth Iaith nesaf.

## Tudalen 343

- Parhaodd Ceredigion fel yr awdurdod lleol gyda'r drydedd gyfran fwyaf o siaradwyr Cymraeg 3 oed a throsodd yn genedlaethol (45.3% o drigolion), y tu ôl i Wynedd (64.4% o drigolion) ac Ynys Môn (55.8%).
- Mae Ceredigion yn parhau i gael ei ystyried fel un o gadarnleoedd y Gymraeg, ac mae'n Sir allweddol o ran cynllunio twf a ffyniant yr iaith. Cymdogaethau Cymraeg a dwyieithog yw sail ei diwylliant a'i bywyd beunyddiol. Caiff yr iaith Gymraeg ei defnyddio yn helaeth yn y gweithle, mewn addysg ac yn y cartref. Mae'r iaith hefyd yn rhan hanfodol o gymunedau lleol, mudiadau, clybiau a chymdeithasau'r sir.


Ffigur \*: Y canran o siaradwyr Cymraeg yn ôl grwpiau oedran yng Ngheredigion.

	3 – 15 mlwydd oed / years	16-64 mlwydd oed / years	65+ mlwydd oed / years	Pawb dros 3 mlwydd oed / Everyone over 3 years
<b>2011</b>	78.4% (7,175)	41.9% (20,503)	46.4% (7,286)	47.3% (34,964)
<b>2021</b>	71.8% (6,123)	42.4% (18,219)	39.9% (7,347)	45.3% (31,678)
<b>Gwahaniaeth / Difference</b>	-6.6 pwynt canran / percentage points (-1,052)	+0.5 pwynt canran / percentage points (-2,284)	-6.5 pwynt canran / percentage points (+61)	-2.0 pwynt canran / percentage points (-3,286)

Ffynhonnell: Swyddog Ystadegau Gwladol, 2011 a 2021.

Source: Office for National Statistics, 2011 and 2021.

Ffigur \*: Y canran o siaradwyr Cymraeg yn ôl oedran yng Ngheredigion.



Nodyn ar gynnwys Myfyrwyr fel rhan o ddata Ceredigion:

Cynhaliwyd Cyfrifiad adeg tymor colegau a phrifysgolion. Mae'r boblogaeth myfyrwyr yn un arwyddocaol yng Ngheredigion, gyda thua 6,500 - 8,050 yn arferol (HESA, 2021 a YSG, Cyfrifiad 2021).

Fel mewn cyfrifiadau blaenorol, cyfrwyd y myfyrwyr yn eu cyfeiriad tymor arferol i helpu i ddarparu mesur cywir o'r boblogaeth breswyl arferol. Yng ngoleuni'r pandemig, cyfyngiadau'r cyfnod clo, a'r ffaith nad oedd llawer o fyfyrwyr yn eu cyfeiriad tymor efallai, aeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol ati i adolygu a gwella'r canllawiau i fyfyrwyr ar sut y dylent gwblhau'r cyfrifiad. Sefydlodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd ddulliau o amcangyfrif ac addasu ar gyfer diffyg ymateb myfyrwyr neu eu gorgyfrif.

Y Gymraeg yng Nghymru (Cyfrifiad 2021) Llywodraeth Cymru 6ed Rhagfyr 2022.

Mae'n rhaid cofio taw un ffynhonnell data yw'r Cyfrifiad, a mater goddrychol, yn aml, yw ateb holiaduron. Mae dogfen ganllaw Comisiynydd y Gymraeg ar asesu cyflawniad y strategaethau 5 mlynedd yn ein cyfeirio at ddulliau eraill o olrhain patrymau neu dueddiadau a allai roi cipolwg defnyddiol ar gyflawniad Strategaeth Iaith Ceredigion. I ddarllen cyngor Comisiynydd y Gymraeg yn llawn, dilynwch y ddolen:

[20210407-dg-c-cyngor-ar-asesu-cyrhaeddiad-y-strategaethau-hybu.pdf](https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Annual-Population-Survey-Welsh-Language/comisiynyddygyymraeg.cymru)  
(comisiynyddygyymraeg.cymru)

## Pa dystiolaeth arall sydd ar gael?

*Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth*

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Annual-Population-Survey-Welsh-Language>

Yn ôl dogfen ganllaw Comisiynydd y Gymraeg mae Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn darparu canlyniadau am nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg bob chwarter blwyddyn. Mae'r arolwg yn darparu data defnyddiol ar lefel cyngor sir er mwyn edrych ar dueddiadau'r Gymraeg rhwng cyfrifiadau, ond ni ddylai canlyniadau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth gael eu defnyddio i fesur cynnydd tuag at y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg.

Mae'r arolwg hwn hefyd yn darparu canlyniadau yn ôl grwpiau oedran eang. Er nad yw Llywodraeth Cymru yn ystyried ei ganlyniadau mor ddibynadwy a rhai'r Cyfrifiad er mwyn cyfri siaradwyr, y fantais o'i ddefnyddio yw ei fod yn cynhyrchu canlyniadau yn amlach.


Yn hanesyddol, mae amcangyfrifon yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth o ran gallu pobl yn y Gymraeg yn uwch na'r rhai a gynhyrchir gan y Cyfrifiad. Yn ôl yr arolwg hwn yn 2022 roedd **57.45%** yn medru siarad Cymraeg yng Ngheredigion, hyn o gymharu â 45.3% sydd wedi ei gofnodi yn y Cyfrifiad 2021.

Nifer Siaradwyr Cymraeg:	
Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2022	Cyfrifiad 2021
57.45%	45.3%



Mae gwybodaeth ac astudiaethau pellach ynghylch yr iaith Gymraeg yn Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dynodi bod canran y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion wedi bod yn codi. Er enghraifft, datgelodd yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth bod 52.7% o boblogaeth Ceredigion yn medru siarad Cymraeg yn 2014, a gwelwyd hwn yn codi i 60.9% erbyn 2020. Fel y gwelwn yn y graff isod, yn ôl y data yma mae'r lefelau siarad Cymraeg wedi disgyn ychydig yn 2021 a 2022, gall hyn fod oherwydd bod poblogaeth Ceredigion wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf. Ond mae'n rhaid nodi bod lefelau'r siaradwyr Cymraeg dal i fod yn uwch na'r canran a welwyd yng Nghyfrifiad 2021. Er mae data'r Cyfrifiad ydy'r data mwyaf gwyddonol a dibynadwy, dim ond bod 10 mlynedd mae'r Cyfrifiad yn cael i'w cynnal, felly mae'n bwysig i edrych ar ddata gwahanol hefyd.

Ffigur \*: Canran o siaradwyr Cymraeg yn ôl yr Arolwg Blynyddol o'r boblogaeth a'r Cyfrifiad 2021



Ffynhonnell: Swyddog Ystadegau Gwladol, 2021

Source: Office for National Statistics, 2021.

### Arolwg Cenedlaethol Cymru

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/National-Survey-for-Wales/Culture-and-Welsh-Language>

Dangosydd arall yw Arolwg Cenedlaethol Cymru sy'n casglu gwybodaeth am allu oedolion 16 oed a throsodd i siarad Cymraeg, yn ogystal â'u rhuglder a pha mor aml y maent yn siarad iaith. Yn yr un modd â'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, mae amcangyfrifon yr Arolwg Cenedlaethol o nifer y siaradwyr Cymraeg yn uwch yn hanesyddol na'r rhai a gynhrychir gan y cyfrifiad.

Caiff y data hwn ei ddefnyddio hefyd fel ffynhonnell ar gyfer dangosydd cenedlaethol 36 Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sef 'Canran y bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg (ar gyfer oedolion 16 oed neu hŷn).

## Tudalen 346

Arolwg Cenedlaethol Cymru			
Blwyddyn		% oedolion sy'n siarad Cymraeg	% yr oedolion sydd â rhywfaint o allu i siarad Cymraeg
2016-17	Cymru	20%	9%
	Ceredigion	49%	6%
2017-18	Cymru	19%	12%
	Ceredigion	44%	16%
2018-19	Cymru	18%	15%
	Ceredigion	42%	18%
2019-20	Cymru	16%	8%
	Ceredigion	40%	16%
2021-22	Cymru	19%	17%
	Ceredigion	41%	19%

Yn yr Arolwg hwn (2021-22), pan ofynnwyd i bobl yng Ngheredigion a oeddent yn gallu siarad Cymraeg, roedd 41% wedi ateb 'ydw', gyda 19% arall wedi ateb 'nac ydw', ond rwy'n gallu siarad rhywfaint o Gymraeg. Ymddengys o'r data hwn bod cynnydd yn y niferoedd sydd â rhywfaint o Gymraeg (9%: 2016-17: 19% 2021-22). Yn ôl yr arolwg hwn dyma'r fffactorau sy'n gysylltiedig â siarad Cymraeg bob dydd, a gallu siarad mwy na dim ond ychydig o eiriau:

- Plant yn byw ar yr aelwyd
- Teimlo bod pobl yn y gymuned leol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth
- Lefel uchel o gymwysterau addysg
- Bod yn gyflogedig
- Byw mewn ardal wledig
- Byw yng Ngwynedd, yn Ynys Môn neu yng Ngheredigion
- Ymdeimlad o berthyn i'r gymuned leol.

Nododd 35% o'r oedolion sy'n siarad Cymraeg eu bod yn debygol o siarad Cymraeg bob dydd.

### Arolygon Defnydd Iaith

[:https://llyw.cymru/arolwg-defnydd-iaith](https://llyw.cymru/arolwg-defnydd-iaith)

Nid yw arolygon defnydd iaith yn casglu gwybodaeth am nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg. Maent yn casglu gwybodaeth fanylach am ruglder siaradwyr Cymraeg, a'u defnydd o'r iaith mewn amrywiaeth o leoliadau yn eu bywydau bob dydd.

Fel arfer, caiff yr arolygon hyn eu cynnal bob 5–10 mlynedd (1992, 2004–06, 2013–15, 2019–21), a gallant ddarparu data ar lefel cyngor sir fel arfer. Effaith COVID-19 Yn anffodus, bu'n rhaid dirwyn Arolwg Defnydd Iaith 2019–21 i ben yn gynnar oherwydd pandemig y coronafeirws.

Dangosodd yr arolwg defnydd iaith blaenorol, yn 2013-15 bod crynodiad uchaf y siaradwyr Cymraeg sydd yn siarad yr iaith bob dydd yn ardaloedd awdurdodau lleol yng ngorllewin Cymru, gyda'r crynodiad ar ei uchaf yng Ngwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Yn yr ardaloedd hyn y ceir y canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg felly mae'n debyg eu bod yn cynnig mwy o gyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith yn aml.

### Data Trosglwyddo iaith

Mae sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn trosglwyddo iaith o un genhedlaeth i'r llall ynghyd â sicrhau cyfleoedd i gymdeithasoli plant i ddefnyddio'r iaith o fewn eu cymdogaeth leol yn hanfodol i barhad y Gymraeg. Mae cyfrifo cyfraddau trosglwyddo iaith yn broblematic heb ymchwil manwl. Comisiynwyd darn o waith gan Lywodraeth Cymru yn 2015 a oedd yn edrych ar ffigyrau o dablau'r Cyfrifiad ynghylch gallu plant 3-4 oed i siarad Cymraeg a hynny yn ôl natur ieithyddol y teulu. Bydd rhaid aros i weld os bydd ymchwil o'r math hwn yn cael ei ddatblygu ar gyfer Cyfrifiad 2021.

Byddwn yn sicr o barhau i gydweithio gyda'm partneriaid yn yr Uned Gofal Plant a gyda Mudiad Meithrin i sicrhau codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd trosglwyddiad iaith o fewn aelwydydd yn ystod oes y Strategaeth Iaith nesaf.

### Data Gwasanaeth Addysg Cynqor Sir Ceredigion


Mae'r Gymraeg yn rhan ganolog o addysg yng Ngheredigion – mae 37 o'r 43 ysgol yn y Sir yn rhai cyfrwng Cymraeg neu'n ddwyieithog. Yn ddiweddar fe gyflawnwyd gwaith yn llwyddiannus ar gyfer newid categori ieithyddol ysgolion Ceredigion, yn dilyn argymhellion gan Lywodraeth Cymru.

Mae nifer y disgyblion ym mlynnyddoedd 1 i 11 sy'n cael eu haddysgu yn y Gymraeg fel iaith gyntaf wedi cynyddu dros y blynnyddoedd diwethaf, gan gyrraedd nifer uchaf o 5,483 yn 2018/19, mae'r ffaith bod y niferoedd fymryn yn is yn 2020/21 yn adlewyrchu'r nifer llai o ddisgyblion yn y blynnyddoedd hynny.



## Plentyndod / Childhood

% y disgyblion a astudiodd y Gymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgolion cynradd, canol ac uwchradd ym mlynnyddoedd 1-11  
% of pupils that studied Welsh as a first language in primary, middle and secondary schools in years 1 -11



Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CySGA) Ceredigion 2022-32; sef cynllun sy'n amlinellu gweledigaeth addysg cyfrwng Cymraeg yr awdurdod dros y deng mlynedd nesaf a'r prif amcanion strategol ar gyfer y cyfnod hwn. Erbyn mis Medi 2032, dyhead Cyngor Sir Ceredigion yw y bydd pob disgybl yn ysgolion yr awdurdod yn derbyn addysg drochi cyfrwng Cymraeg hyd nes y bydd yn saith oed. Bydd derbyn sylfaen ragorol wrth siarad a chyfathrebu yn y Gymraeg yn cynyddu ar ddewis a hyder y disgybl i ddilyn trywydd cwbl ddwyieithog drwy weddill ei yrfa addysgol ac wrth wynebu byd gwaith a bywyd cymdeithasol y dyfodol. Bydd y gwaith hwn yn llesol i'r unigolyn ac i sefyllfa'r Gymraeg yng Ngheredigion fel iaith gymunedol. Bydd gweithredu'r CySGA hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn tuag at weithredu Strategaeth Iaith am y cyfnod 5 mlynedd nesaf, gan weithio tuag at gynyddu nifer sy'n siarad ac yn defnyddio'r Gymraeg ar draws y Sir.

### Data Gweithlu Cyngor Sir Ceredigion

Yn unol â threfn Safonau'r Gymraeg, mae'n ofynnol bod y Cyngor yn cynyddu defnydd y Gymraeg yn fewnol drwy weithredu set o Safonau Gweithredu. Mae'r set o safonau hyn (ymhlith nifer fawr o dasgau eraill) wedi gosod y ddyletswydd ar y Cyngor i fesur nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y gweithlu. Yn flynyddol mae'r Cyngor wedi adrodd ar lefelau sgiliau iaith ei weithlu, gan ddefnyddio Fframwaith ALTE (Association of Language Testers in Europe). Mae sgiliau iaith y gweithlu wedi aros yn weddol gyson dros y bedair blynedd diwethaf, yn galonogol mae'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y cohort sgiliau iaith lefel 5, sef lefel hyfedredd yn y Gymraeg; ym mlwyddyn adrodd 2021-22 roedd 32% o staff y Cyngor gyda sgiliau iaith lefel hyfedredd; a dim ond 4% heb ddim sgiliau yn y Gymraeg.

Lefelau Staff y Cyngor : Sgiliau Gwranddo a Siarad

Lefel	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22
Dim sgiliau	4%	4%	4%	4%
1	18%	19%	20%	20%
2	15%	15%	14%	14%
3	15%	15%	15%	15%
4	14%	14%	14%	15%
5	34%	33%	33%	32%

## ADRAN 5

### Adborth gan bartneriaid ar gyflawni Strategaeth Iaith 2018-23

Er mwyn cynorthwyo yn y broses o gynnal adolygiad ynghylch gweithrediad Strategaeth Iaith gyfredol; ynghyd â gwerthuso Fforwm Dyfodol Dwyieithog fel llwyfan i lywio'r gwaith, cynhaliwyd arolwg yn ystod Ionawr 2022, i gasglu barn rhanddeiliaid.

Rhannwyd yr holiadur gyda holl aelodau Fforwm Dyfodol Dwyieithog, mae hyn yn cynnwys rhai o bartneriaid allanol y Cyngor ynghyd a nifer o swyddogion allweddol o fewn y Cyngor mewn gwahanol wasanaethau sy'n berthnasol i weithredu'r Strategaeth. Arweiniodd hyn at 9 o ymatebwyr. Mae'r ymatebion a roddwyd wedi rhoi cipolwg defnyddiol ar gryfderau'r strategaeth a chyfleoedd posibl i gryfhau a datblygu'r strategaeth newydd dros y pum mlynedd nesaf.

Rhannwyd yr holiadur o dan y penawdau canlynol:

- Gweledigaeth
- Effeithiolrwydd
- Cydlyniad
- Canlyniad
- Cryfderau /Gwendidau /Cyfleoedd /Bygythiadau

#### Gweledigaeth

Gofynnwyd i rhanddeiliaid nodi pa mor glir oedd gweledigaeth y Strategaeth Iaith ynghyd a'r 3 nod strategol sydd wedi'i adnabod. Nododd pob un o bartneriaid y Fforwm a ymatebodd bod y weledigaeth a'r nodau yn glir iawn. Mae hyn yn adlewyrchu'r ymrwymiad mae'r rhanddeiliaid hyn wedi'i wneud o'r cychwyn cyntaf wrth gynllunio a datblygu'r Strategaeth. Nododd un o'r ymatebwyr ei bod hi'n glir bod nifer o'r elfennau hefyd yn plethu gyda strategaethau eraill y Cyngor, ac mae'r deallusrwydd hwn yn atgyfnerthu cydweithio.

Fodd bynnag, roedd un ymatebydd yn teimlo, ar lefel weithredol bod y weledigaeth yn glir, ond o bosib bod angen sicrhau ymgysylltiad dyfnach er mwyn sicrhau bod pob sefydliad o safbwynt arweinyddiaeth a'u strategaethau corfforaethol yn adlewyrchu hynny.

#### Effeithiolrwydd

Roedd y cwestiwn hwn yn holi am effeithiolrwydd y camau gweithredu a oedd wedi eu hadnabod fel rhan o gynllun gweithredu'r Strategaeth. Roedd pob un yn teimlo bod y camau yn realistig, fodd bynnag roedd yna deimlad bod cynllunio ieithyddol yn rhywbeth sydd rhaid ei feithrin dros gyfnod o amser, ac felly bod angen fwy o amser ar gyfer cyflawni rhai o'r camau gweithredu na chyfnod o 5 mlynedd, sef oes y Strategaeth Iaith gyfredol. At hyn, roedd barn gref ei bod hi'n anodd mesur cynnydd o safbwynt nifer sy'n defnyddio'r Gymraeg.

Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad oes amheuaeth, bod pandemig Covid-19 wedi cael effaith ar yr iaith, ac ar weithredoedd y Strategaeth o ran medru darparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn eu bywydau o ddydd i ddydd, yn y gwaith, neu wrth gwrdd â chymdeithasu. Wrth brofi lleihad mewn gweithgaredd cymdeithasol mae'r gallu i weld, clywed a defnyddio'r Gymraeg wedi gostwng. Hefyd, o bosib gyda mwy o bobl yn medru gweithio o gartref, mae wedi creu ton newydd o fewnfudwyr i'r ardal wledig hon, sydd hefyd yn cael effaith ar ddefnydd y Gymraeg, ac ar y niferoedd sy'n siarad yr iaith o fewn y Sir.

Mae'r pandemig wedi ein gorfodi i newid ein ffyrdd o fyw, effaith hyn oll yw tanseilio defnyddio'r Gymraeg ac amser a ddengys a fedr adfer neu addasu i'r amgylchiadau yn sgil y pandemig. Yn sgil y newid hwn, , mae angen mwy o amser i weld llwyddiant y camau sydd eisoes ar waith i wireddu gweledigaeth y strategaeth. Bydd angen meddwl am ffyrdd mwy creadigol i hybu'r defnydd o'r iaith, er enghraifft fwy o ddefnydd o dechnoleg fel tic-toc, instagram ayyb.

Ar y llaw arall, rhaid peidio ag anghofio rhai o fuddion y cyfnod clo, er enghraifft digwyddiadau cyhoeddus ar-lein, a agorodd ddrws at gynulleidfa newydd o bosib, ac sy'n ddull cynhwysol i bobl fedru mynychu. At hyn, mae'r cyfnod clo wedi gweld cynnydd yn y nifer sydd wedi dechrau dysgu'r iaith sydd yn galonogol ar gyfer y dyfodol, ac mae'r seilwaith sydd eisoes mewn lle fel rhan o'r strategaeth yn mynd i helpu dysgwyr er mwyn iddynt weld pwrpas mewn dysgu'r iaith, a gallu cymhathu yn naturiol i fywyd byrlymus a chyfoethog y Sir.

### **Cydlyniaid**

Roedd y mwyafrif yn cytuno bod Fforwm Dyfodol Dwyieithog yn gyfrwng effeithiol i drafod gweithrediad y Strategaeth; mae'r Fforwm yn blatfform da ar gyfer dod a phartneriaid at ei gilydd, ac mae'n allweddol ar gyfer ceisio codi ymwybyddiaeth a hyder ein partneriaid gwirfoddol i weithredu.

Nodwyd ei bod hi'n anodd ar adegau ceisio darbwyllo sefydliadau partner i weithredu gweledigaeth y Strategaeth, yn enwedig rheiny nad ydynt yn dod o dan gylch gorchwyl Safonau'r Gymraeg. Cafwyd sylwadau hefyd, yn nodi elfen o bryder ynghylch a oes gan y Cyngor yr adnoddau a'r strwythur cymorth priodol i helpu i weithredu'r strategaeth yn llawn.

At hyn cafwyd rhai sylwadau ar gyfer atgyfnerthu'r gwaith i'r dyfodol:

- Mae'r fforwm yn blatfform da ar gyfer rhannu gwybodaeth, ond mae angen edrych yn fwy gofalus o ran sut gallwn ddangos tystiolaeth bod gwahaniaeth yn digwydd h.y. defnydd iaith yn cynyddu, nifer o siaradwyr Cymraeg yn tyfu.
- O bosib angen creu strwythur o is-grwpiau, er mwyn caniatáu lle i drafod eu meysydd penodol, ac yna adrodd nôl i'r prif grŵp.
- Credwn fod y lefel weithredol o fonitro gweithgaredd yn effeithiol, ond bod lle i amau a yw'r ymgysylltiad ar lefel gorfforaethol yn ddigonol, e.e. drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a/neu ddull arall o gadarnhau ymlyniad strategol.
- Dylid ystyried a fyddai modd i'r partneriaid gyd-weithio fel grŵp ar brosiect penodol fel rhan o'r strategaeth nesaf.

Nodwyd bod y Cyngor wedi cynnwys partneriaid yn dda ar lefel weithredol, ond bod angen sicrhau ymlyniad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus neu ymlyniad strategol drwy ddull arall megis Memorandwm o Ddealltwriaeth neu gytundeb partneriaeth rhwng y sefydliadau partner ar lefel arweinyddiaeth.

### **Canlyniad**

Gofynnodd yr arolwg i rhanddeiliaid roi sylwadau ar ganlyniad gweithredu'r strategaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o fewn y Cyngor yn ogystal â phartneriaid allanol yn cytuno eu bod wedi gweld newid cadarnhaol mewn agwedd o ran hybu'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau, ond ei bod yn llawer mwy anodd darparu tystiolaeth ynghylch newid positif mewn ymddygiad o ran defnyddio'r Gymraeg ymhlith defnyddwyr gwasanaeth.

Yn ystod oes y Strategaeth, fe welwyd datblygiadau o fewn ein sefydliadau sydd yn gadarnhaol o safbwynt cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwasanaethau, cyfleoedd dysgu a gweithgareddau diwylliannol. Fodd bynnag nododd un ymatebydd, o bosib bod dylanwad deddfwriaeth a mesurau cenedlaethol (Mesur y Gymraeg: Ilunio Strategaeth Cymraeg 2050) wedi cael llawer iawn fwy o ddylanwad ar y 'shifft' ieithyddol, yn hytrach na

phriodoli'r newid positif yn y cyswllt hwn i Strategaeth Iaith 2017-23, er ei fod yn hollol briodol bod Strategaeth Gymraeg Sirol yn ei lle yng Ngheredigion.

Ar nodyn cadarnhaol, nododd nifer o'r ymatebwyr eu bod yn credu bod mwy y gall eu maes gwasanaeth ei wneud, er mwyn sicrhau llwyddiant y strategaeth, fodd bynnag mae angen arweiniad ac anogaeth pellach i wireddu hyn; mae hyn felly yn argoeli'n dda ar gyfer datblygu strategaeth o'r newydd am y cyfnod 5 mlynedd nesaf.

Dadansoddiad Model SWOT: Adborth gan Bartneriaid:

Gofynnwyd i'r holl rhanddeiliaid beth oedd eu barn ynghylch cryfderau a gwendidau Strategaeth Iaith Ceredigion 2018-23; ynghyd â pha gyfleoedd a bygythiadau sydd ar gyfer datblygu Strategaeth newydd am y cyfnod pum mlynedd nesaf. Dyma'r canlyniad:

Cryfderau	Gwendidau
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ceredigion yn parhau yn un o gadarnleoedd y Gymraeg</li> <li>• Mae'r iaith yn cael mwy o gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ynghyd â Fframwaith Strategol Cymraeg 2050</li> <li>• Strategaeth Iaith yn gosod fframwaith sy'n amlinellu sut bydd Ceredigion fel Sir yn cefnogi Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru: Cymraeg 2050.</li> <li>• Fforwm Dyfodol Dwyieithog darparu llwyfan i rannu gwybodaeth a deall meysydd gwaith gwasanaethau a sefydliadau eraill o fewn y Sir</li> <li>• Fforwm buddiol o ran tynnu ynghyd holl elfennau hybu a hwyluso defnydd iaith mewn un man</li> <li>• Strategaeth sy'n plethu gyda nifer fawr o strategaethau eraill o fewn y Cyngor</li> <li>• Mae ewyllys gref i ddatblygu defnydd yr iaith o fewn cymunedau</li> <li>• Strategaeth Economi Ceredigion yn cydnabod bod y Gymraeg yn sgil pwysig yn y gweithle</li> <li>• Cynnydd yn nifer sy'n dysgu Cymraeg</li> <li>• Addysg cyfrwng Cymraeg yn ased i ddisgyblion Ceredigion</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'n anodd iawn mesur cynnydd ac effaith gwirioneddol y Strategaeth</li> <li>• Ffynonellau data cenedlaethol ynghylch sefyllfa'r Gymraeg yn darparu adroddiadau gwahanol ar y sefyllfa ieithyddol – mae'n fater cymhleth.</li> <li>• Diffyg adnoddau a chyllid digonol i'r Strategaeth gael effaith wirioneddol</li> <li>• Ymlyniad strategol o du arweinyddiaeth rhai partneriaid a chyd-weithredu ar lefel gorfforaethol yn isel</li> <li>• Diffyg ymrwymiad llawn i'r weledigaeth gan rhai gwasanaethau a phartneriaid allanol</li> <li>• Fforwm Dyfodol Dwyieithog yn rhy eang i annog trafodaeth ar elfennau penodol o'r Strategaeth Iaith</li> <li>• Prisiau tai fforddiadwy – prisio pobl leol allan o'r farchnad dai</li> <li>• Economi gwan, mae llawer o bobl ifanc yn gadael y Sir i ddod o hyd i swyddi mwy llewyrchus mewn mannau eraill</li> <li>• Cyflogau isel cyfartalog</li> <li>• Prinder arweinwyr cymunedol a diffyg olyniaeth</li> <li>• Diffyg hyder siaradwyr Cymraeg wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn peuoedd cyhoeddus</li> <li>• Diffyg technoleg ddigidol yn y Gymraeg</li> </ul>
Cyfleoedd	Bygythiadau
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wireddu Strategaeth Cymraeg 2050</li> <li>• Bydd gweithredu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg dros y 10 mlynedd nesaf yn cael dylanwad positif, gyda'r nod o gynhyrchu fwy o siaradwyr Cymraeg rhugl yn ystod oes y cynllun.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Niferoedd siaradwyr Cymraeg yn gostwng yn ôl adroddiadau Cyfrifiad 2021</li> <li>• Pobl Ifanc y Sir yn gadael ar ôl addysg ffurfiol er mwyn cyfleoedd gwaith gwell</li> <li>• Diffyg tai fforddiadwy</li> </ul>

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yr angen am Strwythur atebolrwydd cliriach</li> <li>• Chwilio am gyfleodd ar gyfer cysylltiadau cydweithio cryfach rhwng partneriaid wrth weithredu'r strategaeth</li> <li>• Adolygu Fforwm Dyfodol Dwyieithog a chyfle i greu is-grwpiau sydd yn canolbwyntio ar feysydd penodol</li> <li>• Y Cwricwlwm Dysgu Newydd - cyfleoedd o'r newydd i gryfhau ymwybyddiaeth y Gymraeg. Sicrhau bod cyrsiau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru a Cheredigion. Dealltwriaeth ynghylch y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.</li> <li>• Mwy o swyddi sy'n gofyn am sgiliau iaith Gymraeg fel sgil hanfodol.</li> <li>• Hyrwyddo hawliau siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg</li> <li>• Datblygu a chynyddu y dechnoleg sydd ar gael yn y Gymraeg, er mwyn gwneud y Gymraeg yn fwy hygyrch</li> <li>• Cynnig ynglŷn â deddfwriaeth i ail gartrefi</li> <li>• Rhaglenni economaidd rhanbarthol megis prosiectau Twf Canolbarth a Gorllewin Cymru</li> <li>• Prosiect Arfor 2: rhaglen newydd i'w darparu gan Geredigion a fydd yn helpu i gryfhau gwydnwch economaidd y Gymraeg</li> <li>• Potensial i wella'r cyflwr yr economi yn lleol, Tyfu Canolbarth Cymru / Arian Lefelu i Fyny</li> <li>• Goblygiadau Safonau'r Gymraeg ar sefydliadau cyhoeddus i weithredu er lles y Gymraeg</li> <li>• Dylid ystyried a fyddai modd i'r partneriaid gyd-weithio fel grŵp ar brosiect penodol fel rhan o'r strategaeth nesaf.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhieni ddim yn trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant</li> <li>• Diffyg adnoddau a chyllid i weithredu'r strategaeth yn llawn</li> <li>• Covid-19 a'i waddol effaith niweidiol ar y defnydd o'r iaith Gymraeg.</li> <li>• Amharodrwydd partneriaid i newid er mwyn sicrhau darpariaeth a chyfleoedd Cymraeg newydd</li> <li>• Diffyg adnoddau digonol yn y Gymraeg (ffonau clyfar, apiau)</li> <li>• Heriau cymhathu mewnfudwyr i gymunedau Cymru</li> <li>• Agweddau negyddol tuag at y Gymraeg a'i threftadaeth</li> <li>• Data'r cyfrifiad ar nifer y siaradwyr Cymraeg, a dirywiad ym mhoblogaeth Ceredigion.</li> </ul>
--	--



## ADRAN 6

### Casgliadau

Er mwyn mynd i'r afael â chydymffurfiaeth y Cyngor â'r safonau dan sylw, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi bodloni gofynion safon 145 yn llawn drwy osod targed o ran canran a nifer y siaradwyr yn yr ardal, ynghyd ag amlinellu yn y strategaeth sut y byddai'n anelu at gyflawni'r targed hwnnw ar ffurf cynllun gweithredu a thargedau.

Mae'r adolygiad hwn yn mynd i'r afael â'r gofyniad yn safon 146 o ran asesu i ba raddau y mae'r Cyngor wedi dilyn y strategaeth a chyrraedd y targed a osodwyd. Mae'r adroddiad yn Atodiad 1 yn rhoi darlun cynhwysfawr o gyflawniad y camau gweithredu, ac yn adrodd ar ddangosyddion perfformiad, lle mae hynny'n bosib.

Mae'n glir o'r adroddiad hwn bod gwaith sylweddol wedi ei gyflawni o ganlyniad i weithredu'r strategaeth. At hyn mae'r adborth a gafwyd gan bartneriaid mewnol ac allanol yn darparu ystyriaethau defnyddiol ar gyfer cyflawni strategaeth bum mlynedd ddiwygiedig ar gyfer 2024-2029 i'w datblygu maes o law.

Mae Ceredigion yn parhau i gael ei ystyried fel un o gadarnleoedd y Gymraeg, ac mae'n Sir allweddol o ran cynllunio twf a ffyniant yr iaith. Ar yr olwg cyntaf bu canlyniadau'r Cyfrifiad yn siom i Geredigion, ni welwyd y cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg fel ag yr oedd Strategaeth Iaith Ceredigion wedi gobeithio. Fodd bynnag, dim ond bob degawd ceir canlyniadau y Cyfrifiad, ac yn y cyfamser mae gwybodaeth ac astudiaethau pellach ynghylch yr iaith Gymraeg ar gael. Mae'r astudiaethau hyn yn dueddol o ffurfio darlun mwy optimistaidd o sefyllfa'r Gymraeg o gymharu â chanlyniadau'r cyfrifiad; er enghraifft yn mis Medi 2020 roedd niferoedd siaradwyr Cymraeg wedi codi i 60.9% yng Ngheredigion yn ôl Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn rhybuddio bod rhaid bod yn ofalus wrth ystyried y ffigurau, gan mai arolwg sy'n seiliedig ar hunanasesiad yw'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, ac am y rheswm hwn nid yw Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i fesur cynnydd tuag at ei tharged o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, mae'n medru darparu tueddiadau defnyddiol dros ben.

Wrth ystyried ffigurau'r cyfrifiad, mae'n bwysig edrych hefyd ar yr elfennau cadarnhaol; er enghraifft gwelwyd cynnydd (er yn fychan) o ran canrannau yn y grŵp oedran 16-19 oed, ac yn grŵp oedran 20-44 oed. Mae'r grwpiau hyn yn bwysig, ac yn dangos o bosib bod mwy o bobl yn defnyddio eu sgiliau Cymraeg ar ôl ymadael ag addysg ffurfiol. Roedd Ceredigion yn cynnwys y drydedd ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg o blith holl awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, ar ôl Gwynedd ac Ynys Môn. Mae canran y preswylwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg bob dydd yng Ngheredigion wedi codi dros y blynyddoedd diwethaf hefyd, o 43% yn 2016, i 45% yn 2021. (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2021). Gellid dadlau y gallai cynyddu defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd fod yn llawer mwy dylanwadol ar gyfer twf yr iaith na'r niferoedd sy'n ei siarad.

Mae'r Cyngor o'r farn bod cyhoeddi Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, ynghyd â gweithredu Strategaeth Iaith ar lefel lleol wedi creu newid yn yr agweddau tuag at yr iaith Gymraeg, ac yn sgil hynny mae mwy o bobl gyda'r awydd i ddysgu a siarad yr iaith yng Ngheredigion.

Mae cynaliadwyedd yr iaith Gymraeg yn ddibynol ar y broses o gryfhau cymunedau Cymraeg, a hynny trwy ddarparu digon o gyfleoedd addysgol, diwylliannol a chymdeithasol i ddefnyddio'r iaith o ddydd i ddydd. Yn unol â'r Strategaeth Iaith hon, bydd y gwaith ar gyfer y Strategaeth Iaith am y pum mlynedd nesaf hefyd yn mynd i'r afael a chreu'r amgylchiadau cywir hyn, er mwyn ffyniant y Gymraeg.

Mae canlyniadau Cyfrifiad 2021 wedi gosod nifer o heriau o'r newydd i Geredigion. Mae ymateb i'r heriau hynny, lliniaru'r risgiau sy'n wynebu'r Gymraeg a sicrhau hyfywedd y gymuned iaith Gymraeg yn golygu cynllunio ieithyddol trwyadl. Wrth ddiwygio Strategaeth ar gyfer y cyfnod 5 mlynedd nesaf, bydd angen i wasanaethau'r Cyngor ynghyd â phartneriaid allweddol ymrwymo i weithio gyda'i gilydd, yn galetach nag erioed o'r blaen, i hyrwyddo ac annog y defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd cymdeithasol ac economaidd y sir: hyn er mwyn gwyrddroi unrhyw ostyngiadau pellach yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Wrth adolygu cyrhaeddiad y Strategaeth iaith hwn mae'n bwysig cydnabod bod cynllunio iaith yn broses hir sy'n cymryd amser i'w meithrin, fodd bynnag mae'r Cyngor yn teimlo'n hyderus bod y Strategaeth iaith hwn wedi gosod y seiliau cywir ar gyfer symud ymlaen i'r cyfnod 5 mlynedd nesaf.

### **Ystiriaethau ar gyfer Strategaeth Hybu'r Gymraeg am y cyfnod 5 mlynedd nesaf:**

Mae'r heriau sy'n wynebu'r gymuned iaith Gymraeg yng Ngheredigion yn parhau, ymhlith yr heriau hynny mae:

- sicrhau cynnydd yn y cyfraddau trosglwyddo iaith a chymdeithasoli iaith o fewn y sir;
- cynyddu hyder a rhuglder siaradwyr Cymraeg yn eu sgiliau iaith ynghyd a'u hymlyniad at y Gymraeg;
- cynnal a chynyddu'r defnydd cymdeithasol ac economaidd a wneir o'r Gymraeg – yn enwedig cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio eu Cymraeg at ddibenion gwaith; a
- sicrhau seilwaith gymdeithasol ac economi gadarn a all gynnal rhwydweithiau a chymdogaethau Cymraeg y sir i'r dyfodol

# ATODIAD 1: Adroddiad Cynnydd ar Weithredu Strategaeth Iaith Ceredigion 2018-23



## Y Cynllun Gweithredu:

**Nod strategol 1:** cynnal a chynyddu sgiliau iaith Gymraeg trigolion Ceredigion.

**Amcanion:**

- 1.1 Sicrhau bod cenedlaethau newydd yn caffael sgiliau Cymraeg sylfaenol ar y cyfle cyntaf.
- 1.2 Sicrhau bod myfyrwyr 3-19 oed yn caffael ac yn datblygu eu medrau Cymraeg yn ystod eu gyrfa addysgol.
- 1.3 Sicrhau cyfleoedd digonol i oedolion gaffael a datblygu eu sgiliau Cymraeg: yn y gweithle ac yn y gymuned.

**Nod strategol 2:** cynnal a chynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yng Ngheredigion, mewn amrywiol gyd-destunau.

**Amcanion:**

- 2.1 Cynnal a chynyddu'r defnydd o Gymraeg ar lefel gymunedol.
- 2.2 Cynnal a chynyddu'r defnydd o Gymraeg wrth ddarparu a derbyn gwasanaethau cyhoeddus.
- 2.3 Cynnal a chynyddu'r defnydd o Gymraeg mewn gweithleoedd

**Nod strategol 3:** sicrhau amodau cymdeithasol sy'n galluogi'r Gymraeg i ffynnu yng Ngheredigion

**Amcanion:**

- 3.1 Cynnal statws a bri'r Gymraeg o fewn y gymdeithas, gan hyrwyddo ei gwerth a'r defnydd ohoni.
- 3.2 Sicrhau economi ffyniannus sy'n rhoi gwerth ar y Gymraeg ac ar sgiliau Cymraeg y gweithlu.
- 3.3 Sicrhau cymunedau cynaliadwy lle y defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu arferol.

## Strategol 1: Cynnal a Chynyddu Sgiliau Iaith Gymraeg trigolion Ceredigion

<b>Amcan 1.1 Sicrhau bod cenedlaethau newydd yn caffael sgiliau Cymraeg sylfaenol ar y cyfle cyntaf</b>				
<b>Rhif</b>	<b>Gweithred</b>	<b>Sylwadau Cynnydd</b>	<b>Dangosyddion</b>	<b>Partneriaid</b>
	Darparu Gwybodaeth a chyngor uniongyrchol i rieni ynghylch gwerth y Gymraeg a'r gefnogaeth sydd ar gael	<p>Llyfryn 'Byw a Bod: Astudio a byw yn y Gymraeg yng Ngheredigion, wedi ei rannu i rieni drwy holl ysgolion Ceredigion.</p> <p>Mae Tîm Cefnogi'r Gymraeg yng Ngheredigion a Sir Benfro wedi cydweithio i greu llyfryn a fydd o gymorth i rieni a gwarcheidwaid sy'n dysgu Cymraeg wrth i'w plant ddechrau ar eu haddysg yn ysgolion cynradd y sir. Mae'r llyfryn yn cynnig cymorth a geirfa fydd o ddefnydd i rieni a gwarcheidwaid wrth i'w plant wneud gwaith cartref, ymuno a bod yn rhan o gymuned yr ysgol a gobeithio dechrau ar eu taith hwythau o ddysgu Cymraeg hefyd.</p> <p>Mudiad Meithrin wedi cynhyrchu adnoddau ynghyd â phodlediadau gan rieni yn sôn am ddewis addysg a gofal cyfrwng Cymraeg i'w plant.</p>	<p>Mae tudalen benodol wedi ei ddatblygu ar y wefan: Cymraeg yn Ysgolion Ceredigion.</p> <p>Adnoddau ar wefan Mudiad Meithrin.</p>	Gwasanaeth Addysg Mudiad Meithrin
	Hyrwyddo a chefnogi prosiect Cymraeg i Blant yng Ngheredigion, er mwyn annog trosglwyddiad iaith o fewn aelwyd.	Diweddariad y Prif Weithredwr yn cael eu rhannu'n eang yn wythnosol sy'n cynnwys gwybodaeth fwyaf diweddariad ym myd addysg a gofal plant sy'n cefnogi'r cylchoedd i gyflwyno sgiliau iaith i blant cyn oed ysgol y sir.	Ebrill 2022 – Hydref 2022 cynhaliwyd 79 o grwpiau Cymraeg i Blant (yn cynnwys Stori a Chân, Ioga a Thyfino Babi) gyda 430 o fynychwyr	Uned Gofal Plant Mudiad Meithrin

	Cefnogi Mudiad Meithrin i gynnal a chynyddu eu cylchoedd Ti a Fi.	Gweler uchod	Mae nifer y Cylchoedd Ti a Fi yn parhau i godi yn dilyn y cyfnod clo. Ar hyn o bryd mae 10 Cylch Ti a Fi ar agor yn rheolaidd a fydd y nifer yn cynyddu pan fyddwn wedi penodi Swyddog Ti a Fi Teithiol i'r sir. Mae'r nifer sy'n mynychu yn amrywio rhwng 5 a 25 o blant.	Uned Gofal Plant Mudiad Meithrin																								
	Cefnogi Mudiad Meithrin a Blynnyddoedd Cynnar Cymru, i gynnal a chefnogi darpariaeth eang o gylchoedd meithrin/ Grwpiau Chwarae yng Ngheredigion	Gweler uchod:	Mae 25 Cylch Meithrin yn y sir a 5 Meithrinfa Ddydd. Nifer y lleoedd cofrestredig sydd ar gael ar draws y sir yw 490 yn y Cylchoedd Meithrin a 198 yn y Meithrinfeydd Dydd.	Uned Gofal Plant Mudiad Meithrin																								
	Codi ymwybyddiaeth gofawyr plant annibynnol ynghylch gwerth y Gymraeg, gan eu cefnogi i ddarparu gwasanaeth ieithyddol briodol.	<p>Rhan ariannu Swyddog Datblygu er mwyn cefnogi lleoliadau sy'n cael eu darparu gan Mudiad Meithrin a'r Blynnyddoedd Cynnar</p> <p>Darparu Cwrs Gwarchodwyr Plant, yn cynnwys Modiwl Defnyddio'r Gymraeg, gyda Menter Iaith Cered yn darparu sesiwn ar ymwybyddiaeth iaith.</p> <p>Hyrwyddo cwrs dysgu Cymraeg 'Camau', cwrs am ddim sydd wedi'i deilwra ar gyfer y sector.</p> <p>Mae Aberystwyth ac Aberaeron wedi cael eu nodi fel dwy ardal lle mae angen mwy o ddarpariaeth gwarchodwyr plant cyfrwng Cymraeg</p> <p><u>Newyddion da:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gwarchodwraig Plant o Landysul, sy'n darparu gwasanaeth gwarchod plant yn Gymraeg, wedi ennill gwobr Gofalwn Cymru 2021, am ei</li> </ul>	<p>Nifer y darparwyr gofal plant sy'n medru darparu gwasanaeth yn unol a meini prawf Llywodraeth Cymru / Arolygaeth Gofal Cymru (AGC):</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymraeg yn unig</li> <li>• Cymraeg a Saesneg (dwyieithog)</li> <li>• Saesneg yn unig</li> </ul> <p>Mae darpariaeth Cymraeg wedi gostwng ychydig ers 2021 oherwydd wedi ymddeol neu wedi cau y busnes</p> <table border="1" data-bbox="1352 1008 1904 1391"> <thead> <tr> <th></th> <th>Mehefin 2021</th> <th>Mehefin 2022</th> <th>Medi 2022</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Cymraeg</td> <td>47</td> <td>48</td> <td>46</td> </tr> <tr> <td>Cymraeg a Saesneg (Dwyieithog)</td> <td>10</td> <td>10</td> <td>10</td> </tr> <tr> <td>Saesneg</td> <td>34</td> <td>34</td> <td>34</td> </tr> <tr> <td>Cyfanswm Lleoliad</td> <td>91</td> <td>92</td> <td>90</td> </tr> <tr> <td>% Cymraeg a dwyieithog</td> <td>63%</td> <td>63%</td> <td>62%</td> </tr> </tbody> </table>		Mehefin 2021	Mehefin 2022	Medi 2022	Cymraeg	47	48	46	Cymraeg a Saesneg (Dwyieithog)	10	10	10	Saesneg	34	34	34	Cyfanswm Lleoliad	91	92	90	% Cymraeg a dwyieithog	63%	63%	62%	Uned Gofal Plant
	Mehefin 2021	Mehefin 2022	Medi 2022																									
Cymraeg	47	48	46																									
Cymraeg a Saesneg (Dwyieithog)	10	10	10																									
Saesneg	34	34	34																									
Cyfanswm Lleoliad	91	92	90																									
% Cymraeg a dwyieithog	63%	63%	62%																									

		<p>rhagoriaeth wrth ddarparu gofal i blant bach.</p> <p>➤ Aelod o staff, Meithrinfa Aberporth, wedi ennill <b>Gwobr Dysgwr y Flwyddyn 2021</b> Blynnyddoedd Cynnar Cymru drwy'r cynllun 'Camau', am ei hagwedd eithriadol a'i hymrwymiad at ei thaith dysgu Cymraeg (drwy cynllun Camau).</p>	<table border="1"> <tr> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> </tr> </table> <p>Mae nifer yn datgan eu bod yn fusnes dwyieithog, oherwydd yr angen i ddenu plant o gartrefi di-Gymraeg hefyd. Nod yr Uned felly yw annog sefydliadau dwyieithog i wneud fwy o ddefnydd o'r Gymraeg, er mwyn paratoi plant ar gyfer derbyn eu haddysg Gynradd yn y Gymraeg.</p>					

Amcan 1.2 Sicrhau bod myfyrwyr 3-19 oed yn caffael ac yn datblygu eu medrau Cymraeg yn ystod eu gyrfa addysgol				
Rhif	Gweithred	Sylwadau Cynnydd	Dangosyddion	Partneriaid
	<p>Ehangu darpariaeth addysg Gymraeg mewn ysgolion trwy weithredu <b>Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Ceredigion</b>.</p>	<p>CySGA 2022-32 wedi ei gymeradwyo gan LIC a chynllun gweithredu yn cael ei lunio a'i gyflwyno erbyn Rhagfyr 16eg 2022 i Lywodraeth Cymru</p> <p>Y broses categoreiddio wedi bod yn llwyddiannus. Wedi llunio datganiad i bob ysgol i roi ym Mhrosiectws yr ysgol. Pob corff llywodraethol wedi cytuno ar gategori gan gynnwys rhai trosiannol o ran darpariaeth Gymraeg</p> <p>Mewn cydweithrediad gydag adran Dysgu Cymraeg Ceredigion a Phowys llwyddwyd i dderbyn grant i gynnal tiwtor Cymraeg i Rieni am flwyddyn yn y lle cyntaf. Mae 56 o Rieni wedi manteisio ar y cyfle hyd yn hyn.</p> <p>Trwy lawnsio pecyn Cwpan y Byd a sesiynau barddoni rydym wedi llwyddo i godi ymwybyddiaeth a balchder</p>	<p><u>Ysgolion Cynradd:</u> 74% (3,018 allan o 4,066 disgybl) o ddisgyblion BI1-6 yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg</p> <p><u>Ysgolion Uwchradd</u> 68% (2,439 allan o 3,591 disgybl) o ddisgyblion BI7-11 yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg</p> <p>O gohort BI11 wnaeth sefyll arholiad Cymraeg Iaith Gyntaf yn Haf 2022, canran ohonynt a dderbyniodd gymwysterau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg (ac eithrio disgyblion Penglais):</p> <p>2+ TGAU = 56%</p> <p>5+ TGAU = 27%</p>	<p>Gwasanaeth Addysg</p>

		<p>diwylliannol disgyblion a'r gymuned ehangach trwy rhyddhau dwy fideo</p> <p>Pythefnos Trochi ieithyddol wedi digwydd yng nghylch Aberystwyth. Rhyddhawyd athrawon i weithio ar unedau addas ar gyfer yr amser hwn. Bu'n gyfnod o gydweithio dan arweiniad y tîm Cefnogi'r Gymraeg er mwyn cefnogi sgiliau ieithyddol ac addysgeg trochi iaith athrawon a staff ategol.</p>	49 % o ddisgyblion BI 11 a adawodd gyda gradd A*-C Cymraeg Iaith 1af	
	Hyrwyddo mabwysiad Siarter Iaith Ceredigion – Ceri Siarad,(Cynradd ac Uwchradd), er mwyn annog defnydd o'r Gymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth.	Gwaith y siarter yn mynd rhagddi. 3 ysgol wedi cyrraedd yr Aur y tymor hwn. Gwell ymroddiad oddi wrth rhan fwyaf o'r ysgolion Uwchradd	39 Ysgol Gynradd 4 Aur 16 Arian 19 Efydd	Gwasanaeth Addysg
	Cynnal canolfannau trochi iaith ar gyfer hwyrddyfodiaid	Sicrhau bod hwyrddyfodiaid i'r sir yn derbyn sylfaen dda o iaith ar gyfer ymdoddi i'r ysgolion cynradd. 3 Canolfan Felin-fach, Aberteifi a Tregaron.	3 canolfan iaith wedi rhedeg ers Medi 2022 cyfanswm o 20 disgybl	Gwasanaeth Addysg
	Cynyddu'r nifer a'r ganran o fyfyrwyr 16-19 oed sy'n derbyn cyfran o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'n ddwyieithog.	<p>Mae'r Gwasanaeth Addysg wedi amlinellu ei gynlluniau yn y CSGA. Bydd yr awdurdod yn cefnogi ysgolion Uwchradd i gymryd camau i gynyddu nifer y cymwysterau y gall dysgwyr eu hastudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod oes y CSGA.</p> <p><u>Coleg Ceredigion</u> Ers 2021 mae disgwyl i'n holl staff ddilyn ein rhaglen fewnol o hyfforddi ar gyfer creu dosbarthiadau dwyieithog 'Sylfaen, Gwell Gorau'. Mae llwyddiant hyn yn dibynnu tipyn ar allu ieithyddol y tiwtoriaid sydd yn darparu'r pynciau</p>	<p>Nid yw'r data penodol yma ar gael. Yn Haf 2022 derbyniodd 12 o fyfyrwyr gymhwyster Safon Uwch Cymraeg, a 2 Safon Uwch AS.</p> <p>Nid yw'r data penodol yma ar gael.</p>	Gwasanaeth Addysg Hyfforddiant Ceredigion Coleg Ceredigion.

		<p>Trwy ddefnyddio cyllid gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, rydym wedi gallu cyflogi tiwtoriaid penodol i ddysgu yn ddwyieithog/trwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau blaenoriaeth sef Gofal Plant, Gwasanaethau Cyhoeddus a Chwaraeon. Mae darpariaeth ddwyieithog gryf gennym hefyd yn lechyd a Gofal, Busnes, Gwaith Saer ac Adeiladwaith.</p> <p>Mae pob myfyriwr yn cael sesiwn ar ymwybyddiaeth gwerth y Gymraeg yn ystod wythnos anwytho ac yna byddwn yn gwneud gweithgareddau i ddathlu digwyddiadau fel Shwmae, Shwmae, Diwrnod Mae Gen i Hawl ayyb. Mae gennym raglen benodol ar gyfer y flwyddyn academaidd. Yn ogystal, mae ein Swyddog iaith Cymraeg yn rhedeg sesiynau 'Cwrs Cwta' gyda grwpiau penodol. Bydd sesiynau hyn tua 6 wythnos o hyd (un awr yr wythnos) lle maent yn cael ymwybyddiaeth iaith o ran eu pynciau/cwrs ac yn gwneud gweithgareddau perthnasol ar y diwedd</p> <p><u>Hyfforddiant Ceredigion</u></p> <p>Yn ôl canlyniadau holiadur dysgwyr 2022 dangoswyd bod 86% o ddysgwyr yn cael y cyfle i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae 84% o ddysgwyr yn defnyddio'r iaith Gymraeg o fewn ei cwrs ac yn y gweithle.</p>	<p><u>Hyfforddiant Ceredigion</u> Cyfanswm 65 o ddysgwyr 16-19 oed</p> <p><b>13</b> dysgwr wedi'u codio fel B2 = 20% (Swm sylweddol o ddysgu cyfrwng Cymraeg e.e. Cymraeg llafar ac ysgrifenedig yn cael ei defnyddio mewn llawer o rannau o'r gweithgaredd dysgu, ond nid pob un. Asesu yn Saesneg yn bennaf ond efallai fod rhai yn Gymraeg hefyd)</p>	
--	--	--	--	--



	<p>Mae 2 brentis sydd yn Llysgenhadon Cymraeg ar gyfer Colegau Cymraeg sydd yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg o fewn y ganolfan</p> <p>Targedau ar gyfer 2022: cynyddu nifer o adnoddau Cymraeg sy'n cael eu defnyddio o fewn ein sectorau amrywiol.</p>	<p><b>52</b> o ddysgwyr wedi'u codio fel B3 = 80% (Ychydig bach o ddysgu cyfrwng Cymraeg e.e. defnydd o'r Gymraeg yn gyfyngedig i gyfathrebu geiriol neu i ran fach o'r gweithgaredd dysgu. Asesiad uniaith Saesneg.</p>	
<p>Annog ysgolion i gymryd mantais o'r cyfleoedd cyfrwng Cymraeg a gynigir drwy'r Gwasanaeth Ieuenctid.</p>	<p>Gweithiwr Ieuenctid (6 yn medru'r Gymraeg ALTE 5, ac 1 yn dysgwr) ym mhob ysgol Uwchradd ar draws y Sir.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Clybiau amser cinio ym mhob ysgol, ynghyd a 4 Clwb ar ôl ysgol</li> <li>• Rhaglenni gwyliau ar gael i bobl ifanc rhwng 11-25 oed.</li> <li>• 3 Clwb Ieuenctid o fewn y Sir: Aberystwyth, Aberaeron ac Aberteifi sydd ar agor yn wythnosol</li> <li>• Gweithgareddau bod dydd Sadwrn sy'n agored i bawb</li> <li>• Grŵp Ôl 16: Cynnwys cefnogaeth 1-1. cefnogaeth wythnosol a sesiynau grŵp yn amrywio i ddatblygu sgiliau personol a chymdeithasol pobl ifanc, er mwyn trosglwyddo i gyflogaeth, Addysg neu hyfforddiant pan fyddant yn barod.</li> </ul> <p>Cyfranogi: Mae pobl ifanc y Sir yn cael cyfle i gyfranogi drwy nifer o brosiectau sy'n cael eu harwain gan Swyddog Cyfranogi Plant a Phobl Ifanc; Cyngor Ieuenctid Ceredigion; Fforwm Ieuenctid Ceredigion (Panel Dewis); Grwp Llysgenhadon Cymunedol Aberystwyth; Hawliau Plant a Phobl Ifanc; Ymgynghoriadau</p>	<p>Cynigir dros 60% o ddarpariaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, a'r gweddill yn ddwyieithog. Cyfradd bodddhad 100% gan bobl ifanc ym mhob rhaglen gweithgareddau gwyliau.</p> <p>Er mwyn sicrhau gwelediad y Gymraeg, mae pob adnodd a deunydd hyrwyddo, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol a gwaith Ieuenctid digidol yn cael eu hyrwyddo'n ddwyieithog</p>	<p>Gwasanaeth Ieuenctid CSC</p>

		<p>Mae'r tîm yn sicrhau bod cyfleoedd amrywiol i bobl ifanc glywed y Gymraeg ym mhob sesiwn, beth bynnag yw'r thema. Yn defnyddio digwyddiadau fel dydd gŵyl dewi, pêl droed a rygbi ayyb i ddathlu diwylliant a diwydiant Cymraeg. Wedi cynnal prosiectau sy'n rhoi'r cyfle i bobl ifanc o aelwydydd di-gymraeg, ddeall a dysgu am eu hardaloedd lleol e.e. Prosiect Cymraeg 2050. Mae'r rhain wedi bod yn hynod o lwyddiannus yn torri lawr y stigma o siarad Cymraeg. Yn gweithio gyda llawer o deuluoedd sydd wedi symud i mewn i'r ardal, yn aml heb unrhyw rybudd oherwydd amgylchiadau cymhleth, ac mae llawer o'r rhain wedi elwa o prosiectau tebyg yn y gorffennol.</p>		
--	--	---	--	--

<b>Amcan 1.3 Sicrhau cyfleoedd digonol i bobl ifanc ac oedolion gaffael a datblygu eu sgiliau Cymraeg: yn y gweithle ac yn y gymuned</b>				
<b>Rhif</b>	<b>Gweithred</b>	<b>Sylwadau Cynnydd</b>	<b>Dangosyddion</b>	<b>Partneriaid</b>
	<p>CSC i ddarparu ystod o gyfleoedd mewnol i staff gaffael, gwella eu medrau Cymraeg, drwy fanteisio ar gynllun Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, a chodi ymwybyddiaeth o ddulliau amgenach o ddysgu iaith gan hyrwyddo technoleg newydd ee Say Something in Welsh</p>	<p>Y Cyngor wedi sefydlu partneriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol er mwyn ariannu Tiwtor Cymraeg Gwaith. Cynhaliwyd 7 dosbarth dwys wythnosol gan y Swyddog Hyfforddi, oll ar lefelau gwahanol</p>	<p>65 o aelodau staff ar amrywiol gyrsiau i ddysgu Cymraeg, sy'n cynnwys 5 aelod o staff ar Gwrs Dysgu Cymraeg lefel Uwch.</p> <p>Cynnal Clwb Cinio yn wythnosol, cyfle i ymarfer Cymraeg yn anffurfiol.</p>	<p>CSC Hyfforddiant Corfforaethol</p>
	<p>Cydweithio â Phrifysgol Aberystwyth i hyrwyddo ei ddarpariaeth Dysgu Cymraeg Ceredigion, Powys a Sir Gâr, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cyrsiau cymunedol prif ffrwd yn y gymuned, Rhaglen Integredig Cymraeg i'r Teulu.</li> </ul>	<p>Y cyrsiau cymunedol yn parhau ar-lein yn dilyn pandemig Cofid. Mae hi'n anodd cymharu os oes newid yn y niferoedd, gan bod nifer o ddysgwyr Ceredigion, ers symud i ddysgu ar-lein, yn dysgu gyda darparwyr eraill erbyn hyn. At hyn mae dysgwyr o ardaloedd eraill wedi ymuno, hyn gan bod cymaint o ddewis.</p>	<p><b>670</b> o ddysgwyr wedi cofrestru ar gyrsiau dysgu Cymraeg yn y gymuned  <b>151 (22%)</b> wedi cofrestru ar gyrsiau lefel Uwch neu Hyfedredd  <b>23</b> o gofrestriadau Cymraeg i'r Teulu:  <b>82.61%</b> wedi cwblhau</p>	<p><b>Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Ceredigion, Sir Gâr a Powys.</b></p>

		<p>Cyrsiau Atodol yn cynnwys, rhain yn gyrsiau ar-lein  Sadyrnau Siarad  Cyrsiau Chwefror  Cyrsiau Pasg  Cyrsiau Haf  Nid ydym yn cadw cofnod o'r dysgwyr sy'n mynychu digwyddiadau anffurfiol i gefnogi'r dysgu. O ran Sadyrnau Siarad a chyrsiau atodol, er bod gennym y niferoedd a fynychodd y cyrsiau does dim manylion gennym am ddysgwyr yn benodol o Geredigion gan bod y cyrsiau hyn wedi eu cynnal yn gyfan gwbl ar-lein, gyda mynychwyr o bob rhan o Gymru a thu hwnt.</p>	<p>Cymraeg yn y Gweithle: 2 x cwrs dwys  Codi Hyder i staff Hywel Dda 4/10/21 - 31/4/22 = <b>48</b> sesiwn</p>	
<p>Annog cyrff sy'n aelodau o Fforwm Dyfodol Dwyieithog i fanteisio ar gynllun Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol</p>	<p>Cyflwyniad gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg wedi ei gynnwys fel rhaglen waith Fforwm Dyfodol Dwyieithog: deunydd cyhoedduswydd ac adnoddau wedi'u rhannu'n eang.</p> <p><u>Coleg Ceredigion</u>  Gweithio gyda 'Sgiliaith' i annog staff i gofrestru ar lwybr hyfforddiant 'Mentora' un i un. Sgiliaith yn gwneud sesiynau grŵp gyda'n holl staff yn flynyddol. Ers 2021 mae disgwyl i'n holl staff ddilyn ein rhaglen fewnol o hyfforddi ar gyfer creu dosbarthiadau dwyieithog 'Sylfaen, Gwell Gorau'</p> <p><u>Cyfoeth Naturiol Cymru</u>  Ennill gwobr Cyflogwr Cymraeg Gwaith y Fwyddyn 2022; Cynllun Mentora ar gyfer dysgwyr gan gynnwys trefnu sesiynau adolygu ar gyfer dysgwyr os oes eisiau;</p>	<p><u>Coleg Ceredigion</u>  9 aelod o staff ar gwrs 'Cymraeg Gwaith'</p> <p><u>Cyfoeth Naturiol Cymru</u>  20 o ddysgwyr ar amrywiol gyrsiau, gan gynnwys 1 aelod o staff ar Gwrs Lefel Uwch.  4 wedi cofrestru i ddysgu drwy Say Something in Welsh</p>	<p>Coleg Ceredigion  Cyfoeth Naturiol Cymru  Prifysgol Aberystwyth</p>	

		<p>Cynnig Say Something in Welsh ar gyfer ein staff ar gytundebau tymor byr ac i staff canolfannau ymwelwyr. Dysgwyr yn rhan o'r Grŵp Pencampwyr er mwyn medru clywed y Gymraeg yn cael ei siarad yn naturiol.</p> <p><u>Prifysgol Aberystwyth</u> Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ac yn cynorthwyo'r Brifysgol i weithredu'n ddwyieithog. Mae gwaith y Ganolfan yn cynnwys cefnogi adrannau academaidd i ddatblygu prosiectau drwy'r Gymraeg, darparu gwasanaeth cyfieithu, cynnig a chydlynu gwasanaeth cefnogi cynhwysfawr i staff a myfyrwyr drwy'r Gymraeg ac anelu at sicrhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Cynhelir sesiwn sgwrsio bob pythefnos yng Nghanolfan y Celfyddydau a Chlwb Cinio Cymraeg bob tair wythnos ar gyfer staff ar bob lefel i sgwrsio ac ennyn hyder yn y Gymraeg.</p> <p><u>Bwrdd Iechyd Hywel Dda</u> Wedi gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol i gynnal amryw o gyrsiau i staff; Cyrsiau Hunan Astudio, Cyrsiau Dwys a chyrsiau Codi Hyder. Newydd i Ionawr 2023 – mae'r bwrdd iechyd wedi amrwymo i gynllun Cymraeg Gwaith i ddarparu Cyrsiau Codi Hyder i 100 o staff yn ystod y flwyddyn – cynllun wedi'i ariannu'n llawn a darparu tiwtor am y flwyddyn</p>	<p><u>Prifysgol Aberystwyth</u> Mae 82 o aelodau staff ar amrywiol gyrsiau i ddysgu Cymraeg, gyda 7 yn astudio ar lefel Uwch.</p> <p><u>Bwrdd Iechyd Hywel Dda</u> Cyrsiau hunan-astudio – 95 wedi cwblhau Cyrsiau Preswyl – 3 Cyrsiau Codi Hyder 14 Clwb Clonc 7 Cwrs Blasu 5</p>	
--	--	--	--	--

**Nod Strategol 2: cynnal a chynyddu'r cyfleodd i ddefnyddio'r Gymraeg yng Ngheredigion, mewn amrywiol gyd-destunau.**

**Amcan 2.1 Cynnal a chynyddu'r defnydd o Gymraeg ar lefel gymunedol**

Rhif	Gweithred	Sylwadau Cynnydd	Dangosyddion	Partneriaid
	<p>Gweithredu rhaglen waith benodol drwy gyfrwng Cered, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>cynnal grwpiau Gweithredu'n Lleol,</li> <li>cynnal cyfleoedd allgyrsiol i blant a phobl ifanc,</li> <li>hyrwyddo'r Gymraeg ymysg busnesau'r sir, e.e. Siarter Iaith Ceredigion, a darparu gwasanaeth gwybodaeth, adnoddau a chyfeirio.</li> </ul>	<p>Cered wedi parhau i gynnal rhaglen lawn o weithgaredd cymunedol gan gynnwys digwyddiadau wyneb i wyneb a hefyd digwyddiadau rhithiol. Mae'r gweithgareddau hynny wedi cynnwys: Sgyrsiau Bocs Atgofion gyda chymdeithasau amrywiol, Rhaglenni Radio Cefn y Rhwyd, Cynllun Gwirfoddolwyr Castell Aberteifi, Rhaglen Teithiau Cerdded Ar Gered, Cerddorfa Iwcadwli; Boreau Coffi/Sgyrsio, Podlediadau "Cwmni Rôl Cinio" a "Pwnc Llosg", Cwisys Ar-lein, Theatr Soffa – perfformiadau theatrig ar lein.</p> <p>Yn ogystal mae Cered wedi parhau i gynnal rhaglen o bostiadau dyddiol ar dudalennau Facebook Cered a Browlan (tudalen FB ar y cyd gyda Menter Iaith Sir Benfro)</p> <p>Prosiect cymunedol Yr Ardd – gweithio'n ddwys gyda chymuned ardal Llandysul gyda'r ffocws ar weithgaredd o gwmpas gardd gymunedol gan gynnwys hefyd Pared Llusernau, Gweithdai crefft, Clwb garddio, Sgyrsiau a Chyflwyniadau.</p>	<p>Nifer y gweithgareddau a hwylusir 11 - Plant a phobl ifanc 23 - Teuluoedd</p> <p>Nifer y busnesau sydd wedi derbyn cydnabyddiaeth dan gynllun Gynllun Helo Blod 53: Busnesau wedi cysylltu a nhw 32: Wedi gweithio'n ddwys gyda nhw</p> <p>Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf mae rheoliadau Cofid wedi golygu na fu modd cynnal rhaglen lawn o weithgareddau wyneb yn wyneb</p>	<p>Menter Iaith Cered</p>

	<p>Cefnogi rhaglen waith benodol Cyfoeth Naturiol Cymru i gynyddu'r cyfleoedd defnyddio'r Gymraeg.</p>	<p>Fel rhan o'r sgwrs genedlaethol prosiect Natur a Ni a oedd yn cymryd lle yn rhithiol, cynigwyd ystafelloedd trafod yn Gymraeg yn y gweithdai. Sefydlwyd grwpiau ffocws bach o hyd at 10 aelod ar-lein yn rhanbarthol ledled Cymru. Er hyn isel iawn oedd y galw am ymuno yn Gymraeg ym mhob rhanbarth, felly trefnwyd un digwyddiad Cymraeg dros Gymru gyfan yn hytrach na phob rhanbarth.</p> <p>Mae cylchlythyr misol Addysg a Dysgu a gynhyrchir yn ddwyieithog yn cael ei ddosbarthu i tua 5,500 o addysgwyr, ac mae'r niferoedd yn cynyddu bob mis, sy'n cynnwys arferion da gan grwpiau addysg ac addysgwyr o bob rhan o Gymru.</p> <p>Mae adnoddau addysg ddwyieithog newydd ar gael eleni ar ein tudalennau gwe ac ar Hwb (Dysgu Digidol Cymru)</p> <p>Medi 2021 - lanswyd saith cyfrif lleol newydd ar Twitter a Facebook. Gweithredir yr holl gyfrifon hyn yn ddwyieithog yn hytrach nag ar wahân er mwyn hyrwyddo a hybu'r iaith fel iaith fyw i gynulleidfa dros Gymru, DU ac ymhellach.</p> <p>Adnewyddwyd dyluniad ein gwefan i'w gwneud yn haws ac yn gynt i'w defnyddio, gan sicrhau bod y dyluniad yn</p>	<p>15 cwrs hyfforddiant ar gyfer addysgwyr yn rhithiol drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cael eu cynnal.</p>	
--	--	---	--	--

	<p>hollol gydnaws â'r Gymraeg, er hyn mae gostyngiad wedi bod yn nifer yr ymwelwyr â'n tudalennau gwe rhybuddion llifogydd yn Gymraeg.</p> <p>Tîm Datganiad Ardal Forol wedi gweithio gyda Phrifysgol Bangor i ddatblygu "Geiriadur Rhywogaethau Morol Cymru". Rhestr o enwau rhywogaethau yn yr amgylchedd morol yw hwn, sy'n cynnwys eu henwau cyffredin yn Saesneg, yn Gymraeg, a'u henwau gwyddonol. Mae wedi'i chyhoeddi ar <b>Termau Cymru</b></p>		
<p>Cefnogi gweithgareddau plant ac ieuencid cyfrwng Cymraeg drwy ddarparu cefnogaeth ariannol gan CSC ac mewn da i Urdd Gobaith Cymru Ceredigion, ynghyd â rhannu gwybodaeth am weithgareddau yn lleol.</p>	<p>CSC yn barhau i ddarparu cefnogaeth ariannol er mwyn cefnogi'r Urdd i gynnig gweithgareddau eang i blant a pobl ifanc yn yr iaith Gymraeg.</p> <p>Yr Urdd yn cynnal nifer o ddigwyddiadau er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r iaith a diwylliant cyfoethog y Sir:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnig sesiynau blasu chwarae'r delyn ym mhob ysgol yng nghylch Llandysul, Tregaron ac Aberystwyth.</li> <li>• Cynnig sesiynau blasu dawnsio traddodiadol Cymreig (cloccio a gwerin) ym mhob ysgol yng nghylch Aberaeron, Llambled ac Aberaeron</li> <li>• Cydweithio gyda'r fenter iaith i drefnu taith Sbri-diri - sesiynau canu (caneuon adnabyddus Cymraeg) ar draws y Sir i blant dan 8 oed</li> <li>• Sicrhau bod achrediadau yn cael ei gynnig a'u darparu drwy gyfrwng y Gymraeg.</li> <li>• Cynnal nosweithiau amrywiol Cymraeg gydag aelodau'r fforwm</li> </ul>	<p>2, 967 o aelodau mudiad yr Urdd yng Ngheredigion.</p> <p>100% o ysgolion Ceredigion yn gysylltiedig a'r Urdd.</p> <p>27 adran ysgol gynradd yn cwrdd pob wythnos: 780 o aelodau yn mynychu 8 adran allgyrsiol yn cyfarfod bob pythefnos 2 Aelwyd, gydag un ohonynt a thros 95 o aelodau 1,300 + yn mynychu cyrsiau preswyl gyda'r Swyddog Gymunedol yng Ngwersylloedd yr Urdd 2,500 + o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn Eisteddfodau'r Urdd</p>	<p>Gwasanaeth leuencid CSC Urdd Ceredigion</p>

		<p>ieuentid Ceredigion/ grwpiau o blant mewn ysgolion</p> <p><b>Newyddion da</b> Cafodd dwy o sylfaenwyr ac arweinyddion Adran Yr Urdd Aberystwyth, sef Helen Medi Williams a Lona Phillips, gydnabyddiaeth uchel am eu cyfraniad sylweddol i fywyd pobl ifanc yr ardal, drwy ennill Tlws John a Ceridwen Hughes Uwchaled, yn Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022.</p>		
	<p>Hyrwyddo gweithgareddau diwylliannol a chelfyddydol cyfrwng Cymraeg trwy gyfrwng Theatr Felin-fach, Amgueddfa Ceredigion a Gwasanaeth Llyfrgell Ceredigion.</p>	<p><b>Gorwel a Gwreiddiau:</b> prosiect sy'n archwilio perthynas pobl ifanc a'u cynefin, eu dyfodol a'u perthynas â diwylliant, iaith a bro.</p> <p><b>Prosiectau Eisteddfod Genedlaethol</b> Ysgol Berfformio Theatr Felin-fach (7-18 oed) yn cydweithio â Chwmni Actorion Felin fach i lwyfannu pantomeim a Sioe MaesG: 55 o aelodau CFFI Ceredigion yn cyflwyno sioe gerdd yn y Pafiliwn</p> <p><b>Gwrach Felin fach:</b> prosiect Gaeaf Llawn Lles, gan weithio trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog gyda phobl ifanc o gefndiroedd di-Gymraeg gan ddefnyddio chwedlau lleol fel sbardun i'r gwaith</p> <p><b>Hwyl a Hamdden</b> – grŵp cymdeithasol, diwylliannol ar gyfer pobl hŷn Datblygiad newydd yn 2023 oedd paru Hwyl a Hamdden gyda Dysgwyr Say Something in Welsh ar gyfer sesiwn sgwrs dros banded.</p>	<p><b>Gorwel a Gwreiddiau:</b> 100 o sesiynau ymgysylltu: 400 o gyfleoedd i bobl ifanc ac oedolion.</p> <p><b>Prosiectau Eisteddfod Genedlaethol</b> 82 sesiwn a 1189 o gyfleoedd cyfranogi yn y Gymraeg: cyflwynwyd 3 perfformiad i tua 1,500 o gynulleidfaoedd.</p> <p><b>Gwrach Felin fach</b> 10 sesiwn ac 80 o gyfleoedd.</p> <p><b>Hwyl a Hamdden</b> 42 Sesiwn, 1050 o gyfleoedd. Cynhaliwyd 1 sesiwn hyd yma gyda 20 o aelodau Hwyl a Hamdden a 15 Dysgwr.</p>	<p>Theatr Felin-fach</p>



	<p>Cefnogi gweithgareddau plant ac ieuentid cyfrwng Cymraeg drwy ddarparu cefnogaeth ariannol gan CSC ac mewn da i C.Ff.I. Ceredigion, ynghyd â rhannu gwybodaeth am weithgareddau yn lleol.</p>	<p>CSC yn barhau i ddarparu cefnogaeth ariannol er mwyn cefnogi Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion i gynnig gweithgareddau eang i blant a pobl ifanc yn yr iaith Gymraeg.</p> <p><u>C.Ff.I</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal holl gystadlaethau arferol y Sir, gan gynnwys darparu 7 sesiwn hyfforddiant</li> <li>• Aethpwyd ati i lwyfannu cyngerdd ym Mhafiliwn yr Eisteddfod ar y Nos Lun gyda 56 o aelodau yn cymryd rhan yn y Sioe Maes G</li> <li>• Cynhaliwyd Rali y Sir ar Fferm Fronheulog, Llanwenog ar y 4ydd o Fehefin, lle daeth dros 2,000 o fobl at ei gilydd i fwynhau cymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg.</li> </ul> <p><b>Newyddion da:</b> Yn dilyn y Rali aeth yr aelodau a ddaeth i'r brig ymlaen i gystadlu yn y Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn Llanelwedd, a daeth y Sir i'r brig dros Gymru gyfan.</p>	<p>Mae 18 o glybiau yng Ngheredigion, gyda phob un o'r Clybiau yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>713 o aelodau rhwng 10 a 28 oed.</p>	<p>Gwasanaeth Ieuentid CSC Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion</p>																					
	<p>CSC i barhau i roi cefnogaeth i Eisteddfodau Lleol a Sioeau Amaethyddol y Sir drwy'r Cynllun Grantiau Cymunedol, er mwyn codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo digwyddiadau traddodiadol ac ieithyddol o bwys o fewn y Sir.</p>	<p>Cafwyd cymeradwyaeth ar Bolisi'r Gymraeg a Dyfarnu Grantiau ym mis Ionawr 2023. Mae'r Polisi bellach yn weithredol ac ar gael ar wefan y Cyngor.</p> <p><u>Grantiau Cymunedol</u> Mae'r Gwasanaeth Cyllid yn asesu pob cais er mwyn sicrhau bod unrhyw gais llwyddiannus yn gwneud defnydd cynyddol o'r Gymraeg.</p>	<table border="1"> <thead> <tr> <th></th> <th>Nifer o geisiadau</th> <th>Cyfanswm dosbarthwyd</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>2017/18 –</td> <td>76</td> <td>£189,344</td> </tr> <tr> <td>2018/19 –</td> <td>77</td> <td>£197,826</td> </tr> <tr> <td>2019/20 –</td> <td>90</td> <td>£243,689</td> </tr> <tr> <td>2020/21 –</td> <td>17</td> <td>£92,794</td> </tr> <tr> <td>2021/22 –</td> <td>28</td> <td>£119,567</td> </tr> <tr> <td>Cyfanswm –</td> <td>288</td> <td>£843,220</td> </tr> </tbody> </table>		Nifer o geisiadau	Cyfanswm dosbarthwyd	2017/18 –	76	£189,344	2018/19 –	77	£197,826	2019/20 –	90	£243,689	2020/21 –	17	£92,794	2021/22 –	28	£119,567	Cyfanswm –	288	£843,220	<p>Gwasanaeth Cyllid</p> <p>Gwasanaeth Porth Cymorth Cynnar</p>
	Nifer o geisiadau	Cyfanswm dosbarthwyd																							
2017/18 –	76	£189,344																							
2018/19 –	77	£197,826																							
2019/20 –	90	£243,689																							
2020/21 –	17	£92,794																							
2021/22 –	28	£119,567																							
Cyfanswm –	288	£843,220																							

		<p>Allan o 28 cais, cafodd 5 eu cyflwyno yn Gymraeg yn y flwyddyn diwethaf.</p> <p><u>Y Gwasanaeth Porth Cymorth Cynnar</u> Grant Haf O Hwyl: 55 cais/ 3 yn cael eu cyflwyno yn Gymraeg Clwb Haf Adar Aeron, Tekki RS a'r Urdd.</p> <p>Grant Gaeaf o Les: 23 cais/ 2 yn Gymraeg Theatr Felin fach a'r Urdd.</p>	<table border="1"> <thead> <tr> <th></th> <th>Eisteddfodau</th> <th>Sioeau</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>2017/18 –</td> <td>17</td> <td>10</td> </tr> <tr> <td>2018/19 –</td> <td>18</td> <td>9</td> </tr> <tr> <td>2019/20 –</td> <td>17</td> <td>8</td> </tr> <tr> <td>2020/21 –</td> <td>0</td> <td>0</td> </tr> <tr> <td>2021/22 –</td> <td>1</td> <td>0</td> </tr> <tr> <td>Cyfanswm</td> <td>53</td> <td>27</td> </tr> <tr> <td>–</td> <td></td> <td></td> </tr> </tbody> </table> <p>Mae'r niferoedd yn is oherwydd COVID ac hefyd nid oes gymaint o Sioeau yn ceisio am y grant, am nad ydynt yn cynhyrchu eu deunydd yn ddwyieithog.</p>		Eisteddfodau	Sioeau	2017/18 –	17	10	2018/19 –	18	9	2019/20 –	17	8	2020/21 –	0	0	2021/22 –	1	0	Cyfanswm	53	27	–			
	Eisteddfodau	Sioeau																										
2017/18 –	17	10																										
2018/19 –	18	9																										
2019/20 –	17	8																										
2020/21 –	0	0																										
2021/22 –	1	0																										
Cyfanswm	53	27																										
–																												
Cefnogi CAVO i hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg ymysg mudiadau gwirfoddol y sir.		<p>Yn rhan o ddatblygiad Fframwaith Gwirfoddoli yn Gymraeg , sef prosiect Gwirfoddoli a'r Gymraeg 2022 Mentrau Iaith Cymru; sy'n cynnwys casgliadau ymchwil ac yn rhoi arweiniad i staff mudiadau ar sut i fynd ati i recriwtio gwirfoddolwyr. <a href="https://gwirfoddolicymru.net/cymraeg">https://gwirfoddolicymru.net/cymraeg</a></p> <p>Lansiwyd ymgyrch marchnata i ddenu Gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg yn Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion.</p> <p>CAVO yn un o'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol cyntaf yng Nghymru i ennill cydnabyddiaeth drwy gynllun Cynnig Gymraeg y Comisiynydd y Gymraeg.</p>		CAVO																								

Amcan 2.2 Cynnal a chynyddu'r defnydd o Gymraeg wrth ddarparu a derbyn gwasanaethau cyhoeddus				
Rhif	Gweithred	Sylwadau Cynydd	Dangosyddion	Partneriaid
	CSC i weithredu'r Safonau Darparu Gwasanaethau, a rhannu arfer da gyda sefydliadau eraill sy'n aelodau o Fforwm DD.	Mae Datganiad Polisi y Cyngor yn rhoi gwybod bod gan bob aelod o'r cyhoedd yr hawl i ddewis ym mha iaith y mae'n dymuno delio â'r Cyngor a'i waith. Rhoddwyd sylw i ymgyrch 'Croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu gyda'r Cyngor' drwy'r rhyngweithiau cymdeithasol. Fforwm Dyfodol Dwyieithog yn rhoi platfform i adolygu a rhannu arfer da ynghylch gofynion gweithredu'r Safonau Iaith.	Y Cyngor Sir a sefydliadau cyhoeddus eraill o fewn cylch Gorchwyl Comisiynydd y Gymraeg, wedi cyflwyno Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol derbyniol.  4 cyfarfod Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion wedi ei gynnal mewn blwyddyn, er mwyn rhannu arfer da.	Uned Iaith Gymraeg CSC
	CSC i gynyddu nifer y staff dwyieithog, er mwyn cynyddu a gwella ansawdd gwasanaethau Cymraeg; cynnal Polisi Recriwtio a'r Gymraeg.	Mae'r Cyngor yn sicrhau y caiff pob swydd wag neu newydd ei asesu, er mwyn nodi pa sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen ar gyfer cyflawni'r swydd Yn rhan o'r Polisi Hybu a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg yn Fewnol (Rhagfyr 2017) cafwyd penderfyniad bod angen i bob gweithiwr fodloni gofynion Lefel 1 'siarad a gwranddo' sef cwrtseisi iaith sylfaenol o leiaf pan fydd yn cael ei benodi, neu cyn pen chwe mis ar ôl hynny. Bydd y Cyngor yn annog Swyddogion i gwblhau'r pecyn e-ddysgu 10 awr 'Croeso Cymraeg' sydd wedi ei ddatblygu gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, hyn fel bod modd iddynt ddatblygu sgiliau cwrtseisi iaith sylfaenol.	Mae 62% o staff y Cyngor gyda'r gallu i sgwrsio ar lafar yn Gymraeg (ALTE 3,4 a 5) Dim ond 3% o'r gweithlu yn nodi nad oes ganddynt sgiliau Cymraeg o gwbl.	Uned Iaith Gymraeg CSC Adnoddau Dynol
	Aelodau Fforwm Dyfodol Dwyieithog sy'n rhan o Gylch Gorchwyl Comisiynydd y Gymraeg i gynyddu nifer y staff dwyieithog, er mwyn cynyddu a gwella ansawdd gwasanaethau Cymraeg	<u>Coleg Ceredigion</u> Cadw data ers 2021 ar lefel sgiliau ein staff trwy holiadur blynyddol yn gofyn iddynt hunan asesu o ran Siarad, Darllen, Ysgrifennu:	<u>Coleg Ceredigion</u>	Aelodau Fforwm Dyfodol Dwyieithog

### Cyfoeth Naturiol Cymru

Bydd pob swydd sy'n cael eu hysbysebu yn nodi bod angen y sgiliau Cymraeg yn hanfodol, Lefel 1 yw'r lleiafrif sydd angen ar staff a bydd disgwyl i staff sydd ddim yn medru cyrraedd y nod yma ar ddechrau swydd ddilyn cwrs 10 awr o fewn cyfnod penodol o 9 mis.

Rydym yn sicrhau bod timoedd sydd wedi'i lleoli yng Ngheredigion sy'n delio gyda'r cyhoedd fel rhan o'i gwaith gyda chanran uchel o siaradwyr Cymraeg

### Prifysgol Aberystwyth

Ar **31 Gorffennaf 2022** dadansoddwyd gwybodaeth am sgiliau iaith yr holl staff sydd â'u manylion wedi eu diweddarau. Defnyddir Fframwaith cyfeirio Cyffredin Ewrop (CEFR) ar gyfer y lefelau.

### Bwrdd Iechyd Hywel Dda

Lansiwyd Polisi Sgiliau Dwyieithog y bwrdd iechyd ar y 1af o Fawrth 2021; Mae'r polisi'n ymwneud â chynllunio'r gweithlu a gwella sgiliau gweithwyr fel rhan o ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog. Mae'r polisi'n nodi ei fod

Level	Speaking		Reading		Writing	
	Number	%age	Number	%age	Number	%age
High	34	25%	25	18%	19	14%
Intermediate	23	17%	28	21%	22	16%
Basic	32	24%	30	22%	30	22%
Entry	29	21%	25	18%	30	22%
None	18	13%	28	21%	35	26%
Total	136	100%	136	100%	136	100%

### Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae 163 o staff sydd yn gweithio yng Ngheredigion i gyd ac mae 80 (49%) yn medru cynnal sgwrs yn Gymraeg. Mae ein swyddfeydd a Chanolfannau Ymwelwyr wedi'i lleoli yn Aberystwyth, Llanbed, Tregaron, Bwlch Nant yr Arian ac Ynyslas

### Prifysgol Aberystwyth

Lefel	Nifer Llafar	% Llafar
A0	617	30.88%
A1	345	17.27%
A2	146	7.31%
B1	133	6.66%
B2	150	7.51%
C1	94	4.70%
C2	247	12.36%
Heb gofnodi	266	13.31%
Cyfanswm	1998	100.00%

### Bwrdd Iechyd Hywel Dda

Dadansoddiad o'r cofnod o sgiliau Cymraeg ar 31 Mawrth 2022  
Lefel 3 - Canolradd 857 o staff 7.8%  
Lefel 4 - Uwch 873 o staff 7.94%  
Lefel 5 - Hyfedredd 1,273 o staff 11.58%

		yn ofynnol i wasanaethau a thimau wneud y defnydd gorau o'r sgiliau ieithyddol presennol a datblygu sgiliau dwyieithog er mwyn darparu gwasanaeth dwyieithog o ansawdd		
	Hyrwyddo'r cynllun <i>laith Gwaith</i> Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â gwasanaethau cwsmer <b>Clic Ceredigion</b> , a chynnal ymgyrch i hyrwyddo bod croeso defnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu gyda'r Gwasanaeth	<p>Mae staff Gwasanaeth Clic yn parhau i weithio o bell, ac yn darparu'r gwasanaeth llawn dros y ffôn neu'n ddigidol yn unol â dewis iaith yr ymholydd.</p> <p>Mae dangosydd ar waelod y sgrin yn rhoi gwybod bod y galwr wedi dewis y gwasanaeth yn Gymraeg, ac felly mae'r derbynnydd yn medru rhoi gwasanaeth llawn yn y Gymraeg. Mae hyd yn oed y 'bwrdd hysbysu' yn rhoi gwybod nifer o alwadau sydd ar waith ar y tro, gan gynnwys rhoi gwybod faint o alwadau Cymraeg a galwadau Saesneg sydd ar waith.</p> <p>Mae 19 o staff yn rhan o Wasanaeth Clic. O'r rhain mae 15 yn rhugl yn y Gymraeg, ac yn medru darparu gwasanaeth Cymraeg llawn. Mae 4 yn mynychu cyrsiau dysgu Cymraeg, a bellach mae 2 ohonynt yn ddigon hyderus i ddelio gyda'r galwadau ar y llinell Cymraeg. Mae hyn oherwydd eu bod wedi derbyn hyfforddiant wedi ei gynllunio'n benodol ar gyfer Gwasanaeth Clic; yn cwmpasu gofynion darparu'r cynnig rhagweithiol; ymgyfarwyddo a themau ac ymadroddion perthnasol wrth ddelio gydag ymholiadau cychwynnol, a dod yn hyderus wrth eu defnyddio.</p>	Galwadau yn Gymraeg yn gyson ac yn dueddol o fod tua 16% o'r holl alwadau a dderbynnir.	Gwasanaeth Clic Uned Iaith Gymraeg CSC
	Cynnal a datblygu'r defnydd o Gymraeg yng ngwasanaethau Ceredigion Actif,	Mae'r holl wersi nofio yn cael eu cynnal yn ddwyieithog. Mae'r holl ganllawiau ac	Nid yw'r nifer o bobl sy'n dewis defnyddio gwasanaethau Cymraeg y Cyngor yn cyfateb â'r nifer sy'n gallu siarad Cymraeg o fewn y Sir. Oherwydd hyn, mae'r Cyngor yn trefnu nifer o ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd bod modd defnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu gyda'r cyhoedd; gan ddefnyddio diwrnodau penodedig i wneud hynny ee: Diwrnod Shwmae, Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Hawliau.	Porth Cymorth Cynnar
			Gwersi dwyieithog– Plascrug - 324 o blant tymor Hydref 22	

	gan gynnwys gwersi nofio a hyfforddiant chwaraeon, e.e. prosiect 5x60.	adnoddau dysgu i'w gael yn Gymraeg trwy Nofio Cymru. Cynnal cwrs dysgu nofio i staff (Chwefror a Mawrth) er mwyn sicrhau mwy o hyfforddwyr nofio sy'n medru'r Gymraeg.	Llambed - 191 o blant tymor Hydref 22	Uned Iaith Gymraeg CSC
	Datblygu cynllun ar gyfer hyrwyddo defnydd y Gymraeg mewn cartrefi gofal, gan gefnogi gweithrediad strategaeth 'Mwy na Geiriau'.	Dechreuwyd ar y gwaith hwn yng Nghartref Gofal Preswyl Hafan Deg, Llanbedr Pont Steffan, ond bu oedi oherwydd pandemig Covid.	Angen ail afael yn y prosiect.	Porth Gofal Uned Iaith Gymraeg CSC
	Cydwethio â Phrifysgol Aberystwyth i gynnal statws y Gymraeg a'r cyfleoedd i'w defnyddio o fewn sefydliad addysg uwch yn y sir.	<p>Ail ddatblygu Neuadd Pantycelyn a agorwyd ym Medi 2020 – yn dilyn buddsoddiad o £16.5miliwn gan gynnig llety o ansawdd ar gyfer hyd at 200 o fyfyrwyr a lleoliad ar gyfer y gymuned</p> <p>Ym Medi 2021 agorwyd Ysgol Gwyddor Filfeddygol cyntaf Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'r cwrs yn rhoi cyfle i fyfyrwyr astudio agweddau penodol o wyddor filfeddygol drwy gyfrwng y Gymraeg</p> <p>Ym mis Medi 2022 croesawyd myfyrwyr nyrsio cyntaf y Brifysgol fydd yn cael eu hyfforddi yn nyrsys Oedolion ac lechyd Meddwl. Yn ogystal bydd cyfle i fyfyrwyr astudio hanner y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Mae gwaith hefyd wedi cychwyn fel rhan o brosiect uchelgeisiol i ail ddatblygu'r Hen Goleg yn ganolfan flaenllaw ar gyfer dysgu, treftadaeth, diwylliant a menter i'r Brifysgol, i'n cymuned ac i Gymru erbyn 2024</p>	<p>Mae <b>358</b> o fyfyrwyr wedi cofrestru ar un neu fwy o fodiwlau cyfrwng Cymraeg (cywir 11/11/22)</p> <p><b>Tystysgrif Sgiliau Iaith 2022-23</b> Mae sesiynau hyrwyddo'r Dystysgrif wedi cael eu cynnal ar gyfer Adrannau ers dechrau tymor. Hyd yma (27/10/22) mae 25 wedi cofrestru i gwblhau'r Cymhwyster.</p>	Prifysgol Aberystwyth

### Amcan 2.3 Cynnal a chynyddu'r defnydd o Gymraeg mewn gweithleoedd

Rhif	Gweithred	Sylwadau Cynnydd	Dangosyddion	Partneriaid
	<p>CSC i gyflawni Safonau Gweithredu, er mwyn cynyddu defnydd y Gymraeg mewn gweinyddiaeth fewnol; gan gynnwys :</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwasanaethau AD cyfrwng Cymraeg,</li> <li>• cyfleodd i godi hyder staff i ddefnyddio'r Gymraeg</li> <li>• datblygu a darparu adnoddau TGCh cyfrwng Cymraeg.</li> </ul>	<p>Cafodd Polisi ar gyfer Hybu a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg yn Fewnol ei gyhoeddi yn 2017. Mae copi ar CeriNet; mewnwyd y Cyngor ar gyfer holl staff. Mae'n arfer gan y Cyngor ddarparu llythyrau safonol, contractau cyflogaeth ayb yn ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf. Unwaith y bydd y dewis iaith wedi sefydlu, defnyddir yr iaith honno i gyfathrebu. Mae pob polisi at ddefnydd staff ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar CeriNet mewnwyd y Cyngor. Grŵp Cymraeg Gwaith wedi'i ffurfio er mwyn mynd i'r afael â'r materion. Cynllun gweithredu newydd wedi'i gytuno, a fydd yn cael ei roi ar waith ddechrau Ionawr 2023.</p>	<p>Wedi cyflwyno Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol derbynol at sylw Comisiynydd y Gymraeg yn flynyddol.</p>	<p>Uned Iaith Gymraeg CSC</p>
	<p>Darparu cyngor ac arweiniad i gyflogwyr yn y sector breifat lleol, trwy gyfrwng prosiect Cymraeg mewn Busnes.- tynnu sylw at yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer dysgu Cymraeg ee Pecyn ar-lein am ddim, Say Something in Welsh, Duolingo</p>	<p>Bu Swyddog Helo Blod yn gweithio gyda busnesau led led y sir - yn rhithiol yn ystod cyfnod cyfyngiadau Cofid ac yna wyneb yn wyneb yn ddiweddarach. Diddymwyd prosiect lleol Helo Blod ym mis Ebrill 2022.</p>	<p>53 o Fusnesau lleol wedi creu cyswllt 32 o Fusnesau lleol lle mae Cered wedi gweithio'n ddwys i wella eu defnydd o'r Gymraeg</p>	<p>Cered</p>

## Nod Strategol 3: sicrhau amodau cymdeithasol sy'n galluogi'r Gymraeg i ffynnu yng Ngheredigion

### Amcan 3.1 Cynnal statws a bri'r Gymraeg o fewn y gymdeithas, gan hyrwyddo ei gwerth a'r defnydd ohoni.

Rhif	Gweithred	Sylwadau Cynnydd	Dangosyddion	Partneriaid
	Cefnogi Gorymdeithiau Dydd Gŵyl Ddewi yn Aberystwyth a Llambled; ac annog dathliadau tebyg mewn ardaloedd eraill.	Digwyddodd Gorymdeithiau mewn 5 tref; Aberystwyth, Llambled, Aberaeron, Tregaron ac Aberteifi. Ond oherwydd Cofid ni fu modd ailgydio yn y cynllun i gynnal Pared Gŵyl Dewi ym mhob tref yng Ngheredigion, a gyda chyfyngiadau dal mewn lle 2 Bared yn unig fu modd eu cynnal yn 2022, a hynny gyda chefnogaeth Pwyllgorau lleol yn Llambled ac Aberystwyth.	5 Tref cyn Cofid, wedi mynd lawr i 2 dref yn 2022 oherwydd bod y cyfyngiadau dal mewn bodolaeth. 2023, 4 tref wedi cynnal gorymdaith.	Cered
	Cefnogi Eisteddfod Genedlaethol 2020, drwy sefydlu Grŵp Prosiect i adnabod blaenoriaethau ar gyfer cynllun gweithredu CSC i gefnogi a hwyluso trefniadau	Llwyddwyd i gefnogi Eisteddfod lwyddiannus iawn yn haf 2022, yn dilyn 2fl o oedi oherwydd pandemig Cofid. Cynhaliwyd Pentref Ceredigion ar y maes, gyda'r weledigaeth o hyrwyddo'r Sir fel lle i Fyw, Dysgu, Perthyn a Llwyddo. Defnyddiwyd brand Caru Ceredigion i hyrwyddo Sir fodern.	210 o ddigwyddiadau ym Mhentref Ceredigion dros 8 diwrnod. Rhwng 25,000 a 30,000 wedi ymweld â Phentref Ceredigion 1,500 o blant wedi cymryd rhan gyda'u hysgol mewn perfformiad o ryw fath ar y maes.	CSC
	Y Cyngor a sefydliadau partner sy'n aelodau o Fforwm Dyfodol Dwyieithog i ddefnyddio diwrnodau penodol yn y Calendr er mwyn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg. e.e. ymgyrchoedd a dathliadau Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Shw Mae, Ras yr Iaith, Diwrnod Cerddoriaeth Cymraeg	<b>Dydd Gŵyl Dewi</b> – fideo cyffro'r Eisteddfod, ac egluro beth i ddisgwyl <b>Diwrnod Shwmae</b> – Gwobrwyo Dysgwr y Flwyddyn Cymraeg Gwaith <b>Diwrnod Hawliau'r Gymraeg</b> – fideo yn hyrwyddo ac annog trigolion i ddefnyddio gwasanaeth Cymraeg wrth gysylltu gyda'r Cyngor Sir.  Cered wedi cynnal Cystadleuaeth Addurno Ffenestri Siopau ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi - Cynhaliwyd y gystadleuaeth		Uned Iaith Gymraeg CSC Aelodau Fforwm Dyfodol Dwyieithog



		<p>mewn 4 tref : Aberystwyth, Tregaron, Aberteifi a Llandysul gyda beirniadu'r gystadleuaeth yn nwylo'r Aelod Seneddol lleol Ben Lake.</p> <p><u>Coleg Ceredigion</u> Yn dathlu diwrnodau Cymraeg yn flynyddol ar draws ein campysau bob blwyddyn gydag ein staff a'n myfyrwyr trwy weithgareddau hwylus, gemau, cystadlaethau, siaradwyr gwadd ayyb. Mae pob aelod o'n staff yn gwneud cwrs 'Ymwybyddiaeth iaith' - mae hwn yn gwrs ar-lein sydd wedi cael ei baratoi yn arbennig i staff Coleg Ceredigion a Choleg Sir Gâr - mae'r cwrs yn gwrs orfodol i holl staff newydd hefyd fel rhan o'n system anwytho.</p> <p><u>Cyfoeth Naturiol Cymru</u> Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg ym mis Medi 2021 – Cyfryngau Cymdeithasol</p> <p>Diwrnod Shwmae/Su'mae rhwng 14 a 15 Hydref – Cyfryngau Cymdeithasol</p> <p>Dathlu Dysgu Cymraeg rhwng 11 a 15 Hydref</p> <p>Calan Gaeaf a Diwrnod Cyntaf y Gaeaf ar 1 Tachwedd</p> <p>Diwrnod Hawliau Iaith Gymraeg rhwng 5 a 7 Rhagfyr – Cyfryngau Cymdeithasol</p> <p>Traddodiadau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yng Nghymru rhwng 15 a 17 Rhagfyr</p> <p>Santes Dwynwen ar 25 Ionawr – Cyfryngau Cymdeithasol</p>		
--	--	---	--	--

		<p>Dydd Miwsig Cymru ar 4 Chwefror  Dydd Gŵyl Dewi ar 1 Mawrth  Diwrnod y Llyfr ar 3 Mawrth  Diwrnod Barddoniaeth y Byd ar 21 Mawrth  Urdd Gobaith Cymru – dathlu'r canmlwyddiant gan gynnwys cwis – Mehefin  Hyrwyddo Rhaglen Hyfforddiant Iaith Gymraeg – Awst  Diwrnod Ieithoedd Ewropeaidd - Medi</p> <p><u>Prifysgol Aberystwyth</u></p> <p>Gwobrau Hybu'r Gymraeg y Brifysgol – eleni cynhaliwyd seremoni yn cyhoeddi'r enillwyr yng Nghanolfan y Celfyddydau fel rhan o ddathliadau Dathlu Pen-blwydd y Brifysgol yn 150 a dathliadau Diwrnod Shwmae . Cynhaliwyd arddangosfa a diwrnod agored i gyn fyfyrwyr ac ymwelwyr yn Neuadd Pantycelyn ar ddydd Sul cyntaf Eisteddfod Genedlaethol Tregaron. Arddangosfa arall a drefnwyd ar gyfer y dathliadau oedd Arddangosfa Pop Aber yn dathlu cyfraniad holl bwysig myfyrwyr a chyn myfyrwyr i'r byd pop cyfoes yng Nghymru.</p> <p>Ar y cyd gyda Thîm Dysgu Cymraeg Ceredigion Powys a Sir Gâr, Staff Cangen Prifysgol Aberystwyth o'r Coleg Cymraeg ac UMCA trefnu'r stondinau/digwyddiadau ar y campws ac</p>		
--	--	---	--	--

		<p>ar lein i hybu/ codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar ddyddiadau penodol yn cynnwys Wythnos y Glas, Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Shwmae, Dydd Miwsig Cymru a Diwrnod Hawliau'r Comisiynydd. Mae Swyddog Cydlynnydd Cymuned Cymraeg hefyd yn gweithio yn yr Undeb yn cydweithio gydag UMCA a'r gymuned leol i drefnu digwyddiadau a hybu'r Gymraeg a'i diwylliant i fyfyrwyr.</p> <p><u>Bwrdd Iechyd Hywel Dda</u></p> <p><b>Dydd Gŵyl Dewi</b> – Cwis i holl staff y bwrdd iechyd a chreu fideo am bwysigrwydd y Gymraeg</p> <p><b>Diwrnod Miwsig Cymru</b> – Chwarae cerddoriaeth Cymraeg ar bob gorsaf radio yn ein hysbytai.</p> <p><b>Diwrnod Shwmae</b> – Cynnal stondin gwybodaeth ymhob ysbyty ar draws y tair sir.</p> <p><b>Diwrnod Hawliau'r Gymraeg</b> – Rhannu negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol a hefyd creu animation ar gyfer holl staff.</p>		
Amlygu gwerth y Gymraeg yn y diwydiant twristiaeth, e.e. hyrwyddo cynllun Naws am Le.		<p>Darganfod Ceredigion</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwefan yn gwbl ddwyieithog</li> <li>• tudalen Facebook yn gwbl ddwyieithog, gyda'r Gymraeg bob amser yn cael ei osod yn gyntaf.</li> <li>• Postiad yn hybu Diwrnod Shw Mae</li> </ul> <p>Rhaglen farchnata Llwybrau Celtiadd/ Celtic Routes</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyfryngau cymdeithasol yn yn ddwyieithog (peth deunydd yn</li> </ul>	Proffil amlwg i'r Gymraeg yng ngweithgareddau Darganfod Ceredigion	Gwasanaeth Twf a Menter

	<p>dair-ieithog defnydd o'r Wyddeleg)</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rhaglen deledu wedi'i gomisiynu yn dilyn Ryland Teifi a'i deulu i'w darlledu ar S4C cyn hir.</li> </ul> <p>Digwyddiadau Cymraeg yn cael eu hybu gan gynnwys ffocws ar Eisteddfodau eleni (tudalen benodol, barhaol yn ogystal a'r Eisteddfod Genedlaethol)</p> <p>Rhaglen Llysgennad Ceredigion yn cael ei ddatblygu ( rhan o gynllun Llysgennad Cymru <a href="https://www.ambassador.wales/cy">https://www.ambassador.wales/cy</a> ). Opsiwn i ddilyn y cwrs yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Modiwl penodol ar yr Iaith Gymraeg yn orfodol i gyrraedd lefel 'Arian'.</p> <p><b>Cronfa Adfywio Cymunedol:</b> Gwaith wedi'i gomisiynu i weithio gyda cynrychiolwyr trefi y Sir i ddatblygu brand ar gyfer y trefi. Bydd y gwaith yn cynnwys elfen bwysig o ddefnyddio'r Gymraeg fel pwynt i werthu unigrywiaeth y Sir.</p>		
Gwarchod enwau lleoedd Cymraeg lleol drwy weithredu polisi enwi a rhifo strydoedd Ceredigion	<p>Yn rhan o'r Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd, wrth gofrestru enwau tai anfonir llythyr at bob cais yn rhoi gwybod iddynt am yr Iaith Gymraeg a'r diwylliant, gyda'r gobaith y bydd o gymorth i gadw enwau Cymraeg neu hanesyddol y Sir.</p> <p>Mae'r Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd yn mynnu bod pob stryd newydd yn derbyn enw Cymraeg yn unig, a bod angen</p>	<p>Cyfnod Adrodd: 2021-22 34 cais i newid enw eiddo. 2 cais: Cymraeg i Saesneg 15 cais Saesneg i Cymraeg 9 cais Cymraeg i Cymraeg <i>2 cais Saesneg i Saesneg</i></p> <p>263 o geisiadau i enwi eiddo newydd: dros 95% o'r ceisiadau hyn wedi bod am enwau Cymraeg.</p>	Gwasanaeth Rheoli Cyfeiriadau CSC

		ymgyngori gyda'r Cyngor Tref a Chymuned o ran perthnasedd yr enw hwnnw i'r ardal leol.	3 Cais ar gyfer enwi strydoedd newydd: 100% Cymraeg yn unig.	
--	--	--	--	--

### Amcan 3.2 Sicrhau amodau cymdeithasol sy'n galluogi'r Gymraeg i ffynnu yng Ngheredigion.

Rhif	Gweithred	Sylwadau Cynnydd	Dangosyddion	Partneriaid
	CSC i rhoi gwerth ar sgiliau Cymraeg y gweithlu, drwy weithredu polisi recriwtio sy'n gofyn am asesiad ieithyddol wrth benodi swyddi gwag a newydd	<p>Mae angen i bob gweithiwr fodloni gofynion Lefel 1 'siarad a gwranddo' sef cwrteisi iaith sylfaenol o leiaf pan fydd yn cael ei benodi, neu cyn pen chwe mis ar ôl hynny. Ar gyfer holl swyddi'r Cyngor mae'n rhaid pennu'r lefel iaith sydd ei angen ar gyfer cyflawni'r swydd honno; a chofnodi hynny ar y ffurflen 'Caniatâd i Lenwi Swydd Newydd'. Mewn achosion penodol os yw'n amhosib recriwtio ar y lefel ALTE disgwyliedig, ceir cytundeb i osod amod hyfforddiant yn y contract cyflogaeth. Bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus gyrraedd y safon ALTE angenrheidiol o fewn 2 flynedd i'r apwyntiad. Mae disgwyl bod rheolwyr llinell yn monitro hyn.</p> <p>Caiff pob swydd wag ei hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cafodd yr ymwadiad canlynol ei osod ar ein gwefan ym mis Mawrth 2022:  <i>"Rydym yn gweithredu polisi dwyieithog. Gwahoddir ymgeiswyr i wneud cais yn Gymraeg, ni fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn</i></p>	<p>Recriwtio: Lefel Sgiliau yn y Gymraeg, 601 o swyddi wedi'u hysbysebu yn unol â'r lefelau ALTE fel a ganlyn:</p> <p>Lefel 5: 18%  Lefel 4: 4%  Lefel 3: 40%  Lefel 2: 24%  Lefel 1: 14%</p>	Uned Iaith Gymraeg CSC

		<p><i>cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynwyd yn Saesneg.</i></p> <p>Mae gwybodaeth ynghylch defnydd y Gymraeg wrth recriwtio wedi'i osod yn y tudalennau 'gwybodaeth a chwestiynau cyffredin'; sy'n ymddangos ar ddiwedd pob hysbyseb swydd.</p> <p>Mae ffurflen gais am swydd yn rhoi lle i unigolion nodi pa iaith maent yn dymuno cynnal eu cyfweiliad.</p> <p>Mae'n fwriad cynnal trafodaeth gyda'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol er mwyn ystyried dull amgenach o gofnodi sgiliau iaith y gweithlu yn y cyfnod nesaf, gan hefyd edrych ar osod targedau ynghylch cynyddu sgiliau iaith y gweithlu. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn anelu at ddatblygu canllaw ar sut i asesu sgiliau iaith ar gyfer swyddi newydd neu wag.</p>		
	<p>Sefydliadau sy'n aelodau o Fforwm DD i rhoi gwerth ar sgiliau Cymraeg y gweithlu, drwy weithredu polisi recriwtio sy'n gofyn am asesiad ieithyddol wrth benodi swyddi gwag a newydd</p>	<p><u>Coleg Ceredigion</u> Rhoi ar waith system fwy dwys o allu asesu pa lefel o sgiliau Cymraeg dylid rhoi ar Ddisgrifiadau Swydd a hysbysebion am swyddi gwag. Gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Recriwtio ar hyn gan ddefnyddio ein 'Matrics Recriwtio' sydd yn cael ei weithredu cyn bod y swydd newydd neu swydd wag yn cael ei hysbysebu.</p> <p><u>Cyfoeth Naturiol Cymru</u> Mae pob swydd newydd neu wag yn cael ei hasesu o ran anghenion sgiliau Cymraeg yn dilyn canllawiau staffio a recriwtio. Bydd angen i bob rheolwr</p>	<p><u>Coleg Ceredigion</u> 20/21: Cyfanswm o 22 swydd wedi hysbysebu : 40% yn nodi bod angen sgiliau Cymraeg</p> <p><u>Cyfoeth Naturiol Cymru</u></p>	<p>Aelodau Fforwm Dyfodol Dwyieithog</p>

		<p>lenwi ffurflen Microsoft Teams er mwyn cofnodi'r asesiad. Bydd yr asesiad yn cael ei wirio gan y Swyddog Iaith i sicrhau bod y canllawiau yn cael eu dilyn a bod siaradwyr Cymraeg ym mhob tîm. Nid oes unrhyw swydd yn cael ei hysbysebu heb gwblhau'r camau hyn fel rhan o'r broses recriwtio.</p> <p><u>Prifysgol Aberystwyth</u> Mae gan y Brifysgol drefniadau cadarn i asesu gofynion ieithyddol pob swydd a hysbysebir. Caiff holl swydd ddisgrifiadau â'u gofynion ieithyddol eu gwirio â'u cymeradwyo gan Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg fel rhan o'r broses recriwtio a hysbysebu. Pan benodir staff i swyddi Cymraeg hanfodol gyda'r ymrwymiad i ddysgu/gwella eu sgiliau iaith er mwyn cyrraedd lefel gofynnol y swydd, mae'r Ganolfan yn cysylltu â'r staff i gynnig cymorth a gwybodaeth ynglŷn â chyrtsiau addas</p>	<table border="1"> <thead> <tr> <th>Lefel Iaith</th> <th>Hanfodol</th> <th>Dymunol</th> <th>Angen Dysgu</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Lefel 5</td> <td>7 (1.1%)</td> <td>0</td> <td>0</td> </tr> <tr> <td>Lefel 4</td> <td>30 (5%)</td> <td>91(16%)</td> <td>1 (0.2%)</td> </tr> <tr> <td>Lefel 3</td> <td>20 (3.4%)</td> <td>95 (16%)</td> <td>6 (1%)</td> </tr> <tr> <td>Lefel 1</td> <td>336 (57.3%)</td> <td>0</td> <td>0</td> </tr> </tbody> </table> <p><u>Prifysgol Aberystwyth</u></p> <table border="1"> <tbody> <tr> <td>Sgiliau Cymraeg yn hanfodol</td> <td>204</td> <td>31.2%</td> </tr> <tr> <td>Sgiliau Cymraeg yn ddymunol</td> <td>432</td> <td>66.2%</td> </tr> <tr> <td>Swyddi lle nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol</td> <td>449</td> <td>68.8%</td> </tr> <tr> <td>Swyddi lle bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd</td> <td>Dim data</td> <td></td> </tr> </tbody> </table>	Lefel Iaith	Hanfodol	Dymunol	Angen Dysgu	Lefel 5	7 (1.1%)	0	0	Lefel 4	30 (5%)	91(16%)	1 (0.2%)	Lefel 3	20 (3.4%)	95 (16%)	6 (1%)	Lefel 1	336 (57.3%)	0	0	Sgiliau Cymraeg yn hanfodol	204	31.2%	Sgiliau Cymraeg yn ddymunol	432	66.2%	Swyddi lle nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol	449	68.8%	Swyddi lle bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd	Dim data		
Lefel Iaith	Hanfodol	Dymunol	Angen Dysgu																																	
Lefel 5	7 (1.1%)	0	0																																	
Lefel 4	30 (5%)	91(16%)	1 (0.2%)																																	
Lefel 3	20 (3.4%)	95 (16%)	6 (1%)																																	
Lefel 1	336 (57.3%)	0	0																																	
Sgiliau Cymraeg yn hanfodol	204	31.2%																																		
Sgiliau Cymraeg yn ddymunol	432	66.2%																																		
Swyddi lle nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol	449	68.8%																																		
Swyddi lle bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd	Dim data																																			
<p>CSC i gynnal polisi caffael CS Ceredigion er mwyn rhoi gwerth ar y Gymraeg , gan sicrhau bod gofynion ynghylch y Gymraeg yn cael ei ystyried a'i gynnwys pan yn briodol mewn unrhyw gontract, tendr neu gytundeb cyfreithiol.</p>		<p>Mae'r Gwasanaeth Caffael wedi cyhoeddi ei Reolau Gweithdrefn Contract, sy'n nodi bod rhaid i bob proses tendr gynnwys cyfeiriad/cymal sy'n ei gwneud yn angenrheidiol i'r cwmni llwyddiannus gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i ddarpariaeth y gwasanaeth neu'r nwyddau sy'n cael eu tendro. Mae'r</p>	<p>Mae 6/14 aelod staff yn siarad Cymraeg.</p> <p>Yn 2022 dim un tendr wedi ei gyflwyno yn y Gymraeg, fodd bynnag mae'r gwasanaeth wedi gosod system yn ei le pe byddai tendr yn Gymraeg neu os derbynnir gohebiaeth yn Gymraeg yn ystod y broses dendro, bydd pob ymateb yn Gymraeg o'r pwynt hwnnw ymlaen.</p>	<p>Gwasanaeth Caffael</p>																																

		<p>Gwasanaeth Caffael yn gyfrifol am fonitro hyn.</p> <p>Dogfen ganllaw Comisiynydd y Gymraeg yn cael ei ddsbarthu i'r holl gontractwyr ' Gwneud cais am gontractau a grantiau. Ystyried y Gymraeg'.</p>		
	<p>Cefnogi blaenoriaeth gorfforaethol 1, Hybu'r Economi, Strategaeth Gorfforaethol CSC 2017-22 i sicrhau gwelediad amlwg i'r Gymraeg mewn unrhyw gynlluniau</p>	<p>Cafodd Strategaeth Economaidd newydd y Sir "Rhoi Hwb i Economi Ceredigion – Strategaeth ar gyfer Gweithredu 2020-35" ei gyhoeddi yn 2021. Bwriad y strategaeth fydd i sicrhau y canlynol wrth fynd ati i weithredu ar amryw o gynlluniau dan y pedwar prif thema – Pobl, Lle, Menter a Chysylltedd.</p> <p>"Egwyddor sylfaenol bwysig arall yw'r angen i ddiogelu a gwella ein hunigrywedd a'n hunaniaeth diwylliannol, a helpu i roi hwb i gydnerthedd a thwf y Gymraeg. Byddwn yn adeiladu ar waith a wnaed yn rhan o brosiect Arfor i nodi'n llawn y cyfleoedd i wireddu cyfleoedd i helpu'r Gymraeg i ffynnu trwy gamau datblygu economaidd cadarnhaol. Yn ei hanfod, bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy sicrhau bod gan y rhai sy'n siarad Cymraeg yr hyder, y sgiliau a'r cyfleoedd i ddatblygu busnesau, i weithio mewn swyddi o werth uwch, ac i weld Ceredigion fel lle ffyniannus ac egniol i fyw a gweithio ynddo." (Tudalen 6)</p>	<p>Sicrheir gwelediad amlwg i'r Gymraeg mewn unrhyw gynllun hybu'r economi.</p>	<p>Gwasanaeth Twf a Menter</p>



	<p>Sicrhau bod gwerth y Gymraeg, ei defnydd a'u chynaliadwyedd yn ffactorau creiddiol o weithgareddau y Cynllun Cynnal y Cardi (LEADER) a Chynllun Arfor.</p>	<p>Ymgeiswyr yn gorfod ymateb i'r cwestiwn: Sut mae unrhyw gynllun / prosiect yn cyfrannu i hyrwyddo'r Iaith Gymraeg. Mae'r Iaith Gymraeg yn cael ei thrin fel Thema trawsbynciol, a caiff ei asesu gyda sgôr fel rhan o'r broses asesu ceisiadau.</p> <p>Adroddiadau ac astudiaethau achos yn cael eu creu yn ddwyieithog. Marchnata a deunyddiau yn cael eu darparu'n ddwyieithog gan gynnwys gwefan Cynnal y Cardi. Cynhelir cyfarfodydd Grŵp Gweithredu Lleol yn bennaf yn yr Iaith Gymraeg.</p>	<p>11 wedi cyflwyno ceisiadau yn y Gymraeg 7 wedi rhoi cyflwyniad yn Gymraeg fel rhan o'r broses asesu</p> <p>Cynlluniau penodol: Cymraeg yn y Gweithle, Academi Bro, Pecyn Croeso Ceredigion, Gorwel a Gwreiddiau, Ceredigion Bro360, Calon Tysul.</p> <p>Ceir astudiaethau achos ar <a href="https://www.cynnalycardi.org.uk/astudiaethau-achos/">https://www.cynnalycardi.org.uk/astudiaethau-achos/</a> (Cymraeg yn y Gweithle ac Academi Bro).</p>	<p>Gwasanaeth Twf a Menter</p>
	<p>Sicrhau bod Cynllun Arfor sy'n cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru yn hyrwyddo entrepreneuriaeth, twf busnes, cydnerthedd cymunedol a'r Gymraeg yn rhanbarth Arfor yn yng Ngheredigion.</p>	<p>Datblygwyd dau becyn cymorth yng Ngheredigion:</p> <p>'Mentro mewn Busnes' i gefnogi busnesau newydd i fentro a hybu entrepreneuriaeth. Cyfanswm y grant a uchafswm - £10,000. Cyfradd y grant – 80%</p> <p>'Tyfu yw'r Nod' i gefnogi mentrau sy'n bodoli i annog twf a datblygiad. Cyfanswm y grant – £10,000 – £40,000. Cyfradd y Grant – 70%</p>	<p>31 o geisiadau wedi cael eu cefnogi gyda'r prif amcan o hybu defnydd yr Iaith Gymraeg mewn busnes.</p> <p>O ganlyniad y cynllun: 61.7 o swyddi wedi creu. 40.5 swyddi wedi ei diogelu.</p> <p>Gwerthusiad o rhaglen Arfor 1 wedi'i gwblhau: <a href="https://www.rhaglenarfor.cymru/">https://www.rhaglenarfor.cymru/</a></p>	
	<p>Sicrhau cyfleoedd i brentisiaid o fewn y Cyngor ddefnyddio'u sgiliau iaith Gymraeg wrth eu gwaith</p>	<p>Mae'r cynllun prentisiaethau wedi rhoi llwyfan i ddatblygu rhagor a chryfhau defnydd ein pobl ifanc o'r Gymraeg yn y gweithle. Gobaith y cynllun prentisiaethau yw parhau i gael effaith</p>	<p>Cafodd y cynllun ei sefydlu yn 2018: oddi ar hynny 18 wedi bod yn rhan o'r cynllun. Mae 95% o'r holl brentisiaid hyd yn hyn yn siaradwyr Cymraeg (19 o Siaradwyr Cymraeg / 1 Dysgwr Cymraeg).</p>	

		<p>gadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg a dewisiadau ein pobl ifanc, a fydd yn ei dro yn arwain at well dealltwriaeth ymhlith pobl ifanc o'r galw am sgiliau Cymraeg yn y gweithle wrth iddyn nhw dyfu'n hŷn.</p> <p>Mae'n ofynnol i ddarparwyr dysgu gynnig gweithgareddau a deunyddiau dysgu yn Gymraeg a mynd ati i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu ac asesu cymwysterau.</p> <p><b>Enghraifft o arfer da:</b></p> <p>Ar ddechrau eu prentisiaeth, gofynnir i'r dysgwyr a hoffent gwblhau eu hasesiadau cychwynnol trwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnir iddynt hefyd pa iaith y byddai'n well ganddynt ei defnyddio ar gyfer eu haseiniadau ac maent yn cael eu hannog i gyflwyno unrhyw dystiolaeth lle maent wedi defnyddio eu Cymraeg e.e. e-byst neu bosteri.</p> <p>Mae'r cyflwyniadau a ddefnyddir yn y gweithdai misol yn ddwyieithog ac yn amlygu geirfa Gymraeg allweddol ar gyfer y pwnc ac rydym yn trafod unrhyw eiriau eraill y mae dysgwyr yn eu defnyddio. Ar ddiwedd pob sesiwn, bydd dysgwyr yn adolygu'r eirfa er mwyn gweld beth maen nhw'n gallu ei gofio. Mae'r eirfa wedi ei godio'n goch/ambr/gwyrdd drwy anhawster felly gall pob prentis, waeth beth fo'u sgiliau Cymraeg, deimlo'n hyderus i 'roi cynnig arni'. Yn ogystal â hyn, mae pob dysgwr yn gorfod cwblhau o leiaf un</p>		
--	--	--	--	--

	aseiniad ar ei brentisiaeth yn y Gymraeg.		
--	---	--	--

<b>Amcan 3.3 Sicrhau cymunedau cynaliadwy lle y defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu arferol</b>				
<b>Rhif</b>	<b>Gweithred</b>	<b>Sylwadau Cynnydd</b>	<b>Dangosyddion</b>	<b>Partneriaid</b>
	<p>Hyrwyddo cynaliadwyedd y Gymraeg drwy gyfrwng gweithdrefnau cynllunio defnydd tir, e.e.:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>cynnal ac adolygu y <i>Canllawiau Cynllunio Atodol – Y Gymuned a'r Iaith Gymraeg</i> yn rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol; a chryfhau'r cymal i godi arwyddion a hysbysiadau dwyieithog ar gyfer datblygiadau ee siopau cadwyn</li> <li>cynnal astudiaethau effaith ieithyddol ynghlwm wrth bob cam o ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol newydd</li> <li></li> </ul>	<p>Mae saib yn y broses adolygu y CDLI, oherwydd Pandemig Covid-19, ynghyd ag effaith canllawiau cynllunio Cyfoeth Naturiol Cymru ar CDLI2, mae risg sylweddol y bydd y cynllun yn cael ei ystyried yn 'ddi-sail' drwy'r broses archwilio cyhoeddus ac nad yw'n addas i'r diben, oherwydd bod y mater ffosffad heb ei ddatrys.</p> <p>Lluniwyd Papur Pwnc Drafft ar yr Iaith Gymraeg yn 2019 ar gyfer y Strategaeth a Ffafir/Cyn Adneuo yn manylu ar oblygiadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20</li> <li>Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant (Cymru) 2015 a'r nod llesiant; 'Cymru o ddiwylliant bywiog a iaith Gymraeg ffyniannus',</li> <li>Mesur y Gymraeg 2011</li> <li>Strategaeth y Gymraeg: Cymraeg 2050</li> <li>Deddf Cynllunio (Cymru) 2015</li> <li>PPW 10</li> </ul> <p>Cyflwyno papur at sylw Cabinet (22 Chwefror 2022) a'r Cyngor (3 Mawrth 2022) ynghylch: Tai Cymunedol, gyda'r bwriad o gefnogi pobl leol i gael</p>	<p>1 Aseiad Effaith Integredig, gyda'r canlyniad:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Byddai Adolygiad a Diweddariad y CDLI yn cael ei gyflwyno'n ddwyieithog</li> <li>Bod y sir gyfan yn cael ei dosbarthu'n ieithyddol sensitif, a bod angen cynnal aseiad wrth gynigion Datblygu, oherwydd eu potensial i effeithio ar ddefnydd yr iaith Gymraeg</li> <li>Papur Pwnc ynglŷn â'r Gymraeg i gael ei ddatblygu yn ystod paratoi'r Cynllun Adnau (Deposit Plan)</li> </ul> <p>Nifer yr ymgeiswyr a gymhwysodd i brynu eiddo fforddiadwy Disgownt ar Werth (Discount for Sale) Rhwng 01.01.2017 a 21.11.2022: 163, 149 o'r rhai a gymhwysodd yn seiliedig ar gysylltiad lleol. 91%</p> <p><u>Cysylltiad Lleol:</u> Tai fforddiadwy o dan y Cynllun Datblygu Unedol (y cynllun blaenorol): rhaid i unigolion fod wedi byw 10 o'r 20 mlynedd diwethaf yn y sir neu o fewn cyngorau cymuned cyfagos.</p> <p>Tai fforddiadwy o dan y Cynllun Datblygu Lleol (y cynllun presennol): rhaid i unigolion fod wedi byw yn y sir am 5 mlynedd yn ystod eu hoes.</p>	Gwasanaeth Cynllunio CSC

		mynediad at dai drwy fodel Ecwiti a Rennir. Sefydlwyd grŵp Tasg a Gorffen er mwyn edrych ar weithredu hyn ynghyd ag ystod o opsiynau tai eraill, mae'r gwaith yn mynd rhagddo.																			
Cynnal polisi o hyrwyddo tai fforddiadwy.	<p>Pwrpas y Strategaeth Tai Lleol Ceredigion (2018-23) yw sicrhau y darperir gwasanaeth tai integredig er mwyn diwallu'r angen yn lleol, gan hefyd sicrhau diogelu treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg o fewn cymunedau y Sir; a hynny yn benodol mewn ardaloedd sydd â chyfran uchel o siaradwyr Cymraeg. Mae cefnogi cymunedau cyfredol yn allweddol i'r strategaeth hon, ac yn hanfodol ar gyfer llesiant y Gymraeg yng Ngheredigion.</p> <p>Yn ogystal, mae'r Polisi Dyraniadau Cyffredin yn sicrhau bod rhaid bodloni meini prawf cysylltiad lleol er mwyn cael eu hystyried a derbyn cynnig ar gyfer Tai cymdeithasol, heb fawr o eithriadau. Gellir cwrdd â'r meini prawf cysylltiad lleol trwy drwy, bod yr ymgeisydd wedi byw yn y Sir am bum mlynedd yn union cyn dyddiad cyflwyno'r cais, neu trwy gyflogaeth, neu deulu sy'n byw yn yr ardal.</p>	<p>Ers 1 Ebrill 2017 tan 23 Tachwedd 2022, mae 1611 dyraniadau tai wedi'u gwneud yng Ngheredigion.</p> <p>Gwnaed pob dyraniad yn unol â'r Polisi Dyraniadau Cyffredin ac yn sicrhau cysylltiad lleol â Cheredigion, neu mewn lleiafrif o achosion lle nad yw cysylltiad lleol yn berthnasol, dyraniadau wedi'u gwneud lle mae dyletswydd Digartrefedd yn berthnasol.</p> <p>Mae 0.8% o ddefnyddwyr gwasanaeth yn nodi eu bod yn dymuno cysylltu yn Gymraeg, 4% yn dymuno gwneud hynny'n ddwyieithog, a'r gweddill yn Saesneg.</p>	Gwasanaeth Tai																		
<p>Parhau i ddefnyddio'r Cynllun Grant Cymunedol i gefnogi: mudiadau a digwyddiadau cymunedol sy'n gwneud defnydd o'r Gymraeg neu sy'n ymrwymo i ddatblygu defnydd o'r Gymraeg; gan gynnwys Sioeau Amaethyddol ac Eisteddfodau Lleol.</p>	<p>O dan amodau'r grantiau, mae'n rhaid i bob ymgeisydd weithredu'n ddwyieithog i dderbyn grant. Mae hyn yn cynnwys -</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cynhyrchu'r holl ddeunydd ysgrifenedig ac electronig sy'n gysylltiedig â'r cais yn ddwyieithog – er enghraifft arwyddion, taflenni, posteri, cyhoeddiadau, hysbysebion, gwefannau ac unrhyw slogan.</li> </ul>	<table border="1"> <thead> <tr> <th></th> <th>Nifer o geisiadau</th> <th>Cyfanswm dosbarthwyd</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>2017/18 –</td> <td>76</td> <td>£189,344</td> </tr> <tr> <td>2018/19 –</td> <td>77</td> <td>£197,826</td> </tr> <tr> <td>2019/20 –</td> <td>90</td> <td>£243,689</td> </tr> <tr> <td>2020/21 –</td> <td>17</td> <td>£92,794</td> </tr> <tr> <td>2021/22 –</td> <td>28</td> <td>£119,567</td> </tr> </tbody> </table>		Nifer o geisiadau	Cyfanswm dosbarthwyd	2017/18 –	76	£189,344	2018/19 –	77	£197,826	2019/20 –	90	£243,689	2020/21 –	17	£92,794	2021/22 –	28	£119,567	Gwasanaeth Gyllid CS Ceredigion
	Nifer o geisiadau	Cyfanswm dosbarthwyd																			
2017/18 –	76	£189,344																			
2018/19 –	77	£197,826																			
2019/20 –	90	£243,689																			
2020/21 –	17	£92,794																			
2021/22 –	28	£119,567																			

		<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau y bydd digwyddiadau neu weithgareddau cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r cais yn peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. er enghraifft, cyhoeddiadau o'r uchelseinydd, Cadeirydd i sicrhau bod y rheiny sy'n bresennol yn y digwyddiad yn teimlo'n gyfforddus i gyfrannu yn eu dewis iaith.</li> <li>Cynorthwyo i ddarparu cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg</li> </ul>	<table border="1"> <tr> <td>Cyfanswm</td> <td>288</td> <td>£843,220</td> </tr> <tr> <td>-</td> <td></td> <td></td> </tr> </table> <p>Mae'r gostyngiad oherwydd sgil effaith Cofid 19.</p> <p>2021/22: 5/28 wedi cyflwyno eu ceisiadau yn Gymraeg. 18%</p>	Cyfanswm	288	£843,220	-			
Cyfanswm	288	£843,220								
-										
	<p>Gwasanaeth TG CSC yn ogystal â chyrrff eraill i edrych am gyfleodd cynyddol i gynnwys y Gymraeg mewn technoleg, gan gynnwys systemau TG newydd, sefydliadau partner Fforwm Dyfodol Dwyieithog i godi ymwybyddiaeth, er mwyn cynyddu defnydd o ryngwynebau cyfrwng Cymraeg ee Microsoft, Facebook, apiau</p>	<p>Mae'r Gwasanaeth TG wrthi'n diweddarau meddalwedd, ac yn gosod Microsoft 365apps Office ar beiriannau staff. Mae yna wirydd sillafu Cymraeg yn Office.</p> <p>Mae modd defnyddio rhyngwyneb Microsoft yn Gymraeg, a ceir cyfarwyddiadau sut i wneud hyn ar CeriNet.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol yn cynnal CeriNet mewnwyd y Cyngor – mae'r mewnwyd yn gweithio yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae angen dewis iaith o'r tudalen gartref, ac yna gellid symud o un tudalen i un arall yn yr iaith ddewisol</p> <p>Mae Swyddog Polisi Iaith yn cynnal tudalennau 'Iaith ar Waith' ar CeriNet (mewnwyd y Cyngor) sy'n darparu deunydd cymorth i hybu'r Gymraeg ac i gynorthwyo staff i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd angen cynnal adolygiad o gynnwys y tudalennau, a diweddarau yn y flwyddyn i ddod.</p>	<p>Defnydd o'r Gymraeg mewn prosiectau Technoleg Gwybodaeth yn cynyddu ar draws y Cyngor</p>	<p>Gwasanaeth TG</p>						

	<p>Darparu gwybodaeth i newydd-ddyfodiad drwy gyfrwng gwefan symud i Geredigion</p>	<p>Yn dilyn cais llwyddiannus ar gyfer grant Cynnal y Cardi, wedi penderfynu llunio prosiect 'Croeso Ceredigion;</p> <p>Bwriad y prosiect yw cynnal hyfywedd cymunedau trwy amlygu'r cyfleoedd sydd ar gael i gyfrannu a chefnogi'n lleol, ac i helpu personau i ddeall sut mae'r Gymraeg yn gweu i fewn i fywyd diwylliannol a chymdeithasol y Sir. Bydd y prosiect yn gynhwysol, gan ddwyn ynghyd siaradwyr Cymraeg, siaradwyr swil, dysgwyr y di-Gymraeg a'r rhain sy'n gwbl newydd i'r Gymraeg. Bydd y prosiect yn anelu at sicrhau perchnogaeth gan y gymuned, gan arfogi'r gymuned ei hunain i fynd i'r afael a'r heriau sy'n gysylltiedig â mewnfudwyr.</p> <p><b>Cynhyrchu Cerdyn Post gweledol</b>, fydd yn gosod Cod QR sy'n cyfeirio newydd ddyfodiaid at becyn croeso.</p> <p><b>Cynhyrchu e-lyfr</b> sy'n rhoi cyflwyniad i fywyd mewn Sir ddwyieithog.</p> <p>Fel rhaglen beilot dethol <b>3 Cyngor Cymuned a Threfol</b>, lle bo problem mewnfudo fwyaf amlwg. Gweithio gyda'r Cyngor i weithredu cynllun gweithredu lleol</p> <p><b>Gweithdai cymunedol</b> (targedu grwpiau cymdeithasol sydd wedi sefydlu'n barod yn yr ardal leol) – gweithio'n agos gyda cymunedau i'w harfogi i fynd i'r afael a'r heriau sy'n gysylltiedig â mewnfudwyr.</p>	<p>Mae'r adnoddau yn cael eu dylunio ar hyn o bryd, a bydd y gwaith cymunedol yn dechrau ym mis Mawrth.</p>	<p>Uned Iaith Gymraeg Menter Iaith Cered</p>
--	---	--	---	--

**CYNGOR SIR CEREDIGION****Adroddiad i'r: Cabinet****Dyddiad y cyfarfod: 06/06/23****Teitl: Ysgol Ardal Newydd Dyffryn Aeron – Contract Adeiladu****Pwrpas yr adroddiad: Ystyried y trefniadau contractiol ar gyfer Ysgol Ardal Newydd Dyffryn Aeron fel y gellid bwrw ymlaen â'r gwaith cyn gynted ag y bo modd.****Er Penderfyniad**

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Wyn Thomas – Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau  
Y Cynghorydd Gareth Davies - Cyllid a Chaffael  
Y Cynghorydd Clive Davies - Economi ac Adfywio**

**1. Cefndir**

Yn dilyn proses mini-dendr, penodwyd C Wynne & Sons Ltd (sy'n masnachu fel Wynne Construction) ym mis Gorffennaf 2022 i gyflenwi ysgol ardal 3-11 newydd yn nyffryn Aeron sef Ysgol Dyffryn Aeron. Rhoddwyd trefniadau caffael ar waith ar gyfer contract Dylunio ac Adeiladu dau gam o dan Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De-orllewin Cymru. Ar 12 Gorffennaf 2022, dyfarnwyd tendr gwerth £322,000 ar gyfer y cam dylunio cychwynnol.

Dyma'r cerrig milltir allweddol sydd wedi'u cyflawni hyd yma:

- i) Ym mis Tachwedd 2019, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru Raglen Amlinellol Strategol ar gyfer gweithgarwch Ysgolion yr 21ain Ganrif gan roi dyraniad cyfalaf o £15.3m mewn egwyddor. Yn ystod y cyfnod cynnar iawn hwn cyn COVID, roedd hyn yn cynnwys amcangyfrif o £7.1m mewn perthynas ag Ysgol Dyffryn Aeron.
- ii) Cyflawnwyd Cam 2 RIBA (Dylunio Cysyniad) ym mis Hydref 2022.
- iii) Ar ôl hynny, bu i Lywodraeth Cymru ystyried a chymeradwyo'r Achos Amlinellol Strategol penodol ar gyfer Ysgol Dyffryn Aeron a chafwyd caniatâd i symud ymlaen i'r Achos Busnes Amlinellol ar 20/12/22. Ar yr adeg hon, amcangyfrifwyd y byddai'r gost oddeutu £10.9m.
- iv) Cafodd yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Ysgol Dyffryn Aeron ei ystyried a'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru wedi hynny a chafwyd caniatâd i symud ymlaen i'r Achos Busnes Llawn ar 30/03/23. Ar yr adeg hon, amcangyfrifwyd y byddai'r gost oddeutu £12m.
- v) Cyflawnwyd Cam 3 RIBA (Dyluniad Datblygiedig) ym mis Chwefror 2023.
- vi) Rhoddwyd caniatâd cynllunio llawn yng nghyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar 10 Mai 2023.

Cyflwynwyd yr Achos Busnes Llawn i Lywodraeth Cymru ar 5 Mai 2023 ar ôl derbyn a dadansoddi'r prisiau ar gyfer y prif waith adeiladu ac addasu swm arfaethedig y prif contract.

Cafodd yr Achos Busnes Llawn ei ystyried a'i gefnogi yng nghanam cyntaf proses ystyried Achosion Busnes Llawn Llywodraeth Cymru ar 18 Mai 2023 a bydd yn awr yn cael ei ystyried gan Banel Buddsoddi Cyfalaf Llywodraeth Cymru ar 15 Mehefin 2023. Os bydd yn llwyddiannus yn dilyn y cam hwnnw, caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud ar gyfer cymeradwyaeth weinidogol. Os byddai'r Cynllun yn cael ei gymeradwyo gan y Gweinidog, byddai gohebiaeth ffurfiol oddi wrth Lywodraeth Cymru ar ffurf llythyr cynnig grant, ac ati, yn dilyn hynny ond mae'n bosib na fydd hyn yn digwydd tan fis Gorffennaf.

Hyd yma, mae'r Cyngor wedi gwario ychydig yn fwy na £0.75m ar y Cynllun hwn ac mae'r costau hyn wedi cynnwys prynu'r tir, ffioedd dylunio'r penseiri a ffioedd cysylltiedig (e.e. cynllunio, rheoliadau adeiladu ac archwilio'r tir). Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu'r cyllid hyd yma ar y ddealltwriaeth, wrth dderbyn a defnyddio'r cyllid hwn, mai'r Cyngor fyddai'n ysgwyddo'r risg pe na fyddai'r Cynllun yn cael ei gymeradwyo yng nghanam terfynol yr Achos Busnes Terfynol.

## **2. Y sefyllfa bresennol a'r dull gweithredu a gynigir**

Er mwyn medru bwrw ymlaen â'r gwaith yn y ffordd fwyaf hwylus bosibl, ac yn benodol er mwyn medru dechrau ar y safle cyn gynted ag y bo modd yn ystod yr haf, mae'r tîm cyflenwi wedi nodi gwaith galluogi ac elfennau allweddol y byddai modd eu datblygu er mwyn lleihau unrhyw gyfyngiadau ar amserlen y rhaglen.

Felly, cynigir dechrau ar rai agweddau hanfodol o'r gwaith adeiladu cyn derbyn y dogfennau cynnig grant ffurfiol oddi wrth Lywodraeth Cymru. Cynigir gwneud hyn drwy 'Lythyr o Fwriad' ac mae'r lefel ofynnol o waith yr ystyrir sy'n hanfodol yn cynnwys y canlynol:

- Gwaith rhagarweiniol o ran y contract
- Gwaith hwyluso
- Cloddio swmp
- Dylunio'r Strwythurau Cynnal
- Tanciau Storio Dŵr Glaw
- Gwaith dylunio o ran y Fframiau Pren SIP a blaendal i sicrhau'r deunyddiau a dechrau eu cynhyrchu

Mae gwerth yr eitemau hyn (ac felly uchafswm y risg y mae'r Cyngor yn ei wynebu) yn £1.276m. Byddai'r swm a fyddai'n cael ei wario yn ystod cyfnod y llythyr arfaethedig o fwriad yn cael ei ddiwyddu o'r hyn a gytunwyd iddo fel swm terfynol y Contract.



### **3. Sefyllfa ariannol**

Erbyn hyn, mae disgwyl i gyfanswm cost y prosiect gyrraedd £16.3m sy'n cynnwys contract adeiladu arfaethedig ar gyfer y prif waith adeiladu a fydd oddeutu £14.7m.

Mae disgwyl i grant gan Lywodraeth Cymru ariannu 65% o gost y cynllun ac arian cyfatebol gan Gyngor Sir Ceredigion i ariannu'r 35% arall. Er hynny, mae disgwyl y bydd cyllid Llywodraeth Cymru yn ariannu'r agweddau Gofal Plant a Charbon Net Sero yn llawn (100%) ac yn ariannu 75% o'r agwedd Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Oherwydd y cynnydd yng nghyfanswm y gost, bydd angen i gyfraniad arian cyfatebol y Cyngor gynyddu o'r £3.5m sydd wedi'i neilltuo ar hyn o bryd i oddeutu £4.6m. Mae hyn yn golygu y bydd angen oddeutu £1.1m yn ychwanegol o'r Derbyniadau Cyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf Graidd. Mae'r Swyddogion wedi cymryd camau rhagweithiol er mwyn lleihau'r cynnydd hwn, drwy gyflwyno achos busnes am gyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer amrywiol elfennau ar gyfraddau ymyrraeth uwch o ran y grantiau.

### **4. Derbyn Tendr ar gyfer y Contract Adeiladu**

Er mwyn sicrhau bod modd rhoi'r camau nesaf ar waith ar ôl i'r Llythyr o Fwriad ddod i law, fel y gall y gwaith ar y safle barhau heb unrhyw oedi, cynigir bod y Cabinet hefyd yn awr yn ystyried tendr y contract ar gyfer y prif waith adeiladu. Wrth ystyried hyn, rhaid pwysleisio nad oes ond modd derbyn y tendr adeiladu llawn ar ôl i Lywodraeth Cymru hysbysu'n ffurfiol bod yr Achos Busnes Terfynol wedi'i gymeradwyo'n llwyddiannus a bod y cyllid wedi'i gadarnhau.

Gan fod yr elfen adeiladu eisoes wedi bod drwy'r weithdrefn gaffael fel rhan o'r Contract Dylunio ac Adeiladu o dan Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De-orllewin Cymru, nid oes angen cynnal gwerthusiad arall cyn dyfarnu. Mae'r cefndir i benodiad gwreiddiol C Wynne & Sons Ltd (sy'n masnachu fel Wynne Construction) i'w weld yn Atodiad 1 (EITHRIEDIG).

Mae'r swm arfaethedig ar gyfer y contract felly wedi'i chyfrifo gan ddefnyddio'r hyn a gyflwynwyd gan y contractwr ynghyd â'r gwaith gwirio a dilysu dilynol gan yr ymgynghorwyr allanol a gyflogwyd ar y prosiect a'r swyddogion mewnol.

Felly, cynigir yn awr mai £14,656,660 fydd swm y prif gontract ar gyfer y cam adeiladu. Mae angen cymeradwyaeth y Cabinet wrth dderbyn tendr ar gyfer contractau fframwaith sy'n fwy na £3m.

### **5. Casgliad**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n llawn i gynllun Ysgol Dyffryn Aeron, ac mae'r costau o brynu'r tir a dylunio eisoes wedi'u hymrwymo fel costau suddedig (costau a ysgwyddwyd ond na ellir eu hadennill), er eu bod wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru ar sail risg, gyda'r Cyngor ar hyn o bryd yn ysgwyddo'r risg honno. Mae'r datblygiad hwn yn un allweddol sy'n cefnogi un o'r Amcanion Llesiant

Corfforaethol sef 'Darparu'r Dechrau Gorau mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu' ac mae'n ymrwymiad penodol yn Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027.

Mae'r farchnad adeiladu ar ôl COVID yn un hynod o heriol ac mae chwyddiant ym maes adeiladu yn newidiol ac yn anodd ei ragweld. Hefyd, mae llawer o broblemau ymarferol yn parhau o ran y gadwyn gyflenwi. Gallai rhagor o oedi arwain at gostau uwch oherwydd chwyddiant ynghyd â heriau o ran amserlen y rhaglen.

Mae'r Cyngor wedi amddiffyn ei hunan cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol bosibl drwy gymryd cyngor cyfreithiol priodol ynghylch cynnwys y Llythyr arfaethedig o Fwriad. Mae'r dull hwn o weithredu yn gyffredin yn y diwydiant adeiladu, a'r prif ystyriaethau yw lefel y risg yn gyffredinol ac i ba raddau yr ydym yn agored i hynny. Caiff hyn ei gydbwysu yn erbyn y canlyniadau cyffredinol y mae'r cynllun yn bwriadu eu cyflawni a'r risgiau sy'n gysylltiedig ag oedi.

Trafodwyd y cynnig hwn â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael (Swyddog Adran 151) ac ar yr amod nad yw'r Llythyr arfaethedig o Fwriad yn cael ei lofnodi'n ffurfiol na'i gyhoeddi hyd nes y cawn ryw fath o gadarnhad oddi wrth Lywodraeth Cymru bod Panel Buddsoddi Cyfalaf Llawn Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r Achos Busnes Terfynol ar 15 Mehefin 2023 a bod yr achos yn cael ei argymhell ar gyfer cymeradwyaeth weinidogol (gan dderbyn mai cadarnhad anffurfiol yn unig fydd hwn yn y lle cyntaf) ac na fydd gan Lywodraeth Cymru ddim gwrthwynebiad i'r Cyngor fwrw ymlaen cyn bod llythyr Cynnig Grant Llywodraeth Cymru yn dod i law ac yn cael ei dderbyn, yna bydd lefel y risg sydd ynghlwm wrth y dull gweithredu arfaethedig hwn yn un gymharol isel. Os byddai canlyniad Panel Cyfalaf Llawn Llywodraeth Cymru yn un negyddol, ni fyddai'r Llythyr o Fwriad yn mynd rhagddo gan na fyddai Achos Busnes Terfynol y prosiect wedi'i gymeradwyo.

Bydd defnyddio'r dull gweithredu Llythyr o Fwriad a derbyn tendr wedi hynny fel ein bod yn barod i ddechrau'r gwaith yn hwyluso pethau gan ganiatáu i'r contractwr gael popeth ynghyd a galluogi iddo ddechrau ar y safle yn gynt. Rydym yn gwneud hyn gan wybod mai'r unig rwystrau sy'n weddill yw cymeradwyaeth derfynol y Gweinidog a llythyr cynnig grant ffurfiol Llywodraeth Cymru. Hefyd, bydd angen rhoi ar waith y gofynion gweithredol arferol ar gyfer prosiect o'r gwerth hwn gan gynnwys Cyfrif Banc Prosiect a Bond Perfformiad.

Mae'r Grŵp Arweiniol a Bwrdd Prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r sefyllfa bresennol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â hyn ac maent yn cytuno â'r hyn a gynigir.

	<b>A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam?</b>	Ddim yn berthnasol
<b>Llesiant</b>	<b>Crynodeb:</b>	
<b>Cenedlaethau'r</b>	<b>Hirdymor:</b>	
<b>Dyfodol:</b>	<b>Cydweithio:</b>	
	<b>Cynnwys:</b>	
	<b>Atal:</b>	
	<b>Integreiddio:</b>	

<b>Argymhellion:</b>	Gofynnir i'r Cabinet wneud y canlynol: <ol style="list-style-type: none"><li>1. Cymeradwyo rhoi Llythyr o Fwriad i C Wynne &amp; Sons Ltd (sy'n masnachu fel Wynne Construction) gwerth hyd at £1.276m fel yr amlinellir yn yr adroddiad.</li><li>2. Derbyn y tendr oddi wrth C Wynne &amp; Sons Ltd (sy'n masnachu fel Wynne Construction) ar gyfer y contract adeiladu gwerth £14,656,660 ar gyfer Ysgol Dyffryn Aeron, <u>yn amodol</u> ar y ffaith na fydd y contract hwn yn mynd rhagddo hyd nes y bydd Llywodraeth Cymru wedi hysbysu'n ffurfiol bod yr Achos Busnes Terfynol wedi'i gymeradwyo a bod y cyllid wedi'i gadarnhau.</li><li>3. Nodi, o dybio y bydd Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r Achos Busnes Terfynol wedi hynny, y bydd gofyn i'r Cyngor neilltuo arian cyfatebol ychwanegol o oddeutu £1.1m yn niweddariad nesaf y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn.</li></ol>
<b>Rhesymau dros y penderfyniad:</b>	Er mwyn caniatáu i'r gwaith o adeiladu ysgol ardal newydd yn Nyffryn Aeron ddechrau ar y safle cyn gynted ag y bo modd.
<b>Trosolwg a Chraffu:</b>	Ddim yn berthnasol
<b>Fframwaith Polisi:</b>	Ddim yn berthnasol
<b>Amcanion Llesiant Corfforaethol:</b>	Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu
<b>Y goblygiadau o ran Cyllid a Chaffael:</b>	Wedi'u hamlinellu yng nghorff yr adroddiad.
<b>Y goblygiadau cyfreithiol:</b>	Mae'r gwasanaeth Cyfreithiol a Llywodraethu yn paratoi'r llythyr arfaethedig o fwriad.
<b>Y goblygiadau o ran staff:</b>	Ddim yn berthnasol
<b>Y goblygiadau o ran eiddo / asedau:</b>	Ddim yn berthnasol
<b>Risgiau:</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Pe na fyddai'r Achos Busnes Terfynol yn cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, byddai'n rhaid i Gyngor dalu'r holl gostau suddedig hyd yma (h.y. y costau a ysgwyddwyd ond na ellir eu hadennill)</li><li>• Pe byddai'r gwaith yn dechrau yn yr hydref, byddai oedi o ran agor yr ysgol newydd</li><li>• Er bod maint y contract o gymharu â'r amcangyfrif gwreiddiol wedi cynyddu, ystyrir bod hyn yn risg isel o ran tebygolrwydd a gwerth.</li></ul>

**Pwerau Statudol:**

**Papurau Cefndir:** Ddim yn berthnasol

**Atodiadau:** Atodiad 1 – EITHRIEDIG – Gweithdrefnau Caffael o ran y Gwaith Dylunio ac Adeiladu gwreiddiol

**Swyddogion Arweiniol Corfforaethol:** Elen James – Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes a Diwylliant  
Clive Williams – Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion  
Duncan Hall – Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael  
Russell Hughes-Pickering – Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio

**Swyddogion Adrodd:** Allan Bailey  
Nia James  
Duncan Hall  
George Ryley

**Dyddiad:** 24/05/23

# Tudalen 397

By virtue of paragraph(s) 14 of Part 1 of Schedule 12A  
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**CYNGOR SIR CEREDIGION****Adroddiad i'r: Cabinet****Dyddiad y Cyfarfod: 06 Mehefin 2023****Teitl: Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrrff Llywodraethol****Pwrpas yr adroddiad: Cadarnhau enwebu Cynrychiolydd Awdurdod Lleol ar Gorff Llywodraethol****Er: Penderfyniad****Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet ar gyfer Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

**Ysgol Gynradd Gymunedol Bro Sion Cwilt:** Enwebu Jemma Nelson fel Llywodraethwr Awdurdod Lleol ar gais Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd Gymunedol Bro Sion Cwilt.

**Ysgol Gynradd Gymunedol Llechryd:** Ail-enwebu Nicola Redmond fel Llywodraethwr Awdurdod Lleol ar gais Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd Gymunedol Llechryd.

**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam** Na – nid yw'r adroddiad yn cyfeirio at newid Polisi neu Wasanaeth.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

**Crynodeb:  
Hirdymor:  
Cydweithio:  
Cynnwys:  
Atal:  
Integreiddio:**

**Argymhelliad / Argymhellion:**

Gofynnir i Aelodau gadarnhau'r enwau a enwebwyd uchod fel cynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol ar Gyrrff Llywodraethol yr Ysgolion perthnasol.

**Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:**

Enwebu cynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol ar Gyrrff Llywodraethol.

**Trosolwg a Chraffu:** Amherthnasol**Fframwaith Polisi:****Amcanion Llesiant Corfforaethol:** Amherthnasol

## Tudalen 400

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** Dim

**Goblygiadau cyfreithiol:**

**Goblygiadau staffio:** Dim

**Goblygiadau eiddo / asedau:** Dim

**Risg(iau):** Amherthnasol

**Pwerau Statudol:** Amherthnasol

**Papurau Cefndir:** Amherthnasol

**Atodiadau:** Amherthnasol

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol

**Swyddog Adrodd:** Nia James, Rheolwr Corfforaethol, Adnoddau Dysgu, Gwasanaethau Ysgolion

**Dyddiad:** 16/05/2023



## CYNGOR SIR CEREDIGION

<b>Adroddiad i'r:</b>	Cabinet
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	6 Mehefin 2023
<b>Teitl:</b>	Strategaeth Gorllewin Cymru ar Famolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar
<b>Pwrpas yr adroddiad:</b>	Cael cymeradwyaeth ar gyfer mabwysiadu Strategaeth Gorllewin Cymru ar Famolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar, o safbwynt awdurdod lleol Ceredigion
<b>Er:</b>	Penderfyniad
<b>Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:</b>	Y Cyngorydd Alun Williams, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gydol Oes a Llesiant

### CEFNDIR:

Yn 2018 roedd Llywodraeth Cymru wedi gwahodd cynigion gan Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd i fod yn fraenarwyr (*Pathfinders*) ar gyfer Rhaglen Trawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar. Cyflwynwyd cais gan Awdurdodau Lleol Ceredigion a Sir Gaerfyrddin, ar y cyd â Bwrdd Iechyd Hywel Dda, i fod yn ardaloedd braenaru. Cafwyd cyllid (2019 - 2024) i beilota a phrofi ffyrdd o Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar, a ffurfiwyd Grŵp Llywio Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar. Ym mis Ionawr 2021, llwyddodd Sir Benfro â'u cais nhw i ymuno â'r Rhaglen Fraenaru ac felly mae pob Awdurdod Lleol ym mhatrwm daearyddol Hywel Dda wedi bod ynghlwm â'r Rhaglen.

Yn 2021/ 2022 bu cynrychiolwyr o'r tri Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn cydweithio i lunio Strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Gorllewin Cymru.

### Y SEFYLLFA BRESENNOL:

Mae'r Strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Gorllewin Cymru wedi ei llywio gan agenda Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mwy integredig, fel y nodwyd yn Neddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar gefnogaeth yn ystod 7 mlynedd gyntaf y plentyn, gan gydnabod pwysigrwydd y blynyddoedd ffurfiannol hyn wrth siapio iechyd a lles y plentyn at y dyfodol.

Ymgynghorwyd yn eang ar y strategaeth ddrafft gyda gweithwyr proffesiynol a defnyddwyr gwasanaethau ledled y rhanbarth, a gwnaed gwelliannau ar sail yr adborth a gafwyd. Roedd yr ymgynghoriad ar agor rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi 2022 a dyma'r ymatebion a gafwyd:

- Ymgynghoriad ar-lein – 54 o ymatebion
- Grwpiau ffocws rhieni – 55 wedi cymryd rhan

## Tudalen 402

- Grwpiau ffocws gweithwyr proffesiynol – 28 wedi cymryd rhan
- Cafwyd ymatebion oddi wrth: Tîm Gofal Plant; Nyrsys Ysgol; Tîm Bydwreigiaeth; Tîm Ymwelwyr Iechyd; Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg; Tîm Therapi Iaith a Lleferydd
- Yn ogystal, yng Ngheredigion, cafwyd cyfarfodydd gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Aelod Cabinet dros Lesiant Gydol Oes i ystyried y strategaeth ddrafft.

Mae'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth a'r wefan wedi cael ei oruchwylio gan y Grŵp Llywio Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar.

Nod y Strategaeth yw hyrwyddo cydweithio rhwng gwasanaethau cymorth yn y cyfnodau cyn geni a'r Blynyddoedd Cynnar. Mae'r strategaeth i'w gweld ar wefan Strategaeth Gorllewin Cymru ar gyfer Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar sy'n ffrwyth cydweithio rhwng awdurdodau lleol Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a phartneriaid trydydd sector (mae'r strategaeth ar gael hefyd ar ffurf PDF ar y wefan).

Ar sail ymgynghori helaeth gyda Defnyddwyr Gwasanaethau a Gweithwyr Proffesiynol y Blynyddoedd Cynnar, lluniwyd Strategaeth Gorllewin Cymru ar Famolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar gyda'r nod o hyrwyddo gwasanaethau rhagorol ar bob cam o Famolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar. Nod y strategaeth yw cyflawni'r canlynol:

- Ymgysylltu'n gadarnhaol/ ymyrryd yn gynnar gyda theuluoedd yn y cyfnod cyn geni
- Ymgysylltu'n gadarnhaol gyda theuluoedd yn y Blynyddoedd Cynnar
- Pontio'n gadarnhaol rhwng Gofal Plant ac addysg y Blynyddoedd Cynnar

Yn ogystal, nodwyd pum thema strategol fel cyfrwng i gyflawni'r amcanion uchod:

- Integreiddio ein gwasanaethau
- Cymryd agwedd sy'n canolbwyntio ar y person wrth ddylunio gwasanaethau
- Datblygu seilwaith a systemau technolegol i alluogi cydweithio
- Datblygu ein Gweithlu
- Darparu gwybodaeth hygyrch

**Llesiant  
Cenedlaethau'r  
Dyfodol:**

**Oes Asesiad Effaith Oes  
Integredig wedi ei gwblhau?  
Os na, esboniwch pam**

**Crynodeb:**

**Hirdymor:**

Daw'r strategaeth i ben yn 2027 ac mae'n nodi'r weledigaeth hirdymor ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar yng ngorllewin Cymru.

**Cydweithio:**

Mae'r strategaeth yn ffrwyth cydweithio rhwng Bwrdd Iechyd Hywel Dda ac Awdurdodau Lleol Ceredigion, Sir Gâr a Sir Benfro, ynghyd â phartneriaid o'r trydydd

## Tudalen 403

	<p>sector. Caiff y strategaeth ei goruchwyllo gan grŵp llywio rhanbarthol sy'n cynnwys aelodau o bob sefydliad.</p>
<b>Cynnwys:</b>	<p>Ymgysylltwyd â defnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol er mwyn bwydo i'r gwaith o ysgrifennu'r strategaeth a chynhaliwyd grwpiau ffocws â defnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol fel rhan o'r gwaith ymgynghori ynghylch y strategaeth ddrafft.</p>
<b>Atal:</b>	<p>Canolbwyntia'r strategaeth ar y Blynyddoedd Cynnar a sut y gall gwasanaethau weithio gyda'i gilydd i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant rhwng 0 a 7 oed.</p>
<b>Integreiddio:</b>	<p>Mae'r strategaeth yn nodi sut rydym yn bwriadu darparu gwasanaethau Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar sydd wedi'u hintegreiddio'n well ac sy'n fwy effeithlon ac effeithiol ar gyfer teuluoedd yng ngorllewin Cymru. Integreiddio yw un o bum thema strategol y strategaeth.</p>
<b>Argymhelliad / Argymhellion:</b>	<p>Dylai'r Cabinet gymeradwyo Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Gorllewin Cymru.</p>
<b>Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:</b>	<p>Ymgynghorwyd yn helaeth ynghylch y strategaeth ac mae'n cynnig fframwaith ar gyfer darparu'r Gwasanaethau Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar mwyaf effeithiol yn ardal Hywel Dda.</p>
<b>Trosolwg a Chraffu:</b>	<p>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach</p>
<b>Fframwaith Polisi:</b>	<p>Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (2013) Llywodraeth Cymru. Rhaglen Plant Iach Cymru (2021) Llywodraeth Cymru. Gofal Mamolaeth yng Nghymru: Gweledigaeth 5 Mlynedd ar gyfer y Dyfodol (2019-2024) Llywodraeth Cymru. Cynllun Plant a Phobl Ifanc (2022) Llywodraeth Cymru. Y Cwricwlwm i Gymru (2022) Llywodraeth Cymru.</p>
<b>Amcanion Llesiant Corfforaethol:</b>	<p>Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 – Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd. Strategaeth Llesiant Gydol Oes Ceredigion 2021-2027.</p>
<b>Goblygiadau Cyllid a Chaffael:</b>	<p>Dim</p>

## Tudalen 404

<b>Goblygiadau cyfreithiol:</b>	Dim
<b>Goblygiadau staffio:</b>	Dim
<b>Goblygiadau eiddo / asedau:</b>	Dim
<b>Risg(iau):</b>	Dim
<b>Pwerau Statudol:</b>	Dim
<b>Papurau Cefndir:</b>	<a href="#"><u>Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Gorllewin Cymru – Working together to give children the best start in life (strategaethblynyddoeddcynnargorllewin.cymru)</u></a>
<b>Atodiadau:</b>	Atodiad 1 - Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar - Strategaeth ar gyfer Gorllewin Cymru  Atodiad 2 - Asesiad Effaith Integredig
<b>Swyddog Arweiniol Corfforaethol:</b>	Greg Jones, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cymorth Cynnar
<b>Swyddog Adrodd:</b>	Iwan Davies, Rheolwr Corfforaethol ar gyfer Ymyrraeth Cynnar
<b>Dyddiad:</b>	15.05.23

**Mamolaeth a'r  
Blynyddoedd Cynnar**  
Strategaeth ar gyfer Gorllewin Cymru

# ein strategaeth



## Gwasanaethau rhagorol ar bob cam

Yn seiliedig ar yr hyn a wyddom am y dirwedd gwasanaethau presennol a'r hyn rydym wedi'i ddysgu gan deuluoedd a gweithwyr proffesiynol y blynyddoedd cynnar, nod ein strategaeth ar gyfer 2022-26 yw sicrhau:



### **Ymgysylltu cadarnhaol/ymyrraeth gynnar â theuluoedd ar y cam cyn-geni**

Sicrhau bod gwasanaethau arbenigol yn darparu cymorth i baratoi teuluoedd ar gyfer bod yn rhiant a chynig cymorth cyn gynted â phosibl.



### **Ymgysylltu cadarnhaol â theuluoedd yn ystod y Blynyddoedd Cynnar**

Sicrhau bod ein hanghenion teuluol wrth wraidd gwasanaethau cydgysylltiedig, fel bod teuluoedd yn cael mynediad at y cymorth cywir ar yr adeg gywir.



### **Pontio cadarnhaol o ofal plant i addysg y Blynyddoedd Cynnar**

Sicrhau proses bontio ddi-dor ar gyfer pob plentyn a rhiant o leoliadau cyn ysgol i addysg y blynyddoedd cynnar.





## 1. Integreiddio ein gwasanaethau

### Mae angen hyn arnom oherwydd:

- Mae gweithio ar wahân yn creu rhwystrau rhwng gwasanaethau a bylchau y gall teuluoedd lithro rhyngddynt
- Gwyddom fod teuluoedd (yn enwedig teuluoedd mewn angen) yn cael gofal gwell pan fydd gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd
- Mae adnoddau dan bwysau; trwy gydweithio, gallwn osgoi dyblygu, lleihau gwastraff ac adeiladu ar waith ein gilydd

### Mae angen:

- Gwneud penderfyniadau ar y cyd wedi'i ategu gan rannu gwybodaeth
- Systemau ar gyfer cydweithio rhwng cynghorau
- Dull seiliedig ar le o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys timau'r Blynyddoedd Cynnar wedi'u cydleoli lle bo'n briodol
- Cyfathrebu gwell rhwng gwasanaethau
- Perthnasoedd mwy cadarnhaol rhwng grwpiau proffesiynol
- Gweithlu wedi'i ysgogi a'i rymuso i weithio ar draws ffiniau gwasanaethau
- Gweithlu sy'n teimlo fel un tîm, yn cyd-dynnu i gyflawni'r un nodau

### Byddwn yn cyrraedd yno trwy:

- Sefydlu mwy o dimau wedi'u cydleoli ar draws y rhanbarth
- Archwilio opsiynau ar gyfer comisiynu ar y cyd neu gydgomisiynu
- Dysgu o werthusiadau o waith peilot braenaru
- Helpu gweithwyr proffesiynol i gasglu adborth gan deuluoedd fel y gellir ei ddefnyddio wrth gynllunio a gweithgareddau cyd-ddylunio gwasanaethau yn y dyfodol



## 2. Mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn at gynllunio gwasanaethau



### Mae angen hyn arnom oherwydd:

- Rydym am gynnig gwasanaethau hygyrch y mae teuluoedd am eu defnyddio
- Gyda'r adnoddau presennol mae'n anodd cynllunio gwasanaethau i fod yn wirioneddol person-ganolog
- Nid ydym yn gwybod digon am anghenion ein holl ddefnyddwyr gwasanaeth ac nid ydym yn cydnabod pa mor wahanol yw'r anghenion hyn, na sut y maent yn newid dros amser.
- Gall teuluoedd deimlo eu bod yn cael eu tanseilio a'u gadael ar eu pennau eu hunain pan nad yw gwasanaethau yn adeiladu o'u cryfderau yn ogystal â'u hanghenion

### Mae angen:

- Ymchwil rheolaidd gyda defnyddwyr gwasanaeth a dolenni adborth syml fel y gallwn weld ein gwasanaethau a'n gweithlu trwy lygaid y teuluoedd sy'n dibynnu arnynt
- Datblygu sgiliau gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar fel eu bod wedi'u paratoi'n well i adnabod cryfderau teuluoedd a gwrando ar anghenion teuluoedd
- Gwasanaethau a arweinir gan y gymuned a gomisiynir o'r gwaelod i fyny
- Nodi a dileu rhwystrau i fynediad at wasanaethau, e.e. trwy gael gwasanaethau i weithio'n well ar draws ffiniau cynghorau
- Llai o fiwrocratiaeth

### Byddwn yn cyrraedd yno trwy:

- Cyllidebu ar gyfer ymgynghoriad rheolaidd â defnyddwyr gwasanaeth
- Gwneud mwy o hyfforddiant a datblygiad cyd-ddylunio'r gweithlu i helpu gweithwyr proffesiynol i ddal a chynrychioli lleisiau teuluoedd
- Cynyddu cydweithio rhanbarthol ac integreiddio gwasanaethau
- Chwilio am ffyrdd o fuddsoddi mewn gwasanaethau a arweinir gan y gymuned





### 3. Datblygu seilwaith a systemau technoleg er mwyn gallu cydweithio

#### Mae angen hyn arnom oherwydd:

- Nid oes gan weithwyr proffesiynol gwasanaethau fynediad at y wybodaeth ddiweddaraf a rennir am deuluoedd sy'n golygu bod rhaid i aelodau'r teulu ailadrodd hanes eu hachos yn gyson ym mhob cyfarfod ac ymgynghoriad
- Ni all staff mewn cynghorau, gwasanaethau a phroffesiynau gwahanol rannu gwybodaeth yn hawdd ac yn ddiogel ar draws ffiniau sefydliadol
- Gall plant gael eu colli pan fydd atgyfeiriadau'n anghyflawn neu'n cael eu gohirio oherwydd rhwystrau system eraill
- Hoffem wella ein dulliau monitro targedau gwasanaeth a'i gwneud yn hawdd i olrhain canlyniadau ar gyfer plant unigol ac ar gyfer ein poblogaeth y Blynyddoedd Cynnar

#### Mae angen:

- Ffordd i weithwyr proffesiynol gwasanaethau ar draws y rhanbarth gael mynediad hawdd, diweddar a rhannu gwybodaeth am y teulu, o'r ddyfais y maent yn ei defnyddio eisoes ac o'r man lle maent eisoes yn gwneud eu gwaith (a fydd, os ydynt yn fydwraig, ar y ffordd yn aml)
- Safonau cytûn ar gyfer casglu, storio a chael mynediad at ddata
- Adrodd yn awtomataidd ar ddangosyddion lefel poblogaeth

#### Byddwn yn cyrraedd yno trwy:

- Gwreiddio llais defnyddwyr gwasanaeth ym mhopeth a wnawn (trwy roi mwy o bwyslais ar gasglu adborth a'i ddefnyddio i wella gwasanaethau)
- Parhau i adeiladu sylfaen dystiolaeth sy'n cefnogi buddsoddiad mewn TG a rennir a lobiö i'r newid hwnnw gael ei flaenoriaethu
- Parhau i ddadlau dros ddolenni adborth syml a fyddai'n galluogi staff i awgrymu newidiadau a gwelliannau



## 4. Datblygu ein gweithlu



### Mae angen hyn arnom oherwydd:

- Nid yw teuluoedd bob amser yn cael y gofal a'r cymorth y mae eu hangen arnynt oherwydd diffyg staff.
- Mae staff ym maes iechyd, gofal ac addysg yn hynod brysur a gall yr amgylchedd gwaith fod yn straen.
- Nid oes iaith gyffredin i ddisgrifio'r un pethau rhwng sefydliadau a phroffesiynau gwahanol. Mae hyn wedi achosi dryswch diangen ac yn arafu pethau.
- Nid yw pob cydweithiwr wedi bod yn hyfforddi ar wasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

### Mae angen:

- Denu a hyfforddi recriwtiaid newydd a'r rhai sy'n dychwelyd i weithlu'r Blynyddoedd Cynnar
- Cydweithwyr hapusach, mwy hyderus sydd o dan lai o bwysau
- Iaith gyffredin a ddefnyddir yn eang a ffyrdd cyffredin o weithio
- Cyfleoedd hyfforddi traws-wasanaeth, yn enwedig ym maes gofal ar sail tystiolaeth
- Cydnabod sgiliau trosglwyddadwy rhwng gwasanaethau a phroffesiynau
- Llwybrau gyrfa cliriach i weithwyr y Blynyddoedd Cynnar
- Mwy o dimau aml-ddisgyblaethol



### Byddwn yn cyrraedd yno trwy:

- Chwilio am gyfleoedd i fuddsoddi mewn tyfu'r tîm, gyda marchnata, recriwtio a hyfforddiant priodol
- Meithrin cysylltiadau agosach ag ysgolion, colegau a gwasanaethau gyrfaedd i hyrwyddo swyddi a lleoliadau profiad gwaith yn y sector
- Datblygu cynnig hyfforddiant sylfaenol cyffredin ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol y Blynyddoedd Cynnar
- Datblygu cynlluniau dilyniant gyrfa clir, gan gynnwys opsiynau datblygiad personol a hyfforddiant



## 5. Darparu gwybodaeth hygrych



### Mae angen hyn arnom oherwydd:

- Nid yw'n hawdd dod o hyd i wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael, i deuluoedd neu weithwyr proffesiynol. O ganlyniad, mae rhai gwasanaethau'n cael eu tanddefnyddio
- Felly nid yw teuluoedd yn gwybod ble i droi. Nid yw gweithwyr proffesiynol bob amser yn gwybod ble i'w cyfeirio nhw.
- Mae'r wybodaeth sy'n bodoli yn dameidiog; os nad ydych chi'n gwybod ble i edrych, mae'n anodd dod o hyd i'r wybodaeth.
- Mae'n gostus ac yn cymryd llawer o amser i gadw'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd wedi'i ddiweddarau, ac mae amser staff ar gyfer hyn yn gyfyngedig.

### Mae angen:

- Gwybodaeth glir, hygrych, gynhwysfawr a syml mewn un lle
- Gwybodaeth ar-lein sydd mor dda ac mor hawdd i'w defnyddio, ac felly'n marchnata ei hun ar lafar
- Y gallu i weithwyr proffesiynol olygu neu anodi gwybodaeth arni yn gyflym ac yn hawdd
- Gwybodaeth sefydliadol well am lwybrau gofal, ac opsiynau ar gyfer atgyfeirio; os yw gweithwyr proffesiynol yn gwybod mwy am y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd byddant yn fwy tebygol o'i awgrymu fel ffynhonnell cymorth i deuluoedd

### Byddwn yn cyrraedd yno trwy:

- Archwilio syniadau ac opsiynau ar gyfer un gwasanaeth gwybodaeth ar-lein a rennir
- Archwilio sut y gallem fuddsoddi mewn rolau ar draws Cynghorau a'r Bwrdd Iechyd sydd â chyfrifoldeb am gyhoeddi a chynnal y wybodaeth honno
- Ymgymryd â gwaith mapio/adolygu i ddeall y llwybrau presennol yn well
- Darparu hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol gwasanaethau fel eu bod yn teimlo eu bod mewn sefyllfa well i atgyfeirio teuluoedd at wasanaethau gwybodaeth
- Chwilio am gyfleoedd i weithio gydag asiantaethau eraill ar fuddsoddiadau mewn gwasanaethau gwybodaeth ar-lein yn y dyfodol





Mae'r **Aseiad Effaith Integredig** hwn yn cynnwys nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yr egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg 2011 (gofynion Safonau'r Gymraeg), ac ystyriaethau Rheoli Risg, i osod sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol ac i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

## 1. MANYLION Y CYNNIG: (Polisi / Newid amcan / Arbed arian)

Teitl y cynnig	Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar
----------------	--

Maes gwasanaeth	Llesiant Gydol Oes – Porth Cymorth Cynnar	Swyddog Arweiniol Corfforaethol	Elen James	Cyfarwyddwr Strategol	James Starbuck
-----------------	---	---------------------------------	------------	-----------------------	----------------

Enw'r swyddog sy'n cwblhau'r AEI	Iwan Davies	E-bost	Iwan.Davies4@ceredigion.gov.uk	Ffôn	<b>07816 598639</b>
----------------------------------	-------------	--------	--------------------------------	------	---------------------

### Rhowch ddisgrifiad cryno o bwrpas y cynnig

Ystyried y strategaeth newydd ynghylch y dull rhanbarthol o ymdrin â gwasanaethau Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar yng ngorllewin Cymru.

Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol? (e.e. y cyhoedd, grwpiau penodol fel grwpiau ieuencid, gofalwyr, pobl sy'n defnyddio'r ffyrdd, pobl sy'n defnyddio parciau gwledig, pobl sy'n cael budd-daliadau, aelodau staff, neu bobl sy'n meddu ar y nodweddion gwarchoddedig a nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb ac y mae'n rhaid i'r awdurdod roi sylw dyledus iddyn nhw).

Y Cyhoedd  
Gweithlu Gwasanaethau Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar.

**RHEOLI'R DDOGFEN:** Dylid defnyddio'r AEI yn ystod camau cyntaf y broses benderfynu, ac yna dylid ei mireinio drwy gydol y broses benderfynu. Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon er mwyn i ni allu dangos sut rydyn ni wedi trin a thrafod datblygu cynaliadwy, y Gymraeg a chydaddoldeb, lle bynnag y bo modd.

Awdur	Cam yn y broses benderfynu	Rhif y fersiwn	Dyddiad trafod	Disgrifiad cryno o unrhyw newidiadau a wnaed ar ôl trafod
Iwan Davies	<i>Cabinet</i>	1	22/05/2023	<i>Bydd hyn yn dangos sut rydyn ni wedi trin a thrafod datblygu cynaliadwy ym mhob cam o'r broses o ddatblygu'r cynnig. Ydych chi wedi ystyried yr</i>



				<i>egwyddorion datblygu cynaliadwy a'r nodau llesiant, a'u rhoi ar waith?</i>

**AMCANION STRATEGOL Y CYNGOR:** Pa un o amcanion strategol y Cyngor y mae'r cynnig yn mynd i'r afael ag ef, a sut?

Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth	Nod y strategaeth yw rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant ifanc a fydd yn rhoi sylfaen gref iddynt gyfrannu at economi Ceredigion yn y dyfodol. Nod y strategaeth yw darparu hyfforddiant ar y cyd a datblygu'r gweithlu, gan arbed arian i'r holl bartneriaid.
Creu cymunedau gofalgwr ac iach	Nod y strategaeth yw rhoi dechrau iach mewn bywyd i blant ifanc.
Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a chaniatáu i bobl o bob oed ddysgu	Mae'r Strategaeth yn cwrdd a nodau'r isod: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant – Llywodraeth Cymru Rhaglen Plant Iach Cymru – Llywodraeth Cymru Gofal Mamolaeth yng Nghymru – Llywodraeth Cymru Cynllun Plant a Phobl Ifanc – Llywodraeth Cymru
Creu cymunedau cynaliadwy sy'n fwy gwyrdd ac sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd	

**SYLWCH:** Wrth i chi lenwi'r ffurflen hon, bydd gofyn i chi ddarparu **tystiolaeth i ategu'ch safbwyntiau**. Bydd angen i chi gynnwys eich safbwynt cychwynnol, y mesurau a'r astudiaethau sydd wedi llywio'ch ffordd o feddwl, a'r farn rydych chi wedi dod iddi. O wneud hyn, bydd modd i chi nodi a fydd unrhyw newidiadau a fydd yn deillio o roi'r argymhelliad ar waith yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol. Ymhlith y ffynonellau data mae:

- *Data meintiol – data sy'n darparu gwybodaeth rifyddol e.e. ffigurau poblogaeth, nifer y defnyddwyr, nifer y bobl nad ydynt yn ddefnyddwyr*
- *Data ansoddol – data sy'n darparu dystiolaeth o argraffiadau pobl o'r gwasanaeth/polisi a'u barn amdano e.e dadansoddiad o gŵynion, canlyniadau grwpiau ffocws, arolygon*
- *Data am y boblogaeth leol, gan gynnwys ffigurau'r cyfrifiad (megis Proffil Iaith Ceredigion a Data Cydraddoldeb Ceredigion)*
- *Data o'r Arolwg Cenedlaethol o Aelwydydd*
- *Data am ddefnyddwyr gwasanaeth*
- *Adborth o ymgynghoriadau ac ymgyrchoedd ymgysylltu*
- *Argymhellion pwyllgor craffu*
- *Cymariaethau â pholisiau tebyg awdurdodau eraill*
- *Cyhoeddiadau academaidd, adroddiadau ymchwil, adroddiadau ymgynghorwyr ac adroddiadau am unrhyw ymgynghoriad ag e.e. undebau llafur neu'r sectorau gwirfoddol a chymunedol, dogfen 'A yw Cymru'n Decach'*



- *Data Sgiliau Iaith Gymraeg staff y Cyngor*

<b>2. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY:</b> Ym mha ffordd mae'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy, fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, wedi'u hymgorffori a'u blaenoriaethu yn natblygiad eich cynnig?			
Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	Ydy'r cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Os yw'n gwneud hynny, disgrifiwch sut. Os nad yw'n gwneud hynny, eglurwch pam.	Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	Pa gam (gampau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?
<b>Hirdymor</b> Sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr ac anghenion tymor hir a'r angen i gynllunio ar gyfer y dyfodol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r strategaeth ar gyfer y 3 blynedd nesaf, ond mae hefyd yn cyfeirio at faterion tymor byr sydd angen mynd i'r afael â nhw.</li> <li>• Nod y strategaeth yw rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant ifanc a helpu eu cyfleoedd mewn bywyd yn y dyfodol..</li> </ul>	Ymchwil a wnaed i helpu i ddatblygu'r rhaglenni LIC a amlinellir uchod.	Dim
<b>Cydweithio</b> Cydweithio â phartneriaid eraill i gyflawni canlyniadau	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygwyd y strategaeth mewn cydweithrediad ag Awdurdodau Lleol Sir Benfro a Sir Gâr a Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Caiff y strategaeth ei goruchwylio gan y Grŵp Llywio Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar.</li> </ul>	Gweler <a href="#">Gwefan</a> Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar Gorllewin Cymru.	
<b>Cynnwys</b> Cynnwys pobl sydd â diddordeb a gofyn am eu barn	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Wrth ddatblygu'r strategaeth ymgynghorwyd â rhieni yn Sir Gâr a Cheredigion a gweithwyr proffesiynol ym maes y Blynyddoedd Cynnar.</li> </ul>	Gweler <a href="#">Yr hyn rydym wedi'i ddysgu</a> ar wefan Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar Gorllewin Cymru	
<b>Atal</b> Darparu adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Canolbwyntia'r strategaeth ar y ddarpariaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael yn ystod y Blynyddoedd Cynnar, h.y. y 7 mlynedd cyntaf ym mywyd plentyn ac felly mae'n un ataliol. Cydnabyddir yn y strategaeth y bydd</li> </ul>	Gweler <a href="#">Gwefan</a> Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar Gorllewin Cymru.	



	rhai teuluoedd angen cymorth ychwanegol er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol.		
<b>Integreiddio</b> Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant, a cheisio sicrhau bod pob un ohonynt ar ei ennill	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r strategaeth yn annog mwy o integreiddio o ran gwaith iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn symleiddio'r ddarpariaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar.</li> </ul>	Gweler <a href="#">Gwefan</a> Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar Gorllewin Cymru.	

**3. NODAU LLESIANT:** Ydy'r cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? Eglurwch yr effaith (gadarnhaol a negyddol) yr ydych yn ei disgwyl, ac awgrymwch sut i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i gyfrannu'n well at y nod. Mae angen i ni sicrhau nad yw'r camau rydyn ni'n eu cymryd i gyflawni un o'r nodau'n niweidio'r camau i gyflawni nod arall.

Nod llesiant	Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.	Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?
<b>3.1. Cymru lewyrchus</b> Defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon, datblygu poblogaeth fedrus ac addysgiedig, creu cyfoeth, darparu swyddi	Ydy, nod y strategaeth yw rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant ifanc a fydd yn rhoi sylfaen gref iddynt gyfrannu at economi Ceredigion yn y dyfodol. Nod y strategaeth yw darparu hyfforddiant ar y cyd a datblygu'r gweithlu, gan arbed arian i'r holl bartneriaid.	Gweler <a href="#">Gwefan</a> Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar Gorllewin Cymru.	
<b>3.2. Cymru gydnerth</b> Cynnal a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n ategu cydnerthedd ac sy'n gallu addasu i newid (e.e. newid hinsawdd)			
<b>3.3. Cymru iachach</b> Mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl	Bydd y strategaeth yn helpu i gyflawni <a href="#">Rhaflen Plant Iach Cymru</a> sy'n nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer Byrddau Iechyd yng Nghymru, ar gyfer darparu	Gweler <a href="#">Gwefan</a> Strategaeth Mamolaeth a'r	



yn deall yr hyn sy'n effeithio ar iechyd	gwasanaethau ymyrraeth gynnar sydd wedi'u cynllunio i sicrhau bod plant yn cael yr iechyd gorau posibl.	Blynyddoedd Cynnar Gorllewin Cymru.	
<b>3.4. Cymru o gymunedau cydlynus</b> Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da			
<b>3.5. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang</b> Rhoi sylw i'r effaith ar lesiant byd-eang wrth ystyried llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol			

<p><b>3.6. Cymru sy'n fwy cyfartal</b> Mae pobl yn gallu cyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu'u hamgylchiadau</p> <p>Yn yr adran hon mae angen i chi ystyried yr effaith ar grwpiau cydraddoldeb, y dystiolaeth ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd ar gyfer gwella. <i>Ydych chi wedi ystyried sut allai'r cynnig effeithio ar grwpiau cydraddoldeb fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010? Mae'r rhain yn cynnwys y grwpiau a ganlyn: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth.</i></p> <p><b>Ystyriwch y canllaw a ganlyn hefyd:</b> <a href="#">Comisiwn Cydraddoldeb - Asesu Effaith a Dyletswydd Cydraddoldeb</a></p>	<p>Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu fawr ddim effaith o gwbl.</p> <p><i>Gan ddefnyddio eich tystiolaeth, ystyriwch yr effaith ar bob un o'r grwpiau gwarchoddedig. Bydd angen i chi ystyried a yw'r grwpiau hyn yn cael mynediad cyfartal at y gwasanaeth, neu a oes angen iddyn nhw gael y gwasanaeth mewn ffordd wahanol i bobl eraill oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig? Nid yw'n dderbyniol dweud yn syml y bydd y cynnig yn fanteisiol/anfanteisiol i bawb. Dylech ddangos eich bod</i></p>	<p>Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?</p> <p><i>Mae'n hollbwysig casglu data a thystiolaeth cydraddoldeb ar gyfer AEI. Dylech ystyried pwy sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu bwy sy'n debygol o'i ddefnyddio. Os na fyddwch yn defnyddio <u>data</u> nac yn <u>ymgysylltu</u> os ydych yn bwriadu cyflwyno newid, gallai penderfyniadau wynebu her gyfreithiol. Dylech gyplysu hyn â'r blwch <b>cynnwys</b> yn y templed hwn. Dylech hefyd ystyried y canllawiau cyffredinol.</i></p>	<p>Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?</p> <p><i>Gall y camau hyn gynnwys amryw o gamau cadarnhaol a fydd yn sicrhau bod modd i'r sefydliad drin unigolion yn unol â'u hanghenion, hyd yn oed os bydd hynny'n golygu ei fod yn trin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill er mwyn iddyn nhw gael canlyniad da. Gallech hefyd gymryd camau i bennu unrhyw fylchau yn y data neu gamau i ymgysylltu â'r rheini y bydd y cynnig yn effeithio arnynt neu y mae'n</i></p>
---	---	--	--



# Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



				<i>wedi ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael a rhoi sylw i unrhyw fylchau neu anghyfartaledd a ddaeth i'r amlwg.</i>		<i>debygol o effeithio arnynt. Mae angen cyplysu'r camau hyn ag adran 4 yn y templed hwn.</i>
<b>Oedran</b> Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoedran? (Ticiwch ✓)				Mae'r strategaeth yn hyrwyddo cydweithio rhwng y gwasanaethau sy'n gweithio â phlant yn ystod eu blynyddoedd cynnar a'u rhieni / gofalwyr, felly byddai'r effaith ar y grwpiau hyn yn gadarnhaol.  Mae'n debygol y bydd pobl 50+, yn enwedig neiniau a theidiau, yn elwa o'r strategaeth hefyd.	Gweler <a href="#">Gwefan</a> Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar Gorllewin Cymru.	
Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	Cadarnhaol ✓	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
Pobl 18-50	Cadarnhaol ✓	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
Pobl hŷn 50+	Cadarnhaol ✓	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
<b>Anabledd</b> Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hanabledd? (Ticiwch ✓)				Nod y strategaeth yw cynnig y cymorth cywir ar yr adeg gywir  Bydd Swyddog Arweiniol ADY Blynyddoedd Cynnar ym mhob Cyngor yn cefnogi adnabod anghenion plant yn gynnar, gan gynnwys y rhai sydd ddim yn mynychu ysgolion a gynhelir. Byddant yn gweithio mewn	Gweler <a href="#">Gwefan</a> Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar Gorllewin Cymru.	
Nam ar y clyw	Cadarnhaol ✓	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
Nam corfforol	Cadarnhaol ✓	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
Nam ar y golwg	Cadarnhaol ✓	Negyddol	Dim/Fawr ddim			

# Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Anabledd dysgu	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim	partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd, ac yn codi ymwybyddiaeth o ADY yn eu hardal.					
	✓								
Salwch hirdymor	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim				Bydd cymorth yn ystod beichiogrwydd cynnar ac atgyfeiriadau at wasanaethau arbenigol ar gael i famau sy'n profi iselder ôl-enedigol ac is enedigol.		
			✓						
Iechyd meddwl	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim						
	✓								
Arall	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim						
	✓								

<b>Trawsrywiol</b> Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl drawsrywiol? (Ticiwch ✓)				Mae'r strategaeth yn hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn at gynllunio gwasanaethau.	Gweler <a href="#">Gwefan</a> Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar Gorllewin Cymru.	
Trawsrywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim	Rydym am gynnig gwasanaethau hygyrch y mae teuluoedd am eu defnyddio  Rydym am gynnig gwasanaethau sy'n mynd i'r afael â'r ystod amrywiol o anghenion yn ein cymunedau, gan gynnwys rhai grwpiau difreintiedig neu leiafrifol.  Mae angen:  Gwneud ymchwil rheolaidd gyda defnyddwyr gwasanaeth a gwella ein dulliau o gasglu		

# Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



				<p>adborth, fel y gallwn weld ein gwasanaethau a'n gweithlu trwy lygaid y teuluoedd sy'n dibynnu arnynt.</p> <p>Nodi a chael gwared ar rwystrau i fynediad at wasanaethau.</p> <p>Gall pobl feichiog sy'n drawsryweddol gael eu trin yn wahanol fel y gellir diwallu eu hanghenion ond ni fydd eu hanghenion yn rhagfarnllyd.</p>		
--	--	--	--	---	--	--

<b>Priodas neu bartneriaeth sifil</b> Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar briodas neu bartneriaeth sifil? (Ticiwch ✓)				Dim		
Priodas	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Partneriaeth sifil	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

<b>Beichiogrwydd neu famolaeth</b> Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar feichiogrwydd neu famolaeth? (Ticiwch ✓)				Nod y strategaeth yw gwella'r gefnogaeth sydd ar gael yn ystod y cyfnod cyn geni a'r Blynyddoedd Cynnar.	Gweler <a href="#">Gwefan</a> Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar Gorllewin Cymru.	
Beichiogrwydd	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					

# Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Mamolaeth	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					

<b>Hil</b> Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hil? ( Ticiwch ✓ )				Mae'r strategaeth yn hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn at gynllunio gwasanaethau.  Rydym am gynnig gwasanaethau hygyrch y mae teuluoedd eisiau eu defnyddio Rydym am gynnig gwasanaethau sy'n mynd i'r afael â'r ystod amrywiol o anghenion yn ein cymunedau, gan gynnwys rhai grwpiau difreintiedig neu leiafrifol.  Mae angen:  Gwneud ymchwil rheolaidd gyda defnyddwyr gwasanaeth a gwella ein dulliau o gasglu adborth, fel y gallwn weld ein gwasanaethau a'n gweithlu trwy lygaid y teuluoedd sy'n dibynnu arnynt. Nodi a chael gwared ar rwystrau i fynediad at wasanaethau.	Gweler <a href="#">Gwefan Strategaeth Mamolaeth</a> a'r Blynyddoedd Cynnar Gorllewin Cymru.	
Gwyn	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Grwpiau ethnig cymysg / aml-ethnig	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Asiaidd / Asiaidd Prydeinig	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Du / Affricanaidd / Caribiaidd / Du Prydeinig	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Grwpiau ethnig eraill	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

# Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



				Bydd gwasanaethau cyfieithu ar gael i alluogi pobl sy'n siarad ieithoedd eraill i gael mynediad hawdd at wasanaethau.		
--	--	--	--	---	--	--

<b>Crefydd neu ddim cred</b> Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol grefyddau, credoau neu ddim cred? (Ticiwch ✓)				Mae'r strategaeth yn hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn at gynllunio gwasanaethau.  Rydym am gynnig gwasanaethau hygyrch y mae teuluoedd eisiau eu defnyddio Rydym am gynnig gwasanaethau sy'n mynd i'r afael â'r ystod amrywiol o anghenion yn ein cymunedau, gan gynnwys rhai grwpiau difreintiedig neu leiafrifol.  Mae angen:  Gwneud ymchwil rheolaidd gyda defnyddwyr gwasanaeth a gwella ein dulliau o gasglu adborth, fel y gallwn weld ein gwasanaethau a'n gweithlu trwy lygaid y teuluoedd sy'n dibynnu arnynt.	Gweler <a href="#">Gwefan Strategaeth Mamolaeth a'r Blynnyddoedd Cynnar Gorllewin Cymru</a> .	
Cristnogion	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Bwdhyddion	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Hindŵiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Dyneiddwyr	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Iddewon	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Mwslimiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Sikhiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

# Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Pobl heb gred	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim	Nodi a chael gwared ar rwystrau i fynediad at wasanaethau.  Mae'r cymorth a ddarperir wedi'i deilwra i'r unigolyn yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.		
			✓			
Eraill	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

<b>Rhyw</b> Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ddyinion a/neu fenywod? (Ticiwch ✓)				Mae'r strategaeth yn hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn at gynllunio gwasanaethau.  Rydym am gynnig gwasanaethau hygyrch y bydd dynion a menywod yn gyfforddus i fynd at.	Gweler <a href="#">Gwefan Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar Gorllewin Cymru</a> .	
Dynion	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Menywod	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

<b>Cyfeiriadedd rhywiol</b> Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol gyfeiriadedd rhywiol? (Ticiwch ✓)				Mae'r strategaeth yn hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn at gynllunio gwasanaethau.  Rydym am gynnig gwasanaethau hygyrch y mae teuluoedd eisiau eu defnyddio Rydym am gynnig gwasanaethau sy'n mynd i'r afael â'r ystod amrywiol o	Gweler <a href="#">Gwefan Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar Gorllewin Cymru</a> .	
Pobl ddeurywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Dynion hoyw	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			



Menywod hoyw / lesbiaid			✓	anghenion yn ein cymunedau, gan gynnwys rhai grwpiau difreintiedig neu leiafrifol.		
Pobl heterorywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim	Mae angen:		
			✓	Gwneud ymchwil rheolaidd gyda defnyddwyr gwasanaeth a gwella ein dulliau o gasglu adborth, fel y gallwn weld ein gwasanaethau a'n gweithlu trwy lygaid y teuluoedd sy'n dibynnu arnynt. Nodi a chael gwared ar rwystrau i fynediad at wasanaethau.		

**Rhoi sylw dyledus i dri nod y Ddyletswydd Cydraddoldeb – penderfynu a fydd y cynnig yn eich cynorthwyo i roi terfyn ar wahaniaethu, i hybu cydraddoldeb ac i feithrin cysylltiadau da, neu'n eich rhwystro rhag gwneud hynny.**

**3.6.2. Sut allai/mae'r cynnig yn helpu i hybu/hyrwyddo cyfle cyfartal?**

*Dylech ystyried a fydd y cynnig yn eich helpu chi i wneud y pethau a ganlyn:* • Dileu neu leihau anfantais • Diwallu anghenion pobl â nodweddion penodol • Annog pobl â nodweddion penodol i gymryd mwy o ran

Mae'r strategaeth yn nodi'n glir sut y bydd cefnogaeth yn cael ei chynnig yn ystod Mamolaeth a'r Blynnyddoedd Cynnar er mwyn hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol ar gyfer teuluoedd / gofalwyr yn y rhanbarth. Mae'r strategaeth yn nodi'r camau i'w cymryd er mwyn darparu gwasanaethau ardderchog ar bob cam yn ystod Mamolaeth a'r Blynnyddoedd Cynnar. Trwy ddarparu dull a arweinir gan berson o ddarparu gwasanaethau.

**3.6.3. Sut allai/mae'r cynnig/penderfyniad yn helpu i roi terfyn ar wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon?**

*Dylech ystyried a oes tystiolaeth ar gael sy'n dangos:* • Y gall y cynnig beri i bobl â nodweddion penodol gael eu trin yn llai ffafriol • Y gallai'r cynnig arwain at wahaniaethu anuniongyrchol • Bod y cynnig yn fwy tebygol o'ch cynorthwyo i wneud addasiadau rhesymol neu'ch rhwystro rhag gwneud hynny

Trwy ddarparu dull a arweinir gan berson o ddarparu gwasanaethau. Er enghraifft, drwy ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu pan fo angen neu drwy ddarparu grwpiau Tadau.



**3.6.4. Sut allai/mae'r cynnig yn effeithio ar hybu/hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach?**

*Dylech ystyried a fydd y cynnig yn eich helpu chi i wneud y pethau a ganlyn : • Mynd i'r afael â rhagfarn • Hybu dealltwriaeth*

Mae'r strategaeth yn hyrwyddo:

Gwneud penderfyniadau ar y cyd wedi'i ategu gan rannu gwybodaeth

Systemau ar gyfer cydweithio rhwng awdurdodau lleol, iechyd a'r trydydd sector

Dull seiliedig ar le o ddarparu gwasanaethau

Cyfathrebu gwell rhwng gwasanaethau

Mae'r strategaeth hefyd yn hyrwyddo dylunio gwasanaeth dan arweiniad defnyddwyr ac ymgynghori rheolaidd â defnyddwyr gwasanaeth.

**Rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010.**

**Mae Anfantais Economaidd-gymdeithasol yn golygu byw dan amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill o fewn yr un gymdeithas.**

*Fel corff cyhoeddus rhestredig, mae'n ofynnol bod Cyngor Sir Ceredigion yn rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010. I bob pwrpas, mae hynny'n golygu cynnal asesiad o'r effaith ar dlodi. Mae'r ddyletswydd yn cynnwys pawb sy'n dioddef o anfantais economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig.*

**3.6.5 Pa dystiolaeth sydd gennych am anfanteision economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau o ran canlyniad mewn perthynas â'r cynnig?**

Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith bositif/negyddol neu effaith ddibwys.

Mae cefnogaeth yn y Blynyddoedd Cynnar yn gwneud gwahaniaeth i blant fel unigolion, a thrwyddynt, mae'n gwneud gwahaniaeth i iechyd Cymru yn y dyfodol. Mae profiadau bywyd cynnar yn cael effaith barhaol, gan ddylanwadu ar iechyd a lles drwy gydol plentyndod ac ymhell i fod yn oedolion.

Mae bywyd gyda phlant ifanc yn heriol, ac yn aml mae teuluoedd â phlant ifanc angen ychydig o gymorth ychwanegol. Mae rhai yn cael cymorth gan berthnasau a ffrindiau, ond nid oes gan bob teulu rwydwaith cymorth cryf. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i deuluoedd sy'n profi anfantais gymdeithasol ac economaidd.

Rydym yn awyddus i ganolbwyntio ein sylw ar y teuluoedd hynny sydd angen cymorth ond na allant ddod o hyd iddo yn hawdd trwy gysylltiadau cymdeithasol a theuluol.

Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r farn hon?

Gweler [Gwefan](#) Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar Gorllewin Cymru.



# Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Pa gam/camau gweithredu allwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau positif?

Mae amrywiaeth o fentrau caledi yn cael eu rhedeg ar lefel weithredol.

<p><b>3.7. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</b>  Mae diwylliant a threftadaeth Cymru a'r Gymraeg yn cael eu hybu a'u gwarchod.  <i>Yn yr adran hon, mae angen i chi ystyried yr effaith, y dystiolaeth ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd i wella. Dylech wneud hyn i sicrhau nad yw'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl sy'n dewis byw eu bywydau a defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn waeth na'r cyfleoedd sydd ar gael i'r rheini sy'n dewis gwneud hynny drwy gyfrwng y Saesneg, a hynny yn unol â Mesur y Gymraeg 2011.</i></p>	<p>Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu fawr ddim effaith o gwbl.</p>	<p>Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?</p>	<p>Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?</p>
--	---	--	---

<p>A fydd y cynnig yn cael ei roi ar waith yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg)?</p>	<p>Cadarnhaol</p> <p>✓</p>	<p>Negyddol</p>	<p>Dim/Fawr ddim</p>	<p>Mae'r strategaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac mae'r gwasanaeth ar gael yn y ddwy iaith.</p>		
<p>A fydd y cynnig yn effeithio ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?</p>	<p>Cadarnhaol</p>	<p>Negyddol</p>	<p>Dim/Fawr ddim</p> <p>✓</p>			
<p>A fydd y cynnig yn cynyddu neu'n lleihau'r cyfleoedd i bobl gael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg?</p>	<p>Cadarnhaol</p>	<p>Negyddol</p>	<p>Dim/Fawr ddim</p> <p>✓</p>			
<p>Sut fydd y cynnig yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?</p>	<p>Cadarnhaol</p>	<p>Negyddol</p>	<p>Dim/Fawr ddim</p> <p>✓</p>			

# Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



A fydd yn gwarchod, yn hybu ac yn cyfoethogi diwylliant a threftadaeth lleol?	Cadarn haol	Negyddol	Dim/Fawr ddim ✓			
---	-------------	----------	--------------------	--	--	--

**4. ATGYFNERTHU'R CYNNIG:** Os yw'r cynnig yn debygol o effeithio'n negyddol ar unrhyw rai o'r materion uchod (gan gynnwys unrhyw rai o'r nodweddion gwarchodedig), pa gamau ymarferol/newidiadau allai helpu i liniaru neu i ddileu unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd yn adrannau 2 a 3?

## 4.1 Camau

Beth fyddwch chi'n ei wneud?	Pryd fyddwch chi'n ei wneud?	Pwy sy'n gyfrifol?	Cynnydd

## 4.2. Os na fyddwch yn cymryd unrhyw gamau i ddileu neu i liniaru'r effeithiau negyddol, rhwch gyfiawnhad.

*(Cofiwch: os ydych chi wedi nodi gwahaniaethu anghyfreithiol uniongyrchol a phosibl o ganlyniad i'r cynnig hwn, rhaid i chi newid neu ddiwygio'r cynnig.)*

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol

## 4.3. Monitro, gwerthuso ac adolygu





*Sut fyddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig?*

# Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



5. RISG: Beth yw'r risg sydd ynghlwm wrth y cynnig hwn?					
Meini prawf asesu effaith	1 – Isel iawn	2 – Isel	3 – Canolig	4 – Uchel	5 – Uchel iawn
Meini prawf asesu tebygolrwydd	1 – Annhebygol o ddigwydd	2 – Llai tebygol o ddigwydd	3 – Yr un mor debygol o ddigwydd ac o beidio digwydd	4 – Mwy tebygol o ddigwydd	5 – Tebygol o ddigwydd
Disgrifiad o'r risg	Effaith (difrifoldeb)		Tebygolrwydd (y gallu i gyflawni)		Sgôr risg
Materion ariannu	4		2		8
Recriwtio	3		4		12
Allai eich cynnig chi effeithio ar faes gwasanaeth arall?					
Gallai effeithio ar y gwasanaethau addysg gan ei fod yn hyrwyddo pontio cadarnhaol rhwng gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar. Effaith hirdymor ar ofal cymdeithasol, tai a'r economi leol.					

6. CYMERADWYO			
Swydd	Enw	Llofnod	Dyddiad
Rheolwr y Gwasanaeth	Iwan Davies		22/05/23
Swyddog Arweiniol Corfforaethol	Elen James		22/05/23
Y Cyfarwyddwr Strategol	James Starbuck		25/05/23
Deiliad y Portffolio	Y Cynghorydd Alun Williams		25/05/23

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

<b>ADRODDIAD I'R:</b>	Cabinet
<b>DYDDIAD:</b>	06.06.2023
<b>LLEOLIAD:</b>	Siambr y Cyngor/Hybrid
<b>TEITL:</b>	Strategaeth Gorllewin Cymru ar Famolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar.
<b>DIBEN YR ADRODDIAD:</b>	Rhoi adborth o gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd ar 24 Mai 2023.

### **CEFNDIR:**

Bu Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach yn ystyried Strategaeth Gorllewin Cymru ar Famolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar.

Yn 2018, gwahoddodd Llywodraeth Cymru gynigion gan Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd i fod yn fraenarwyr (*Pathfinders*) ar gyfer Rhaglen Trawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar. Cyflwynwyd cais gan Awdurdodau Lleol Ceredigion a Sir Gaerfyrddin, ar y cyd â Bwrdd Iechyd Hywel Dda, i fod yn ardaloedd braenaru. Cafwyd cyllid (2019 - 2024) i beilota a phrofi ffyrdd o Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar, a ffurfiwyd Grŵp Llywio Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar. Ym mis Ionawr 2021, llwyddodd Sir Benfro â'u cais nhw i ymuno â'r Rhaglen Fraenaru ac felly mae pob Awdurdod Lleol ym mhattrwm daearyddol Hywel Dda wedi bod ynghlwm â'r Rhaglen.

Yn 2021/2022 bu cynrychiolwyr o'r tri Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn cydweithio i lunio Strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Gorllewin Cymru. Mae'r Strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Gorllewin Cymru wedi ei llywio gan agenda Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mwy integredig, fel y nodwyd yn Neddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar gefnogaeth yn ystod 7 mlynedd gyntaf y plentyn, gan gydnabod pwysigrwydd y blynyddoedd ffurfiannol hyn wrth siapio iechyd a lles y plentyn at y dyfodol.

Ymgynghorwyd yn eang ar y strategaeth ddrafft gyda gweithwyr proffesiynol a defnyddwyr gwasanaethau ledled y rhanbarth, a gwnaed gwelliannau ar sail yr adborth a gafwyd. Roedd yr ymgynghoriad ar agor rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi 2022.

**Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhelliad canlynol:**

1. Bod y Pwyllgor Craffu yn cymeradwyo Strategaeth Gorllewin Cymru ar Famolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar.

### **Y RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:**

Er mwyn egluro'r pwrpas a hyrwyddo dull cydweithredol o ymdrin â gwasanaethau Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar.

## **ARGYMHELLIAD:**

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i argymhell bod y Cabinet yn gwneud y canlynol:

1. Cymeradwyo Strategaeth Gorllewin Cymru ar Famolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar

Awgrymwyd a chytunwyd y gallai grŵp bach o aelodau weld gwefan Gydol Oes a Llesiant, Cymorth a Gofal sydd wrthi'n cael ei datblygu, cyn iddi fynd yn fyw, i roi eu barn a'u hadborth.

**Y Cynghorydd Caryl Roberts**  
***Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach***

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

<b>Adroddiad i'r:</b>	Cabinet
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	6 Mehefin 2023
<b>Teitl:</b>	Agoriad Swyddogol y Ganolfan Lles, Llanbedr Pont Steffan
<b>Pwrpas yr adroddiad:</b>	Enwebu person priodol i agor y Ganolfan Lles yn Llanbedr Pont Steffan yn swyddogol
<b>Er:</b>	Penderfyniad
<b>Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:</b>	Y Cyngorydd Catrin M S Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Diwylliant, Hamdden a Gwasanaethau Cwsmeriaid

Mae'r Ganolfan Lles, Llanbedr Pont Steffan wedi'i datblygu a'i hariannu drwy grant Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru gwerth £1.24 miliwn.

Bydd dull graddol o agor yr adeilad i'r cyhoedd, gan ddechrau gyda'i gynnig gweithgarwch corfforol a hamdden ym mis Mehefin 2023 gyda gwasanaethau ychwanegol y Cyngor ar draws y rhaglen Gydol Oed a Llesiant ar gael dros y misoedd nesaf.

Y bwriad yw cynnal seremoni agor swyddogol ym mis Medi 2023 a gofynnir i'r Cabinet enwebu person priodol i agor y Ganolfan Lles yn swyddogol.

	<b>Oes</b>	<b>Asesiad</b>	<b>Effaith</b>	<b>Oes</b>
	<b>Integredig wedi ei gwblhau?</b>			
	<b>Os na, esboniwch pam</b>			
	<b>Crynodeb:</b>			
	<b>Hirdymor:</b>	Cadarnhaol: Sicrhau bod y cyfleusterau Hamdden yn cael eu rheoli a'u cynnal a'u cadw mewn modd cost-ffeithiol a chynyddu eu cyfraniad at flaenoriaethau corfforaethol		
<b>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</b>	<b>Cydweithio:</b>	Cadarnhaol: gweithio gydag eraill o wasanaethau statudol a gwirfoddol		
	<b>Cynnwys:</b>	Cadarnhaol: Ymgysylltu â gwasanaethau mewnol ac allanol a'r cyhoedd i sicrhau mai'r gwasanaethau a ddarperir yw'r hyn sydd ei angen		
	<b>Atal:</b>	Cadarnhaol: Datblygu gwasanaeth ymyrryd ac atal yn gynnar fel rhan o'r Rhaglen Llesiant Gydol Oed		
	<b>Integreiddio:</b>	Cadarnhaol: Mabwysiadu ffordd gyfannol ac integredig o weithio		

## Tudalen 432

<b>Argymhelliad / Argymhellion:</b>	Enwebu person priodol i agor y Ganolfan Lles yn swyddogol
<b>Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:</b>	Cytuno i wahodd person priodol i agor y Ganolfan Lles yn swyddogol
<b>Trosolwg a Chraffu:</b>	Amherthnasol
<b>Fframwaith Polisi:</b>	Dim
<b>Amcanion Llesiant Corfforaethol:</b>	Creu cymunedau gofalgar ac iach
<b>Goblygiadau Cyllid a Chaffael:</b>	Dim
<b>Goblygiadau cyfreithiol:</b>	Dim
<b>Goblygiadau staffio:</b>	Dim
<b>Goblygiadau eiddo / asedau:</b>	Dim
<b>Risg(iau):</b>	Methiant i gwrdd â disgwyliadau cyhoedduswydd grant y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy
<b>Pwerau Statudol:</b>	Amherthnasol
<b>Papurau Cefndir:</b>	Canllawiau cyhoedduswydd ar gyfer Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy
<b>Atodiadau:</b>	Atodiad A: Canllawiau cyhoedduswydd ar gyfer Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy
<b>Swyddog Arweiniol Corfforaethol:</b>	Greg Jones, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cymorth Cynnar (Dros dro)
<b>Swyddog Adrodd:</b>	Carwyn Young, Rheolwr Corfforaethol: Canolfannau Lles
<b>Dyddiad:</b>	30 Mai 2023





# Canllawiau cyhoeddusrwydd ar gyfer Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

## Cyhoeddusrwydd ar gyfer y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau cyhoeddusrwydd ar gyfer gwybodaeth a ryddheir yn ymwneud a'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Mae'n cynnwys brandio, datganiadau i'r wasg a datganiadau cydnabyddiaeth allweddol.

## Brandio

### Rheolau o ran brandio a logos

Os yw eich prosiect wedi'i ariannu'n gyfatebol gan y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu neu unrhyw gynlluniau grant arian cyfalaf cysylltiedig megis grantiau cyfrwng Cymraeg, Gofal Plant, Canolfannau Cymunedol a Maint Dosbarthiadau Babanod, **rhaid** iddynt gadw at ganllawiau. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod yr holl contractwyr a noddwyr prosiectau sy'n gysylltiedig â'ch prosiectau yn cadw at ganllawiau brandio ar gyfer y rhaglen hon **fel y cytunwyd yn eich contract ariannu prosiect**. Oherwydd, mae'n ofynnol i bob contractwr prosiect a noddwr arddangos logo'r Rhaglen a logo Llywodraeth Cymru ar bob arwydd a datganiad i'r wasg. **Mae hwn yn un o amodau'r grant a gall fod yn destun adfachu.**

Dyma logo'r Rhaglen:



Dyma logo Llywodraeth Cymru:



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Os yw logo'r Rhaglen a logo Llywodraeth Cymru yn cael eu defnyddio ar eich gwefannau, byddai'n dda o beth cael dolenni at adran y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ar wefan Llywodraeth Cymru, sef <https://llyw.cymru/rhaglen-cymunedau-dysgu-cynaliadwy> a [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru).

Ni chaniateir newid, ail-luniadu na thocio unrhyw logos a ddefnyddir mewn unrhyw ffordd gan fod hyn yn amharu ar effaith ac ansawdd y logo.

Mae'r logos ar gael yn y fformatau canlynol:

**JPG** ar gyfer cyhoeddi bwrdd gwaith (MS Word, PowerPoint, etc.)

**EPS** neu **TIFF** ar gyfer argraffu o ansawdd uchel

**GIF, JPG** neu **PNG** ar gyfer y we.

Dylid gwneud cais am logos i [cymunedaudysgucynaliadwy@llyw.cymru](mailto:cymunedaudysgucynaliadwy@llyw.cymru)

## Maint a geiriad logo

Wrth atgynhyrchu logo'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy rhaid bod yr ansawdd yn foddhaol pan gaiff ei chwyddo, a bod modd ei ddarllen yn glir pan gaiff y logo ei wneud yn llai. Y maint lleiaf sy'n cael ei ganiatáu yw 63mm x 13mm (echelinau x ac y).



## Hysbysfyrdau a phlaciau logo

Yn ystod y cyfnod adeiladu, **rhaid** codi hysbysfyrdau a phlaciau dwyieithog sy'n cydnabod pob ffynhonnell ariannu ar bob safle seilwaith neu safle adeiladu sy'n gysylltiedig â phrosiectau sy'n cael nawdd gan y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

Wrth arddangos logos rhaid dilyn y meini prawf canlynol.

- Dylid defnyddio logo'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a logo Llywodraeth Cymru.
- Dylent fod yr un mor amlwg ag unrhyw logo gan bartner ariannu arall.

Wrth benderfynu ar y geiriad ar gyfer placiau, cofiwch y canlynol:

- Mae angen bod plac yn adrodd y stori, felly meddyliwch am y neges rydych chi eisiau ei chyfleu (ydy'r plac yn cydnabod cyllid? Ydy'r plac yn gofnod o seremoni agoriadol? Efallai fod y plac yn gwneud y ddau beth hyn? Ydy'r plac yn cynnwys enw'r prosiect? Pwy sydd ynghlwm ag ef? Y dyddiad?)
- Mae angen cyfleu'r neges yn glir, yn syml a bod yn ffeithiol yn unig.
- Dylid sicrhau bod y testun Cymraeg yn cael ei roi mewn man ar y plac fel ei fod yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Os bydd Gweinidog yn cael gwahoddiad i ddatguddio plac, dylid sicrhau bod swyddfa'r Gweinidog perthnasol yn ymwybodol ac yn cael cyfle i wneud sylwadau.

Dylid ysgrifennu dyddiadau gan ddilyn y patrwm 01 Ionawr 2017 yn Gymraeg a 01 January 2017 yn Saesneg. Peidiwch â defnyddio 'af', 'ail', 'ydd', 'ed', 'eg', 'fed' neu 'ain' yn Gymraeg. Peidiwch â defnyddio 'st', 'nd', 'rd', na 'th' yn Saesneg.

Ar gwblhau'r prosiect, dylid codi arwydd neu blac dwyieithog parhaol, yn cydnabod yn ffurfiol gyfraniad Llywodraeth Cymru a'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Rhaid anfon fersiwn ddrafft at swyddogion Llywodraeth Cymru i'w chymeradwyo.

### Enghraifft o arwydd safle

(defnyddio logo newydd ar arwyddion presennol)



### Enghraifft o blac

(defnyddio logo newydd ar arwyddion presennol)



## Sylw yn y wasg

### Datganiadau i'r wasg

Mae datganiadau i'r wasg yn ffordd bwysig o gysylltu â'r cyfryngau a chyfleu negeseuon i'r cyhoedd yn gyffredinol.

Rhaid i bob datganiad i'r wasg, erthygl a hysbyseb olygyddol am brosiect neu fuddiolwr (e.e. cyhoeddi bod prosiect wedi'i gymeradwyo, digwyddiad lansio, cyrraedd cerrig milltir) gydnabod yr arian a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn benodol y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol/sefydliad addysg bellach yw sicrhau bod pob datganiad i'r wasg, gan gynnwys y rheini a gaiff eu cynhyrchu gan gontractwyr a noddwyr y prosiect, yn cydnabod yn glir y cymorth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae'n hanfodol bod noddwyr prosiectau a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod pob parti yn cael ei gydnabod yn llawn. Rhoddir enghraifft o ddatganiad i'r wasg yn yr Atodiad. Hefyd, rhoddir enghreifftiau o ddatganiadau y dylid eu cynnwys isod.

- Mae'r prosiect hwn wedi cael arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru drwy ei Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.
- Bydd y prosiect, gyda nawdd o £\*\* miliwn o Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, yn helpu i...
- Mae'r prosiect yn cael 65/75/85% o arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru drwy ei Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.
- Mae'r pecyn ariannol £2.3 biliwn yn rhan o'r ail don o brosiectau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a gaiff eu cwblhau dros y blynyddoedd i ddod.
- Nod y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yw trawsnewid profiad dysgu dysgwyr, gan sicrhau eu bod yn cael eu haddysgu mewn ystafelloedd dosbarth sydd a'r technolegau a'r cyfleusterau gofynnol i allu cyflwyno Cwricwlwm i Gymru.

I fonitro'r gofyniad hwn, rhaid anfon pob datganiad drafft i'r wasg mor gynnar â phosibl cyn ei gyhoeddi, at dîm y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy sef **cymunedudysgucynaliadwy@llyw.cymru**, yn unol â'r llythyr a gawsoch yn dyfarnu'r grant ar gyfer eich prosiect.

Bydd y trefniant hwn hefyd yn caniatáu inni ystyried cynnwys dyfyniad gan Weinidog a/neu drefnu i Weinidog fod yn bresennol mewn digwyddiad, yn ogystal â'n galluogi o bosibl i gyfrannu at y gwaith o drefnu digwyddiad. Bydd hefyd yn sicrhau ein bod yn gallu manteisio i'r eithaf ar unrhyw gyhoeddusrwydd mewn perthynas â digwyddiadau, llwyddiannau prosiectau a cherrig milltir/astudiaethau achos drwy hyrwyddo storïau ar wefan Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, a chael sylw o bosibl yn rhanbarthol, yn genedlaethol neu yn rhyngwladol.

Fel rhan o'ch datganiad i'r wasg, dylech fanylu ar y budd a ddaw i'r gymuned yn sgil y prosiect/ei agweddau gwireddu budd, e.e. gwella sgiliau, creu swyddi, gwasanaeth addysg a chymorth i fusnesau.

Lle bo'n bosibl, dylech gynnwys astudiaethau achos gyda chyhoeddiadau am ariannu prosiectau neu adroddiadau ar lwyddiannau i ddangos sut bydd y prosiect yn dod a budd i bobl; busnesau; cymunedau; ac amgylchedd Cymru. Mae defnyddio storïau am bobl yn ffordd bwerus o gyfleu'r neges am y budd a geir drwy gyllid cyfalaf ac mae'n ei gwneud yn fwy tebygol y caiff y prosiect sylw ar y cyfryngau/yn y wasg.

## Ymweliadau gan Weinidogion, digwyddiadau lansio

Rhaid hysbysu tîm Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy cyn gynted ag y bo modd am unrhyw ddigwyddiadau, ymweliadau neu gerrig milltir allweddol mewn perthynas â phrosiectau ysgol sy'n cael nawdd cyfalaf, e.e. seremoni gosod y garreg gopa/torri'r dywarchen gyntaf, agoriad swyddogol, digwyddiadau'n gysylltiedig â phrosiect y contractwr, cynlluniau a threfniadau lansio.

Mewn llawer o achosion, efallai y bydd un o Weinidogion Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddod i ddigwyddiad i lansio prosiect. Mae'n bosibl hefyd y byddant am drefnu ymweliad a'r prosiect wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen er mwyn gweld sut mae'r cyllid yn cael ei ddefnyddio. Bydd y tîm yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol i drefnu'r digwyddiadau hyn a phresenoldeb Gweinidog.

Byddem hefyd yn croesawu unrhyw ffotograffau neu astudiaethau achos o'ch prosiect rydych wedi cytuno i'w darparu yn unol â'r llythyr yn dyfarnu'r grant ar gyfer eich prosiect. Byddwn yn eu harddangos yn adran Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ar wefan Llywodraeth Cymru er mwyn rhannu arferion da yn genedlaethol, ac efallai'n eu cynnwys mewn deunydd cyhoeddusrwydd corfforaethol gan Lywodraeth Cymru gyda'ch cydsyniad.

## Y Gymraeg

Yn unol â Safonau'r Gymraeg, rhaid i unrhyw weithgarwch cyhoeddusrwydd yn ymwneud a'r prosiect fod yn ddwyieithog a rhaid iddo gydymffurfio a'r canllawiau ar ddefnyddio'r Gymraeg yng ngwaith cyfathrebu a marchnata Llywodraeth Cymru.

Cysylltwch â **contractaucyfathrebu@llyw.cymru** i gael copi o'r canllawiau hyn. Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i unrhyw raglenni a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

## Atodiad

Datganiad enghreifftiol i'r wasg

# Pob ysgol a choleg newydd yng Nghymru i fod yn garbon sero-net

02/11/2021

Heddiw, mae Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, Jeremy Miles, wedi cyhoeddi y bydd gofyn i bob adeilad ysgol a choleg newydd, pob gwaith adnewyddu mawr a phrosiectau estyn fodloni targedau **carbon sero-net o Ionawr 1 2022**.

Bydd yn ofynnol i adeiladau weithredu ar sail egwyddor carbon sero-net, sy'n golygu eu bod yn creu allyriadau carbon sero neu negyddol o ran ynni.

Hefyd bydd angen i'r genhedlaeth gyntaf o ysgolion a cholegau o dan y rheolau newydd sicrhau gostyngiad o **20%** yn lefel y carbon a gaiff ei allyrru gan y deunyddiau adeiladu a'r broses adeiladu, a bydd gostyngiadau pellach yn ofynnol yn y dyfodol, yn unol â chynlluniau ehangach y Llywodraeth Cymru o ran symud i gyfeiriad carbon sero-net.

Yn ogystal, bydd cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer yr adeiladau arfaethedig newydd o ran bioamrywiaeth, teithio llesol a chyfleusterau gwefru cerbydau trydan.

Bydd y cyhoeddiad yn helpu'r Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hymrwymiad i fod yn garbon sero-net erbyn **2050**.

Ymwelodd Jeremy Miles â safle ysgol gynradd newydd Llancarfan ym Mro Morgannwg. Disgwylir iddi gael ei chwblhau ddechrau **2022**, a hon fydd ysgol carbon sero-net gyntaf Cymru, â'i chyfleusterau ei hun i gynhyrchu ynni a storio batris ar y safle.

### Dywedodd Jeremy Miles:

*"Fe ddylen ni i gyd fod yn holi ein hunain pa gamau y gallwn ni eu cymryd i ddadwneud y niwed sy'n deillio o newid hinsawdd. Yn Llancarfan, rydyn ni eisoes yn darparu'r ysgol garbon sero-net gyntaf. Mae sicrhau bod adeiladau'r dyfodol yn gwneud cyfraniad positif yn gam pwysig y gallwn ni ei gymryd.*

*"Yn greiddiol i'n cwricwlwm newydd mae ein nod i gefnogi dysgwyr i fod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodys sydd wedi ymrwymo i gynaliadwyedd y blaned. Mae'n hanfodol ein bod yn gosod esiampl i bobl ifanc os ydyn ni i wireddu'r uchelgais hwn."*

### Dywedodd y Cyng Lis Burnett, Dirprwy Arweinydd Cyngor Bro Morgannwg ac Aelod Addysg ac Adfywio'r Cabinet:

*"Rydyn ni'n eithriadol o falch o fod yn agor ysgol sero-net gyntaf Cymru yma yn y Fro.*

*"Mae newid hinsawdd yn her enfawr ledled y byd, ac yn un y mae'n rhaid inni i gyd weithredu i fynd i'r afael â hi. Ers datgan argyfwng hinsawdd yn 2019, rydyn ni wedi sefydlu Prosiect Sero, ein cynllun i'r Cyngor fod yn garbon-niwtral erbyn 2030. Mae'r adeilad hwn yn gam pwysig tuag at wireddu ein gweledigaeth.*

*"Mae wedi'i gynllunio nid dim ond i leihau ein hallbwn carbon, ond i gynnig amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf lle gall cenedlaethau'r dyfodol ddysgu sut i leihau eu hallbwn hwythau."*

Bydd y gofyniad carbon sero-net newydd yn rhan o raglen arloesol y Llywodraeth Cymru ar gyfer **Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy**. Gan weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, colegau, Colegau Cymru a chyfarwyddwyr esgobaethol, cefnogwyd **180** o brosiectau hyd yma i greu ysgolion a cholegau newydd neu i'w gwella

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

**Adroddiad i'r:** Cabinet

**Dyddiad y Cyfarfod:** 6 Mehefin 2023

**Teitl:** Cyflwyno Cynllun Gweithredu yn dilyn Arolygiad Gwerthuso Perfformiad Arolygiaeth Gofal Cymru

**Pwrpas yr adroddiad:**

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwelliannau sydd wedi'u cynnwys yn Adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru yn dilyn yr Arolygiad Gwerthuso Perfformiad a gynhaliwyd rhwng 27 Chwefror 2023 a 10 Mawrth 2023.
2. Cydnabod y cryfderau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.
3. Cytuno ar yr amserlen ar gyfer adolygu'r Cynllun Gweithredu

**Er:** Penderfyniad

17	39	-	16	11	28	14

### Canlyniadau'r Adolygiadau:


O'r 28 o blant a ddatgofrestrwyd, derbyniodd 14 ymyrraeth bellach drwy Gynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth, gyda'r 14 plentyn arall yn dod yn blant sy'n derbyn gofal.

### Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser:

Cofnodwyd bod 89.7% o'r Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant wedi'u cynnal o fewn y terfynau amser. Y rheswm am yr oedi wrth gynnal cynadleddau mewn pryd ar gyfer 1 teulu gyda 2 o blant oedd argaeledd staff, ac yn achos teulu arall gyda 2 o blant cafodd y gynhadledd ei gohirio oherwydd argaeledd y rhiant.

# Tudalen 485

Tudalen 11 o 48





**Cyfranogiad rhieni a phlant mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant**  
\*Data cymharol Chwarter 2 mewn cromfachau

*Adroddiad y Gweithiwr Cymdeithasol i rieni 24 awr cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant	*Cadeirydd Amddiffyn Plant wedi cwrdd â'r teulu cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant	*Cadeirydd Amddiffyn Plant wedi cwrdd â'r plentyn cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant	*Aelod o'r teulu yn bresennol yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant	*Cyfleu barn plant mewn Cynhadledd Amddiffyn Plant pan nad oeddent yn bresennol (5-18 oed)	*Presenoldeb plant yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant (11 oed neu'n hŷn)	*Plant y penodwyd eiriolwr / Tros Gynnal ar eu cyfer
100% (100%)	85% (79%)	100%(100%)	84% (91%)	89% (93%)	4% (14%)	22% (33%)

# Tudalen 486

## Tudalen 12 o 48



# Tudalen 487


Tudalen 13 o 48

Y Tri Pherygl Pennaf Tocsig ar gyfer y 49 o blant a oedd ar Gofrestr Amddiffyn Plant Ceredigion ar 31 Rhagfyr 2022		
Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae pob un o'r Tri Pherygl Tocsig yn ymddangos (Cam-drin Domestig, Rhieni'n Camddefnyddio Sylweddau a Phroblemau Iechyd Meddwl Rhieni)	35	71.4%
Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae Rhieni'n Gwahanu a / neu yn y Carchar yn ymddangos (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod)	44	89.8%
Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae pob un o'r pum Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod yn ymddangos (Cam-drin Domestig, Rhieni'n Camddefnyddio Sylweddau, Iechyd Meddwl Rhieni, Rhieni'n Gwahanu ac yn y Carchar)	5	10.2%

### Dadansoddiad:



Y prif ffactorau risg a gofnodwyd oedd cam-drin domestig, rhieni'n gwahanu, anawsterau iechyd meddwl rhieni a rhieni'n camddefnyddio sylweddau/alcohol.

### Presenoldeb Asiantaethau mewn Cynadleddau:



# Tudalen 488

Tudalen 14 o 48



Mae'r siartiau uchod yn dangos yr asiantaethau a fu'n bresennol mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant. Ar gyfartaledd estynnwyd gwahoddiad i 6 aelod o staff asiantaethau i bob cynhadledd a bu 3 yn bresennol.

Roedd 5 adroddiad ysgrifenedig ar gyfartaledd ar gael ym mhob Cynhadledd Amddiffyn Plant.

Roedd 1 Gynhadledd Amddiffyn Plant (1%) ar gyfer plentyn wedi argymhell galw cyfarfod Grŵp Teulu.

Adroddiad Rheoli Perfformiad 1/10/22 – 31/12/22



# Tudalen 489

## Tudalen 15 o 48

Roedd 70 (95%) o benderfyniadau cofrestru Cynhadledd Amddiffyn Plant yn ddiennw, gyda 4 (5%) o gofrestriadau Cynhadledd Amddiffyn Plant yn benderfyniad mwyafrif. Roedd 1 Gynhadledd Amddiffyn Plant (1%) ar gyfer plentyn wedi nodi bod anghytuno ynghylch diogelwch y Cynllun Amddiffyn Plant ar gyfer diogelu llesiant plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Cafodd 9 (12%) o blant eu nodi fel gofalwyr ifanc.

Ar gyfer 12 (17%) o blant nodwyd bod diffyg gwybodaeth ynghylch partner y fam.

Ar gyfer 7 (9%) o bobl ifanc nodwyd bod ganddynt anabledd dysgu cymedrol / difrifol, a nodwyd bod gan 3 (4%) o bobl ifanc Gynllun Datblygu Unigol.

Nodwyd bod gan 0 (0%) o blant anabledd corfforol/nam ar y synhwyrau, a nodwyd bod anawsterau o ran ymddygiad gan 12 (16%) o bobl ifanc.

Nodwyd bod gan 3 (4%) o blant anawsterau lleferydd/iaith, a nodwyd bod 5 (8%) person ifanc wedi'u gwahardd o'r ysgol.

# Tudalen 490

Tudalen 16 o 48

## ADBORTH PLANT A RHIENI

Nid yw'r system flaenorol ar gyfer cael adborth plant a theuluoedd yn dilyn eu presenoldeb yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant wedi bod yn bosibl ers dechrau'r pandemig ym Mawrth 2020 oherwydd y ffaith bod y rhan fwyaf o Gynadleddau yn cael eu cynnal yn rhithiol.



Fodd bynnag, ers dechrau Ebrill 2022, mae Holiaduron Gwerthuso wedi cael eu hanfon at deuluoedd ar ôl iddynt fod yn bresennol yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant i geisio eu barn a'u hadborth.

ADBORTH PLANT A RHIENI						
Darparwyd holiaduron gwerthuso i blant/pobl ifanc (o oedran/lefel dealltwriaeth briodol), rhieni a gofalwyr a fynychodd Gynadleddau Amddiffyn Plant yn ystod y chwarter. Dosbarthwyd cyfanswm o 46 holiadur a chwblhawyd 3 (6.5%). Mae'r tabl canlynol yn darparu crynodeb o'r ymatebion.						
Sut oedd lleoliad ac amser y gynhadledd?				Oeddech chi'n teimlo'n barod i fod yn bresennol yn y gynhadledd?		
	Addas iawn	lawn	Anaddas	Oeddwn	Ddim yn siŵr	Ddim o gwbl
Plant	0	0	1	1	0	0
Rhieni	1	0	1	2	0	0
Gofalwyr	0	0	0	0	0	0
Aelodau'r Teulu	0	0	0	0	0	0
Oeddech chi'n gallu dweud eich dweud?				Oeddech chi'n teimlo bod eich barn chi'n cyfrif?		
	Oeddwn	Dim digon	Nac oeddwn	Oeddwn	Peth	Ddim o gwbl
Plant	0	0	1	0	0	1
Rhieni	1	0	1	1	0	1
Gofalwyr	0	0	0	0	0	0
Aelodau'r Teulu	0	0	0	0	0	0
Hoffech chi ddweud rhywbeth a allai ein helpu i wella'r broses?				Y camau a gymerwyd gan y Gwasanaeth Sicrhau Ansawdd ac Adolygu Annibynnol i fynd i'r afael â phryderon		
Plant	<ul style="list-style-type: none"> <li>Hoffem i siarad ar fy rhan i</li> </ul>					
Rhieni	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nid oedd ein plentyn yn cael mynychu a chawsom ein hannog i beidio â chael cymorth.</li> <li>Na, rwy'n credu bod popeth wedi mynd yn dda a hoffwn ddiolch i bawb sydd oedd cymryd rhan.</li> </ul>					
Gofalwyr	<ul style="list-style-type: none"> <li></li> </ul>					
Aelodau'r Teulu	<ul style="list-style-type: none"> <li></li> </ul>					
Estynedig						

Bydd y broses hon yn parhau hyd nes bod y Cynadleddau Amddiffyn Plant yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb.



Adroddiad Rheoli Perfformiad 1/10/22 – 31/12/22

## ADRAN 6: Y Gofrestr Amddiffyn Plant



# Tudalen 492

Tudalen 18 o 48



<b>Mesur 28 Llywodraeth Cymru – Yr amser ar gyfartaledd y bu pob plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant:</b>		
<b>Cofrestr Amddiffyn Plant:</b>		
Ar gyfer y Mesur hwn mae'n ofynnol rhoi'r amser ar gyfartaledd mewn diwrnodau calendr y treuliodd pob plentyn ar y Gofrestr cyn ei ddatgofrestru yn ystod y chwarter dan sylw	Hyd-Rhag	230.7

<b>Mesur 27 Llywodraeth Cymru – Nifer y plant a ail-gofrestrwyd ar Gofrestr Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol o fewn y flwyddyn</b>								
<b>Cynadleddau Cychwynnol</b>	<b>Hyd-Rhag 2022</b>	<b>Gorff-Medi 2022</b>	<b>Ebr-Meh 2022</b>	<b>Ion-Maw 2022</b>	<b>Hyd-Rhag 2021</b>	<b>Gorff-Medi 2021</b>	<b>Ebr-Meh 2021</b>	<b>Ion-Maw 2021</b>
Nifer y plant oedd wedi bod ar y gofrestr o'r blaen ac a ddatgofrestrwyd dros y 12 mis diwethaf	5	0	0	0	0	9	0	0

## ADRAN 7: Cyfarfodydd Strategaeth Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

Categori o Gyfarfod Strategaeth Amddiffyn Plant	Cyfanswm yr achosion	Cyfanswm y cyfarfodydd
Perygl o gamfanteisio ar blentyn	16	26
Pryderon ynghylch esgeulustod	7	11
Pryderon ynghylch cam-drin rhywiol	4	5
Pryderon ynghylch cam-drin corfforol	3	9
Pryderon ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol	2	2
Pryderon ynghylch person ifanc yn mynd ar goll	6	9
Pryderon ynghylch salwch ffug posibl	1	2
Pryderon ynghylch anaf nad oedd yn ddamweiniol o bosib	1	1
Pryderon ynghylch person sy'n dod i gysylltiad â phlant yn rhinwedd ei swydd	10	10
<b>Cyfanswm y cyfarfodydd</b>		<b>75</b>
<b>Cyfanswm yr achosion a drafodwyd yn y chwarter hwn</b>	<b>50</b>	

## ADRAN 8: Cyfarfodydd Rheoli Amlasiantaethol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (MACE)

Achos Newydd / Adolygu	Ymadael / Aros yn MACE	Gwryw / Benyw	Oedran	Yn y cartref / mewn gofal	Cofrestr Amddiffyn Plant	Dyddiad y cyfarfod	Presenoldeb Asiantaethau
Adolygu	Aros	B	16	C	le	24.10.22 15.11.22 21.12.22	Diogelu, yr Heddlu, Addysg, Gofal wedi'i Gynllunio, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid, Iechyd, Comisiynydd Heddlu a Throseddu, CAF/CASS, Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd
Adolygu	Aros	B	14	C	le	13.10.22 08.11.22	Diogelu, yr Heddlu, Addysg, Gofal wedi'i Gynllunio, Iechyd, Comisiynydd Heddlu a Throseddu, CAMHS
Adolygu	Aros	G	10	C	le	05.10.22 27.10.22	Diogelu, yr Heddlu, Addysg, Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid,
Adolygu	Aros	G	17	C	Na	05.10.22 19.10.22 01.11.22	Diogelu, yr Heddlu, Addysg, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid, CAMHS, Addysg, Camddefnyddio Sylweddau
Newydd	Aros	G	15	C	Na	06.12.22	Diogelu, yr Heddlu, Addysg, Gofal wedi'i Gynllunio, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid, Iechyd, Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Barod
Newydd	Aros	G	17	C	Na	06.12.22	Diogelu, yr Heddlu, Addysg, Gofal wedi'i Gynllunio, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid, Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Achos Newydd / Adolygu	Ymadael / Aros yn MACE	Gwryw / Benyw	Oedran	Yn y cartref / mewn gofal	Cofrestr Amddiffyn Plant	Dyddiad y cyfarfod	Presenoldeb Asiantaethau
Adolygu	Ymadael	B	14	C	le	24.10.22 15.11.22 21.11.22	Diogelu, yr Heddlu, Addysg, Gofal wedi'i Gynllunio, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid, Iechyd, Comisiynydd Heddlu a Throseddu, CAFCASS, Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd
Adolygu	Ymadael	B	13	C	Na	04.10.22	Diogelu, yr Heddlu, Addysg, Gofal wedi'i Gynllunio, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid, Tîm o Amgylch y Teulu, Comisiynydd Heddlu a Throseddu

## ADRAN 9: Adroddiad yr Heddlu – Cynadleddau Amlasiantaethol Asesu Risg (MARAC)

Manylion Data Misol – Hydref 2022

Cyfanswm yr achosion oedd yn bodloni meini prawf MARAC	295
Nifer yr achosion a adolygwyd ac a gododd yng ngham adolygu MRE (Ailddigwydd/Uwchgyfeirio MARAC)	173 wedi'u hadolygu 114 wedi codi
Cyfanswm yr achosion a gafodd sylw mewn Trafodaethau Dyddiol	179 wedi'u trafod 173 wedi codi
Achosion aeth i MARAC	7
Canran yr achosion	38.64% wedi codi yn MRE 58.64% wedi codi yn y Trafodaethau Dyddiol 2.37% wedi codi yn MARAC
Dadansoddiad o nifer yr achosion yn ôl dosbarth	Sir Gaerfyrddin – 121 Ceredigion – 38 Sir Benfro – 85 Powys – 51
Nifer y plant ar yr aelwyd	Sir Gaerfyrddin – 108 Ceredigion – 25 Sir Benfro – 125 Powys – 48 o blant

	Wedi codi yn MRE	Wedi codi yn y Trafodaethau Dyddiol	MARAC	Amser a arbedwyd yn mynd i MARAC (*10 munud yr achos ar gyfartaledd)
Sir Gaerfyrddin	46	71	4	
Sir Benfro	14	23	1	
Ceredigion	35	48	2	
Powys	19	31	0	



## Manylion Data Misol – Tachwedd

<b>Cyfanswm yr achosion oedd yn bodloni meini prawf MARAC</b>	<b>317</b>
<b>Nifer yr achosion a adolygwyd ac a gododd yng ngham adolygu MRE (Ailddigwydd/Uwchgyfeirio MARAC)</b>	<b>163 wedi'u hadolygu 108 wedi codi</b>
<b>Cyfanswm yr achosion a gafodd sylw mewn Trafodaethau Dyddiol</b>	<b>209 wedi'u trafod 198 wedi codi</b>
<b>Achosion aeth i MARAC</b>	<b>11</b>
<b>Canran yr achosion</b>	<b>34.06% wedi codi yn MRE 62.46% wedi codi yn y Trafodaethau Dyddiol 3.47% wedi codi yn MARAC</b>
<b>Dadansoddiad o nifer yr achosion yn ôl dosbarth</b>	<b>Caerfyrddin – 134 Cered – 35 Penfro – 83 Powys – 65</b>
<b>Nifer y plant ar yr aelwyd</b>	<b>Caerfyrddin -147 Cered -28 Penfro – 83 Powys – 67</b>

	<b>Wedi codi yn MRE</b>	<b>Wedi codi yn y Trafodaethau Dyddiol</b>	<b>MARAC</b>	<b>Amser a arbedwyd yn mynd i MARAC (*10 munud yr achos ar gyfartaledd)</b>
Sir Gaerfyrddin	46	82	6	
Sir Benfro	35	48	0	
Ceredigion	8	26	1	
Powys	18	43	4	

## Manylion Data Misol – RHAGFYR 2022

<b>Cyfanswm yr achosion oedd yn bodloni meini prawf MARAC</b>	<b>260</b>
<b>Nifer yr achosion a adolygwyd ac a gododd yng ngham adolygu MRE (Ailddigwydd/Uwchgyfeirio MARAC)</b>	<b>142 wedi'u trafod 100 wedi codi</b>
<b>Cyfanswm yr achosion a gafodd sylw mewn Trafodaethau Dyddiol</b>	<b>184 wedi'u trafod 167 wedi codi</b>
<b>Achosion aeth i MARAC</b>	<b>16</b>
<b>Canran yr achosion</b>	<b>38.46% wedi codi yn MRE 64.23% wedi codi yn y Trafodaethau Dyddiol 6.15% wedi codi yn MARAC</b>
<b>Dadansoddiad o nifer yr achosion yn ôl dosbarth</b>	<b>Caerfyrddin – 93 Cered – 45 Penfro – 60 Powys – 65</b>
<b>Nifer y plant ar yr aelwyd</b>	<b>Caerfyrddin -115 Cered – 44 Penfro – 65 Powys – 43</b>

	<b>Wedi codi yn MRE</b>	<b>Wedi codi yn y Trafodaethau Dyddiol</b>	<b>MARAC</b>	<b>Amser a arbedwyd yn mynd i MARAC (*10 munud yr achos ar gyfartaledd)</b>
Sir Gaerfyrddin	38	47	8	
Sir Benfro	27	31	2	
Ceredigion	12	31	2	
Powys	23	37	5	

**ADRAN 10: Gwasanaethau Dysgu****ADRODDIAD LOG GWASANAETHAU YSGOLION****HYFFORDDIANT**

Mae hyfforddiant Diogelu ac Amddiffyn Plant Lefel 1 ar gael fel rhaglen e-ddysgu yn unig a nodir isod nifer y staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn yn ystod cyfnod Chwarter 3. Yn ogystal, mae nifer y staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant Amddiffyn Plant Lefel 2 yn rhithiol yn ystod y cyfnod hwn wedi'i nodi isod hefyd.

Lefel 1	219 mewnol 61 allanol
Lefel 2	43 mewnol 19 allanol

**Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

Mae 377 aelod o staff mewnol a 30 aelod o staff allanol wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn ystod cyfnod Chwarter 3.

**ADDYSG DDEWISOL GARTREF**

<b>Nifer y plant rydych yn ymwybodol ohonynt sydd yn cael eu haddysgu'n ddewisol gartref</b>	<b>Nifer y plant Addysg Ddewisol Gartref sy'n hysbys i'r Awdurdod Lleol sydd wedi cael cynnig ymweliad blynyddol yn ystod y 12 mis diwethaf</b>	<b>Canlyniad</b>
229	262	Wedi gwrthod – 27 Heb fynychu – 14 Plentyn wedi'i weld – 78 Plentyn heb ei weld – 7 Llythyr Gorchymyn Mynychu'r Ysgol wedi'i anfon at 1


Mae nifer yr ymweliadau a gynigiwyd yn uwch na nifer y plant addysg ddewisol gartref oherwydd y disgyblion Blwyddyn 11 sy'n gadael ar ddiwedd Mehefin 2022.



**PLANT SY'N DERBYN GOFAL**

Plant oedran ysgol statudol sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion	Hydref: 46 (2 wedi symud y tu allan i'r sir yn ystod y mis) Tachwedd: 49 (1 wedi dychwelyd i Geredigion) Rhagfyr: 49
Plant oedran ysgol statudol sy'n derbyn gofal a leolir y tu allan i'r Sir	Hydref: 35 (2 wedi gadael yn ystod y mis o Geredigion) Tachwedd: 35 (1 wedi dychwelyd i Geredigion yn ystod y mis) Rhagfyr: 34
Plant oedran ysgol statudol sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol eraill	Hydref: 26 Tachwedd: 26 Rhagfyr: 25



**CYSYLLTIADAU YSGOLION**

Gweler isod nifer a natur y cysylltiadau a dderbyniwyd gan ysgolion/sefydliadau addysg yn ystod cyfnod Chwarter 3.





Sylwer, roedd 22 o ysgolion cynradd wedi cysylltu yn ystod Chwarter 3. Oherwydd y nifer uchel nid oedd modd cynnwys pob ysgol ar un tabl. Felly mae'r uchod dim ond yn nodi'r ysgolion oedd wedi cysylltu pedair gwaith neu ragor yn ystod y cyfnod.




Oherwydd y nifer fawr o resymau a roddwyd ar gyfer cysylltu, mae rhai wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd fel y nodir isod er mwyn gallu cyflwyno'r wybodaeth yn fwy eglur ar y siart. Yn yr adroddiad arbennig hwn, rwyf wedi tynnu sylw at y prif bryderon a godwyd er mwyn cymharu â Chwarter 1 y flwyddyn ddiwethaf.

Llesiant	Gan gynnwys plant sydd ar goll, presenoldeb, tor-berthynas, gofalwyr ifanc, problemau cysylltu yn ystod y cyfnod clo, problemau cysylltu rhwng rhieni
Rhywiol	Gan gynnwys perthnasau amhriodol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant

Sylwer, cafodd cyfanswm o 59 o ddisgyblion eu gwahardd o ysgolion uwchradd Ceredigion yn ystod cyfnod Chwarter 3 am gyfanswm o 173.5 o ddiwrnodau. (Mae'r ffigurau hyn yn llawer uwch na'r rhai a adroddwyd yn Chwarter 2 pan gafodd 39 o ddisgyblion eu gwahardd am gyfanswm o 82 o ddiwrnodau). Mae'r rhesymau a nodwyd ar gyfer y gwaharddiadau wedi'u nodi fel: ymddygiad sy'n tarfu ar eraill yn barhaus, bwllian, difrod,

cysylltiedig â sylweddau neu alcohol, ymosodiadau corfforol yn erbyn disgyblion ac oedolion, cam-drin hiliol, cam-drin geiriol, arall.

Yn ogystal â hyn, derbyniodd Porth Cymorth Cynnar 119 o atgyfeiriadau ar gyfer cymorth ac atal yn ystod y cyfnod hwn, heb gynnwys atgyfeiriadau gan y Tîm o Amgylch y Teulu.



**ADRAN 11: IECHYD**

**Adroddiad Diogelu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda  
ar gyfer y Grwpiau Gweithredol Lleol**


**Chwarter 3 2022/23**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth a diweddariadau i'r Grwpiau Gweithredol Lleol ar y datblygiadau o ran diogelu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ystod Chwarter 2, 2022/23.

**Diogelu Oedolion**

Fel rhan o'r System Reoli Unwaith i Gymru, yn chwarter dau gwelwyd y gronfa ddata yn mynd yn fyw ar ffurf peilot, gyda'r holl Adroddiadau Diogelu Oedolion a godwyd yn erbyn lechyd neu ei wasanaethau a gomisiynir yn cael eu lanlwytho, gan gynnwys uwchlwytho cofnodion o Chwarter 1 yn ôl-weithredol. Yn Chwarter 3 mae'r Tîm Diogelu Oedolion wedi gweithio gyda Thîm Datix y Bwrdd Iechyd i nodi a phennu mynediad i adroddiadau diogelu i'r gwasanaethau perthnasol, ac yna cyflwyno hyfforddiant i'r holl Arweinwyr Gwasanaeth a Phenaethiaid Gwasanaeth. Mae hyn yn golygu y gall uwch reolwyr o fewn yr holl wasanaethau sy'n delio â chleifion adolygu a chyfrannu at gofnodion perthnasol, gweld cydymffurfiaeth â'r broses ymholiadau 7 diwrnod, a thynnu data a themâu er mwyn llywio arferion yn y dyfodol lle bo'n briodol.

Mae swydd ychwanegol wedi cael ei chreu ar gyfer Ymarferydd Cymorth Diogelu Oedolion o fewn y tîm, a'r gobaith yw y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dechrau yn ei swydd ar ddechrau Ebrill.

**Chwarter 3 2022/23 Data Difrod Pwysau Osgoi Ysbyty Aciwt**

Roedd cyfanswm o 50 o achosion o ddifrod pwysau y gellir eu hosgoi ar draws pob un o'r pedwar safle ysbyty aciwt yn Chwarter 3. O'r rhain, roedd 33 o'r achosion a adroddwyd yn achosion gradd 1 neu 2 (ni fyddai'r graddau hyn wedi cael eu hadrodd i'r tîm diogelu cyn cyflwyno Deddf

Adroddiad Rheoli Perfformiad 1/10/22 – 31/12/22



Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)); cafodd 11 achos eu cofnodi fel anaf meinwe dwfn posibl amheus. Nid yw'n anghyffredin i ddifrod pwysau gael ei adrodd fel anaf meinwe dwfn amheus, ond o fewn ychydig ddiwrnodau daw'n amlwg ei fod yn radd 1 neu 2. Mae adrodd am achosion yn dal y difrod pwysau ar ei radd fwyaf arwyddocaol. Adroddwyd bod tri yn radd 3; cafodd un ei adrodd yn radd 4 ac roedd dau achos nad oedd modd eu graddio.

Mae'n werth nodi bod y nifer yn adlewyrchu pryd y cynhaliwyd y cyfarfodydd craffu yn hytrach na phryd y digwyddodd y difrod pwysau; yn yr adroddiad hwn digwyddodd 34 (68%) o achosion yn y chwarteri blaenorol. Weithiau mae angen gohirio achosion os oes angen rhagor o wybodaeth neu ymchwiliad pellach, ac mewn achosion eraill caiff achosion eu cario drosodd os caiff cyfarfodydd eu gohirio a'u haildrefnu


Ysbyty Glangwili – unwaith eto mae nifer uwch o achosion wedi'u trafod yn y cyfarfodydd craffu yn Ysbyty Glangwili o'i gymharu â safleoedd eraill, a chynnydd ers y chwarter diwethaf. Mae hyn i'w briodoli i gyfarfodydd ychwanegol a gynhaliwyd i ddal i fyny â'r adroddiadau DATIX a gyflwynwyd; mae 10 achos (31%) o achosion o Chwarter 1 2022/23 a Chwarter 4 y flwyddyn flaenorol. Pan archwiliwyd y data i weld pryd y digwyddodd y difrod pwysau mewn gwirionedd, roedd Chwarter 1 a Chwarter 2 yn gymaradwy (22 a 23 o achosion yn un).

Ysbyty Llwynhelig – Gwyddus fod Ysbyty Llwynhelig wedi cynnal llai o gyfarfodydd nag yn y chwarteri blaenorol a fyddai'n cyfrif am y gostyngiad cymharol yn nifer yr achosion.

Ysbyty'r Tywysog Philip – Mae cynnydd amlwg yn yr achosion ar gyfer Ysbyty'r Tywysog Philip. Mar archwilio'r data ymhellach yn dangos bod y rhain mewn unedau asesu meddygol aciwt yn bennaf. Cafwyd adborth sy'n priodoli hyn i gynnydd parhaus o fewn yr adran, craffter manwl, a materion staffio gyda diffygion heb eu cynnwys a chyfran fawr o staff asiantaeth nad ydynt efallai'n gyfarwydd â phrosesau a dogfennaeth. Mae llyfryn i arwain staff asiantaeth ar ddogfennaeth yn cael ei lunio i'w gyflwyno i'r Uwch Dîm Rheoli Nyrsys i'w gymeradwyo.

Rhoddir sicrwydd o ran yr achosion o ddifrod pwysau a adroddwyd sydd heb eu trafod eto yn y cyfarfodydd craffu a bydd camau gweithredu priodol wedi cael eu rhoi ar waith i reoli difrod pwysau unigolion yn ddiogel adeg ei nodi.

## Plant sy'n Derbyn Gofal



Fel y dengys y data llinol isod, bu cynnydd sylweddol ers Rhagfyr 2019 ac mae hyn wedi cyflymu yn ystod y pandemig. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yn dal yn sylweddol uwch nag yr oedd tua 5 i 6 mlynedd yn ôl.

Rydym wedi penodi Swydd Plant sy'n Derbyn Gofal parhaol 30 awr o'r swydd dros dro ar gyfer seibiant gyrfa. Mae hyn yn helpu i leddfu'r risg o gynnydd yn y llwyth gwaith o fewn y tîm.

Mae'r tîm wedi datblygu poster i'w ddefnyddio o fewn Cartrefi Preswyl Plant 'Mae'ch Iechyd Chi yn Bwysig' ac mae'r poster yn cynnwys codau QR sy'n cysylltu â phynciau hybu iechyd a gwybodaeth gefnogol.

### - Risgiau

Mae'r risg yn parhau i'r gwasanaeth oherwydd pwysau cost ar gyllideb gwasanaeth plant sy'n Derbyn Gofal i ateb ag anghenion plant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches a leolir o dan y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol. Ar hyn o bryd o'r 30 sydd wedi'u lleoli dim ond un sy'n byw o fewn ôl troed Hywel Dda. Mae'r gwasanaeth yn mynd i gostau oherwydd comisiynu asesiadau iechyd yn yr ardaloedd lle mae'r plant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches wedi'i leoli.

## Diogelu Plant

### Camfanteisio'n rhywiol ar blant / Cam-drin plant yn rhywiol

Mae mwy o sesiynau hyfforddi Stop it Now wedi'u comisiynu ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar gyfer 2023-24.

## Gweithgarwch Archwilio Diogelu Plant

- Ailadrodd Archwiliad 'Heb Gael ei Hebrwng' (WNB) 2022

Ailadroddodd y tîm archwiliad o gydymffurfiaeth gyda phlant nad ydynt yn cael eu hebrwng i apwyntiadau a'u cyflwyno i'r Grwpiau Cyflenwi Gwasanaethau Diogelu. Er bod gweithdrefn yn ei lle mae'r archwiliad hwn wedi nodi nad yw'r term Heb Gael ei Hebrwng (WNB) yn cael ei ddefnyddio'n gyson o hyd fel y term ar gyfer plant nad ydynt yn mynychu apwyntiadau.

Cytunwyd ar argymhellion ar gyfer gwella gwasanaethau offthalmoleg ac awdioleg a bydd yr archwiliad yn cael ei ailadrodd yn 2023-24.

- Cydymffurfio â'r Asesiad Risg ar gyfer cleifion o dan 18 oed a leolir mewn wardiau cleifion mewnol i oedolion

Cytunwyd ar broses asesu risg a'i rhoi ar waith ar draws Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru yn 2016. Yn anecdotaidd, roedd bylchau yn y sicrwydd bod asesiadau risg yn cael eu cynnal.

Pwrpas yr archwiliad yw asesu cydymffurfiaeth â'r asesiad risg ar gyfer pobl ifanc o dan 18 oed sy'n cael eu nyrsio mewn wardiau cleifion mewnol i oedolion.

Casgliad yr archwiliad oedd nad oedd tystiolaeth dda o gydymffurfiaeth â'r broses asesu risg ac mae argymhellion wedi'u cytuno yn y Grŵp Cyflenwi Diogelu Gwasanaethau Aciwt i wella cydymffurfiaeth. Bydd y tîm diogelu corfforaethol yn ailadrodd ac yn rhoi Gweithdrefn Gweithredu Safonol ar waith i gefnogi arferion, a bydd yn ailadrodd yr archwiliad ar ddechrau 2023-24.

## Diweddariad

Mae'r swydd nyrs a enwir a swyddog arweiniol diogelu plant yn dal yn wag ac yn cael ei hysbysebu eto. Mae trefniadau dros dro yn eu lle. Rydym wedi penodi Ymarferydd Cymorth ar secondiad am 6 mis i reoli capasiti yn y cyfamser.

## Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi comisiynu Cymorth i Fenywod Cymru i ddarparu hyfforddiant Grŵp 6 i'r arweinwyr strategol dros y 10 mis nesaf.

- Archwiliad o Effeithiolrwydd hyfforddiant Gofyn a Gweithredu Grŵp 2

Nododd gwerthusiad diweddar gan GIG Cymru o'r hyfforddiant Gofyn a Gweithredu nad oedd proses gyson ar draws GIG Cymru i werthuso sut mae hyfforddiant Gofyn a Gweithredu yn gwella effeithiolrwydd ymatebion mewn lleoliadau iechyd ar gyfer y rhai sy'n profi Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Ymhellach i hyn, cydnabu Adolygiad Dynladdiad Domestig diweddar yn cynnwys pobl sydd wedi derbyn gofal o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cydnabod bod angen gwerthuso sut mae hyfforddiant yn galluogi ymarferwyr i ymateb yn effeithiol i Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Cynhaliwyd archwiliad o'r rhai a fynychodd hyfforddiant Grŵp 2 i ddangos tystiolaeth o'r canlynol.

- Tystiolaeth o ddeall sut i gyfeirio at MARAC
- Cynnig atgyfeirio dioddefwyr i sefydliadau priodol eraill fel SARC, sefydliadau cam-drin domestig arbenigol y trydydd sector
- Ystyried materion diogelu ehangach sy'n cael sylw gan gynnwys diogelu plant ac 'oedolion sy'n wynebu risg'
- Gwrando ar gleientiaid a chynnig cymorth, gan annog y dioddefwr i fod yn rhan yn y broses o wneud penderfyniadau
- Ystyried nodi risg a phwysigrwydd cynllunio diogelwch i gefnogi'r rhai y mae Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn effeithio arnynt

Mae nifer yr ymatebion i'r arolwg yn cyfyngu ar ddod i gasgliadau am effeithiolrwydd yr hyfforddiant. Mae bwch yn y sicrwydd y gofynnir i gleifion sy'n mynychu adrannau achosion brys ac unedau mân anafiadau ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda am Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae datblygiad y rôl cam-drin domestig a thrais arfaethedig yn adran achosion brys Bronglais a phrosiect IRIS mewn gofal sylfaenol yn debygol o wella ymatebion i Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a rhoi sicrwydd pellach o ymatebion effeithiol mewn lleoliadau iechyd.

### **Dysgu o Adolygiadau Dynladdiad Domestig**

Ar hyn o bryd mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cyfrannu at 5 Adolygiad Dynladdiad Domestig.

Mae'r camau gweithredu ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda eisoes wedi'u cwblhau neu ar y gweill, ac mae'r rhain yn cynnwys:-

- Darparu sesiynau myfyriol a gynhelir gydag ymarferwyr sy'n ymwneud â gofalu am y rhai a nodwyd o fewn Adolygiadau Dynladdiad Domestig, gan archwilio chwilfrydedd proffesiynol.
- Gwellu cysylltiadau â gofal sylfaenol, gan gynnwys cyflwyno o adolygiadau achos i feddygfeydd meddygon teulu ac ymarferwyr y tu allan i oriau, a hyrwyddo eu hymgysylltiad â darparwyr arbenigol trydydd sector.
- Hyrwyddo'r hyfforddiant thematig rhanbarthol ar Adolygiadau Dynladdiad Domestig, a'r Llwybr Rhanbarthol i Gymorth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
- Monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant Gofyn a Gweithredu, gan gynnwys datblygu llwybrau i wella unrhyw feysydd lle mae cydymffurfiaeth yn wael.
- Gwreiddio dysgu Adolygiadau Dynladdiad Domestig yn yr hyfforddiant Gofyn a Gweithredu, gan gynnwys mynd i'r afael ag anghenion penodol profiadau pobl hŷn o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

### **Risgiau**

Mae gennym risg ar y gofrestr risg gwasanaeth ar gyfer ansicrwydd yr adnodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i reoli nifer yr achosion o ddigwyddiadau domestig a chyfarfodydd MARAC. Achosir hyn gan gynydd mewn gweithgarwch o ganlyniad i'r pandemig a bylchau mewn capasiti cynaliadwy yn adnoddau'r ymarferydd diogelu corfforaethol a'r tîm gweinyddu diogelu i reoli hysbysiadau digwyddiadau domestig trwy'r system cyfiawnder troseddol a rhannu'r wybodaeth honno a thynnu sylw at systemau Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda mewn achosion risg uchel.

**Diweddariad**

Mae'r Swyddog Cymorth ar gyfer Cam-drin Domestig yn gadael ei swydd ar 17eg Mawrth oherwydd dyrchafiad. Rydym yn hysbysebu i lenwi'r swydd.

**Hyfforddiant Chwilfrydedd Proffesiynol**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi comisiynu hyfforddiant pwrpasol ar gyfer ymwelwyr iechyd ac mae tair sesiwn generig i'w cyflwyno gan Paula McCreary.

**System Reoli Unwaith Dros Gymru**

Mae'r tîm cenedlaethol yn dal i geisio datrys rhai materion sy'n cael effaith ar ddechrau'r gwaith o beilota ffurflen adrodd GIG Cymru. Rydym yn dal i aros am amserlen ar gyfer ateb. Fodd bynnag, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi arwain y gwaith o beilota'r swyddogaeth rheoli diogelu a fydd yn cael ei gyflwyno i Rwydwaith Diogelu GIG Cymru ym mis Mai 2023.

**Mandy Nichols-Davies**  
**Pennaeth Diogelu**

**ADRAN 12: Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (S-CAMHS):****Adroddiad Diweddaru S-CAMHS ar gyfer CYSUR**

Yn unol â dogfen Llywodraeth Cymru "Canllawiau Derbyn", mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi rhoi Polisi/Llwybr Derbyn cadarn yn ei le yn amlinellu'r broses ar gyfer derbyn unrhyw berson ifanc i'r Ward Iechyd Meddwl Oedolion. Mae'r canllawiau yn datgan bod rhaid i'r Bwrdd Iechyd gael uned ddynodedig, ac o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yr uned ddynodedig yw Ward Morlais ar gampws Ysbyty Glangwili.

Mae protocol newydd wedi cael ei gymeradwyo i fodloni'r gofyniad statudol hwn a fydd yn sicrhau cydymffurfiaeth yn erbyn disgwyliadau Llywodraeth Cymru.



Gall cael eich derbyn i ward iechyd meddwl oedolion fod yn brofiad brawychus a gwneir pob ymdrech i ystyried y dewis arall lleiaf cyfyngol ar gyfer derbyn cleifion. Yn y mwyafrif o achosion caiff person ifanc ei dderbyn i'r uned ddynodedig ar Ward Cilgerran gyda chymorth staff o'r uned iechyd meddwl.



Yn unol â'r canllawiau, mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol ar ddiogelu pobl ifanc ac, yn ogystal, mae staff ar Ward Morlais i gyd wedi cwblhau'r canlynol:

- Hyfforddiant Diogelu Plant Lefel 3
- Tystysgrif DBS fanylach ddilys
- Hyfforddiant penodol ar anghenion emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc
- Hyfforddiant ar y Ddeddf Iechyd Meddwl a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Rhaid i bawb a dderbynnir i wely iechyd meddwl gael ei adrodd, yn fewnol i gychwyn, fel DATIX, a dilynir hyn gan adroddiad Digwyddiad Anffafriol Difrifol i'r Uned Gyflenwi yn unol â'r ddogfen Canllawiau Derbyn Llywodraeth Cymru.


**Chwarter 3 Derbyniadau i wely addas i'r oedran yr Enfys / Morlais ar y Ward Iechyd Meddwl Oedolion ar safle Ysbyty Glangwili:**



**Chwarter 3 Derbyniadau i wely addas i'r oedran yr Enfys / Morlais yn ôl rhyw:****Chwarter 3 Derbyniadau i wely'r Enfys / Morlais yn ôl ardal:****Derbyniadau i Wely Addas i Oedran Paediatreg (Uned yr Enfys, ddim yn adroddadwy)**

Mae cofnodion arbenigol CAMHS ar gyfer Chwarter 3 wedi'u hamlinellu uchod gyda chyfanswm o 13 wedi'u derbyn; 8 wedi'u derbyn i'r gwely pediatrig a 5 wedi'u derbyn i'r Ward Iechyd Meddwl Oedolion (Morlais). Ym mis Hydref, derbyniwyd un person ifanc i'r gwely paediatrig ac yna ei drosglwyddo i'r Ward Iechyd Meddwl Oedolion (Morlais). Yn ystod Tachwedd a Rhagfyr, derbyniwyd dau berson ifanc dwywaith yn ystod yr un mis.



**Chwarter 3 Derbyniadau i'r Enfys / Morlais wedi'i rannu yn ôl tîm derbyn:****Statws Deddf Iechyd Meddwl**

Roedd lefel anarferol o uchel o weithgarwch Deddf Iechyd Meddwl yn y cyfnod hwn.

1 x A136 – Un person ifanc wedi'i gadw gan yr Heddlu a'i drosglwyddo i Hywel Dda yn amodol ar Orchymyn Triniaeth Gymunedol.

**Canlyniadau Derbyn**

	Wedi'i ryddhau gartref	Ei dderbyn i ward arall	Aros ar y ward
<b>Enfys</b>	7	1 (trosglwyddwyd person ifanc o'r Enfys i Morlais)	0
<b>Morlais</b>	4	1 (person ifanc wedi'i drosglwyddo i Dŷ Lidiard)	0


**Derbyniadau sy'n gysylltiedig â chleifion hunan-niweidio**

O fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda mae systemau cadarn yn eu lle i S-CAMHS ddarparu asesiad iechyd meddwl yn dilyn atgyfeiriad gan y ward pediatrig, pan gaiff unrhyw berson ifanc ei dderbyn yn dilyn achos o hunan-niweidio. Yn gyffredinol y rheswm am ei dderbyn yw gorddos, ond gall fod yn dilyn achos bwriadol o dorri'r croen neu geisio crogi ei hun.


Bydd pob achos o orddos/hunan-niweidio yn cael apwyntiad dilynol o fewn tri diwrnod gwaith i fonitro risg a darparu cymorth. Mae llwybr cadarn yn ei le ynghyd ag arweiniad ar gyfer derbyn yr holl bobl ifanc sy'n cyflwyno eu hunain yn dilyn hunan-niweidio er mwyn gallu cytuno ar asesiad iechyd meddwl cynhwysfawr a chynllun rheoli risg. Lle y bo'n briodol, gellir ystyried atgyfeirio i'r Tîm Diogelu a/neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi manylion am y nifer a dderbyniwyd yn dilyn achos o hunan-niweidio bwriadol yn Chwarter 3 2022/2023 ar gyfer y 3 Ardal Awdurdod Lleol:


**Chwarter 3 Ystadegau derbyniadau hunan-niweidio / gorddos wedi'u rhannu yn ôl rhyw ac ardal:**




**Chwarter 3 Ystadegau derbyniadau hunan-niweidio / gorddos wedi'u rhannu yn ôl rhyw a phroffil oedran:**



**Data Cymhariaeth (12 mis diwethaf) – Gwely Addas i'r Oedran**




**Tueddiadau Derbyniadau yn ôl ardal (12 mis diwethaf)**



**Cymhariaeth Derbyniadau Blynyddol yn ôl Ardal**

Mae'r graff canlynol yn cymharu'r nifer a dderbyniwyd ar gyfer Chwarter 3 2022/2023 yn erbyn y nifer a dderbyniwyd ar gyfer yr un chwarter yn 2021/2022 a 2021/2020, wedi'i ddiffinio ymhellach yn ôl ardal.



### Eiriolaeth

Yn unol â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2012, disgwylir i'r Byrddau Iechyd sicrhau bod mynediad i Wasanaethau Eiriolaeth yn ei le, yn unol â Rhan 4 o'r Mesur, ar gyfer unrhyw unigolyn a dderbynnir i'r ysbyty. Gofynnir i bob person ifanc a dderbynnir i Ward Morlais a hoffai gael mynediad i Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol. Y targed perfformiad disgwyliedig yw bod 100% o gleientiaid yn cael cynnig hyn a bod y wybodaeth yn cael ei chofnodi a'i hadrodd trwy ein Dadansoddwr Gwybodaeth.

Ar Ward Cilgerran mae gwybodaeth yn cael ei darparu i bobl ifanc pan gânt eu derbyn ar argaeledd cael mynediad i'r Gwasanaeth Eiriolaeth. Fodd bynnag, nid yw'r safon perfformiad uchod yn gymwys, felly nid yw data yn cael eu casglu fel mater o arfer.

# **CEREDIGION**



## **GRŴP GWEITHREDOL LLEOL CWMPAS**

**Adroddiad Rheoli Perfformiad – Diogelu Oedolion**


**Chwarter: 3**  
**1/10/22 – 31/12/22**

Tudalen 517

### Chwarter 3 – Trosolwg










Labeli Rhes	Cyfrif Rhif Adnabod Asesiad
<b>2021-22 Ch3</b>	<b>149</b>
Hyd	53
Tach	53
Rhag	43
<b>2021-22 Ch4</b>	<b>164</b>
Ion	55
Chwef	52
Maw	57
<b>2022-23 Ch1</b>	<b>141</b>
Ebr	36
Mai	58
Meh	47
<b>2022-23 Ch2</b>	<b>130</b>
Gorff	55
Awst	33
Medi	42
<b>2022-23 Ch3</b>	<b>157</b>
Hyd	53
Tach	67
Rhag	37
<b>Cyfanswm</b>	<b>741</b>



<b>Cyfrif Rhif Adnabod Aseiad</b>	<b>Labeli Colofn</b>	<b>2021-22 Ch3</b>	<b>2021-22 Ch4</b>	<b>2022-23 Ch1</b>	<b>2022-23 Ch2</b>	<b>2022-23 Ch3</b>	<b>Cyfanswm</b>
Eiriolwr		1	2		3	2	8
Gwasanaeth ambiwylans		5	2	3	1	8	19
Rheoleiddiwr gofal						5	5
Ysbyty annibynnol		1		1			2
Awdurdod lleol		19	21	25	15	23	103
Bwrdd iechyd lleol		22	21	16	15	20	94
Arall		23	18	16	20	11	88
Heddlu		26	36	29	23	40	154
Prawf			2	2	4	1	9
Asiantaeth darparu		36	48	28	30	26	168
Perthynas/ffrind		5	8	12	13	14	52
Adrodd am eu hunain		2	1	2	1	3	9
Trydydd sector		9	5	7	5	4	30
<b>Cyfanswm</b>		<b>149</b>	<b>164</b>	<b>141</b>	<b>130</b>	<b>157</b>	<b>741</b>







**CYNGOR SIR CEREDIGION****Adroddiad i'r: Cabinet****Dyddiad y Cyfarfod: 6 Mehefin 2023****Teitl: Dyletswydd Trais Difrifol - Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu, a Llysoedd 2022****Pwrpas yr adroddiad: Rhoi gwybod i'r Cabinet am y Ddyletswydd Trais Difrifol a'r goblygiadau i'r Cyngor, a ffurfioli'r cyfrifoldeb dros y gwaith a'r trefniadau partneriaeth.****Er: Gwybodaeth****Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet: Y Cyngorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet ar gyfer Partneriaethau, Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd****CEFNDIR:**

Dechreuodd y Ddyletswydd Trais Difrifol ar 31 Ionawr 2023 ac mae'n cynnwys y gofynion a nodir ym Mhennod 1 o Ran 2 o Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu, a Llysoedd 2022. Mae'r rhain yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau penodedig i gydweithio i atal a lleihau trais difrifol.

Mae'r awdurdodau penodedig yn cynnwys Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Tân ac Achub, y Sector Heddlu a Chyfiawnder (timau prawf a throseddu ieuencid). Y sefydliadau hyn sy'n gyfrifol am gyflawni'r Ddyletswydd ac sy'n gydatebol am gyflawni prif gerrig milltir yr arian grant rhanbarthol a ddarperir gan y Swyddfa Gartref i weithredu gofynion y Ddyletswydd.

Yn ogystal â'r awdurdodau penodedig a nodir uchod, mae yna awdurdodau perthnasol sy'n cynnwys awdurdodau addysgol (ynghyd ag awdurdodau dalfa ieuencid a charchardai). Mae gofyn i'r awdurdodau hyn gydweithio â'r awdurdodau penodedig, yn ôl yr angen, i gyflawni'r ddyletswydd a hefyd rhaid i'r awdurdodau penodedig ymgynghori â nhw wrth baratoi'r strategaeth.

Rhaid i awdurdodau penodedig nodi'r mathau o drais difrifol sy'n digwydd yn yr ardal, achosion y trais hwnnw (cyhyd ag y bo modd gwneud hynny), a pharatoi a gweithredu strategaeth ar gyfer atal a lleihau trais difrifol yn yr ardal. Dylai'r strategaeth gynnwys atebion pwrpasol i atal a lleihau trais difrifol. Rhaid cadw golwg ar hyn ac adolygu yn flynyddol a'i ddiweddarau pan fo angen.

**Asesiad o Anghenion Strategol**

I fwydo i'r broses, dylai awdurdodau penodedig wneud dadansoddiad ar y cyd, yn seiliedig ar dystiolaeth o achosion trais difrifol o fewn eu hardal, a defnyddio'r dadansoddiad hwn i ddatblygu Asesiad o Anghenion Strategol a ddylai lywio'r strategaeth leol. Bydd hyn yn cynnwys ystod eang o ddata, er enghraifft gallai gynnwys data lleol a chenedlaethol am droseddau, data'r cyfrifiad, a data ysbytai a gofal sylfaenol. O safbwynt awdurdod lleol, gallai hefyd gynnwys data addysgol megis

presenoldeb, data am atal a gwahardd disgyblion, a data am ofal cymdeithasol plant. Bydd yr Asesiad o Anghenion Strategol yn cynnwys dealltwriaeth gyffredin o'r carfanau sydd fwyaf agored i drais difrifol a bydd angen i'r strategaeth leol ddangos sut mae pob ardal yn cyfeirio adnoddau i'r boblogaeth ddiffiniedig sydd fwyaf angen cymorth.

### **Diffinio Trais Difrifol**

Nid yw'r Ddyletswydd yn diffinio trais difrifol oherwydd mae'n fater i bob ardal unigol wneud hynny – bydd hyn yn seiliedig ar y dystiolaeth leol ar gyfer yr Asesiad o Anghenion Strategol.

Wrth ystyried yr Asesiad, mae'n eglur nad yw trais yn gyfyngedig i drais corfforol yn erbyn person. Mae'n darparu, at ddibenion y Ddyletswydd, bod trais yn cynnwys cam-drin domestig, troseddau rhyw, trais yn erbyn eiddo a bygythiadau o drais.

At hynny, mae Strategaeth Trais Difrifol 2018 yn nodi fod Trais Difrifol yn ymwneud â mathau penodol o droseddau megis lladd, trais â chyllyll a gynnu, a meysydd lle mae trais difrifol neu ei fygythiad yn gynhenid, megis mewn gangiau a llinellau cyffuriau. Mae hefyd yn cynnwys bygythiadau sy'n dod i'r amlwg mewn rhai ardaloedd o'r wlad, megis defnyddio sylweddau cyrydol fel arf.

### **Dull o ran Iechyd Cyhoeddus**

Mae'r ddyletswydd hon yn creu 'dull iechyd cyhoeddus' newydd o fynd i'r afael â Throseddau Treisgar gan nodi'r hyn sy'n achosi trais a chanfod ymyriadau sy'n gweithio er mwyn atal trais rhag lleadaenu. Mae'r 'dull iechyd cyhoeddus' yn cynnwys nifer o wasanaethau cyhoeddus a chymdeithasol sy'n gweithio gyda'i gilydd i roi ymyriadau cynnar ar waith i atal pobl rhag mynd ynghlwm â throseddau treisgar.

### **CYDWEITHREDU A CHYNLLUNIO:**

Bwriad y Ddyletswydd yw creu'r amodau cywir i awdurdodau gydweithio a chyfathrebu'n rheolaidd, gan ddefnyddio partneriaethau presennol lle bo modd a rhannu gwybodaeth a chymryd camau effeithiol, cydlynus, yn eu hardaloedd lleol. Bydd pob sefydliad ac asiantaeth sy'n ddarostyngedig i'r Ddyletswydd yn atebol am eu gweithgarwch a'u cydweithredu.

Dyma'r amserlen ar hyn o bryd:

- 31 Ionawr 2023 – dechrau'r Ddyletswydd Trais Difrifol
- 31 Mawrth 2023 – cadarnhau'r cytundeb partneriaeth
- 28 Ebrill 2023 – llunio fersiwn dros dro o'r cynllun cyflawni a chadarnhau'r defnydd a wneir o gyllid y Swyddfa Gartref
- 29 Medi 2023 – cytuno ar fersiwn uwch o'r cynllun cyflawni
- 31 Ionawr 2024 – cwblhau'r Asesiad o Anghenion Strategol o ran Trais Difrifol
- 31 Ionawr 2024 – cwblhau'r Strategaeth Leol (gan gynnwys fersiwn derfynol o'r cynllun cyflawni)

Er gwybodaeth, mae'r Canllawiau Statudol a gyhoeddwyd ar 16 Rhagfyr 2022 i'w cael yma, yn Gymraeg a Saesneg: [Dyletswydd Trais Difrifol - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk) (mae Canllawiau penodol i Gymru i'w gweld o dudalen 20 ymlaen).

## **Cyllid**

Dyrannwyd cyllid i ranbarth Dyfed-Powys gan y Swyddfa Gartref i weithredu'r Ddyletswydd Trais Difrifol, ac yn unol â'r ddeddfwriaeth bydd hyn yn cael ei oruchwylio gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddau, a fydd hefyd yn darparu cymorth, yn monitro gweithgarwch ac yn adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol. Cadarnhawyd cyllid gan y Swyddfa Gartref hyd at 2024/2025. Ar hyn o bryd, mae'r adnodd yn cael ei ddyrannu i gynyddu capasiti dadansoddi Heddlu Dyfed-Powys, er mwyn paratoi a chyflawni'r Aseiad rhanbarthol o Anghenion Strategol. Ar ben hyn, y bwriad yw defnyddio'r cyllid i gydlynu'r cynllun cyflawni, y strategaeth a'r llysoedd gwaith cysylltiedig yn y rhanbarth.

## **Gweithredu**

Mae Crest Advisory wedi ei gomisiynu gan y Swyddfa Gartref i weithio gyda'r sefydliadau a fanylir yn y Ddyletswydd Trais Difrifol (noder uchod) a'r partneriaid lleol yn ystod 2023 i weld a ydynt yn barod ar gyfer y Ddyletswydd ac i roi cymorth pwrpasol i ddatblygu a sicrhau cydymffurfiaeth.

Mae partneriaid ledled y rhanbarth, gan gynnwys Cyngor Sir Ceredigion, wedi mynychu cyfarfodydd gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau ac mae arweinwyr Trais Difrifol wedi'u nodi mewn sefydliadau allweddol. Yr Arweinydd Strategol ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion yw Barry Rees, sef Cadeirydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, a'r ymarferwyr a enwebwyd yw Diana Davies (Rheolwr Corfforaethol - Partneriaethau a Pherfformiad) a Tim Bray (Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil).

Gellir defnyddio'r trefniadau partneriaeth presennol i gyflawni'r Ddyletswydd hon gan fod y Canllawiau Statudol yn nodi nad oes rheidrwydd creu partneriaethau newydd. Felly cytunwyd mai'r lle cywir i arwain ar gynllunio a gweithredu gofynion y Ddyletswydd Trais Difrifol yw'r strwythur presennol ar gyfer Trais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol, a'r Bwrdd Rhanbarthol Trais Difrifol.

Mae'r Rheolwr Corfforaethol - Partneriaethau a Pherfformiad a'r Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil yn mynychu cyfarfodydd Rhanbarthol Trais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol ar hyn o bryd, a byddant yn parhau i wneud hynny ac i adrodd yn ôl lle bo angen.

At hynny, i gydnabod rôl hanfodol addysg wrth ddiogelu, argymhellir bod cynrychiolydd o fyd addysg strategol yr ardal yn mynychu'r cyfarfodydd i drafod y Ddyletswydd Trais Difrifol. Bydd hyn yn gymorth i gynnig dolen rhwng yr awdurdodau cyfrifol penodedig a sefydliadau unigol, a rhwng Cwricwlwm newydd Cymru a'r cyfleoedd y mae hyn yn eu cyflwyno o ran cefnogi maes llesiant.

Cyflwynwyd y Ddyletswydd Trais Difrifol i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu er gwybodaeth ar 22 Mai 2023.

## **Y CYFANSODDIAD**

Bwriedir diweddarau Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion i gynnwys y Ddyletswydd Trais Difrifol o dan gyfrifoldebau'r gwasanaeth Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd.

	<b>Oes Aseiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam</b>	Naddo, nid yw'r adroddiad yn newid Polisi na Strategaeth.
<b>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</b>	<b>Crynodeb:</b>	
	<b>Hirdymor:</b>	<b>Hirdymor:</b>
	<b>Cydweithio:</b>	<b>Cydweithio:</b>
	<b>Cynnwys:</b>	<b>Cynnwys:</b>
	<b>Atal:</b>	<b>Atal:</b>
	<b>Integreiddio:</b>	<b>Integreiddio:</b>
<b>Argymhelliad / Argymhellion:</b>	Dylai'r Cabinet nodi'r Ddyletswydd newydd o ran Trais Difrifol a'r goblygiadau i Gyngor Sir Ceredigion a'r partneriaethau perthnasol a fyny chir gan gynrychiolwyr Cyngor Sir Ceredigion.	
<b>Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:</b>	Er mwyn i'r Cabinet ddeall y dyletswyddau ychwanegol y mae'n rhaid i Gyngor Sir Ceredigion ymateb iddynt fel rhan o'r Ddyletswydd hon, a ffurfioli'r cyfrifoldeb dros y gwaith a'r trefniadau partneriaeth.	
<b>Trosolwg a Chraffu:</b>	Cyflwynwyd y Ddyletswydd Trais Difrifol i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu er gwybodaeth ar 22 Mai 2023.	
<b>Fframwaith Polisi:</b>	Y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol	
<b>Amcanion Llesiant Corfforaethol:</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth</li> <li>• Creu cymunedau gofalgar ac iach</li> <li>• Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu</li> <li>• Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd.</li> </ul>	
<b>Goblygiadau Cyllid a Chaffael:</b>	O fewn y gyllideb bresennol	
<b>Goblygiadau cyfreithiol:</b>	Dyletswydd Trais Difrifol, Pennod 1 o Ran 2 o Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu, a Llysoedd 2022	
<b>Goblygiadau staffio:</b>	Dim	
<b>Goblygiadau eiddo / asedau:</b>	Dim	
<b>Risg(iau):</b>	Amherthnasol	

# Tudalen 527

**Pwerau Statudol:**

**Papurau Cefndir:** Dim

**Atodiadau:** Dim

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

**Swyddog Adrodd:** Timothy Bray, Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil

**Dyddiad:** 15 Mawrth 2023

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol